

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU



NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY

Bydd cyfarfod **AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 20 GORFFENNAF 2026** yn rhithwir trwy **Zoom** am **09:30**.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens, Clerc

AGENDA

1. Ymddiheuriadau
2. Datganiadau o Fuddiant
3. Hysbysiad o Faterion Brys
(Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972)
4. Cofnodion Cyfarfod yr Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2026

Eitemau Agenda Sefydlog

5. Adroddiad y Cadeirydd (DR)
6. Diweddariad am Ganolfan Hyfforddi Hwb Awen, er gwybodaeth

Eitemau i'w Hystyried

7. Diweddariad Bioamrywiaeth Blynyddol, er sicrwydd
8. Diweddariad Atal a Diogelu, er ymwybyddiaeth
9. Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2025/26, i'w gymeradwyo
10. Adroddiad Cynnydd Asesiad Perfformiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2025/26, i'w gymeradwyo
11. Trefniadau Pensiynau, i'w cymeradwyo
12. Adroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2026/27, i'w gymeradwyo
13. Adroddiad Monitro Perfformiad Blynyddol 2025/26, i'w gymeradwyo

Adroddiadau a Ystyriwyd yn Flaenorol gan y Pwyllgor Archwilio, y Panel Gweithredol a'r Bwrdd Pensiwn Lleol

14. Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2025/26, er sicrwydd
15. Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2025/26 i'w gymeradwyo
16. Fersiwn Derfynol y Datganiad o Gyfrifon Blynyddol ar gyfer 2025/26, i'w gymeradwyo
17. Diweddariad ar Reoli'r Trysorlys 2025/26, i'w gymeradwyo

Eitemau'r Pwyllgor Safonau

18. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau, i'w gymeradwyo
19. Diweddariadau arfaethedig i God Ymddygiad yr Aelodau a'r Weithdrefn Datrys Lleol, i'w mabwysiadu o fewn y Cyfansoddiad, i'w cymeradwyo
20. Materion Brys
(Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 2 uchod)
 - Adroddiad Cydnabyddiaeth Atodol Drafft – Awdurdodau Tân ac Achub (adroddiad llafar)

RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

21. Dim

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **ddydd Llun 20 Ebrill 2026** ar **Teams**. Dechreuodd y cyfarfod am **09.00**.

Cynghorydd

Dylan Rees (Cadeirydd)
Mark Young (Dirprwy Gadeirydd)
Carol Beard
Tina Claydon
Paul Cunningham
Ann Davies
Jeff Evans
Ian Hodge
Alan Hughes
Chris Hughes
John Brynmor Hughes
Gareth R Jones
Charlie McCoubrey
Gwynfor Owen
Arwyn Herald Roberts
Austin Roberts
Gareth A Roberts
Rondo Roberts
Paul Rogers
Gareth Sandilands
Gareth Williams
Antony Wren

yn cynrychioli

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Gwynedd
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir y Fflint

Hefyd yn bresennol:

Dawn Docx
Helen MacArthur
Justin Evans
Anthony Jones
Dafydd Edwards
Gareth Owens
Matt Powell
Elgan Roberts
Steve Morris
Llinos Evans
Paul Kay
Elin Hughes
Heledd Davies
Lisa Allington
Ffion Evans

Prif Swyddog Tân (PST)
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Trysorydd
Clerc a Swyddog Monitro
Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro
Pennaeth Cyllid a Chaffael
Pennaeth TGCh
Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol
Pennaeth Diogelwch Tân
Hyrwyddwr Diwylliant
Gwasanaethau Cyfieithu Atebol
Gwasanaethau Aelodau
Cynorthwydd Gweithredol

Dechreuodd y cyfarfod am 09:00 gyda sesiwn hyfforddi yn ymwneud ag Atal a gwaith gyda phobl ifanc.

1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd

Bryan Apsley
Chrissy Gee
John Ifan Jones

yn cynrychioli

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ynys Môn

YN ABSENNOL

Cynghorydd

Marc Jones
Beverley Parry-Jones
Dale Selvester

yn cynrychioli

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Cyngor Sir y Fflint

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

- 2.1. Datganodd y Trysorydd fuddiant yn Eitem 19, Rôl y Trysorydd (Swyddog adran 151).

3 HYSBYSIAD O FATERION BRYD

- 3.1 Nid oedd unrhyw hysbysiadau o faterion brys.

4 COFNODION CYFARFOD AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU A GYNHALIWDYD AR 19 HYDREF 2026

- 4.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2026 i'w cymeradwyo.
- 4.2 Cynigiwyd y cofnodion fel adlewyrchiad cywir o drafodion y cyfarfod. Eiliwyd y cynnig ac roedd pawb o blaid.
- 4.3 Nododd y Cadeirydd, mewn perthynas â pharagraff 4.3 yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig i lywodraethiant awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, y pasiwyd y ddeddfwriaeth i wneud hyn gan Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mawrth 2026.
- 4.4 **PENDERFYNWYD:**
- i) **Cymeradwyo cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2026 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

- 5.1 Nodwyd bod yr Aelodau eisoes wedi derbyn papur ysgrifenedig yn rhoi gwybod iddynt am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau y bu Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ynddynt yn eu capasiti swyddogol rhwng Ionawr a Mawrth 2026.
- 5.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y bydd y dathliad 30 mlynedd ers sefydlu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn cael ei gynnal rhwng 12:00 a 14:00 yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl ddydd Mercher 22 Ebrill 2026 ac anogwyd pawb i fynychu'r digwyddiad pwysig hwn.
- 5.3 **PENDERFYNWYD:**

i) Nodi'r wybodaeth a roddwyd yn y papur.

6 ADRODDIAD DIWEDDARU'R HYRWYDDWYR DIWYLLIANT

- 6.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad diweddaru a oedd yn rhoi trosolwg i Aelodau o'r gweithgareddau a'r ffrydiau gwaith diweddar a arweiniwyd gan yr Hyrwyddwyr Diwylliant. Croesawyd Elin Hughes, un o'r Hyrwyddwyr Diwylliant, i'r cyfarfod.
- 6.2 Gofynnwyd sut yr oedd y systemau a'r prosesau ar gyfer gwella diwylliant yn cael eu hymwreiddio yn y tymor hir er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Ymatebodd y PST fod datblygu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn rhan hollbwysig o'r ymwreiddio hwn. Mae ymgynghori ar y Dangosyddion Perfformiad yn digwydd ar hyn o bryd ac mae gwaith gyda Chyrff Cynrychioliadol ar y gweill i sicrhau eu bod yn ystyrlon i bawb. Bydd y dangosyddion perfformiad wedyn yn mynd gerbron cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwella Diwylliant ym mis Mai 2026 lle byddant yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol ac yn cael eu hadrodd arnynt fel rhan o'r adroddiadau perfformiad safonol i'r Aelodau.
- 6.3 **PENDERFYNWYD:**

i) Nodi'r rhaglen o welliannau sy'n cael ei harwain gan yr Hyrwyddwyr Diwylliant.

7 ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS

- 7.1 Cyflwynodd PSTC Anthony Jones bapur ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a oedd yn rhoi ddiweddariad i Aelodau'r Awdurdod ar waith ar yr Adolygiad a sefydlwyd mewn ymateb i'r argymhelliad o gyfarfod 20 Ionawr 2025 bod swyddogion yn parhau i ddyfeisio a phrofi datrysiadau amgen gyda chyrff cynrychioladol, o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, er mwyn mynd i'r afael â darpariaeth frys mewn lleoliadau gwledig.

- 7.2 Gofynnodd un o'r Aelodau a oedd y gostyngiad mewn goramser yr adroddwyd yn ei gylch yn gynaliadwy yn y tymor hir, ac ymatebodd PSTC Jones ei fod. Bellach cwblhawyd tri mis cyflawn cyntaf y peilot ac er y bydd angen cyfnod o 12 i 24 mis i asesu'r effaith yn llawn, roedd y taflwybr o ran cynnal y gwelliannau yn edrych yn gadarnhaol.
- 7.3 Gofynnwyd a fyddai unrhyw effaith ar y peilot yn sgil cynnydd posibl mewn galwadau wrth i'r tymor tanau gwyllt agosáu, ac os felly a oes unrhyw ffigurau y gellid eu darparu i'r Aelodau ar gyfer y gorsafoedd niwclews.
- 7.4 Ymatebodd PSTC Jones fod cynllunio argaeledd dyddiol yn sicrhau bod yr argaeledd 18 pwmp yn ystod y dydd yn cael ei gynnal, a bod hyn wedi'i gyflawni ar 100% o achlysuron ers dechrau adrodd. Roedd y Gwasanaeth yn gallu gwneud rhywfaint o ragfynegi o ran digwyddiadau tanau gwyllt ac mae'r peilot yn darparu gwell man cychwyn gan ei fod yn lleoli staff amser llawn mewn ardaloedd gwledig lle nad oedd unrhyw ddarpariaeth yn flaenorol.
- 7.5 Cadarnhaodd PSTC Jones ymhellach fod y ffigurau ar gyfer Dolgellau a Phorthmadog ar gael ond nad oeddent wrth law ar hyn o bryd ac y byddent felly'n cael eu hanfon at yr aelodau y tu allan i'r cyfarfod.
- 7.6 Nododd Aelod mai prif bwrpas gwaith yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys oedd gwella'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig a gofynnodd a oedd y Gwasanaeth yn fodlon bod y gwelliant yn agosáu at y targedau a osodwyd ac a oes cynnydd i'w weld.
- 7.7 Ymatebodd PSTC Jones fod yr Awdurdod eisoes wedi gosod safon o 18 pwmp yn ystod y dydd ac er y llwyddwyd i gynnal hyn bob amser, roedd cost gwneud hynny'n uwch yn flaenorol. Un o orchwylion yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys oedd cynnal y safon 18 pwmp, ond mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. Roedd swyddogion yn falch bod hyn bellach yn digwydd a bod argaeledd yn gweithredu o fewn y cyllidebau presennol a staff yn cael eu defnyddio mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. Roedd gwerth cymdeithasol ychwanegol hefyd gan fod swyddi amser cyflawn bellach ar gael mewn ardaloedd lle nad oeddent o'r blaen, ac roedd hyn hefyd yn darparu cyfleoedd i staff ar alwad yn yr ardaloedd hynny symud i swyddi amser cyflawn.
- 7.8 Gofynnwyd pa wersi oedd wedi'u dysgu fel rhan o'r broses Adolygu a sut roedd y rhain yn cael eu hymwreiddio yn y gwasanaeth. Cydnabu PSTC Jones fod y Gwasanaeth wedi bod ar y daith hon ers 2023 ac y dysgwyd llawer yn ystod y cyfnod hwnnw, yn enwedig o ran gweithio gyda Chyrff Cynrychioladol. Roedd y berthynas waith hon wedi gwella, a hynny i raddau helaeth o ganlyniad i weithrediad y Cydgytundeb, ac mae arferion gwaith mwy proffesiynol ac effeithiol gyda'r Undebau Llafur yn awr wedi'u sefydlu. Roedd gweithrediad diweddar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol hefyd wedi ffurfioli'r gwelliant hwnnw mewn arferion gwaith.

- 7.9 Ychwanegodd y Prif Swyddog Tân fod y gwelliant hwn wedi bod o fudd i bawb a bod y berthynas rhwng y Gwasanaeth a'r Cyrff Cynrychioliadol bellach yn seiliedig ar barch i'r naill ochr a'r llall gyda hynny wedi arwain at ymagwedd llawer mwy cadarnhaol.
- 7.10 Gofynnodd Aelod a oedd y gostyngiad mewn goramser o ganlyniad i weithredu'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi cael ei dderbyn yn dda gan y staff yr effeithiwyd arnynt, a dywedodd PSTC Jones ei bod yn ymddangos fod manteision y peilot yn gorbwyso unrhyw effeithiau negyddol.
- 7.11 **PENDERFYNWYD:**
- i) **Nodi bod swyddogion wedi parhau i weithio gyda chyrrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu ffordd ymlaen gyda'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys;**
 - ii) **Nodi bod cynnydd wedi'i wneud gyda lansiad cynllun peilot llawn y Cydgytundeb ar 1 Ionawr 2026; a**
 - iii) **Nodi y gwerthfawrogir ymdrechion parhaus yr holl barfïon i fonitro ac adolygu'r peilot yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas**

8 DIWEDDARIAD AR BROSIECT CANOLFAN HYFFORDDI CLWB AWEN

- 8.1 Rhoddodd PSTC Justin Evans grynodedeb o'r diweddariad ar Brosiect Canolfan Hyfforddi Clwb Awen, gan roi gwybodaeth am gynnydd mewn meysydd yn cynnwys gweithgaredd llywodraethu, statws y safle, cynllunio ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu, ac ystyriaethau allanol sy'n dod i'r amlwg.
- 8.2 Cydnabu Aelod Hyrwyddo'r Ganolfan Hyfforddi waith caled y fîm a gofynnodd a ellid darparu diweddariad ar gyllid. Cadarnhaodd PSTC Evans fod y prosiect ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gam 2 RIBA a fydd yn rhoi'r Gwasanaeth mewn gwell sefyllfa i gynnal y sgysiau cyllido angenrheidiol. Dywedodd y rhagwelir y cyrhaeddir cam 3 RIBA ddiwedd 2026 pan fydd y prosiect yn cyrraedd aeddfedrwydd dylunio, ac y disgwylir y penderfyniad porth 3 cysylltiedig tua mis Medi 2026. Ar y cam hwn byddai'r sefyllfaoedd risg a sicrwydd cysylltiedig â chost wedi'u sefydlu a phe na bai cyllid allanol wedi'i sicrhau, byddai'r aelodau'n cael eglurhad clir ar y sefyllfa a'r holl opsiynau, goblygiadau a risgiau cysylltiedig â phheidio â pharhau â'r prosiect.
- 8.3 Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod pecyn ymwybyddiaeth yn cael ei ddatblygu i ennyn cefnogaeth Aelodau newydd y Senedd yn dilyn etholiadau Llywodraeth Cymru ar 7 Mai 2026. Ychwanegodd y Cadeirydd fod cyfarfod eisoes wedi'i gynnal gyda Rhun ap Iorwerth, Arweinydd Plaid Cymru, cyn y cyfnod cyn- etholiadol, i esbonio'r risgiau sy'n wynebu'r Gwasanaeth a phwysigrwydd cyllid ar gyfer y prosiect hwn.

- 8.4 Nododd PSTC MacArthur fod grŵp cyllido'r ganolfan hyfforddi wedi'i sefydlu a bod y ffrydiau gwaith o fewn y grŵp hwnnw'n cynnwys gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, dynodi pa wleidyddion y dylid ymgysylltu â nhw a chyfathrebu â phartneriaid sector cyhoeddus eraill.
- 8.5 Cyngorwyd yr aelodau bod y ffaith na chaniateir lobiö yn y cyfnod cyn-etholiadol wedi cyfyngu ar faint o fanylion y gellid eu rhannu ar hyn o bryd.
- 8.6 Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch pa opsiynau fyddai ar gael pe na bai cyllid llawn ar gyfer y prosiect yn cael ei sicrhau. Cadarnhaodd PSTC MacArthur y byddai'r opsiynau hyn yn cael eu rhoi gerbron yr Aelodau fel rhan o iteriad nesaf y prosiect.
- 8.7 **PENDERFYNWYD:**

i) Nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud gyda Phrosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen.

9 STRATEGAETHAU A DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER 2026/27

- 9.1 Cyflwynodd Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid, ddogfennau'n rhoi gwybodaeth am y Strategaethau a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2026/27: y Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a'r Datganiad Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP). Mae'r dogfennau hyn yn gosod y fframwaith ar gyfer buddsoddi cyfalaf, benthyca ac ad-dalu dyled.

9.2 PENDERFYNWYD:

- i) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf;**
ii) Cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gan gynnwys dangosyddion darbodus; a
iii) Cymeradwyo Datganiad MRP Blynnyddol 2026/27.

10 STRATEGAETH ADNODDAU TYMOR CANOLIG 2026-30

- 10.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2026-30 gan roi gwybodaeth i'r Aelodau am y fframwaith ariannol sy'n cefnogi cyflawniad Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) 2024–2029 a nodi rhagolygon ariannol tymor canolig yr Awdurdod, y risgiau a'r rhagdybiaethau cynllunio.

10.2 PENDERFYNWYD:

- i) Cymeradwyo Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2026–2030.**

11 DATGANIAD POLISI TÂL 2026/27

- 11.1 Cafwyd crynodeb gan PSTC MacArthur o gynnwys y Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2026/27 sy'n nodi beth yw cyfrifoldebau Aelodau'r Awdurdod o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 (y Ddeddf).
- 11.2 Nodwyd bod y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Polisi Tâl blynyddol i'w gymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r datganiad yn berthnasol iddi.
- 11.3 Cyngorodd PSTC MacArthur na chafwyd eto unrhyw arwydd clir y bydd y dyfarniad cyflog yn cael ei setlo. Roedd cynnig y Llyfr Gwyrdd (staff corfforaethol) wedi'i wrthod gan yr Undebau gyda thrafodaethau ar y gweill o hyd. Bydd unrhyw gytundeb dilynol yn cael ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2026. Bydd y dyfarniad cyflog Llyfr Llwyd (staff gweithredol) yn weithredol o 1 Gorffennaf gyda thrafodaethau ar y gweill o hyd ynghylch moderneiddio cyflogau yn ogystal â chostau byw yn ystod y flwyddyn.
- 11.4 Roedd y swm a gynhwyswyd yn y gyllideb wedi'i osod ar sail disgwyliadau ar draws y sector tân ac roedd wedi'i alinio â'r awdurdodau lleol. Pe bai'r setliad yn arwain at ffigur uwch na'r ffigur a bennwyd wrth osod y gyllideb, mae rhywfaint o wydnwch mewn cronfeydd wrth gefn i ysgwyddo'r cynnydd hwn am flwyddyn yn unig. Y disgwyliad presennol yw 3.8%
- 11.5 **PENDERFYNWYD:**
- i) **Nodi gofynion Deddf Lleoliaeth 2011; a**
 - ii) **Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27.**

12 CYNLLUN GWEITHREDU RHEOLI RISG CYMUNEDOL 2026/27

- 12.1 Cyflwynodd PSTC Anthony Jones y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol ar gyfer 2026/27 a oedd yn rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026-27 a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig, a cheisiwyd cymeradwyaeth ar gyfer cyhoeddiad y fersiynau terfynol o'r dogfennau uchod.
- 12.2 **PENDERFYNWYD:**
- i) **Nodi cynnwys yr adroddiad Ymgynghori; a**
 - ii) **Cymeradwyo cyhoeddiad Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026-27 a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig.**

13 DATGANIAD POLISI DISGRESIYNOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

- 13.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur bapur ar Ddatganiad Polisi Disgresiynol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a oedd yn hysbysu'r Aelodau ynghylch yr angen i Reolwr y Cynllun, yr Awdurdod, gynhyrchu a chadw dan adolygiad Ddatganiad Polisi Disgresiynol Pensiwn y Diffoddwyr Tân
- 13.2 Atgoffwyd yr Aelodau ynghylch y penderfyniadau yn Datganiad Polisi Disgresiynol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a gymeradwywyd eisoes, yn gynnwys y cynnig bod penderfyniadau dydd i ddydd yn cael eu dirprwyo i swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), ar ran rheolwr y cynllun.
- 13.3 Er bod y Gwasanaeth wedi cyflwyno Datganiad Polisi Disgresiynol i'w gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2025, er mwyn adlewyrchu'n gywir y mân newidiadau i adferiad buddion goroeswyr, o dan Reol C9 – Adfer Pensiwn Gweddwon, mae'r Gwasanaeth yn awr yn ceisio cymeradwyaeth i'r ychwanegiad isod gael ei gynnwys yn y polisi hwn a gymeradwywyd eisoes.
- 13.4 **PENDERFYNWYD:**
- i) **Cymeradwyo'r mân newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer adfer buddion goroeswyr, o dan Reol C9.**

14 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025/26 a'r CYLCH GWAITH

- 14.1 Cyflwynodd y Trysorydd adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol i Aelodau'r Awdurdod yn manylu ar y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, ynghyd â Chylch Gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer 2026/27.
- 14.2 Diolchwyd i'r Trysorydd am ei waith fel Cadeirydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a diolchwyd i'r tîm Pensiynau am eu cefnogaeth.
- 14.3 **PENDERFYNWYD:**
- i) **Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2025/26; a**
- ii) **Cymeradwyo Cylch Gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer 2026/27.**

15 ADRODDIAD BLYNYDDOL TALIADAU CYDNABYDDIAETH COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU 2026/27

15.1 Crynhoodd Gareth Owens, Swyddog Monitro a Chlerc yr Awdurdod, Adroddiad Blynnyddol Taliadau Cydnabyddiaeth Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar gyfer 2026/27 a hysbysodd yr Aelodau ynghylch y cyfraddau cydnabyddiaeth arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27.

15.2 PENDERFYNWYD:

- i) Nodi penderfyniadau'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau ynghylch lwfansau a thaliadau cydnabyddiaeth aelodau o 1 Ebrill 2026; a**
- ii) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc ddiweddarau'r atodlen o daliadau cydnabyddiaeth aelodau yng nghyfansoddiad yr Awdurdod ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i atodlen 2026/27 o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn ddinesig, i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth yr Awdurdod, neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddir gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau.**

16 PENODI AELOD ANNIBYNNOL I WASANAETHU AR BWYLLGOR SAFONAU'R AWDURDOD

16.1 Argymhellodd Gareth Owens i'r Aelodau eu bod yn penodi David Davies i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod, a darparwyd y cefndir i'r broses benodi.

16.2 Nododd Aelod ei bod yn anodd argymhell rhywun i swydd pan nad oedd unrhyw wybodaeth gefndir wedi'i darparu. Rhoddwyd sicrwydd ynglŷn â phrofiad a sgiliau David Davies, a nodwyd bod y Cynghorwyr Dylan Rees a Gareth Sandilands ar y panel penodi a bod y ddau wedi argymhell y penodiad.

16.3 Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai proses recriwtio arall yn cael ei rhoi ar waith er mwyn llenwi'r ail swydd wag ar y Pwyllgor Safonau, ac y byddai dwy swydd wag arall yn codi ym mis Medi 2027.

16.4 PENDERFYNWYD:

- i) Penodi David Davies am gyfnod o bedair blynedd o 20 Ebrill 2026 ymlaen; a**
- ii) Diolch i Julia Hughes a Sally Ellis am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.**

17 ALLDRO DROS DRO 2025-26

17.1 Cyflwynodd Elgan Roberts bapur ar Alldro Dros Dro 2025-26 i'r Aelodau a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ragolygon gwariant cyfalaf a refeniw 2025/26, fel y oedd ar 31 Mawrth 2026.

- 17.2 Mewn ymateb i gwestiwn cynharach gan Aelod ynglŷn â'r effaith yr oedd y cynnydd mewn costau tanwydd yn ei chael ar y gyllideb a sut roedd hynny'n cael ei reoli, cadarnhaodd Mr Roberts fod prisiau nwy a thrydan wedi'u gosod ar gyfer y pum mlynedd a'r ddwy flynedd a hanner nesaf, yn y drefn honno, gan roi sicrwydd o ran costau. Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth yn y broses o ddatgarboneiddio'i fflyd trwy symud i ffwrdd o ddisel i drydan a dechrau defnyddio tanwydd Olew Llysiau Hydrogenaidd (HVO) ar gyfer offer gorsafoedd a thrwy hynny leihau'r ddibyniaeth ar symudiadau yn y farchnad ac unrhyw gynnydd dilynol mewn costau tanwydd.
- 17.3 Gofynnwyd ymhellach sut yr oedd y cynnydd yn cael ei reoli mewn amser real. Dywedodd PSTC MacArthur fod cynnydd chwyddiannol yn cael ei gwmpasu o fewn y gyllideb bresennol ond os bydd costau'n parhau i godi, efallai y bydd angen gwneud cais am ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol hefyd yn effeithio ar gyfraddau benthyca a bydd yn rhaid ystyried hyn. Nid yw argaeledd tanwydd ar hyn o bryd yn effeithio ar y Gwasanaeth o safbwynt weithredol ac mae'n cael ei reoli'n fewnol. Cadarnhawyd pe bai cyflenwadau tanwydd yn dechrau achosi problemau, y byddai personél a cherbydau'r gwasanaethau brys yn cael eu blaenoriaethu.
- 17.4 **PENDERFYNWYD:**
- i) **Nodi'r sefyllfa alldro refeniw a'r llithriad cyfalaf rhagamcanol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, fel y manylir yn yr adroddiad;**
 - ii) **Nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r alldro dros dro a chydabod bod y ffigurau rhagamcanol yn yr adroddiad hwn yn ddarbodus;**
a
 - iii) **Cymeradwyo'r symudiad i/o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a'r gronfa gyffredinol.**

18 MATERION BRYS

18.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Cynigiwyd y dylid symud y cyfarfod i Ran II i drafod y papur yn ymwneud â Rôl y Trysorydd (Swyddog Adran 151). Eiliwyd y cynnig ac roedd pawb o blaid. Gadawodd pawb â buddiant yn yr eitem hon y cyfarfod.

Dechreuodd RHAN II y cyfarfod am 11:14.

19 RÔL Y TRYSORYDD (SWYDDOG ADRAN 151)

- 19.1 Rhoddodd y Trysorydd drosolwg o gefndir y cynnig hwn a dywedodd wrth yr Aelodau ei fod yn ei lwyr gefnogi. Wedi hyn, gadawodd y Trysorydd y cyfarfod.
- 19.2 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân y papur ar Rôl y Trysorydd (Swyddog Adran 151) a chadarnhaodd y byddai hyn yn symudiad at fodel tebyg i un Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru - model y mae

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd yn bwriadu ei fabwysiadu.

19.3 Ychwanegodd y Prif Swyddog Tân y byddai contractau cyflogaeth yn cael eu diwygio yn unol â hynny.

19.4 **PENDERFYNWYD:**

- i) **Cefnogi'r trefniadau arfaethedig ar gyfer mewnoli rôl statudol Swyddog Adran 151 ac argymhell bod y penodiad yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn ar 20 Ebrill 2026; ac**
- ii) **Awdurdodi'r Clerc i ddiweddarau cyfeiriadau at y Trysorydd yn y Cyfansoddiad yn unol â hynny.**

Daeth RHAN II y cyfarfod i ben am 11:20.

Diolchwyd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cyfraniad.

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026	
Swyddog Arweiniol	Amherthnasol	
Swyddog Cyswllt	Gwasanaethau Aelodau (gwasanaeth.aelodau@tangogleddcymru.llyw.cymru)	
Pwnc	Adroddiad y Cadeirydd	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynd i nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol, ar ran yr Awdurdod.

ARGYMHELLIAD

1. Argymhellir bod Aelodau:
 - i) Yn nodi y wybodaeth a ddarperir.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 3 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

GWYBODAETH

- 4 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd hefyd wedi cwrdd â'r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd.
- 5 Ar 16 Ebrill, fe wnaeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd gwrdd â chynrychiolwyr o Undeb y Brigadau Tân i drafod yr agenda a'r papurau ar gyfer cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Ebrill.

- 6 Ar 22 Ebrill, aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i ddigwyddiad coffa yng Ngorsaf Dân y Rhyl i ddatflu 30 mlynedd ers ffurfio Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC).
- 7 Ar 6 Mai, ymunodd y Cadeirydd mewn gweminar a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Diogelwch Adeiladau. Wedyn, ar yr un diwrnod, ymunodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol â chyfarfod ar-lein gyda swyddogion CLILC ynghyd â chynrychiolwyr o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i drafod materion gweithlu.
- 8 Ar 8 Mai, aeth y Cadeirydd i Orsaf Dân Llandudno i gwrdd â'r Rheolwr Gwylfa.
- 9 Ar 11 Mai, aeth y Cadeirydd i gyfarfod hybrid o'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (N.J.C) i drafod dyfarniadau cyflog. Roedd PSTC Helen MacArthur yn y cyfarfod hefyd.
- 10 Ar 22 Mai, aeth y Dirprwy Gadeirydd i Seremoni Wobrwyo Ffenics yng Ngorsaf Dân Abergele ar gyfer disgyblion Ysgol Tir Morfa, Y Rhyl. Cyflwynwyd y cwrs mewn partneriaeth â rhaglen SKITTLES Gwasanaeth Ieuencid Sir Ddinbych, a rhoddodd gyfle i fyfyrwyr ddysgu am bwysigrwydd cyfathrebu, gwaith tîm a pharch. Hefyd, ar yr un diwrnod, ymunodd y Cadeirydd â chyfarfod gweithrediaeth CLILC ar-lein.
- 11 Ar 4 Mehefin, aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i'r Pencadlys i adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Wedi hynny, fe wnaethant gwrdd â Chadeirydd ac Ysgrifennydd Undeb y Brigadau Tân yng Ngorsaf Dân y Rhyl.
- 12 Ar 8 Mehefin, ymunodd y Cadeirydd â chyfarfod ar-lein o'r Comisiwn Tân.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Amherthnasol.
Cyllideb	Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth.
Cyfreithiol	Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.
Staffio	Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.
Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.
Risgiau	Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.

Adrodd i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026
Swyddog Arweiniol	Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Swyddog Cyswllt	Lee Bourne, Pennaeth Hyfforddiant a Datblyg
Pwnc	Risgiau a Mesurau Lliniaru Prosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â phrosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen, y mesurau lliniaru sydd ar waith, a'r camau sydd ar y gweill i sicrhau cyllid a chynnal rheolaeth briodol ar y rhaglen.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae Canolfan Hyfforddi Hwb Awen yn parhau i fod yn elfen hanfodol o strategaeth weithredol, y gweithlu a llesiant hirdymor Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Cafwyd cymeradwyaeth i fwrw ymlaen â'r prosiect i Gam 4 RIBA; fodd bynnag, mae absenoldeb ariannu cyfalaf wedi'i sicrhau yn cynrychioli risg sylweddol a pharhaus sy'n gofyn am reoli gofalus.
- 3 Mewn ymateb, mae'r Tîm Prosiect wedi parhau i geisio cyfleoedd ariannu allanol, gan ail-ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid allweddol, a chryfhau'r Achos Busnes Amlinellol i sicrhau ei fod yn cyd-fynd gymaint ag y bo modd â blaenoriaethau cenedlaethol a gwerth cymdeithasol ehangach.
- 4 Er mwyn lliniaru'r risg o gadarnhau ymrwymiadau dylunio a chostau yn gynamserol, mae Bwrdd y Prosiect wedi cynnig arafu byr, rheoledig o'r rhaglen i alluogi ymgysylltu â budd-ddeiliaid a gweithgarwch cyllido pellach. Nid oes gofyn i aelodau ymrwymo i benderfyniadau cyllido ar hyn o bryd ond dylent ragweld efallai y bydd opsiynau sy'n cynnwys cymorth gan awdurdodau lleol yn cael eu cyflwyno i'w hystyried yn y dyfodol os na ellir sicrhau'r holl gyllid o ffynonellau allanol.

ARSYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL

- 5 Mae'r Panel Gweithredol yn cydnabod pwysigrwydd strategol Canolfan Hyfforddi Hwb Awen o ran diogelwch diffoddwyr tân, ond maent hefyd yn cydnabod y pryderon ynghylch pwysau ariannu a'r effeithiau posibl. Pwysleisiodd yr Aelodau bod angen am fonitro parhaus ac i ystyried opsiynau a goblygiadau cyllido yn y dyfodol yn ofalus

ARGYMHELLIAD

6 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

- i) **Nodi'r risgiau a'r mesurau lliniaru presennol sy'n gysylltiedig â phrosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen;**
- ii) **Nodi'r addasiad arfaethedig i'r rhaglen i ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer cyllid ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid; a**
- iii) **Nodi nad oes unrhyw ofniad i ymrwymo i gyllid ar hyn o bryd, ond efallai y bydd cynigion yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau eu hystyried os na ellir sicrhau llwybrau cyllido allanol.**

CEFNDIR

7 Cychwynnwyd prosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen er mwyn mynd i'r afael â phroblemau critigol hirsefydlog yn ystâd hyfforddi'r Gwasanaeth ac i ddarparu cyfleuster modern, diogel a chynaliadwy sy'n gallu bodloni gofynion gweithredol presennol ac yn y dyfodol. Mae'r prosiect yn cefnogi amcanion strategol y Gwasanaeth mewn perthynas â chymhwysedd gweithredol, iechyd a llesiant diffoddwyr tân, a gwydnwch sefydliadol, ac mae wedi'i ddatblygu trwy drefniadau llywodraethiant sefydledig.

8 Mae Achos Busnes Amlinellol (OBC) wedi'i ddatblygu ac mae'n parhau i fod yn fyw. Mae hyn yn nodi'r angen strategol am fuddsoddiad, yr opsiwn a ffafir ar gyfer cyflawni a'r manteision a ragwelir i'r Gwasanaeth a phartneriaid ehangach. Mae'r Achos Busnes yn parhau i gael ei fireinio wrth i gyfleoedd pellach ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, rhannu defnydd a gwerth cymdeithasol gael eu nodi.

GWYBODAETH

9 Mae prosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen yn parhau i fod yn fuddsoddiad strategol bwysig i'r Gwasanaeth, gan gefnogi gallu gweithredol, iechyd a llesiant diffoddwyr tân, a gwydnwch sefydliadol tymor hwy. Mae cymeradwyaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi'i rhoi yn flaenorol i fwrw ymlaen â'r prosiect i Gam 4 RIBA. Bydd yr aelodau yn ymwybodol bod y cam hwn yn cynrychioli pwynt arwyddocaol mewn ymrwymiad, gan ei fod yn cadarnhau i bob pwrpas atebion dylunio a pharamedrau cost cysylltiedig. Yn absenoldeb ariannu cyfalaf wedi'i sicrhau ar gyfer datblygu'r safle, mae'r sefyllfa hon bellach yn cael ei hadolygu'n weithredol drwy Fwrdd y Prosiect a threfniadau llywodraethiant sefydledig i reoli amlygiad a chynnal rheolaeth raglenni briodol. Mae'r sefyllfa hon yn adlewyrchu'r risg bresennol o fwrw ymlaen â'r dylunio heb gyllid wedi'i gadarnhau.

- 10 Mae'r gwaith i archwilio opsiynau cyllido yn weithgar ac yn parhau. Mae'r Gwasanaeth yn mynd ar drywydd cyfleoedd ar draws nifer o feysydd, gan gydnabod bod graddfa a chymhlethdod y prosiect yn annhebygol o gael ei gefnogi gan un ffynhonnell gyllid. Cynhaliwyd sgysiau cychwynnol gyda Llywodraeth Cymru, ac mae llythrau briffio wedi'u cyhoeddi i fudd-ddeiliaid allweddol sydd â diddordeb mewn buddsoddiad cyfalaf, sgiliau, gwydnwch ac iechyd diffoddwyr tân, gan amlinellu cyfarwyddyd sefydliadol a chynlluniau'r Gwasanaeth ar gyfer y datblygiad. Bydd y trafodaethau hyn nawr yn cael eu hadnewyddu gyda gweinyddiaeth newydd Llywodraeth Cymru, gyda chanolbwynt mwy eglur ar gyd-fynd â blaenoriaethau polisi presennol a blaenoriaethau polisi sy'n dod i'r amlwg.
- 11 Mae iechyd diffoddwyr tân, gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â dod i gysylltiad â halogyddion, yn parhau i dderbyn sylw cenedlaethol cynyddol, gan gynnwys ymrwymadau gwleidyddol diweddar yn y maes hwn. Byddai dyluniad a swyddogaeth arfaethedig Hwb Awen yn cefnogi'r agenda hwn yn uniongyrchol trwy amgylcheddau hyfforddi gwell, cyfleusterau modern a rheolaethau uwch i leihau risgiau dod i gysylltiad â halogyddion. Mae hyn yn cryfhau'r achos strategol dros y prosiect a bydd yn cael ei adlewyrchu'n fwy penodol mewn diweddariadau ymgysylltu ac achosion busnes yn y dyfodol.
- 12 Mae'r Achos Busnes ar gyfer y Ganolfan Hyfforddi yn parhau i fod yn fyw a bydd yn parhau i gael ei ddatblygu. Bydd yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt mewn defnydd neu ddyluniad, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer rhannu defnydd a dangos gwerth cymdeithasol ehangach. Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal gydag ymatebwyr Categori 1 eraill i archwilio sut y gellid defnyddio'r safle ar y cyd. Mae'r gwaith hwn yn parhau i fod yn y camau cynnar ond ystyrir ei fod yn bwysig wrth gryfhau'r achos cyffredinol dros fuddsoddi a chynaliadwyedd hirdymor, heb wanhau gofynion hyfforddi craidd y Gwasanaeth.
- 13 Ochr yn ochr â hyn, mae'r Gwasanaeth yn archwilio sut y gallai safle Hwb Awen gyfrannu mwy at wydnwch cymunedol yn ystod cyfnod o ansicrwydd cynyddol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu ag arweinwyr gwirfoddol, ffydd a chymunedol, ynghyd â'r Fforwm Gwydnwch Lleol, i ystyried sut y gallai'r safle weithredu fel ased meithrin gwytnwch i gymunedau ledled Gogledd Cymru. Mae dysgu o ddatblygiadau eraill sydd â gwerth cymunedol cryf wedi tynnu sylw at gyfleoedd a allai wella effaith y prosiect yn sylweddol. Mae'r syniadau hyn bellach yn cael eu cofnodi a byddant yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau diwygiedig a dogfennaeth ategol lle bo hynny'n briodol.

- 14 Mae Bwrdd y Prosiect wedi adolygu'r proffil risg presennol a'r cerrig milltir allweddol ar gyfer y rhaglen. Yng ngoleuni ansicrwydd cyllido, mae Tîm Cyflawni'r Prosiect wedi cynnig arafu rheoledig o'r rhaglen o tua phedwar mis. Bwriad hyn yw darparu amser ychwanegol ar gyfer ymgysylltu â budd-ddeiliaid, trafodaethau cyllido a mireinio'r Achos Busnes Amlinellol, wrth osgoi ymrwymiad diangen i benderfyniadau dylunio a chostau ar hyn o bryd. Ystyrir bod y dull hwn yn fesur lliniaru darbodus a chymesur ar gyfer y risgiau sy'n wynebu'r prosiect ar hyn o bryd.
- 15 Er bod yr Achos Busnes Amlinellol yn parhau i gyflwyno achos cymhellol dros newid, cydnabyddir efallai na fyddai, ar ei ben ei hun, yn ddigonol i sicrhau cyllid o un ffynhonnell. Mae'r Gwasanaeth felly yn ystyried sut y gellid datblygu dull cyfunol, sydd o bosibl yn cyfuno benthyciadau llog isel, ariannu cyfalaf uniongyrchol a chymorth cyfalaf gan bartneriaid. Er bod y Gwasanaeth wedi datgan o'r blaen na fyddai'n ceisio hunan-ariannu'r prosiect, mae'r risgiau a nodwyd yn flaenorol yn parhau. Gan nad yw gwneud dim byd yn opsiwn, mae'n ymddangos bellach bod rhyw lefel o fuddsoddiad uniongyrchol gan awdurdodau lleol yn fwy tebygol. Mae hyn yn parhau i fod yn faes archwilio gweithgar, a bydd yr Aelodau yn cael eu hysbysu wrth i opsiynau ddatblygu.
- 16 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ymrwymiad yn cael ei geisio gan Aelodau mewn perthynas â chyllid gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dylai Aelodau ddisgwyl yn rhesymol y gellir cyflwyno cynigion ar sail tystiolaeth a chymesur i'w hystyried trwy ffrydiau gwaith pennu cyllideb os na ellir sicrhau llwybrau cyllido amgen. Trwy gydol y cyfnod hwn, mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i raddfa ac uchelgais gyffredinol y prosiect, ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddadl gymhellol i beiriannu gwerth neu leihau'r dyluniadau arfaethedig yn sylweddol. Mae Strategaeth Ystadau ddrafft yn cael ei datblygu a bydd yn cyd-fynd ag amcanion adeilad Hwb Awen, gan gefnogi ymhellach yr achos strategol dros newid a buddsoddi.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r prosiect yn cefnogi iechyd diffoddwyr tân, llesiant y gweithlu a gwydnwch cymunedol, gan gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Cyllideb	Nid oes ariannu cyfalaf wedi'i sicrhau eto. Mae ansicrwydd cyllido yn parhau i fod yn risg sylweddol, wedi'i reoli trwy wneud penderfyniadau fesul cam ac archwilio gweithgar o lwybrau cyllido lluosog.
Cyfreithiol	Bwrw ymlaen i RIBA Cam 4 heb sicrwydd cyllido, wedi'i liniaru trwy adolygu gweithredol o'r rhaglen ac arafu rheoledig y cytunwyd arno trwy lywodraethiant Bwrdd y Prosiect.
Staffio	Dim goblygiadau staffio uniongyrchol ar hyn o bryd. Mae'r prosiect yn cefnogi gallu a diogelwch hirdymor y gweithlu.
Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Bydd dyluniad a gweithrediad y Ganolfan Hyfforddi yn parhau i gefnogi mynediad cynhwysol a darpariaeth y Gymraeg, yn unol ag ymrwymïadau'r Gwasanaeth.



Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026
Swyddog Arweiniol	Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Swyddog Cyswllt	Tim Christensen, Yr Amgylchedd a Hinsawdd Rheolwr Newidiadau
Pwnc	Diweddariad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd tuag at gyflawni nodau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (2025-2028) (y Cynllun).

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2025–2028 wedi gosod targedau uchelgeisiol i'r Gwasanaeth wella a diogelu bioamrywiaeth o fewn ei ystâd ei hun, ac i helpu i wneud hynny ar draws ardal ehangach y Gwasanaeth. Mae mentrau blaenllaw yn cynnwys rhaglen "Gwneud Ein Gorsafoedd yn Fwy Gwyrdd" i drosi o leiaf 15% o'r glaswelltir byr addas yn ddolydd blodau gwyllt, polisi cadarn i blannu dwy goeden am bob goeden sy'n cael ei thorri, a mabwysiadu'r egwyddor Enillion Net Bioamrywiaeth (BNG) ar gyfer pob prosiect cyfalaf newydd.
- 3 Gwnaed cynnydd sylweddol yn y cyfnod adrodd cychwynnol, gyda 50% o'r amcanion craidd bellach wedi'u cwblhau'n llwyddiannus a'r pum cam gweithredu sy'n weddill yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd. Mae'r cerrig milltir allweddol yn cynnwys gweithredu'r egwyddor Enillion Net Bioamrywiaeth yn ffurfiol ar gyfer prosiectau cyfalaf, rhoi'r gorau i ddefnyddio ewyn diffodd tân sy'n cynnwys fflworoarwynebyddion cadwyn hir yn llwyr, a chyflwyno hyfforddiant arweinyddiaeth gwasanaeth ochr yn ochr â rhwydwaith "Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth" dan arweiniad staff.
- 4 Mae gwelliannau ymarferol yn cael eu gwneud i'r ystâd hefyd, ac mae hynny i'w weld yn sut y mae ardaloedd o laswellt byr wedi'u troi'n ddolydd blodau gwyllt yn y Rhyl a Llanfairfechan, ac yn y mannau nythu sydd wedi'u gosod mewn sawl gorsaf.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 5 Nid yw'r adroddiad cynnydd hwn wedi cael ei ystyried gan y Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio o'r blaen.

ARGYMHELLIAD

- 6 Argymhellir bod yr Aelodau yn:
- i) Sylwi ar y cynnydd a wnaed tuag at nodau bioamrywiaeth yr Awdurdod

CEFNDIR

- 7 Cymeradwyodd yr Awdurdod y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (2025–28) ar 20 Hydref 2025.
- 8 Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i "[g]ynnal a gwella bioamrywiaeth" a hyrwyddo cydnherthedd ecosystemau. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gyda'r Cynllun hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod cenedlaethol "Cymru Gydnerth". Ers i'r Senedd ddatgan argyfwng natur, mae'r dirwedd ddeddfwriaethol wedi dwysau, ac mae deddfwriaeth newydd wedi'i basio i ehangu dyletswydd awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i amddiffyn a gwella cynefinoedd naturiol y genedl.

GWYBODAETH

- 9 Mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at y nodau a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, gyda phump o'r deg nod wedi'u cwblhau a gwaith yn cael ei wneud ar y gweddill:

Gweithred	Statws	Nodiadau
Datblygu a chyflwyno modiwl e-ddysgu gorfodol ar ymwybyddiaeth amgylcheddol i staff uwch.	Wedi'i gwblhau	Sesiwn hyfforddi Bioamrywiaeth wedi'i chyflwyno i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth gan Reolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd ar 5 Mai 2026.
Lansio rhwydwaith "Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth" dan arweiniad y staff.	Wedi'i gwblhau	Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth wedi'u penodi yn y Gorsafoedd ac wedi bod yn cymryd rhan weithredol yn y rhaglen 'Gwneud ein Gorsafoedd yn fwy Gwyrdd'.
Gweithredu'r Cynllun Rheoli Clefyd Coed Ynn –	Wedi'i gwblhau	Mae'r Cynllun Rheoli wedi'i weithredu ac mewn grym. Nid oes coed â chlefyd coed ynn wedi'u canfod ar yr ystâd ers mabwysiadu'r Cynllun presennol.
Ffurfioli'r polisi ar gyfer arolygon ecolegol	Parhaus	Y polisi'n cael ei ddatblygu'n weithredol

Gweithred	Statws	Nodiadau
mewn safleoedd sensitif.		
Lansio rhaglen "Gwneud Ein Gorsafoedd yn Fwy Gwyrdd"	Parhaus	Llangollen, Bae Colwyn a'r Bala oll yn cynnal prosiectau gwella Bioamrywiaeth ar hyn o bryd. Ardaloedd o laswellt byr yn y Rhyl a Llanfairfechan wedi'u troi'n ddolydd blodau gwyllt.
Gosod nodweddion bioamrywiaeth newydd ar draws yr ystâd.	Parhaus	48 o flychau nythu i wenoliaid du wedi'u gosod yn y Pencadlys, Llanfairfechan, Bae Colwyn a'r Rhyl. Blwch tylluanod wedi'i osod yn y Bala
Cwblhau'r broses raddol o roi'r gorau i ddefnyddo ewynnau diffodd tân sy'n cynnsyws fflworoarwynebyddion cadwyn-hir.	Wedi'i gwblhau	Nid yw ewynnau diffodd tanau sy'n cynnwys fflworosurfactant cadwyn hir yn cael eu defnyddio mwyach.
Gwella gwaith partneriaeth ar atal tanau gwyllt.	Parhaus	Awdurdodau lleol yn cydweithio â'n fîm addysg. Ymgysylltu'n weithredol â pherchnogion tir i'w haddysgu ar losgi dan reolaeth a rheoli tir.
Cynnal arolwg ar draws yr ystâd ar gyfer Rhywogaethau Estron Goresgynol (INNS).	Parhaus	Rhywogaethau estron, goresgynol yn cael eu cofnodi ym mhob safle.
Mabwysiadu egwyddor "Enillion Net Bioamrywiaeth" (BNG) ar gyfer pob prosiect cyfalaf newydd.	Wedi'i gwblhau	Wedi weithredu fel polisi ar gyfer pob prosiect cyfalaf newydd. Er enghraifft: bydd gan bob tanc HVO newydd agwedd enillion net bioamrywiaeth: blwch adar, gwesty gwenyn, plannu blodau gwyllt ac ati.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r cynllun yn mynd ati mewn ffordd uniongyrchol i gefnogi nod cenedlaethol "Cymru Gydnerth" drwy gynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach, gweithredol. Mae'n ymgorffori'r pum ffordd o weithio (tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio, cynnwys) a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Cyllideb	Cost y gwelliannau bioamrywiaeth arfaethedig i ystâd y Gwasanaeth yw £10,000 dros dair blynedd. Bydd mabwysiadu Enillion Net Bioamrywiaeth ar gyfer prosiectau cyfalaf yn y dyfodol yn cael ei integreiddio mewn gwaith cynllunio a chostio prosiectau o'r cychwyn cyntaf, a bydd yn ddull effeithlon, ataliol o reoli effaith amgylcheddol yn hytrach na chost ôl-weithredol
Cyfreithiol	Mae gofyniad cyfreithiol i weithredu'r Cynllun cyhoeddedig er mwyn cyflawni dyletswydd statudol y Gwasanaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae agwedd ragweithiol y cynllun yn sicrhau bod y Gwasanaeth wedi'i baratoi'n dda ar gyfer gofynion uwch y Bil Amgylchedd sydd i ddod, gan liniaru'r risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol a chraffu gan Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol newydd Cymru (SLIAC).
Staffio	Dim
Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg	Dim
Risgiau	• Peidio â chydymffurfio â'r gyfraith • Mae'r cynllun yn rheoli risgiau ffisegol ac ariannol yn weithredol. Mae'r cynllun Clefyd Coed Ynn yn lliniaru'r risg iechyd a diogelwch o goed yn cwmpo ar eiddo'r Gwasanaeth. Yn yr un modd, mae dileu'r defnydd o ewynnau "cemegion am byth" yn raddol yn atal halogiad tir yn y dyfodol, gan osgoi'r posibilrwydd o gostau a rhwymedigaethau adfer sylweddol.

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026	
Swyddog Arweiniol	Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	
Swyddog Cyswllt	Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael	
Pwnc	Strategaeth Ystadau 2026–36	

DIBEN YR ADRODDIAD

- 1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno Strategaeth Ystadau ar gyfer 2026–2036 er gwybodaeth Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'r Strategaeth Ystadau wedi sefydlu fframwaith deng mlynedd ar gyfer buddsoddi yn ystâd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) a'i moderneiddio. Diben hyn yw sicrhau bod yr ystâd yn ddiogel, yn gynhwysol, yn effeithiol o ran yr Ochr Weithredol, ac yn amgylcheddol gyfrifol.
- 3 Gwnaed arolwg cyflwr cynhwysfawr ar draws 49 eiddo, gan roi sylfaen dystiolaeth gref ar gyfer targedu buddsoddiad. Nodwyd cyfleoedd i wella cyfran sylweddol o'r ystâd, gyda gwaith yn cael ei flaenoriaethu yn y meysydd a gaiff yr effaith fwyaf dros y tymor byr i ganolog.
- 4 Mae'r strategaeth yn adlewyrchu adborth manwl a gafwyd gan staff ac yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â blaenoriaethau allweddol, gan gynnwys cryfhau trefniadau rheoli halogiad, gwella safonau lles, gwella cynhwysiant a chefnogi effeithiolrwydd yr ochr weithredol.
- 5 Mae'n sefydlu rhaglen strwythuredig ac a ellir ei chyflawni ar gyfer adnewyddu gorsafoedd, lleihau'r rhestr o waith cynnal a chadw sydd i'w wneud, datgarboneiddio'r ystâd a datblygu cyfleuster hyfforddi modern. Mae hefyd yn cadarnhau penderfyniadau strategol pwysig, gan gynnwys cadw ein gorsafoedd presennol a chryfhau rheolaeth a chyflawni trwy sicrhau bod gwaith rheoli ystadau yn fewnol erbyn 2027.
- 6 Mae camau cyflawni wedi'u diffinio'n glir hyd at 2036, ac mae amcanion mesuradwy i sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro mewn ffordd dryloyw a bod adroddiadau blynyddol yn cael eu rhoi i'r Awdurdod.

ARSYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO/PANEL GWEITHREDOL

7 Nid yw'r papur hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

ARGYMHELLION

8 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i) Cymeradwyo'r Strategaeth Ystadau ar gyfer 2026–2036.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r Strategaeth Ystadau yn cefnogi iechyd a diogelwch cymunedau, yn gwella llesiant y gweithlu ac yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) drwy wneud penderfyniadau buddsoddi hirdymor a chynaliadwy.
Cyllideb	Bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar y Strategaeth Ystadau dros y ddeng mlynedd, yn ogystal â chyllid ar gyfer mynd i'r afael â'r rhestr o waith cynnal a chadw a nodwyd. Bydd goblygiadau ariannol manwl yn cael eu hystyried trwy achosion busnes unigol a'r rhaglen gyfalaf flynyddol.
Cyfreithiol	Mae'r Strategaeth Ystadau yn cefnogi cydymffurfiaeth â gofynion statudol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, safonau adeiladu a rhwymedigaethau amgylcheddol.
Staffio	Bydd swyddogaeth Rheoli Cyfleusterau mewnol yn cael ei sefydlu erbyn Ebrill 2027 i oruchwylio gwaith cyflawni a rheoli ystadau parhaus.
Cydraddoldebau/Hawliau Dynol/y Gymraeg	Mae'r Strategaeth Ystadau yn mynd i'r afael â diffygion a nodwyd o ran cynhwysiant trwy ymrwymo i wella cyfleusterau, gan gynnwys trefniadau newid a lles priodol, gan sicrhau urddas a hygyrchedd i'r holl staff.
Risgiau	Mae'r risgiau allweddol yn cynnwys fforddiadwyedd, y gallu i gyflawni, ac oedi posibl wrth sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau mawr. Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli trwy drefniadau llywodraethiant, cyflawni mewn camau, a gwaith monitro parhaus trwy adroddiadau blynyddol.



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Strategaeth yr Ystâd 2026–2036

Diogel · Cynhwysol · Gweithredol Effeithiol · Ariannol Gynaliadwy · Parod at y Dyfodol

Crynodeb

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi themâu, blaenoriaethau ac ymrwymïadau allweddol Strategaeth yr Ystâd. Yn cefnogi'r ddogfen mae Strategaeth yr Ystâd dechnegol fanwl sy'n cynnwys y sylfaen dystiolaeth lawn, asesiad o gyflwr, y fethodoleg ar gyfer blaenoriaethu buddsoddiad, rhaglen gyflawni a threfniadau llywodraethu.

Contents

1. Pam mae ein hystâd yn bwysig.	4
2. Gogledd Cymru a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu	5
3. Beth mae ein hystâd yn ei gynnwys.....	6
4. Cyflwr presennol ein hystâd	7
5. Adeiladau blaenoriaeth a ffocws cynnar.....	8
6. Beth sydd angen newid	9
7. Ein gweledigaeth, cenhadaeth ac egwyddorion.....	11
8. Lleoliad gorsafoedd a rhesymoli'r ystâd.....	12
9. Hyfforddiant a Hwb Awen	13
10. Cynaliadwyedd, lleihau carbon a gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd.....	14
11. Y seilwaith digidol a deallusrwydd asedau.....	15
12. Blaenoriaethu buddsoddiad a chynllun cyflawni	16
13. Llywodraethu, atebolrwydd a mesur llwyddiant	18
14. Casgliad	20

Neges gan ein Prif Swyddog Tân



Mae ystâd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ased gweithredol hollbwysig. Mae'n cefnogi ymateb brys, atal, diogelu, gwytnwch ac ymgysylltu â'r gymuned ledled Gogledd Cymru. Ein hadeiladau yw lle mae ein pobl yn gweithio, yn hyfforddi, yn paratoi, yn ymateb ac yn adfer. Maent hefyd yn lleoedd lle rydym yn croesawu partneriaid, yn ymgysylltu â chymunedau ac yn darparu gwasanaethau sy'n helpu i gadw pobl yn ddiogel.

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bydd ein hystâd yn datblygu rhwng 2026 a 2036. Mae'n cydnabod bod llawer o'n hadeiladau wedi gwasanaethu'r Gwasanaeth a chymunedau lleol yn dda dros nifer o ddegawdau. Mae hefyd yn cydnabod bod y ffordd yr ydym yn gweithio wedi newid. Erbyn hyn mae angen i'n hadeiladau gefnogi ymateb brys modern a darparu lleoedd diogel, iach a chroesawgar i bobl weithio ynddynt ac i'n cymunedau. Mae angen iddynt hefyd wneud defnydd o systemau digidol, helpu i leihau allyriadau carbon a gwella'r ffordd yr ydym yn rheoli ein hasedau.

Datblygwyd y strategaeth dechnegol lawn drwy gynnal adolygiadau manwl o'n hadeiladau, systemau digidol ac allyriadau carbon, yn ogystal â chael adborth gan staff a phartneriaid. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r gwaith hwnnw. Mae'n egluro ein cynlluniau, pam mae angen buddsoddiad, a sut y byddwn yn sicrhau bod penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth, yn dryloyw ac yn deg.

Mae'r heriau'n sylweddol. Mae angen i ni fynd i'r afael ag ôl-groniad o waith cynnal a chadw, gwella rheolaeth halogiad, moderneiddio cyfleusterau lles a hyfforddi, cefnogi gweithlu mwy amrywiol a lleihau allyriadau carbon. Mae peth o'r gwaith pwysig hwn eisoes ar y gweill. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ar gyfer gorsafoedd blaenoriaeth a Chanolfan Hyfforddi a Datblygu Hwb Awen, ynghyd â gwella data asedau ac adolygu'r ffordd y caiff cyfleusterau eu rheoli yn y dyfodol. Mae'r strategaeth hon yn ymwneud â mwy nag adeiladau yn unig. Mae'n ymwneud â sut mae ein hystâd yn ein helpu i greu Gwasanaeth Tân ac Achub diogel, cynhwysol, cynaliadwy a gweithredol effeithiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Dawn Docx,
Chief Fire Officer





1. Pam mae ein hystâd yn bwysig

Ein hystâd yw'r sylfaen ffisegol sy'n cynnal Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'n cynnwys gorsafoedd tân amser llawn, gorsafoedd â chriw dydd, gorsafoedd niwclews, gorsafoedd ar alwad, pencadlys, cyfleusterau hyfforddi, gweithdai, mannau storio ac adeiladau cymorth gweithredol eraill. Mae gan bob cyfleuster rôl mewn helpu ein pobl i baratoi ar gyfer digwyddiadau, cynnal a chadw offer, darparu hyfforddiant, cefnogi gwaith atal ac amddiffyn a darparu ymateb brys ar draws y rhanbarth.

Ni all buddsoddiad yn yr ystâd fod yn seiliedig ar oedran adeilad yn unig. Mae'r strategaeth lawn yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i benderfyniadau fod yn gysylltiedig â galw gweithredol, risg cymunedol, lles staff, dyletswyddau cyfreithiol, cyfrifoldebau amgylcheddol a gwerth am arian hirdymor. Efallai y bydd adeilad angen sylw oherwydd ei gyflwr, ond mae'n bosibl hefyd y bydd angen buddsoddi ynddo oherwydd nad yw ei osodiad bellach yn cynnal prosesau diffodd tân modern; oherwydd nad yw ardaloedd lles yn addas; oherwydd bod rheoli halogiad yn anodd, neu oherwydd bod y safle yn hanfodol i wydnwch y gwasanaeth.

Mae'r cysylltiad hwn rhwng tystiolaeth, blaenoriaethau a buddsoddiad yn cael ei ddisgrifio yn y strategaeth dechnegol fel yr "edau aur". Mae'n golygu y dylai fod yn bosibl olrhain pob penderfyniad mawr a wneir am yr ystâd yn ôl at reswm clir dros y penderfyniad hwnnw. Er enghraifft, gallai prosiect leihau risg weithredol, gwella cydymffurfiaeth statudol, cefnogi cyfleusterau cynhwysol, lleihau allyriadau carbon neu fynd i'r afael â dirywiad yn adeiledd adeilad neu mewn systemau mecanyddol sy'n gofyn am sylw ar frys

Mae i'r ystâd werth cyhoeddus hefyd. Mae gorsafoedd tân yn asedau cymunedol gweladwy. Maent yn cefnogi hunaniaeth leol, parodrwydd gweithredol a hyder y cyhoedd. Mae'r strategaeth felly'n canolbwyntio ar wneud yr ystâd bresennol y gorau y gall fod, gan gadw cyfleoedd ar gyfer y dyfodol dan adolygiad os bydd amgylchiadau'n newid.



2. Gogledd Cymru a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu ar draws Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r ardal yn cynnwys trefi mawr, cymunedau gwledig ac amaethyddol, aneddiadau arfordirol, ardaloedd diwydiannol a masnachol, cysylltiadau cludiant ac amgylcheddau ucheldir Eryri. Mae'r ddaearyddiaeth hon yn siapia pob penderfyniad a wneir am yr ystâd.

Mewn ardaloedd gwledig, mae pellteroedd teithio a'r gallu i ddarparu'r gwasanaeth yn lleol yn bwysig. Mewn ardaloedd arfordirol, gall gorsafoedd wynebu newidiadau tymhorol yn y boblogaeth, pwysau o ganlyniad i dwristiaeth, perygl o lifogydd ac effeithiau tywydd garw. Mewn ardaloedd trefol a diwydiannol, mae'n rhaid i'n gorsafoedd gefnogi ymateb i wahanol batrymau o ddigwyddiadau, gweithgarwch atal a gweithio mewn partneriaeth. Mae'n rhaid i'r ystâd felly fod yn ddigon hyblyg i gefnogi anghenion lleol amrywiol ond ar yr un pryd barhau i fodloni safonau digyfnewid ar draws y gwasanaeth.

Mae'r strategaeth lawn yn nodi nifer o elfennau sy'n sbarduno'r galw ar y gwasanaeth ac yn dylanwadu ar gynllunio'r ystâd. Mae'r rhain yn cynnwys tueddiadau yn y boblogaeth, tueddiadau o ran digwyddiadau, proffil risg y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, newid yn yr hinsawdd, twristiaeth a newidiadau tymhorol yn y boblogaeth, y defnydd o beiriannau, gweithgarwch atal ac amddiffyn a gofynion gweithredol y dyfodol.

Mae'r sbardunau hyn yn dangos pam y mae'n rhaid cynllunio ein hystâd mewn ffordd strategol. Mae Gwasanaethau Tân ac Achub bellach yn ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau y tu hwnt i danau traddodiadol, gan gynnwys gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd, llifogydd, tanau gwyllt a gweithgarwch achub arbenigol. Mae'n rhaid i'n hadeiladau ddarparu'r lle, y systemau a'r seilwaith cywir i gefnogi'r rôl ehangach honno.



PENCADLYS

GWASANAETH TÂN AC ACHUB

FIRE & RESCUE SERVICE

HEADQUARTERS

3. Beth mae ein hystâd yn ei gynnwys

Mae ystâd GTAGC yn eang ac amrywiol. Roedd yr asesiad o gyflwr stoc yn cwmpasu 49 o safleoedd. Mae'r rhwydwaith gorsafoedd tân gweithredol yn cynnwys 44 o orsafoedd tân, sy'n cynnwys 3 gorsaf amser llawn, gorsaf â chriw 5 diwrnod, 2 orsaf niwclews a thua 34 o orsafoedd ar alwad neu gymunedol. Mae'r ystâd hefyd yn cynnwys y pencadlys yn Llanellwyr, y pencadlys wrth gefn dynodedig a'r ystafell reoli eilaidd yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl, prif safleoedd hyfforddi, gweithdy'r fflyd, cyfleusterau a rennir, adeiladau storio ac adeiladau ategol.

Mae pob rhan o'r ystâd yn cynnal swyddogaeth wahanol. Mae ar orsafoedd llawn amser angen cyfleusterau sy'n cynnal defnydd gweithredol parhaus, lles, ardaloedd gorffwys, hyfforddiant, ffitrwydd, storio offer, rheoli halogiad a gweinyddu. Mae ar orsafoedd gwasanaeth ar-alwad a chymunedol angen cyfleusterau diogel, ymarferol a chymesur sy'n cefnogi ymateb lleol, hyfforddiant, lles, storio ac ymgysylltu â'r gymuned.

Mae'r pencadlys yn Llanellwyr yn cyflawni rôl sefydliadol ganolog, gan gynnwys swyddogaethau gorchymyn a rheoli. Mae i Orsaf Dân Gymunedol y Rhyl bwysigrwydd strategol penodol oherwydd ei bod, fel yr orsaf reoli wrth gefn ddynodedig, yn cynnal gwytnwch o ran gorchymyn a chyfathrebu. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried ei chyflwr, ei seilwaith digidol a'i gwytnwch fel blaenoriaeth sefydlog, nid yn unig trwy ei sgôr cyflwr ffisegol.

Mae gweithdy'r fflyd hefyd yn bwysig oherwydd bod cynllunio'r fflyd a'r ystâd yn fwyfwy cysylltiedig. Wrth i'r Gwasanaeth symud tuag at ddatgarboneiddio'r fflyd, bydd yn ofynnol bod â chyfleusterau gweithdy a chapasiti trydanol sy'n cefnogi technoleg cerbydau'r dyfodol a gofynion cynnal a chadw newidiol.

4. Cyflwr presennol ein hystâd

Rhwng 2025 a 2026, cynhaliwyd yr asesiad mwyaf cynhwysfawr o gyflwr stoc yr ystâd yn hanes y gwasanaeth. Aseswyd tri phrif faes craidd ym mhob safle, sef cyflwr trydanol, adeiledd yr adeiladau a gwasanaethau mecanyddol Rhoddodd hyn ddarlun cliriach o le mae angen gwneud gwaith brys a lle gellir gwneud buddsoddiad cyfalaf fesul cam.

Mae'r canfyddiadau'n dangos ystâd gymysg. Mae tua 38.7% o'r ystâd mewn cyflwr da a gellir ei rheoli trwy gynnal a chadw ataliol wedi'i gynllunio. Mae tua 28.5% yn gofyn am waith wedi'i gydlynw o fewn y tair i bum mlynedd nesaf. Mae gan tua 32.6% sgôr cyflwr sy'n nodi bod angen gwneud gwaith atgyweirio neu adnewyddu brys.

Amcangyfrifir bod yr atebolrwydd cynnal a chadw ôl-gronnus dangosol rhwng £3 miliwn a £4 miliwn ar brisiau 2026. Mae'r ôl-groniad hwn yn ymwneud â gwaith sydd eisoes yn hwyr neu sydd ei angen o fewn tua dwy flynedd i godi eiddo i fyny i safon weithredol dderbyniol. Mae'r gwaith hwn ar wahân i'r rhaglen ehangach o drawsnewid, datgarboneiddio a gwella tymor hir.

Ffeithiau allweddol am yr ystâd

49 o safleoedd wedi'u harolygu; 44 o orsafoedd tân gweithredol; gwaith brys yn angenrheidiol mewn 32.6% ; ôl-groniad dangosol o £3m–£4m.

Mae'r ôl-groniad wedi'i ganolbwyntio ar draws sawl maes: adeiledd fel toeau, ffenestri, amlen allanol, draenio a blaengyrtiau; seilwaith mecanyddol a thrydanol fel boeleri, gwresogi, awyru, ailweirio a dyfeisiadau trydanol; seilwaith gweithredol fel drysau bae, storio, arwyddion a diogelwch; cyfleusterau lles fel cawodydd, ystafelloedd newid, ceginau, mannau gorffwys a loceri; a chydymffurfiaeth statudol megis ardystiad trydanol, asbestos, larymau tân a rheolaethau Legionella.

Bydd y system rheoli asedau digidol newydd yn caniatáu meintioli'r ôl-groniad hwn yn ffurfiol a'i fonitro'n fwy manwl gywir. Mae hynny'n bwysig oherwydd y bydd gwell gwybodaeth yn cefnogi gwell penderfyniadau, adrodd cliriach a defnydd mwy effeithiol o arian cyhoeddus.



5. Adeiladau blaenoriaeth a ffocws cynnar

Mae'r asesiad cyflwr yn nodi nifer o safleoedd blaenoriaeth. Nid y safleoedd hyn yw'r unig adeiladau sy'n gofyn am fuddsoddiad, ond maent yn helpu i siapio camau cynnar y rhaglen oherwydd bod eu cyflwr, eu rôl weithredol neu'r newid a fwriedir yn creu mwy o angen am ymyrraeth.

Gorsaf Dân Dolgellau yw'r safle blaenoriaeth uchaf. Mae seilwaith trydanol ac adeiledd yr orsaf yn hen ac mae'n newid i statws criwio niwclews, sy'n golygu bod angen gwaith adnewyddu mawr. Mae Porthmadog hefyd yn newid i statws criwio niwclews ac mae angen newidiadau mewnol sylweddol i gynnal cyfleusterau lles, gweithredol, gweinyddol, hyfforddi a chynhwysol modern.

Mae Gorsaf Dân Bangor yn brosiect moderneiddio blaenoriaeth arall. Mae'r strategaeth yn dynodi'r angen am welliannau ym meysydd lles, rheolaeth halogiad, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd Bangor, Dolgellau a Phorthmadog felly yn brosiectau dysgu pwysig. Bydd y safonau, y cynlluniau a'r gwersi a ddysgir o'r cynlluniau hyn yn helpu i siapio prosiectau a gwaith adnewyddu'r dyfodol ar draws yr ystâd.

Mae safleoedd blaenoriaeth eraill yn cynnwys Y Waun, Abersoch, Amlwch, Caernarfon, Caergybi, Llandudno a Threffynnon. Mae'r safleoedd hyn yn cyflwyno gwahanol gyfuniadau o adeiledd sy'n heneiddio, problemau mecanyddol a thrydanol, cyfyngiadau lles, amodau arfordirol, gofynion gweithredol ac anghenion cylch bywyd. Mae Abergele a Benllech hefyd wedi'u hamlygu oherwydd lefel uwch o bryder ynghylch eu hadeiledd sydd yn gofyn am fonitro agos ac ymyrryd fel mater o flaenoriaeth os bydd y risgiau'n cynyddu.

Nid yw'r strategaeth yn trin sgorio blaenoriaeth fel ymarfer unwaith yn unig. Wrth i wybodaeth fwy cywir am asedau ddod i law, ac wrth i gyflwr adeiladau a gofynion gweithredol newid, bydd blaenoriaethau'n cael eu hadolygu trwy'r strwythur llywodraethu ffurfiol.

Dysgu cynnar o'r prosiect

Bydd Bangor, Dolgellau a Phorthmadog yn helpu i siapio safonau dylunio'r dyfodol ar draws yr ystâd.

Bydd y broses o gyflawni rhaglen gynnar yr ystâd hefyd yn cael ei chefnogi gan newidiadau i drefniadau rheoli cyfleusterau. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth Rheoli Cyfleusterau cydweithredol gyda Heddlu Gogledd Cymru wedi bod ar waith ers dros 20 mlynedd ac wedi chwarae rhan bwysig wrth gynnal a datblygu ystâd y Gwasanaeth.

Wrth i'r Gwasanaeth geisio mynd i'r afael â nifer o heriau ystâd sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ôl-gronnus, rheolaeth halogiad, gofynion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a chyflawni ymrwymadau lleihau carbon, cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn yr adolygiad hwn, mae'r Gwasanaeth a Heddlu Gogledd Cymru wedi cytuno ar y cyd y bydd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn dod i ben ym mis Mawrth 2027. Mae'r cyfnod pontio yn darparu cyfle i adeiladu ar y sylfeini cadarn a sefydlwyd drwy'r bartneriaeth, gan ddatblygu ar yr un pryd fodel gweithredu sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau a blaenoriaethau'r Strategaeth Ystâd hon ar gyfer y dyfodol.

6. Beth sydd angen newid

Mae'r strategaeth yn nodi deng blaenoriaeth gysylltiedig ar gyfer yr ystâd. Gyda'i gilydd, mae'r blaenoriaethau hyn yn esbonio beth sydd angen newid ar draws ein hadeiladau a sut y bydd buddsoddiad yn y dyfodol yn cefnogi ystâd fwy diogel, cynhwysol, gweithredol effeithiol a chynaliadwy.

1

Ôl-groniad cynnal a chadw a chyflwr adeiladau: Byddwn yn mynd i'r afael â gwaith adeiladu brys a hwyr mewn ffordd wedi'i gynllunio, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar y safleoedd a'r materion sy'n peri'r risg fwyaf o safbwynt weithredol, diogelwch neu ariannol. Bydd hyn yn helpu i symud yr ystâd i ffwrdd oddi wrth waith trwsio adweithiol tuag at gynnal a chadw hirdymor wedi'i gynllunio.

2

Cydymffurfiaeth statudol: Mae'n rhaid i bob adeilad fod yn ddiogel, cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a chael ei reoli'n briodol. Byddwn yn cryfhau sut yr ydym yn monitro, yn rhoi tystiolaeth o, ac adrodd ar gydymffurfiaeth ar draws yr ystâd.

3

Ymarferoldeb gweithredol a safoni: Mae'n rhaid i'n gorsafoedd gefnogi ymateb brys modern, gyda chynllun, manau storio, baeau offer ac ardaloedd lles sy'n helpu criwiau i weithio'n ddiogel ac yn effeithlon. Bydd dyluniad gorsafoedd sy'n cael eu hailwampio'n seiliedig ar safonau clir a chyson, ond gan barhau i adlewyrchu anghenion lleol.

4

Rheolaeth Halogiad: Byddwn yn gwella sut y mae ein hadeiladau'n helpu i leihau amlygiad diffoddwyr tân i halogion. Mae hyn yn cynnwys creu gwell parthau glân a budr, symudiad mwy diogel trwy orsafoedd a chyfleusterau sy'n cynnal canllawiau halogiad cenedlaethol.

5

Lles y gweithlu: Dylai ein hystâd gefnogi iechyd, cysur a lles pawb sy'n gweithio ynddi. Mae hyn yn golygu gwella cyfleusterau fel cawodydd, manau newid, manau gorffwys, ceginau, manau tawel a darpariaeth ffitrwydd lle bo hynny'n briodol.

6

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant: Mae'n rhaid i'n hadeiladau fod yn groesawgar, yn hygyrch ac yn urddasol i bob aelod o'n gweithlu ac ymwelwyr. Byddwn yn gwella cyfleusterau cynhwysol, gan gynnwys darpariaeth lleoedd newid a lles hygyrch, niwtral o ran rhywedd a phriodol.

7

Seilwaith hyfforddi : Mae hyfforddiant modern yn gofyn am gyfleusterau modern. Byddwn yn gwella'r ystâd hyfforddi trwy Hwb Awen - y Ganolfan Hyfforddi a Datblygu newydd arfaethedig, neu trwy fuddsoddi yn y safleoedd hyfforddi sydd gennym yn barod os nad yw'r cynllun hwnnw'n mynd yn ei flaen fel y bwriadwyd.

8

Ymgysylltiad a chydweithredu cymunedol: Mae gorsafoedd tân yn asedau cymunedol pwysig. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i'n hystâd gefnogi atal, diogelu, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned leol yn well.

9

Digideiddio a deallusrwydd asedau: Mae'r gallu i wneud gwell penderfyniadau am yr ystâd yn gofyn am well gwybodaeth Byddwn yn cyflwyno trefniadau rheoli asedau digidol gwell fel bod penderfyniadau ynglŷn â chyflwr, cydymffurfiaeth, cynnal a chadw a buddsoddi yn seiliedig ar ddata dibynadwy.

10

Datgarboneiddio a chynaliadwyedd: Byddwn yn lleihau effaith amgylcheddol ein hadeiladau ac yn cefnogi ymrwymïadau sero net y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys gwella adeiledd adeiladu, lleihau'r defnydd o danwydd ffosil, cynyddu ynni adnewyddadwy a gwella monitro ynni.

7. Ein gweledigaeth, cenhadaeth ac egwyddorion

Ein Gweledigaeth

Darparu ystâd fodern, gynaliadwy a chynhwysol sy'n grymuso ein pobl, yn galluogi cyflawniad gweithredol rhagorol ac yn cefnogi cymunedau mwy diogel a chryfach ledled Gogledd Cymru.

Ein Cenhadaeth

Rheoli a datblygu ein hystâd yn strategol i sicrhau ei bod yn ddiogel, yn effeithlon, yn amgylcheddol gyfrifol ac yn cyd-fynd ag anghenion esblygol ein gwasanaeth, ein pobl a'n cymunedau.

Ein hegwyddorion

Egwyddor	Yr hyn y mae'n ei olygu i'r ystâd
Yn ddiogel ac yn cydymffurfio	Mae pob cyfleuster yn bodloni'r holl ofynion statudol. Mae rheolaeth halogiad wedi'i ymgorffori mewn dyluniad. Mae cydymffurfiaeth yn cael ei reoli'n rhagweithiol.
Gweithredol effeithiol	Mae dyluniad gorsafoedd yn cefnogi ymateb brys, llif gwaith effeithlon a symud diogel. Mae'r ystâd yn galluogi rhagoriaeth.
Addas ar gyfer Cyflenwi Gwasanaeth Modern	Mae cyfleusterau'n cefnogi dulliau diffodd tân modern, rheolaeth halogiad, hyfforddiant, ymgysylltu â'r gymuned a gofynion gweithredol esblygol.
Ariannol Gynaliadwy	Mae buddsoddiad wedi'i gynllunio, ei flaenoriaethu a'i arwain gan dystiolaeth. Mae cost oes gyfan yn ganolog i bob penderfyniad. Mae atebolrwydd o ran yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw'n cael ei ddileu'n raddol.
Amgylcheddol Gyfrifol	Mae'r ystâd yn cyflawni yn erbyn rhwymedigaethau sero net Llywodraeth Cymru. Mae gwresogi gyda thanwydd ffosil yn cael ei ddileu'n raddol. Mae'r defnydd mwyaf posibl yn cael ei wneud o ynni adnewyddadwy.
Cynhwysol a Chefnogol o Les y Gweithlu	Mae pawb sy'n gweithio mewn, neu'n ymweld ag adeilad o eiddo GTAGC yn canfod cyfleusterau sy'n groesawgar, urddasol, hygyrch ac sy'n adlewyrchu eu hanghenion.
Digidol Alluog	Mae pob penderfyniad arwyddocaol am yr ystâd wedi'i ategu gan ddata dibynadwy am asedau, cyflwr a pherfformiad, ac mae pob cyfleuster wedi'i adeiladu i gefnogi'r cysylltedd sydd ei angen ar y Gwasanaeth modern.

8. Lleoliad gorsafoedd a rhesymoli'r ystâd

Mae'r strategaeth lawn yn cyd-fynd â'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Asesodd yr adolygiad hwnnw gyfluniad daearyddol yr ystâd gorsafoedd yn erbyn patrymau risg cymunedol cyfredol a rhagamcanedig. Y casgliad yw bod dosbarthiad presennol gorsafoedd tân Gogledd Cymru wedi'i ddilysu fel bod yn briodol i gefnogi ymateb brys effeithiol.

Mae hyn yn golygu nad yw Strategaeth yr Ystâd ceisio ail-greu'r map gorsafoedd. Yn hytrach, ei rôl yw sicrhau bod y gorsafoedd cywir, yn y lleoedd cywir, yn addas i'r diben. Mae'r ffocws felly ar wella, moderneiddio, gwytnwch ac addasrwydd yn hytrach na rhaglen o gau neu gydgrynhoi gorsafoedd.

Ystyriodd asesiad ar wahân gyfleoedd rhesymoli ystadau posibl. Roedd hyn yn cynnwys ystyried a ellid cyfuno, gwaredu neu ailwampio rhai cyfleusterau. Mae'r strategaeth yn dod i'r casgliad, er y gallai buddion ymylol fodoli mewn rhai achosion, nad yw'r ffactorau gweithredol, daearyddol, cymunedol, diwylliannol ac ariannol ar hyn o bryd yn cefnogi rhaglen weithredol o gydgrynhoi.

Mae'r enghraifft a ystyriwyd yn ymwneud â Bae Colwyn ac ardal Llandudno yn darlunio'r pwynt hwn. Mae daearyddiaeth, cyfyngiadau'r rhwydwaith ffyrdd, arwyddocâd cymunedol lleol a chost darparu cyfleuster cyfunol i gyd yn pwysu yn erbyn mynd ar drywydd gydgrynhoi fel blaenoriaeth strategol ar hyn o bryd.

Nid yw hyn yn golygu na fydd yr ystâd byth yn newid. Bydd cyfleoedd y dyfodol yn cael eu hystyried fesul achos trwy'r Pwyllgor Tir ac Eiddo os bydd amgylchiadau'n newid. Fodd bynnag, y cyfeiriad strategol presennol yw buddsoddi mewn gwneud pob gorsaf sydd gennym ar hyn o bryd y gorau y gall fod i'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu.



9. Hyfforddiant a Hwb Awen

Mae hyfforddiant yn flaenoriaeth strategol arwyddocaol oherwydd bod ar y gwasanaeth angen cyfleusterau sy'n cefnogi dysgu gweithredol realistig, diogel a modern. Mae'r cyfleusterau hyfforddi presennol wedi'u gwasgaru ar draws sawl safle ac mae rhai asedau yn heneiddio. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod yn rhaid i'r seilwaith hyfforddi wella fel bod y cyfleusterau angenrheidiol ar gael i ddifoddwyr tân a staff allu cynnal cymhwysedd gweithredol, cefnogi iechyd a lles a pharatoi ar gyfer risgiau'r presennol a'r dyfodol.

Yr opsiwn a ffefrir o hyd yw Hwb Awen, y Ganolfan Hyfforddi a Datblygu arfaethedig yn Llanelwy. Mae'r prosiect yn parhau i fod yn fuddsoddiad strategol bwysig i'r Gwasanaeth, gan gefnogi gallu gweithredol, iechyd a lles difoddwyr tân a gwydnwch sefydliadol tymor hwy. O'i gwireddu, byddai Hwb Awen yn cynnig cyfleusterau hyfforddi modern, pwrpasol ac yn cefnogi uchelgeisiau ehangach y Gwasanaeth i gyflwyno hyfforddiant mwy diogel, realistig a chynaliadwy.

Mae i Hwb Awen hefyd werth strategol ehangach oherwydd ei pherthynas bosibl â phencadlys Llanelwy. Mae'r strategaeth yn cydnabod y cyfle i greu canolfan weithredol, hyfforddi a sefydliadol gryfach a mwy integredig pe bai'r cyllid ar gael.

Mae'r strategaeth hefyd yn ystyried yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Hwb Awen ochr yn ochr ag opsiynau amgen os na chaiff cyllid llawn ei sicrhau o fewn y blynyddoedd cynnar. Yn y sefyllfa honno, byddai angen buddsoddiad sylweddol yn yr ystâd hyfforddi bresennol o hyd, gan gynnwys gwaith brys ar dyrau hyfforddi, gwelliannau i gyfleusterau lles a thechnoleg hyfforddi, fel bod cyfleusterau'n parhau i fod yn ddiogel ac yn gwbl addas tra bydd opsiynau tymor hwy'n cael eu hadolygu.

Mae'r ymdriniaeth hon yn darparu sefyllfa gytbwys. Hwb Awen yw'r llwybr trawsnewidiol a ffefrir o hyd ar gyfer y seilwaith hyfforddi, ond mae'r Gwasanaeth yn rheoli'r risgiau ariannol a rhaglen yn ofalus wrth barhau i gryfhau'r achos dros fuddsoddi. Os na fydd modd bwrw ymlaen â'r llwybr a ffefrir fel y cynlluniwyd, bydd angen i'r Strategaeth Ystâd ehangach sicrhau o hyd bod yr ystâd hyfforddi bresennol yn parhau'n ddiogel, yn alluog ac yn cyd-fynd â gofynion gweithredol. Gallai hyn olygu bod angen i'r Gwasanaeth ystyried modelau darparu amgen, gan gynnwys datblygu fesul cam, trefniadau partneriaeth, cyfleusterau a rennir neu ddefnydd cynyddol o asedau hyfforddi rhanbarthol neu genedlaethol. Byddai opsiynau o'r fath yn cael eu hasesu yn erbyn gofynion gweithredol, gwerth am arian, gwytnwch a'u haddasrwydd strategol hirdymor.

hwb awen

10. Cynaliadwyedd, lleihau carbon a gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd

Mae datgarboneiddio yn flaenoriaeth gyfreithiol, amgylcheddol a gweithredol. Mae GTAGC wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau carbon sero net ar draws y gwasanaeth cyfan erbyn 2030. Mae'r strategaeth yn cadarnhau na fydd unrhyw system wresogi hydrocarbon newydd yn cael ei gosod na'i hadnewyddu'n sylweddol yn unman yn yr ystâd y tu hwnt i ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25.

Ar hyn o bryd mae'r ystâd yn defnyddio oddeutu 2,639,751 kWh o nwy naturiol, 96,520 kWh o LPG a 1,374,357 kWh o drydan bob blwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i allyriadau gwaelodlin Cwmpas 1 o 502.7 tCO₂e ac allyriadau Cwmpas 2 o 240.4 tCO₂e. Mae'r ffigurau hyn yn dangos maint yr her a'r angen am lwybr strwythuredig.

Mae'r strategaeth yn cefnogi dull 'adeiledd yn gyntaf'. Mae hyn yn golygu gwella'r adeilad ei hun, megis inswleiddio, rhwystro gollyngiad aer gormodol a gwelliannau i'r adeiledd cyn neu ochr yn ochr â newidiadau i systemau gwresogi. Bydd hyn yn lleihau'r galw am ynni ac yn helpu technolegau carbon isel newydd i weithio'n fwy effeithiol.

Mae'r strategaeth hefyd yn mynd i'r afael ag ynni adnewyddadwy, solar PV, pypiau gwres ffynhonnell aer, mesuryddion clyfar a chynllunio capasiti trydanol. Mae'r rhain yn gamau ymarferol sydd yn angenrheidiol i leihau allyriadau carbon ac i baratoi at ofynion fflyd ac adeiladau'r dyfodol.

Mae gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yr un mor bwysig. Mae Gogledd Cymru yn wynebu risgiau cysylltiedig â llifogydd, amodau arfordirol, tywydd garw a thanau gwyllt. Mae'n rhaid i fuddsoddiad adeiladu yn y dyfodol felly ystyried nid yn unig yr angen i leihau carbon ond hefyd a all cyfleusterau gweithredol wrthsefyll amodau hinsawdd newidiol a pharhau i gynnal ymateb brys.

Y ffocws o ran Carbon

Mae'r strategaeth yn cefnogi llwybr datgarboneiddio 'adeiledd yn gyntaf', technolegau adnewyddadwy a gwell gwybodaeth am ynni.


11. Y seilwaith digidol a deallusrwydd asedau

Mae ar ystâd fodern angen gwybodaeth ddibynadwy. Mae'r strategaeth lawn yn dynodi caffael a gweithredu platfform Rheoli Cyfleusterau â Chymorth Cyfrifiadur (CAFM) fel un o'r buddsoddiadau galluogi pwysicaf yn y rhaglen. Bydd y system hon yn creu un ffynhonnell gwbl gywir o wybodaeth am gyflwr asedau, cydymffurfiaeth, cynnal a chadw, ôl-groniad, gwaith wedi'i gynllunio a rhaglenni cyfalaf.

Ar hyn o bryd, mae rhywfaint o wybodaeth am yr ystâd yn dibynnu ar gofnodion ar wahân, gwybodaeth hanesyddol a chipluniau o gyflwr. Bydd y system newydd yn caniatáu i'r Gwasanaeth symud tuag at reolaeth ystâd mwy cyson, wedi'i arwain gan ddata. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer rheoli cydymffurfiaeth statudol, blaenoriaethu atgyweiriadau, cynllunio buddsoddiad cylch bywyd a rhoi adroddiadau ar gynnydd i aelodau ac i'r cyhoedd.

Mae seilwaith digidol y tu mewn i adeiladau hefyd yn bwysig. Mae cysylltedd dibynadwy, systemau sy'n cefnogi hyfforddiant a gweithrediadau a'r gallu i ymgorffori technolegau adeiladu clyfar dros amser yn hollbwysig i orsafoedd modern Wrth i'r ystâd gael ei hadnewyddu, dylid ymgorffori safonau digidol mewn dyluniad yn hytrach na'u hychwanegu'n ddiweddarach.

Bydd gwell deallusrwydd asedau hefyd yn cefnogi tryloywder. Bydd yn helpu i ddangos pam y mae un prosiect yn cael ei flaenoriaethu dros un arall, sut y mae'r ôl-groniad yn lleihau, a yw cydymffurfiaeth yn cael ei gynnal, ac a yw buddsoddiad yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus lle mae atebolrwydd dros benderfyniadau'n hanfodol bwysig a'r penderfyniadau a wneir yn seiliedig ar dystiolaeth.



12. Blaenoriaethu buddsoddiad a chynllun cyflawni

Mae'r strategaeth yn cyflwyno Fframwaith Asesu'r Ystâd ffurfiol a Matrics Blaenoriaethu Buddsoddiad. Mae'r teclynau hyn wedi'u dylunio i sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi'n gyson, yn dryloyw ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

Mae prosiectau'n cael eu hasesu yn erbyn y ffactorau a nodir isod. Mae'r pwysiad uchaf yn cael ei roi i **risg weithredol** a **chyflwr adeiladau**, sydd yn adlewyrchu pwysigrwydd ymateb brys diogel ac effeithiol. Mae pwys arwyddocaol yn cael ei roi ar gydymffurfiaeth hefyd oherwydd bod yn rhaid bodloni dyletswyddau statudol.

Maen prawf	Pwysiad
Risg Weithredol	25%
Cyflwr Adeilad	20%
Risg Cydymffurfiaeth	15%
Halgiad	10%
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	10%
Lleihau Carbon	10%
Budd Ariannol	10%

Mae hon yn ffordd glir a seiliedig ar dystiolaeth o benderfynu sut y dylid defnyddio cyllid yr ystâd dros oes y Strategaeth. Nid yw'n dileu'r angen am grebwyll, ond yn hytrach yn darparu sail strwythuredig ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan sicrhau y rhoddir y pwysau priodol i faterion brys cysylltiedig â diogelwch, cydymffurfiaeth a gwytnwch gweithredol, tra hefyd yn cydnabod gwerth tymor hwy, iechyd diffoddwyr tân, cynhwysiant, cynaliadwyedd, buddion y gweithlu a gwerth am arian.

Delivery is structured in three phases.

Mae **Cam 1** yn canolbwyntio ar flaenoriaethau a sylfeini uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys Bangor, Dolgellau a Phorthmadog, gwaith atgyweirio a chydymffurfio brys, mesurau atal halgiad interim, gweithredu CAFM, mesuryddion clyfar, y newid cynlluniedig o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth Rheoli Cyfleusterau gyda Heddlu Gogledd Cymru (HGC), symud achos busnes Hwb Awen yn ei flaen, a gwaith datgarboneiddio cynnar.

Mae **Cam 2** yn canolbwyntio ar gyflymu'r rhaglen rhwng 2028 a 2032. Mae'n cynnwys ailwampio rhagor o orsafoedd, buddsoddiad cylch bywyd parhaus, gwaith datgarboneiddio, gwelliannau dylunio cynhwysol, gwelliannau rheoli halogiad a chynnydd ar Hwb Awen. Mae'r strategaeth yn cyfeirio at darged o ailwampio tua dwy orsaf y flwyddyn, yn amodol ar benderfyniadau cyllid, capasiti a llywodraethu.

Mae **Cam 3** yn canolbwyntio drawsnewid a chwblhau gwaith ar yr ystâd rhwng 2032 a 2036. Mae hyn yn cynnwys gneud y gwelliannau angenrheidiol yn y gorsafoedd sy'n weddill, sicrhau cynhwysiant a hygyrchedd ar draws yr ystâd, sicrhau parodrwydd gweithdy'r fflyd, datgarboneiddio parhaus a pharatoi ar gyfer cyfnod y strategaeth nesaf.

Dull cyflawni

Mae'r rhaglen yn cael ei chyflawni fesul cam, yn cael ei harwain gan dystiolaeth ac yn destun adroddiadau blynyddol ac adolygiad llywodraethu ffurfiol.

Risgiau cyflenwi a fforddiadwyedd

Bydd cyflawni'r Strategaeth hon yn dibynnu ar argaeledd cyllid, capasiti mewnol, amodau'r farchnad, cymeradwyaethau statudol a chyflawniad llwyddiannus rhaglenni ategol fel trawsnewid rheolaeth cyfleusterau, rheolaeth asedau digidol a datgarboneiddio. Bydd prosiectau unigol yn parhau i fod yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes, argaeledd cyllid a phenderfyniadau ynghylch gosod y gyllideb flynyddol. Bydd y risgiau hyn yn cael eu monitro trwy'r trefniadau llywodraethu a nodir yn y ddogfen hon ac yn cael eu hadlewyrchu mewn adroddiadau blynyddol.



13. Llywodraethu, atebolrwydd a mesur llwyddiant

Bydd cyflawniad yn cael ei oruchwyllo trwy drefniadau llywodraethu clir. Bydd y Pwyllgor Tir ac Eiddo a'r Gweithgor Tir ac Eiddo yn craffu ar benderfyniadau am yr ystâd, cynnydd o ran cyflawni, sgorio, blaenoriaethau a pherfformiad. Bydd Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth a'r Awdurdod yn derbyn adroddiadau rheolaidd.

Mae'r Gweithgor Tir ac Eiddo yn dwyn ynghyd gynrychiolaeth Gweithrediadau, Cyllid, Pobl ac Ystadau ac undebau llafur. Mae rôl y Gweithgor yn cynnwys adolygu gwarediadau, caffaeliadau, materion prydles, prosiectau mawr, y map ffordd tuag at gyflawni, y Fframwaith Asesu Ystadau a'r dangosfwrdd Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI)

Bydd cynnydd yn cael ei adrodd trwy'r Adroddiad Perfformiad yr Ystâd blyneddol. Bydd y strategaeth hefyd yn cael ei hadolygu'n ffurfiol ar y pwynt hanner ffordd yn 2031. Bydd hyn yn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn un byw, ymatebol ac atebol, yn hytrach na dod yn ddogfen statig.

Bydd llwyddiant yn cael ei fesur trwy gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau strategol a welir isod:

Blaenoriaeth	Dangosyddion Perfformiad Allweddol
B1 - Risg yn ymwneud ag Ystâd sy'n Heneiddio a Chylch Bywyd	Proffil graddio cyflwr yr ystâd (% Sgôr Cyflwr 1/2/3); cynnal a chadw adweithiol fel % o gyfanswm y gwariant cynnal a chadw.
B2 - Ôl-groniad cynnal a chadw a chyflwr adeiladau:	% atebolrwydd ôl-groniad i'w ddatrys yn flynyddol; % yr eitemau cydymffurfio wedi'u bodloni o fewn y terfynau amser; cost ôl-groniad fesul metr sgwâr yn erbyn cyfartaledd y portffolio.
B3 - Effeithiolrwydd Gweithredol, Safoni a Lles y Gweithlu	% baeau peiriannau sy'n bodloni'r safon ddimensiynol; sgôr llif gwaith gweithredol; gorsafoedd a gwblhawyd bob blwyddyn yn erbyn y Safonau Dylunio Gofynnol ; % gorsafoedd amser llawn sy'n bodloni'r safon lles sylfaenol.
B4 - Rheoli Halogiad ac Iechyd Diffoddwyr Tân	% y gorsafoedd amser llawn â pharthau sy'n cydymffurfio â Safonau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC); % personél sydd â mynediad at gyfleusterau dad-halogi sy'n cydymffurfio â'r safonau angenrheidiol; sgôr archwilio halogiad blyneddol.
B5 - Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	%y gorsafoedd sydd â chyfleusterau lles rhywedd-niwtral; % y gorsafoedd sy'n llwyr fodloni'r Safonau Dylunio Cynhwysol; Sgôr archwilio EDI; cydymffurfiaeth hygyrchedd%.

B6 - Seilwaith hyfforddi	Achos Busnes Llawn Hwb Awen a statws carreg filltir cyflawni; proffil cyflwr twr hyfforddi; sgôr medrusrwydd cyfleuster hyfforddi; % safleoedd sy'n bodloni'r safon hyfforddiant gweithredol.
B7 - Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd:	% y gostyngiad yn allyriadau carbon yr ystâd a'r fflyd o waelodlin 2025/26 (743.1 tCO ₂ e Cwmpas 1 a 2); % yr ystâd sydd â phwmp gwres; % â tho addas gyda solar PV; % y fflyd wen ag allyriadau sero / isel dros ben, cynnydd tuag at gyrraedd targed sero net 2030.
B8 - Seilwaith Digidol a Deallusrwydd Asedau	% yr eiddo gyda mesuryddion clyfar; % y gorsafoedd llawn amser gyda BMS; Cwmpas CAFM a chyflawnrwydd data; Cydymffurfiaeth â'r Safon Seilwaith Digidol; statws adolygiad gwytnwch ystafell reoli.
B9 - Trawsnewid Rheolaeth Cyfleusterau a Gallu Llywodraethu	Tîm Rheoli Cyfleusterau mewnol yn weithredol erbyn Ebrill 2027; cyfarfodydd craffu'r Gweithgor Tir ac Eiddo yn cael eu cynnal; Adroddiadau Perfformiad Ystadau yn cael eu cyflwyno'n brydlon; alldro'r rhaglen gyfalaf v. y gyllideb.
P10 - Cyfyngiadau Ariannol a Disgyblaeth Fuddsoddi	Amrywiad y rhaglen gyfalaf o'i gymharu â'r gyllideb gymeradwy; % y cyfalaf a ddyrannwyd yn unol â graddiad y Matrics Blaenoriaethu Buddsoddiad; cyllid a gafwyd o ffynonellau ar wahân i'r Awdurdod Tân (grantiau Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, buddsoddiad mewn partneriaeth).

Mae ein hymrwymiad yn glir. Erbyn 2036, dylai pob gorsaf a chyfleuster cynnal fod wedi'i wella, ei asesu neu ei gynllunio yn unol â'r strategaeth hon. Y nod yw bod ag ystâd sy'n fwy diogel, yn fwy cynhwysol, yn fwy cynaliadwy, yn fwy gwydn ac sy'n gallu cefnogi cymunedau Gogledd Cymru ar gyfer y genhedlaeth nesaf.



14. Casgliad

Mae'r Strategaeth yr Ystâd hon ar gyfer 2026–2036 yn ddatganiad o uchelgais ac yn rhaglen weithredu ymarferol. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth o'r asesiad o gyflwr stoc, arolygon datgarboneiddio a'r seilwaith digidol, gwaith addasrwydd gweithredol, yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, proses achos busnes Hwb Awen a'r gwaith o drawsnewid trefniadau rheoli cyfleusterau. Mae hefyd yn adlewyrchu barn y rhai sy'n gweithio yn, yn rheoli ac yn dibynnu ar gyfleusterau GTAGC bob dydd.

Mae'r heriau'n sylweddol. Mae'r Gwasanaeth yn wynebu atebolrwydd cynnal a chadw ôl-gronnus amcangyfrifedig, gofynion rheoli halogiad, cyfleusterau y mae angen iddynt adlewyrchu gweithlu modern a chynhwysol yn well, a rhwymedigaeth gyfreithiol i ddatgarboneiddio'r ystâd a'r fflyd erbyn 2030. Mae'r materion hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd, urddas, diogelwch ac effeithiolrwydd gweithredol personél GTAGC.

Fodd bynnag, mae sylfeini cryf eisoes yn eu lle. Mae'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Hwb Awen wedi symud ymlaen trwy'r prosesau llywodraethu; mae cynlluniau gweithredol ar y gweill ar gyfer Bangor, Dolgellau a Phorthmadog; mae arolygon cyflwr adeiladau, datgarboneiddio a digidol cynhwysfawr wedi'u cwblhau; ac mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi dilysu'r ystâd bresennol o orsafoedd. Mae'r cyflawniadau hyn yn darparu llwyfan clir ar gyfer gwelliannau hirdymor i'r ystâd.

Cryfder y strategaeth hon yw ei hedau aur clir. Mae materion strategol sy'n sbarduno'r galw ar y gwasanaeth yn arwain at flaenoriaethau diffiniedig, mae blaenoriaethau'n arwain at opsiynau, mae opsiynau'n cael eu hasesu trwy'r Fframwaith Asesu'r Ystâd a'r Matrics Blaenoriaethu Buddsoddiad, a chaiff prosiectau wedyn eu gosod yn y cynllun cyflawni a'u monitro trwy ddangosyddion perfformiad.

Bydd y penderfyniadau a wneir trwy'r strategaeth hon yn siapio ystâd GTAGC am genhedlaeth. Byddant yn pennu ansawdd, cynaliadwyedd a chynhwysiant y cyfleusterau a ddarperir i ddiffoddwyr tân, staff a chymunedau ledled Gogledd Cymru.

Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu'n ffurfiol hanner ffordd drwyddi yn 2031 a'i hadnewyddu ar gyfer 2036–2046. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd yn flynyddol i Bwyllgor Adnoddau'r Awdurdod Tân a'i graffu arno bob chwarter gan y Pwyllgor Tir ac Eiddo a'r â'r Gweithgor Tir ac Eiddo.



**Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service**

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026	
Swyddog Arweiniol	Dawn Docx – Prif Swyddog Tân	
Swyddog Cyswllt	Natalie Jones – Swyddog Iaith Gymraeg	
Pwnc	Adroddiad Monitro'r Gymraeg 2025-26	

Pwrpas yr Adroddiad

1. Cyflwyno Adroddiad Monitro Blynnyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2025/26 i'w gymeradwyo gan yr Aelodau, mewn perthynas â:
 - Chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 155,161,167, sy'n manylu bod yn rhaid i'r Awdurdod lunio adroddiad monitro bob blwyddyn ariannol.

Crynodeb Gweithredol

2. Mae'r Adroddiad sydd ynghlwm yn amlinellu sut mae'r Gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
3. Mae'r Adroddiad Monitro yn tynnu sylw at sut rydym wedi monitro, hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Adroddiad hefyd yn rhannu gwybodaeth am Ddatblygiad y Gymraeg o fewn y Gwasanaeth yn ogystal â'r cyfleoedd sydd wedi'u nodi i wella yn y dyfodol.

Argymhelliad

4. Argymhellir bod yr Aelodau yn:
 - i. **Cymeradwyo Adroddiad Monitro Blynnyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2025/26 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod; ac yn**
 - ii. **nodi bwriad y Gwasanaeth i roi cyhoeddusrwydd i'r ddogfen fel y nodir yn Safonau 155,161,167. Bydd y cyhoeddiad ar wefan y Gwasanaeth a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol (sef Facebook ac Instagram)**

Cefndir

5. Ers 30 Mawrth 2017, mae'n rhaid i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Caiff y rhain eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg ac maen nhw'n disodli'r system cynlluniau iaith Gymraeg flaenorol. Rhaid i'r Gwasanaeth lunio adroddiad blynyddol i ddweud sut mae wedi cydymffurfio â'r safonau.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5), sy'n cynnwys:

- **Safonau cyflenwi gwasanaethau** – sut rydym yn cyflenwi Gwasanaethau mewn ffordd sy'n hyrwyddo neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- **Safonau llunio polisi** – sy'n gofyn inni ystyried pa effaith y bydd ein penderfyniadau polisi yn ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- **Safonau gweithredu** – sy'n ymdrin â'n defnydd o'r Gymraeg yn fewnol;
- **Safonau cadw cofnodion** – sy'n ei gwneud hi'n angenrheidiol cadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion a gawn sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r cofnodion hyn yn cefnogi gwaith rheoleiddiol y Comisiynydd. Mae safonau ychwanegol i ymdrin â materion Atodol yn gyffredinol, sut rydym yn cyhoeddi ac yn adrodd ar ein cydymffurfiaeth, gweithdrefnau cwyno, trefniadau goruchwyllo, dyrchafiadau, a sut rydym yn adrodd i'r Comisiynydd.

Mae'r Safonau'n egluro sut y dylai cyrff drin/defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd, e.e. anfon gohebiaeth, delio â galwadau ffôn, darparu Gwasanaethau wyneb yn wyneb, llunio polisiau, a darparu Gwasanaethau'n fewnol i staff. Maen nhw hefyd yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei wneud, a'r hyn y gallwn ei wneud, mewn perthynas â sicrhau a monitro sgiliau Cymraeg y gweithlu.

Gwybodaeth

6. Mae'r Adroddiad Monitro sydd ynghlwm yn amlinellu sut mae'r Gwasanaeth wedi cydymffurfio â'r safonau a grybwyllir uchod, yn bennaf y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau a'r Safonau Gweithredu.

7. Mae hefyd yn tynnu sylw at sut rydym wedi monitro, hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o fewn y gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Adroddiad hefyd yn rhannu gwybodaeth am Ddatblygiad y Gymraeg o fewn y Gwasanaeth yn ogystal â'r cyfleoedd sydd wedi'u nodi i wella yn y dyfodol.

8. **Crynodeb Adroddiad Monitro'r Gymraeg 2025–2026**

- Mae'r galw am wasanaethau Cymraeg wedi cynyddu, ac mae hynny'n amlwg pan edrychwn ar nifer y galwadau a gafodd eu trin trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2025/26. Fe wnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 1,364 o alwadau yn Gymraeg, gan gynnwys galwadau brys ac adroddiadau llosgi dan reolaeth. Mae'r adroddiad yn dangos bod hyn wedi cynyddu 150% dros y pum mlynedd diwethaf, gan adlewyrchu llwyddiant y gwaith o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn weithredol ac annog aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Gwasanaeth.
- Mae'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gwaith Atal yn parhau i fod yn gryf ac ar gynnydd. Cyflawnwyd cyfanswm o 1,927 o Archwiliadau Diogel ac lach mewn aelwydydd lle cofnodwyd mai Cymraeg oedd yr iaith a ffefrir. Mae hyn yn gynnydd o'r 1,817 a wnaed yn y flwyddyn flaenorol. Gwnaed gwelliannau i systemau cofnodi hefyd, gyda'r nod o gryfhau ansawdd data a gwella ein dealltwriaeth o ba iaith a ddefnyddir yn ystod ymweliadau. Ychwanegwyd cwestiwn i nodi ai'r Gymraeg yw'r iaith a ffefrir, a hefyd i nodi a gynhaliwyd yr archwiliad yn y Gymraeg neu ddim.
- Ar 31 Mawrth 2026, nododd 810 o staff (90.9%) fod ganddyn nhw sgiliau Cymraeg ar Lefel 1 neu uwch, gyda 362 o staff (40.4%) yn cael eu dosbarthu fel siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae hyn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.
- Ni chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol ynglŷn â'r ddarpariaeth Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

- Cynhaliwyd amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys hyfforddiant gloywi Cymraeg i siaradwyr rhugl, sesiynau Paned a Sgwrs misol, a Tanio Sgwrs. Daeth cyfanswm o 40 aelod staff i'r ddwy sesiwn, a chafwyd adborth cadarnhaol.

9. Cyfleoedd yn y Dyfodol

- Cyfleoedd dysgu Cymraeg ar gyfer staff Amser Cyflawn a Staff Ar Alwad, gan sicrhau mynediad teg at gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar draws y gweithlu.
- Parhau i ehangu mentrau mewnol sy'n meithrin hyder ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn y gweithle.
- Datblygu rhagor o weithgareddau hyrwyddo'r Gymraeg allanol, gan gynnwys digwyddiadau ymgysylltu mewn gorsafoedd tân, er mwyn annog y cyhoedd i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Gwasanaeth.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	
Cyllideb	Dim wedi'u nodi
Cyfreithiol	Mae'r ddogfen yn cyflawni dyletswyddau'r Awdurdod o dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
Staffio	Nid oes rhai wedi'u nodi
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Mae'r goblygiadau i'r Gymraeg wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.
Risgiau	Nid oes rhai wedi'u nodi

Safonau'r Iaith Gymraeg

Adroddiad Blynyddol 2025-2026

Adroddiad ar sut rydym yn cwrdd â safonau, a sut mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a thrwy'r Gwasanaeth yn cael eu hyrwyddo a'u hwyluso

Dyddiad Cyhoeddi: Gorffennaf 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg | This publication is available in Welsh



Adroddiad blynyddol ar y Gymraeg yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Trosolwg

Dyma adroddiad blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2025 - 2026. Mae'n gwerthuso ein cydymffurfiaeth â'r Safonau, a'r ffyrdd y mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi'u hyrwyddo a'u hwyluso, gan sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg yn ystod y flwyddyn. Fe'i paratowyd yn unol ag Atodlen 4 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016, i fodloni gofynion safonau 158, 164 a 170.

Gwybodaeth bellach

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn www.tangogleddcymru.llyw.cymru. Os oes ei angen arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Swyddog Iaith Gymraeg,
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salisbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Croesewir galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd defnyddio'r Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

Dogfennau cysylltiedig

Mae ein hysbysiad cydymffurfio o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar gael ar ein [gwefan](#).

Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Atebolrwydd a Llywodraethu	4
Cefndir	5
Safonau'r iaith Gymraeg	6
Cydymffurfio gyda'r Safonau iaith Gymraeg	7
Safonau Darparu Gwasanaeth:	7
Safonau Gweithredol:.....	8
Pendodiadau a Dyrchafiadau Diweddar	9
Monitro, hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o fewn y gwasanaeth	10
Datblygu Sgiliau Cymraeg	13
Cyfleoedd Gwella ar Gyfer y Dyfodol	13





Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein hardal gwasanaeth a'r amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol yn ein cymunedau. Rydym wedi ymrwymo i'n dyletswydd gyfreithiol a moesegol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r iaith Saesneg wrth gynnal ein busnes.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd gyfreithiol ar ATAGC i gydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â hyrwyddo, codi ymwybyddiaeth a hwyluso'r Gymraeg yn ein gwasanaeth tân ac achub.

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'n gwerthoedd craidd ac yn hanfodol i'n hegwyddorion Pobl, Atal ac Amddiffyn, sy'n rhan o'n [Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024 – 2029](#).

Mae ein hegwyddor Pobl yn ymrwymo i recriwtio a datblygu gweithlu dwyieithog i gynrychioli demograffig ein hardal. Mae ein hegwyddor Atal yn canolbwyntio ar leihau risgiau i'n cymunedau drwy ymgysylltu â phob person yng Ngogledd Cymru a chynnig dewis iaith yn weithredol. Yn ogystal, mae ein mae egwyddor diogelu yn golygu ymgysylltu â busnesau Gogledd Cymru, y mae llawer ohonynt yn cyfathrebu â ni yn Gymraeg.

Atebolrwydd a Llywodraethu

O fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), mae'r Gymraeg yn cael ei llywodraethu fel rhan o'n strwythur sefydliadol drwy Grŵp Llywodraethu'r Gymraeg, dan gadeiryddiaeth ein Swyddog y Gymraeg ac mae ganddo aelodau sy'n eistedd ar y grŵp o wahanol rannau o'r Gwasanaeth. Mae gan Swyddog y Gymraeg, sy'n aelod o'r adran Cyfathrebu Corfforaethol, gyfrifoldeb am weithredu Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth. Mae Grŵp Llywodraethu'r Gymraeg yn adrodd i'n Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Tân (PST). Mae'r Prif Swyddog Tân yn arwain y Gymraeg ac mae ganddi gyfrifoldeb rheoli llinell ar gyfer yr adran Cyfathrebu Corfforaethol.

Yn ystod 2025/2026, mae ATAGC wedi parhau gydag ymdrechion i weithredu Safonau'r Gymraeg a'u gofynion. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg; sut rydym yn monitro, hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth; a'r cyfleoedd ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac wedi'i gymeradwyo wedyn gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2026.



Disodlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth hon, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân Gogledd Cymru gydymffurfio â set o Safonau'r Gymraeg sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ddyletswyddau cydymffurfio i awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae'r ddogfen hon yn rhestru pa rai o'r Safonau, fel y'u rhestrir yn llawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016, y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2023/24 erbyn Medi 2024 a rhoi cyhoeddusrwydd priodol iddo.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal er mwyn cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog cymunedau, yn erbyn cefndir o dreftadaeth naturiol a diwylliannol arwyddocaol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod ei ddyletswydd tuag at ei staff, y rhan fwyaf ohonynt yn drigolion Gogledd Cymru, ac sydd eu hunain yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau eu hunain.

Trwy gydnabod ei ddyletswyddau moesol a chyfreithiol i warchod treftadaeth ddiwylliannol yr ardal a chwrdd â disgwyliadau'r gymuned leol, mae'r Awdurdod yn parhau i weithio tuag at sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes cyhoeddus yn y ddwy iaith.

Mae Cynllun Gweithredu'r Awdurdod ar gael i'w weld drwy ddefnyddio'r ddolen isod;

[Safonau'r Gymraeg](#)

Safonau'r Gymraeg

Yn ystod 2025/26, cydymffurfiodd yr Awdurdod â'r set o Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd yn yr [Hysbysiad Cydymffurfio dyddiedig 30 Medi 2016](#). Buom hefyd yn gweithio ar y cyd â grwpiau iaith allanol drwy'r Swyddog Iaith Gymraeg, yn ogystal â rheoli llywodraethu mewnol y Gymraeg drwy Grŵp Llywodraethu'r Gymraeg. Mae gan y grŵp hwn gynrychiolaeth o bob rhan o'n tân ac achub ac mae'n gwasanaethu'r diben o;

- Cydlynu rhwng adrannau ar faterion y Gymraeg
- Craffu a chynnig arweiniad i wella unrhyw agwedd ar ddarpariaeth ddwyieithog y Gwasanaeth
- Cydweithio ar sut i ddatrys unrhyw heriau neu gwynion
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin mor ffafriol â'r iaith Saesneg o fewn y Gwasanaeth.

Mae materion cyfieithu Cymraeg yn cael eu contractio i gwmni allanol i helpu i gyflawni'r holl rwymedigaethau a osodir gan Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau i gydweithio â chydweithwyr yn y ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru a'r Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (NFCC) i rannu gwybodaeth am arferion gorau a sicrhau dull safonol.



Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Safonau Darparu Gwasanaethau:

Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio sy'n rhestru'r Safonau hyn i'w weld ar [wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru](#). Mae'r Safonau hyn yn ymwneud â'n gweithgareddau sy'n delio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd a sut rydym yn delio â'n defnyddwyr gwasanaeth, boed yn bersonol, dros y ffôn, neu ar-lein, yn ogystal ag unrhyw gyhoeddiadau print neu ar-lein.

Gwnaed trefniadau i fodloni'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau sydd wedi dod i rym gan gynnwys y canlynol:

Mae swyddi gwag yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd, lle mae galwadau allanol yn cael eu cyfeirio atynt, yn cael eu hysbysebu gyda gofyniad i rhugl yn y Gymraeg llafar, y gofyniad hwn yw sicrhau bod dewis iaith rhagweithiol yn cael ei gynnig i unrhyw alwr sy'n dymuno siarad Cymraeg. Yn ystod 2025/26 croesawom chwe aelod newydd o staff i'r ystafell reoli, pob un ohonynt yn meddu ar y sgiliau Cymraeg angenrheidiol ar ôl eu penodi..


Casglir data ar faint o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cysylltu â ni yn Gymraeg, at ddibenion monitro a gwerthuso. Ar 31 Mawrth 2026, debryniodd yr Ystafell Rheoli **1,364** o alwadau yn Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys galwadau 999 ac adroddiadau o losgiadau dan reolaeth yn ogystal â galwadau mewnol.

Mae monitro'r galwadau hyn wedi ein galluogi i gydnabod y cynnydd sylweddol yn nifer y galwadau Cymraeg a dderbynnir, gan weld twf o 150% dros y pum mlynedd diwethaf. Gallwn ddweud fod hyn yn dyst o'n ymdrechion i hyrwyddo ein gwasanaeth Cymraeg yn weithredol gan ddefnyddio sawl ffrwd, yn unol â chynghor gan y Comisiynydd yr Iaith Gymraeg sy'n nodi y dylai gwasanaethau Cymraeg nid yn unig fod ar gael, ond hefyd eu hyrwyddo a'u hysbysebu yn weithredol i annog defnydd.

Y Gwasanaeth yma ydi un o'r prif ffyrdd y mae'r cyhoedd yn cysylltu gyda ni. Mae argaeledd y gwasanaeth hwn yn cael ei hyrwyddo'n rheolaidd ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth ac mewn digwyddiadau cyhoeddus a fynychir i godi ymwybyddiaeth allanol.

Safonau 62 - 64

Mae polisi'r gwasanaeth yn nodi bod yn rhaid i staff sydd â swyddi sy'n delio â'r cyhoedd fod yn rhugl yn yr iaith Gymraeg. Ar y 31ain o Fawrth 2026, roedd 96 aelod o staff yn meddiannu swyddi gyda'r dynodiad yma o fewn y Gwasanaeth. O'r swyddi hyn, nid yw 19 wedi cyrraedd y lefel ofynnol ar gyfer eu swydd. Wrth edrych ymhellach, o'r rolau hyn, mae dwy yn swyddi a allai fod â chysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd tra nad yw'r 17 arall yn disgyn i'r categori yma.



Data sy'n dangos y cynnydd yn nifer y galwadau a ymdriniwyd yn Gymraeg rhwng 2020-2025

Safonau Gweithredol:

Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio sy'n rhestru'r safonau hyn i'w weld ar [wefan](#) y Gwasanaeth. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â'n defnydd mewnol o'r Gymraeg. Maent yn rhoi dyletswydd arnom i annog y defnydd o'r Gymraeg yn ein gweinyddiaeth ac i gefnogi ein swyddogion a'n cynghorwyr i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith.

Gwnaed trefniadau i fodloni'r Safonau Gweithredol hyn, gan gynnwys y canlynol:

Safonau 125 – 132

Mewn perthynas â datblygu sgiliau iaith Gymraeg ein staff, trafodir y darpariaethau a wnaed isod;

Yn ystod 2025/26 darparwyd un cwrs Cymraeg lefel 2 i staff drwy bartneriaeth â Choleg Cambria.

Gall staff hefyd gael mynediad i'r deunyddiau hunan-ddysgu sydd ar gael ar ein [tudalen Gymraeg mewnwyd Hwb Tân](#) yn ogystal â derbyn cefnogaeth gan Swyddog y Gymraeg neu hyrwyddwr y Gymraeg. Cynigir sesiynau sgwrsio, gan gynnwys sesiynau 1-i-1, i hyrwyddo a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Gall staff hefyd gael mynediad at danysgrifiadau taledig i'r ap hunanddysgu Cymraeg 'Say Something in Welsh' i helpu gyda'u dysgu.

Ein menter newydd eleni yw cynnal sesiynau misol 'Paned a Sgwrs' a gynhelir mewn gwahanol adran a Gorsafoedd o'r Gwasanaeth bob mis. Mae hyn wedi hwyluso presenoldeb gan ein bod yn deall na all pob aelod o staff adael eu man gwaith i fynychu sesiynau mewn mannau eraill yn y Gwasanaeth.

Yn ystod 2025/26, cwblhaodd wyth aelod o staff gwrs gloywi ysgrifennu Cymraeg, er mwyn hwyluso eu defnydd o'r Gymraeg yn eu diwrnod gwaith. Hwyluswyd y cwrs hwn gan gwmni allanol ac roedd yn cynnwys canllawiau ar ysgrifennu llythyrau ac e-byst i'r cyhoedd.

Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith yn parhau i gael ei gynnig mewn dwy ffordd; yn gyntaf wyneb yn wyneb, fel arfer ar gyfer staff gweithredol sy'n ymuno mewn grwpiau. Yn ail, darperir modiwl ar-lein trwy ein platfform LearnPro ar ymwybyddiaeth iaith.

Mae'r gofyniad i gynnwys y Gymraeg ar lofnodion e-bost a negeseuon 'y tu allan i'r swyddfa' yn cael ei hyrwyddo'n fewnol. Mae enghreifftiau ar gael ar ein [tudalen fewnwyd Hwb Tân](#) ynghyd â logos perthnasol. Mae staff hefyd yn cael llinynnau sy'n nodi a ydyn nhw'n siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n siaradwyr Cymraeg newydd.

Safon 143

Mae cwynion yn cael eu monitro a'u trin gan yr Adran Adnoddau Dynol a'r Uned Cymorth Busnes. Mae cwynion a llythyrau gwerthfawrogiad yn cael eu hadrodd yn flynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi gweithdrefn gwyno ar ein gwefan ac mae ganddo bolisi mewnol ar gyfer staff ar sut i godi pryder neu gŵyn.

Yn ystod 2025/26 ni chawsom unrhyw gwynion ffurfiol ynglŷn â'n cydymffurfiaeth a'n darpariaeth Gymraeg.

Safonau 147, 150, 151

Ar y 31ain o Fawrth 2026, roedd 810 o'n staff (90.92%) yn gallu dangos bod ganddynt sgiliau Cymraeg (Lefel 1 ac uwch), ac roedd 362 (40.41%) ohonynt yn siaradwyr rhugl (sgiliau Lefel 4 a 5). Mae hyn yn gynydd o tua 2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol sy'n dangos ein hymrwymiad i hyrwyddo swyddi gyda siaradwyr Cymraeg.

Ar y cyfan, roedd gan 880 (98.3%) o'n staff naill ai gofnod ffurfiol neu hunanasesiad ar gyfer eu sgiliau Cymraeg.

Efallai na fydd staff sydd wedi bod yn cael eu cyflogi am lai na 12 mis wedi'u hasesu eto, gan fod polisi'r Gwasanaeth yn caniatáu tan ddiwedd eu cyfnod prawf i gyrraedd yr isafswm lefel sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer eu swydd. Fodd bynnag, ar 31 Mawrth 2025, roedd 86 aelod o'n staff sydd â llai na 12 mis o wasanaeth wedi cael asesiad ar eu sgiliau Cymraeg.

Mae sgiliau Cymraeg pob aelod newydd o staff yn cael eu hasesu naill ai cy neu penodiad pan fo rhuglder Cymraeg yn rhan hanfodol o'u rôl, neu'n hwyrach yn ystod eu cyflogaeth. Mae'n ofynnol i staff sydd ddim yn meddu ar sgiliau Cymraeg o leiaf Lefel 2 i ddatblygu'r sgiliau hyn o fewn blwyddyn o gyflogaeth.

Penodiadau a dyrchafiadau diweddar

Mae sgiliau Cymraeg ein staff yn ystod dyrchafiad a recriwtio yn cael eu tracio i nodi'r angen am ddatblygu sgiliau.

Yn ystod 2025-2026 roedd gan yr holl staff sy'n ymwneud â'n prosesau byrddau dyrchafiad eisoes â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol ar gyfer eu swyddi ac felly ni fydd angen unrhyw fonitro nac asesiadau pellach.



Monitro, hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o fewn y gwasanaeth

Mae monitro a hyrwyddo mentrau'r Gymraeg ymhlith staff yn cael eu cyflwyno'n fewnol mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg i'r cyhoedd hefyd yn cael eu hyrwyddo a'u hamlygu drwy ymgyrchoedd allanol

Mae monitro'r Gymraeg yn digwydd drwy'r strwythur sicrwydd gwasanaeth sy'n gweld grŵp llywodraethu'r Gymraeg yn cyfarfod bob chwarter i drafod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r grŵp yn adrodd i'r pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyda diweddariad ar ddata a throsolwg blynyddol o'r holl

dangosyddion perfformiad y Cymry. Mae'r grŵp hefyd yn adrodd i'r Pwyllgor Adnoddau Sefydliadol ar faterion sy'n ymwneud â sgiliau iaith Gymraeg staff a/neu wybodaeth recriwtio.

Mae cynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg yn parhau i gynnig lwfans ariannol i aelodau o staff sy'n rhan o'r cynllun i wobrwyo eu hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg yn eu hadrannau neu orsafoedd tân.

Mae Hyrwyddwyr y Gymraeg wedi'u lleoli ar draws ardal y Gwasanaeth ac ar draws swyddogaethau. Maent yn helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith, i gefnogi staff gydag asesiadau Cymraeg, ac i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg i staff eraill. Mae'n ofynnol i Hyrwyddwyr y Gymraeg gyflwyno ffurflen dasg chwarterol yn nodi eu cyflawniadau i dderbyn eu lwfans ac mae hyn yn rhoi cipolwg ar y gwaith hyrwyddo a wnaed rhwng staff.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r cydweithrediad ymhlith yr aelodau staff hyn ac rydym yn bwriadu cyflwyno cyfarfodydd blynyddol i rannu arfer da.

Mae bwletin misol 'Mercher 'Marfer' yn rhannu gwybodaeth am y Gymraeg i staff, gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a sut i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Hefyd mae unrhyw ddigwyddiadau lleol yn cael eu rhannu fel y gall staff fynychu os yn dymuno.

Hefyd yn cynnwys adran sy'n atgoffa staff o Safonau'r Gymraeg allweddol a'r ffyrdd y medran nhw sicrhau cydymffurfiaeth e.e. llofnodion e-bost dwyieithog a negeseuon y tu allan i'r swyddfa. Mae'r data o'r flwyddyn ddiwethaf yn dangos bod y bwletin hwn yn derbyn cyfartaledd o 87 o agoriadau unigryw yn Gymraeg a 194 yn Saesneg y mis.

Mae ymgysylltu â staff yn ystod digwyddiadau cenedlaethol Cymru yn rhan allweddol o hyrwyddo ein hymrwymiad i ddewis iaith.

Ymunodd ein staff o orsaf dân Caergybi â'r Swyddog Iaith Gymraeg i fynychu dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn y dref fel rhan o dathliadau ehangach Menter Môn, gydag ysgolion lleol yn gorymdeithio drwy'r dref.



Aelodau staff yng ngorymdaith Dydd Gŵyl Dewi yng Nghaergybi



Aelod o staff yng Ngorsaf Dân y Rhyl gyda gwobr cwis Dydd Gŵyl Dewi

Mae'r cyfleoedd hyn yn cychwyn ymgysylltu â staff ledled y Gwasanaeth ac mae hefyd yn arwain at fwy o ymgysylltu â thudalennau Cymraeg cyfathrebu mewnol.

Enillodd aelod o staff o Orsaf Dân y Rhyl y wobr ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi 2026 a oedd yn ddetholiad o nwyddau lleol.

Fel rhan o'r polisi Cymraeg – defnydd mewnol a gyflwynwyd yn ystod 2025, mae wedi'i gynnwys y bydd enwau gorsafoedd yn cael eu cyfeirio gan ddefnyddio eu ffurfiau Cymraeg ym mhob cyfathrebiad mewnol dim ond lle bo'n briodol.

Mae hyn wedi cael ei hyrwyddo a'i annog drwy gydol 2025-2026 drwy ein bwletinau Cymraeg, cylchlythyrau Cymraeg ac yn ein diweddariad wythnosol cyfathrebu mewnol. Mae poster hefyd wedi'i rannu yn atgoffa staff pa un o'n gorsafoedd oedd ag enwau Cymraeg a Saesneg,

Cynhaliwyd dau o'n gweithdai hyrwyddo'r Gymraeg blyneddol a galwn yn 'Tanio Sgwrs', sy'n anelu at hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith staff, yn ystod 2025-2026. Mae'r rhain yn gyfleoedd i staff ymgysylltu â'i gilydd drwy'r Gymraeg, yn ogystal â chlywed gan siaradwyr gwadd yn Gymraeg yn siarad am amrywiaeth o wahanol themâu. Nod y gweithdai hyn yw annog a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ymhlith staff, a dod â siaradwyr o bob gallu ynghyd gyda'r nod o annog siaradwyr Cymraeg newydd i ymarfer a magu hyder.

Roedd rhain yn rhan o ddatliadau ehangach ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, a chynhaliwyd dau weithdy y tro hwn yn ein gorsafoedd tân yn yr Wyddgrug a Dolgellau a mynychwyd gan 40 aelod o staff. Roedd y gweithdai 'Tanio Sgwrs' hyn yn hygyrch i staff ledled y Gwasanaeth gan roi cyfle i ddysgu mwy am y Gymraeg fel iaith fodern a ffyniannus mewn mannau y tu hwnt i'r gweithle.

Ymhlith y siaradwyr eleni roedd Ywain Myfyr, un o gyfarwyddwyr a sylfaenwyr Sesiwn Fawr Dolgellau; Kris Hughes, sylfaenydd a phennaeth Urdd Derwyddon Ynys Môn; Joseff Roberts, sy'n rhedeg cwmni Tirlun ac sy'n grewr cynnwys cyfryngau cymdeithasol sy'n archwilio hanes, mytholeg, iaith a thirwedd Cymru; Lowri, perchennog siop o Groesoswallt sydd wedi agor siop Gymraeg dros y ffin; hefyd daeth prif swyddog Menter iaith sir y Fflint a Wrecsam heibio i ddweud mwy wrthym am yr hyn sydd ar gael i drigolion y ddwy sir i gefnogi'r Gymraeg.

Diolch i'r holl siaradwyr am fynychu eleni, roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn ac unwaith eto mae staff wedi gwerthfawrogi'r cyfle i allu gwrandao a siarad yn Gymraeg.

Ein gorsafoedd yn Gymraeg Our station names in Welsh

Barmouth	→	Abermaw
Beaumaris	→	Biwmares
Buckley	→	Bwcle
Colwyn Bay	→	Bae Colwyn
Chirk	→	Y Waun
Deeside	→	Glannau Dyfrdwy
Denbigh	→	Dinbych
Flint	→	Fflint
Holyhead	→	Caergybi
Holywell	→	Treffynnon
Mold	→	Yr Wyddgrug
Ruthin	→	Rhuthun
Menai Bridge	→	Porthaethwy
St Asaph	→	Llanelwy
Wrexham	→	Wrecsam



Joseff Roberts, Tirlun, yn siarad yn ein digwyddiadau 'Tanio Sgwrs'



Aelodau staff yn mynychu 'Tanio Sgwrs' yng Ngorsaf Dân yr Wyddgrug

Cyflwynir gwobr ‘Cyfraniad i’r Gymraeg’ fel rhan o Seremoni Wobrwyo Gymunedol flynyddol y sefydliad i gydnabod unigolion sydd wedi dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo a chefnogi’r Gymraeg yn y gweithle.

Yn 2025, cyflwynwyd y wobr i Tina Griffiths, a oedd yn aelod o staff yn yr uned cefnogi busnes ar y pryd, i gydnabod ei chyfraniad at gefnogi cydweithwyr gyda’u dysgu Cymraeg ac annog defnydd o’r Gymraeg o ddydd i ddydd yn y gweithle. Tra’n gweithio fel arweinydd tîm, gweinyddwr ar gyfer y system ar ddyletswydd ar alwad yn ogystal â’r Adran Weithrediadau yn y Rhyl, darparodd Tina gymorth anffurfiol parhaus i staff sy’n ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg, gan gynnwys cynorthwyo gyda gwaith cwrs, ymarfer sgwrsio, a chynnal hyder dysgwyr yn ystod toriadau i’r ddarpariaeth ffurfiol.



Tina Griffiths yn derbyn y wobr ‘Cyfraniad at yr iaith Gymraeg’ gan y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub.

Cyfrannodd ei hanogaeth o ddefnyddio’r Gymraeg mewn rhyngweithiadau bob dydd yn gadarnhaol at ddatblygiad sgiliau Cymraeg ymhlith cydweithwyr. Ar ôl ei phenodi’n ddiffoddwr tân llawn amser yn ddiweddarach, mae Tina hefyd wedi ymgymryd â rôl Hyrwyddwr y Gymraeg yng Ngorsaf Dân y Rhyl.

Un o’n prif ffyrdd o ymgysylltu â’r gymuned yw trwy gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach (SAWCs) yn eu cartrefi. Yn 2025-2026 cynhaliwyd 1,927 o Archwiliadau Diogel ac Iach lle nodwyd mai Cymraeg oedd yr iaith a ffeirir yn y cartref, sy’n gynydd wrth i ni gymharu â 1,817 yn y flwyddyn flaenorol.

Er mwyn gwella sut yr ydym yn adrodd ar ddata Archwiliadau Diogel ac Iach Cymraeg, mae’r ffurflen mewnbynnu data wedi’i diwygio fel bod y Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf pan ofynnir i staff am iaith y defnyddiwr gwasanaeth ac mae’n gwestiwn gorfodol. Rydym hefyd wedi ychwanegu cwestiwn pellach i helpu i sefydlu’r brif iaith a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymweliad.

Mae hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg yn fewnol drwy sesiynau misol ‘Paned a Sgwrs’ wedi bod yn llwyddiant eleni gyda chwe digwyddiad wedi’u cynnal ar draws ein hardaloedd Gwasanaeth i sicrhau bod staff o bob gorsaf ac adran yn cael yr un cyfleoedd i fynychu. Rydym wedi cael staff o bob gallu Cymraeg yn mynychu i helpu i wella a derbyn cefnogaeth ac adnoddau gyda’u taith Gymraeg. Mae’r sesiynau wedi derbyn adborth cadarnhaol gyda staff yn mynegi eu bod yn gwerthfawrogi’r cyfle i allu defnyddio’r Gymraeg gyda chydweithwyr newydd mewn lleoliad anffurfiol.



Datblygu sgiliau Cymraeg

Mae'r Adran Hyfforddiant a Datblygu yn cadw cofnod o'r cyrsiau Cymraeg a fynychwyd gan ein staff a'r holl asesiadau y maent wedi'u cynnal ac yn cadw cofnodion o'r canlyniadau ar system gofnodi fewnol.

Ar ôl asesiad iaith Gymraeg, mae gallu staff yn cael ei gofnodi wedyn ar y system iTrent a ddefnyddir i gofnodi gwybodaeth fewnol staff fel ceisiadau am wyliau ac amserlenni.

Mae cyrsiau Cymraeg yn digwydd yn fewnol drwy gydweithio â Choleg Cambria ac maent ar gael ar gais gyda'r gwaith yn mynd rhagddo i hwyluso'r cyrsiau hyn ymhellach ar gyfer aelodau staff Gweithredol Ar Alwad.

Yn ystod 2025-2026 roedd y nifer a fynychodd gyrsiau dysgu Cymraeg yn cynnwys y canlynol;

- Dau aelod o staff yn mynychu ac yn pasio cwrs Cymraeg lefel 2
- Wyth aelod o staff Newydd yn gwella eu Cymraeg drwy ddefnyddio'r Ap Say Something in Welsh sy'n cael ei hwyluso gan y Gwasanaeth am 12 mis ar gyfer staff sydd ei hangen.

Mynychodd aelodau staff sydd yn rhugl yn y Gymraeg, gwrs gloywi ysgrifennu Cymraeg gyda'r nod o helpu gyda gramadeg cyffredin, ysgrifennu llythyrau ffurfiol a sut i wahaniaethu wrth ysgrifennu neges anffurfiol neu e-bost i ohebiaeth fwy ffurfiol.

Cyfleoedd Gwella ar gyfer y Dyfodol

Mae'r blaenoriaethau canlynol wedi'u nodi i gefnogi cynnydd parhaus a mynd i'r afael â meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach yn 2026-2027:

- Hwyluso cyrsiau Cymraeg a chyfleoedd dysgu i'n haelodau staff Llawn Amser ac Ar Alwad er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd ag aelodau staff eraill.
- Parhau i weithio i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a magu hyder gyda mentrau mewnol.
- Manteisio ar fentrau allanol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg, ac i annog defnyddio'r Gymraeg gyda ni fel Gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau cyhoeddus yn ein gorsafoedd tân.



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Adroddiad i	Yr Awdurdod Tân Llawn	
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026	
Swyddog Arweiniol	Dawn Docx, Prif Swyddog Tân	
Swyddog Cyswllt	Chris Dinwoodie, Rheolwr Datblygu Sefydliadol	
Pwnc	Adroddiad Asesu Perfformiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Blynnyddol 2025/26	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Cyflwyno'r Adroddiad Asesu Perfformiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) Blynnyddol ar gyfer 2025/26, a cheisio cymeradwyaeth i'w gyhoeddi yn unol ag ymrwymadau statudol a sefydliadol.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Blynnyddol ar gyfer 2025/26 yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed yn erbyn Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant pum mlynedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Mae'n dangos sut mae'r Gwasanaeth wedi parhau i ymgorffori cynhwysiant yn ei ddiwylliant sefydliadol, wedi gwella amrywiaeth y gweithlu, ac wedi darparu gwasanaethau cynhwysol i gymunedau.
- 3 Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at waith partneriaeth a wnaed a chamau a gymerwyd mewn ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o'r Diwylliant, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i greu gweithle lle gall pawb ffynnu.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL

- 4 Nodwyd bod y bwlch cyflog rhywedd yn culhau ac yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd cenedlaethol, a ategwyd gan gynnydd calonogol wrth i staff gael eu cefnogi fwyfwy i fynd ar drywydd cyfleoedd dyrchafiad o fewn y sefydliad.
- 5 Nodwyd bod yr adroddiad yn tynnu sylw at waith partneriaeth a chamau a gymerwyd mewn ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o'r Diwylliant, gan atgyfnerthu ymrwymiad y Gwasanaeth i greu gweithle lle gall pawb ffynnu.

ARGYMHELLIAD

- 6 Argymhellir bod yr Aelodau yn:
 - i) **Cymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Blynnyddol 2025/26 ar wefan y Gwasanaeth**

CEFNDIR

- 7 Yn 2024, lansiodd y Gwasanaeth Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant pum mlynedd er mwyn cefnogi cyflwyno'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol, a chynnal gwerthoedd sefydliadol. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bedwar nod allweddol: ymgorffori cynhwysiant mewn diwylliant sefydliadol; denu, recriwtio a chadw pobl dalentog; darparu gwasanaethau cynhwysol i gymunedau; a datblygu partneriaethau effeithiol.
- 8 Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn ystod 2025/26, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r adroddiadau ar Fonitro Cydraddoldeb a'r Bwlch Cyflog Rhywedd.

GWYBODAETH

- 9 Mae Adroddiad Asesu Perfformiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2025/26 yn dangos bod y Gwasanaeth wedi parhau i wneud cynnydd mesuradwy o ran ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y sefydliad. Mae'r adroddiad yn dangos gwelliant parhaus wrth ymgorffori arferion cynhwysol ar draws y sefydliad, gyda chefnogaeth goruchwyliaeth arweinyddiaeth gryfach, datblygu'r gweithlu a monitro canlyniadau cydraddoldeb parhaus.
- 10 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran denu, datblygu a chefnogi gweithlu mwy amrywiol. Roedd hyn yn cynnwys gweithgarwch gweithredu cadarnhaol cyfreithlon wedi'i dargedu i annog ceisiadau gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, yn enwedig menywod sy'n ceisio am rolau diffoddwyr tân, ynghyd â gwelliannau cymedrol yng nghynrychiolaeth y gweithlu. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at ostyngiad sylweddol yn y bwlch cyflog rhywedd cymedrig, o 8.29% i 5.27%, sy'n welliant calonogol ac yn gosod y Gwasanaeth yn is na chyfartaledd presennol y DU.
- 11 Mae'r adroddiad yn amlinellu ymhellach y camau a gymerwyd i wella hygyrchedd a chynhwysiant ein gwaith o ddarparu gwasanaethau i gymunedau ledled Gogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant staff ychwanegol, mwy o ymgysylltu gyda grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, a gweithio mewn partneriaeth i gefnogi gwaith atal, ymgynghori ac ymddiriedaeth gymunedol. Mae'r adroddiad yn dod i ben trwy nodi blaenoriaethau 2026/27, gan gynnwys mwy o ddatblygu arweinyddiaeth, gweithgarwch gweithredu cadarnhaol parhaus, monitro data gweithlu cryfach, ac ehangu rhwydweithiau cymorth staff.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Cefnogi gweithlu mwy cyfartal a chynhwysol sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
Cyllideb	Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol y tu hwnt i ymrwymadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant presennol.
Cyfreithiol	Cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r rheoliadau cysylltiedig.
Staffio	Atgyfnerthu ymrwymiad i arferion recriwtio, dilyniant a chadw teg.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant; adroddiad ar gael yn ddwyieithog.
Risgiau	Byddai methu â chyhoeddi yn peryglu enw da ac yn golygu nad ydym yn cydymffurfio ag ymrwymadau i fod yn dryloyw.




Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad Asesu Perfformiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Blynyddol 2025/2026

ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

www.tangogleddcymru.llyw.cymru
www.northwalesfire.gov.wales



Contents

Rhagair y Prif Swyddog Tân	3
Cyflwyniad	4
Thema 1 – Ymgorffori cynhwysiant yn ein diwylliant sefydliadol	5
Thema 2 - Denu, recriwtio a chadw pobl dalentog	6
Thema 3 - Darparu gwasanaethau cynhwysol i'n cymuned	8
Thema 4 – Datblygu partneriaethau effeithiol	10
Edrych ymlaen.....	11
Gwybodaeth bellach	11



Rhagair y Prif Swyddog Tân

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Asesu Perfformiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer 2025/26. Mae eleni yn adlewyrchu parhad ein cynnydd yn y gwaith o ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y ffordd yr ydym yn arwain, sut rydym yn gweithio, a sut rydym yn gwasanaethu ein cymunedau.

Rydym wedi gweld gwelliannau ystyrlon o ran cynhwysiant y gweithlu, ymgysylltu wedi'i dargedu gyda chymunedau y mae eu lleisiau yn cael eu clywed yn llai aml, a mwy o hyder ymhlith staff i ddarparu gwasanaethau cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r cynnydd hwn wedi'i gyflawni trwy ymrwymiad ein pobl, arweinyddiaeth ein rheolwyr a chefnogaeth ein rhwydweithiau staff a'n partneriaid.

Er bod rhagor o waith o'n blaenau, rwy'n hyderus bod y camau gweithredu a nodir yn yr adroddiad hwn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i ddysgu, gwella a sicrhau ein bod yn atebol.

Dawn Docx

Prif Swyddog Tân

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru



Cyflwyniad

Yn 2024, cyhoeddodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) ei Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) pum mlynedd 2024-2029. Mae'r strategaeth yn cefnogi cyflawni'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, yn adlewyrchu Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth, ac yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod 2025/26 yn erbyn y Strategaeth EDI. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blyneddol a'r Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ar gyfer yr un cyfnod. Yn hytrach nag ailadrodd ystadegau manwl, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni, beth sydd wedi gwella, a'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu yn ystod y flwyddyn. Mewn rhannau, mae'r adroddiad hwn yn dangos sut mae wedi symud ymlaen â'i waith tuag at wahanol gyfarwydddebau ac amcanion y llywodraeth, o'u Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru, a'r ystyriaeth a roddwyd i Gynllun newydd Hawliau Pobl Anabl 2025-2030.

Sut rydym yn mesur cynnydd

Mae cynnydd yn cael ei fonitro trwy ddata cydraddoldeb y gweithlu, adroddiadau monitro cydraddoldeb rheolaidd, ymgysylltu ac adborth staff, a goruchwyliaeth ffurfiol trwy Bwyllgor EDI y Gwasanaeth.

Beth sydd wedi newid eleni

Yn ystod 2025/26, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud nifer o welliannau pwysig, gan gynnwys:

- gweithgaredd gweithredu cadarnhaol estynedig i gefnogi recriwtio, yn enwedig i rolau diffoddwyr tân;
- mwy o ymgysylltiad â staff trwy'r Grwpiau Rhwydwaith EDI Staff;
- ymgynghori mwy pwrpasol â chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli; a
- phartneriaethau cryfach sy'n cefnogi cyflwyno gwasanaethau cynhwysol.

Thema 1 – Ymgorffori cynhwysiant yn ein diwylliant sefydliadol

Yn gysylltiedig ag: arwain yn gynhwysol; natur agored a thryloyw; hygyrchedd

Trwy gydol 2025/26, parhaodd y Gwasanaeth i gryfhau diwylliant sefydliadol sy'n gynhwysol ac yn dangos parch, gyda chefnogaeth arweinyddiaeth weladwy, datblygiad y gweithlu a dadansoddi cydraddoldeb yn gyson.

Parhaodd y Prif Swyddog Tân i gadeirio'r Pwyllgor EDI, gan atgyfnerthu atebolrwydd ar lefel uwch. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i ymddygiadau cynhwysol hefyd trwy fentrau fel Gwobr flynyddol Cyfraniad at Amrywiaeth.

Gwnaed cynnydd pellach o ran meithrin gallu staff. Cwblhaodd 19 o gydweithwyr ychwanegol hyfforddiant Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, sy'n cynrychioli cynnydd o 23%, a chododd y ganran cwblhau hyfforddiant EDI gorfodol i 87%, gwelliant o 6% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fe wnaeth sesiynau wyneb yn wyneb sy'n ymdrin â rhagfarn ddiarwybod, ymwybyddiaeth o awtistiaeth ac ymddygiadau cynhwysol helpu staff i roi'r hyn y gwnaethant ei ddysgu ar waith yn fwy hyderus yn eu rolau bob dydd.

Adlewyrchwyd ystyriaethau EDI hefyd mewn gwaith cynllunio'r ystad, gan gynnwys moderneiddio gwahanol orsafoedd tân a dylunio'r ganolfan hyfforddi newydd, gan helpu i wella hygyrchedd a chreu amgylcheddau dysgu mwy cynhwysol.

Y Rheolwr Grŵp Adam yn derbyn ei Wobr Cyfraniad at Amrywiaeth gan y Prif Swyddog Tân Dawn Docx.



Thema 2 - Denu, recriwtio a chadw pobl dalentog

Yn gysylltiedig ag: atyniad; grymuso; addysg

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd GTAGC i ganolbwyntio ar adeiladu gweithlu amrywiol a chynhwysol trwy weithgarwch recriwtio a chadw sy'n seiliedig ar ddata.

Drwy fonitro'r gweithlu gwelwyd gwelliant cyson, gan gynnwys cynyddu cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig (+0.4%), cynnydd mewn datganiadau o anabledd (+0.6%), a gwell cynrychiolaeth o fenywod ar draws rolau gweithredol, rheoli a chorfforaethol (+1.2% yn gyffredinol). Roedd yn gadarnhaol gweld sawl gwryw yn ymuno â'r gwasanaeth mewn rolau arbenigol newydd a rolau eraill a fyddai'n hanesyddol wedi cael eu llenwi gan fenywod. Mae'r mesurau hyn yn helpu i ddatblygu gweithlu amrywiol sy'n dod â gwahanol dalentau, profiadau a sgiliau.

Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Ar 31 Mawrth 2026, roedd bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Gwasanaeth yn 7.3% (cymedr) ac yn 11.7% (canolrif), ac roedd y ddau yn is na chyfartaledd y DU (tua 13% ar sail y cymedr a 12.8% ar sail y canolrif, yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer yr holl weithwyr).

Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd o ran cynrychiolaeth a dosbarthiad y gweithlu. Mae bwlch yn parhau, yn bennaf oherwydd y gyfran uwch o ddynion mewn rolau gweithredol, a bydd gwaith yn parhau i fynd i'r afael â hyn.

Recriwtio wedi'i dargedu a gweithredu cadarnhaol

Cymerodd y Gwasanaeth gamau cadarnhaol cyfreithlon i annog ceisiadau gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, yn enwedig menywod sy'n gwneud cais am rolau diffoddwyr tân.

Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo cyfleoedd mewn digwyddiadau park run lleol, ymgysylltu â chlybiau chwaraeon a grwpiau cymunedol, cyflwyno sesiynau blasu, a mynd i ddigwyddiadau Balchder a recriwtio Hyderus o ran Anabledd ledled Gogledd Cymru. Helpodd y gweithgaredd hwn i herio canfyddiadau o rôl y diffoddwr tân, egluro gofynion mynediad a lleihau rhwystrau canfyddedig i wneud cais. O ganlyniad, mae'r Gwasanaeth wedi gweld cynnydd bach (+0.3%) yn nifer y swyddi diffoddwyr tân amser llawn sy'n cael eu llenwi gan fenywod.

As a result, the Service has seen a slight increase (+0.3%) in the number of wholetime firefighter filled by women.

Esboniad o weithredu cadarnhaol

Mae gweithredu cadarnhaol yn cyfeirio at gamau cyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i annog ceisiadau gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli i'r gweithlu. Mae pob penderfyniad recriwtio a dyrchafiad yn parhau i gael ei wneud ar sail teilyngdod.



Staff yn cyflwyno digwyddiadau Gweithredu Cadarnhaol mewn Digwyddiad Recriwtio Hyderus o ran Anabledd yn Llangefni, Ynys Môn, a Digwyddiad Balchder yn Ysgol Uwchradd y Fflint.

Meithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Yn ogystal â gweithgarwch recriwtio, buddsoddodd y Gwasanaeth mewn meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion EDI ar draws y gweithlu. Arweiniwyd y gwaith hwn gan y Swyddog EDI mewn partneriaeth â'r pedwar Grŵp Rhwydwaith EDI Staff.

Yn ystod y flwyddyn, cydlynodd y rhwydweithiau ymgyrchoedd, canllawiau a digwyddiadau sy'n cydnabod cydraddoldeb, arferion crefyddol a diwylliannol allweddol, gan gynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Mis Hanes LHDT+, Wythnos Dathlu Niwroamrywiaeth, Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Mis Hanes Pobl Ddu, Ramadan, ac arferion sy'n seiliedig ar ffydd fel Blwyddyn Newydd y Lleuad, Ramadan, Diwali, Hanukkah, Pasg, Vaisakhi a Gŵyl y Bara Croyw.



Ein siaradwr gwadd, Capten Sheridan Lucas MBE, yn ysbrydoli aelodau rhwydwaith Menywod yn y Gwasanaeth Tân gyda'i thaith yn y Fyddin Brydeinig ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod

Roedd y gweithgaredd dysgu hefyd yn cynnwys myfyrdodau dan arweiniad staff ar grefydd a chred, siaradwyr allanol ar faterion fel trais ar sail anrhydedd, a chyfranogiad mewn dysgu cenedlaethol trwy sefydliadau fel Cymdeithas Gwasanaeth Tân Asia, Menywod yn y Gwasanaeth Tân Cymru a Chynhadledd Genedlaethol LHDT+ y Gwasanaeth Tân ac Achub. Rhannwyd dysgu o'r gweithgaredd hwn ar draws y Gwasanaeth a'i ddefnyddio i fod yn sail i arweiniad ac ymarfer bob dydd.



Staff GTAGC yng Nghynhadledd Haf AFSA, Cynhadledd Genedlaethol LHDT+ y Gwasanaeth Tân ac Achub, a phenwythnos ysbrydoledig Menywod yng Ngwasanaeth Tân Cymru.

Thema 3 - Darparu gwasanaethau cynhwysol i'n cymuned

Yn gysylltiedig ag: ymgysylltu; ymddiriedaeth a hyder; cadw pobl yn ddiogel

Darparu gwasanaethau medrus sy'n ystyriol o drawma

Parhaodd ein timau Atal i ddatblygu a chynnal eu sgiliau proffesiynol trwy hyfforddiant Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar, Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth ac Ymwybyddiaeth o Fisogynedd. Roedd y dysgu hwn yn cefnogi eu hymarfer ystyriol o drawma wrth gyflwyno rhaglenni helaeth am ddiogelwch tân mewn ysgolion a diogelwch ar y ffyrdd gyda phobl ifanc ledled Gogledd Cymru. Roedd cynnal dulliau sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n ystyriol o drawma hefyd yn galluogi'r tîm i barhau i gyflwyno ein rhaglen Archwiliad Diogel ac Iach, gan fynd ati i leihau risgiau i'r rhai yr effeithir arnynt gan oedran, anabledd, anghenion iechyd neu ynysu cymdeithasol.

Staff mewn hyfforddiant Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar



Gweithiodd y tîm Atal hefyd ar y cyd â thimau'r Orsaf i gyflwyno gweithgareddau Ffenics, gan sicrhau bod dull cyson, sy'n canolbwyntio ar y person yn sail i'r gwaith ataliol hwn gyda phobl ifanc. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn wedi cyfrannu at lwyddiant parhaus Prosiect Ffenics, gan helpu pobl ifanc a allai fod yn profi heriau cymdeithasol, ymddygiadol neu addysgol i fagu hyder, datblygu sgiliau a gweithio tuag at gymwysterau. Ar yr un pryd, mae cynlluniau Cadetiaid Tân yn y Bala, y Trallwng, Amlwch a Cherrigydrudion wedi annog cyfranogiad cynhwysol ac ymgysylltu cadarnhaol â'r Gwasanaeth.

Myfyrwyr o Ysgol Bryn Eliau yn cymryd rhan mewn cwrs Ffenics yng Ngorsaf Dân Llanfairfechan



Ymgynghori â chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli

Mabwysiadodd y Gwasanaeth ymagwedd ragweithiol at ymgynghori, a chyfrannodd hyn at waith cynllunio gwasanaeth gan gynnwys Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026/27. Drwy ymgysylltu wedi ei dargedu drwy grwpiau cymunedol, mannau addoli, colegau a phrifysgolion sicrhawyd cynnydd yng nghyfranogiad pobl anabl, preswylwyr iau, a phobl nad Cymraeg neu Saesneg yw eu dewis iaith neu'u prif iaith, gan helpu i leihau rhwystrau ac ehangu cynrychiolaeth yn yr adborth a gafodd y gwasanaeth.



Cynyddu gwelededd ac ymddiriedaeth

Ymgysylltodd GTAGC yn uniongyrchol ag ystod eang o gymunedau drwy ddigwyddiadau fel Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn, Wythnos Gofalwyr Wrecsam, digwyddiad blynyddol Uwch Grŵp Dementia Gwynedd, sesiynau Mind Dyffryn Clwyd, a digwyddiadau Trawsrywedol Unigryw. Roedd yr ymgysylltiad hwn yn cefnogi dull wedi'i dargedu ac yn helpu i adeiladu ymddiriedaeth a hyder gyda chymunedau a allai fod mewn mwy o berygl, ac sy'n draddodiadol yn llai tebygol o ymgysylltu â'r gwasanaethau brys.

Staff yn cefnogi Diwrnod Balchder Prestatyn a'r Bala 2025.



Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau yn nigwyddiad Wythnos Gofalwyr Wrecsam, ac yng Ngorsaf Dân Dinbych yn ystod Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn



Thema 4 – Datblygu partneriaethau effeithiol

Yn gysylltiedig â: cysylltiad; cydweithredu; creu'r effaith fwyaf

Yn ystod 2025/26, canolbwyntiodd ein gweithgarwch partneriaeth ar ddysgu, cyflawni a rhannu gwelliant. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan yng Nghynhadledd Amrywiol Gyda'n Gilydd Gogledd Cymru, cyflwyniadau yng Nghynhadledd Flynyddol Anabledd Dysgu Cymru, a chyfranogiad yng ngwasanaeth Diwrnod Cofio'r Holocaust ym Mhrifysgol Bangor.

Cryfhodd y Gwasanaeth allu'r gweithlu trwy hyfforddiant achrededig Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a symud ymlaen i statws Lefel 2 Hyderus o ran Anabledd ('Cyflogwr'). Parhaodd y gwaith hefyd gyda phartneriaid gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, Gyrfa Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn i sefydlu Fforwm Hyderus o ran Anabledd Gogledd Cymru, ochr yn ochr â chyfranogiad parhaus mewn rhwydweithiau EDI Cymru Gyfan a chenedlaethol.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi'i gynrychioli mewn rhwydweithiau a fforymau cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys gweithgору Cyngor Cenedlaethol y Penaeithiad Tân, Cymdeithas Gwasanaeth Tân Asia, Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd Cymru, Rhwydwaith Arweinwyr Cydraddoldeb Gogledd Cymru a Rhwydwaith Swyddogion Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r rhwydweithiau a'r fforymau hyn yn galluogi ein Gwasanaeth i gael gwybod am ddatblygiadau a thueddiadau cyffredin gydag EDI yn y gweithle, ond i ddeall heriau cyffredin gyda chyllid, recriwtio a darparu gwasanaethau yn ogystal.



Ein Swyddog EDI Benji yn Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd Cymru a Simon yn cyflwyno yng Nghynhadledd Flynyddol Anabledd Dysgu Cymru

Edrych ymlaen

Yn 2026/27 bydd y Gwasanaeth yn:

- cwblhau adolygiad o arferion Asesu Effaith o Gydraddoldeb;
- cyflwyno hyfforddiant arweinyddiaeth ar niwroamrywiaeth ac addasiadau rhesymol;
- parhau i hyrwyddo hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth ar gyfer staff rheng flaen;
- cyhoeddi a monitro'r Cynllun Gweithredu Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau;
- adrodd a monitro data cydraddoldeb chwarterol y gweithlu i'r Pwyllgor EDI;
- gwirio ansawdd data anabledd ac ethnigrwydd staff i baratoi ar gyfer gofynion adrodd bwlch cyflog ychwanegol;
- parhau â gweithgarwch recriwtio gweithredu cadarnhaol; a
- chefnogi Grwpiau Rhwydwaith EDI Staff a sefydlu Rhwydwaith Gofalwyr a Rhieni.

Gwybodaeth bellach

Os oes angen yr adroddiad hwn arnoch mewn print bras, Saesneg neu fformat arall, cysylltwch â:

- **Ffôn:** 01745 535 250
- **E-bost:** enquiries@northwalesfire.gov.wales
- Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Adroddiad i	Yr Awdurdod Tân ac Achub
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026
Swyddog Arweiniol	Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Swyddog Cyswllt	Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Pwnc	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân – trefniadau'r dyfodol



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y model gweithredu presennol ar gyfer pensiynau diffoddwyr tân ledled Cymru ac yn tynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer cydweithio i wella effeithiolrwydd a gwydnwch y trefniadau.

SYLWADAU GAN Y BWRDD PENSIWN LLEOL

- 2 Fe wnaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol gwrdd ar 3 Gorffennaf 2026 i ystyried y trefniadau presennol a'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio pellach. Roedd y Bwrdd yn cydnabod yr heriau sy'n cael eu hwynebu ar hyn o bryd, ac yn cymeradwyo'r cynigion i sefydlu ffrwd waith tri gwasanaeth i ystyried cydweithredu pellach.

ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Aelodau:

i) Gymeradwyo cefnogaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol i'r cynnig i sefydlu ffrwd waith tri gwasanaeth ar gyfer cydweithio ledled Cymru i ystyried cyfleoedd i wella effeithiolrwydd a gwydnwch swyddogaethau pensiynau.

CEFNDIR RHEOLEIDDIOL

- 3 Cyflwynwyd gofynion llywodraethiant newydd o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.
- 4 Mae'r Ddeddf yn nodi'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus. Ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, nodir yr elfennau a'r cyfrifoldebau allweddol isod:
 - Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod cyfrifol ac mae'n gyfrifol am greu'r rheoliadau sylfaenol. Mae'r rheoliadau'n darparu elfennau statudol y cynllun ac yn sefydlu rheolau'r cynllun yn effeithiol.
 - Mae'r Ddeddf yn golygu bod angen am Fwrdd Cyngori ar y Cynllun, un sy'n canolbwyntio ar bolisi cyffredinol, dyluniad ar draws y cynllun, cyfeiriad strategol, rhoi cyngor i'r awdurdod cyfrifol, gweinyddiaeth effeithiol ac arfer gorau cyffredinol.
 - Mae Rheolwr y Cynllun yn gyfrifol am weithredu rheoliadau'r cynllun, a rheoli a gweinyddu'r cynllun yn lleol.

- Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynorthwyo rheolwr y cynllun, gan gynghori ar faterion gweinyddu a llywodraethiant.

RÔL RHEOLWR Y CYNLLUN

- 5 Rheolwr y Cynllun yw'r corff sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun, gan sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r cynllun a chydymffurfiaeth â'r arfer da a osodwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, Rheolwr y Cynllun yw'r Awdurdod Tân ac Achub.
- 6 Mae'r rheolaeth weithredol o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) fel rhan o'r cynllun dirprwyo i'r Prif Swyddog Tân.

RÔL Y BWRDD PENSIWN LLEOL

- 7 Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer pob Awdurdod Tân ac Achub yn rhoi cyngor ac arweiniad i Rheolwr y Cynllun (yr Awdurdod Tân ac Achub). Mae hyn yn cwmpasu pob maes gan gynnwys cydymffurfio â rheoliadau'r cynllun, materion llywodraethiant a gweinyddu, materion cyfreithiol a chraffu ar bolisiau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth.
- 8 Mae aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi'i rannu'n gyfartal rhwng gweithwyr a chyflogwyr ac mae'n cyfarfod bedair gwaith bob blwyddyn. Er nad oes gan y Bwrdd Pensiwn Lleol bwerau gwneud penderfyniadau, mae'n rhoi cefnogaeth sylweddol i Rheolwr y Cynllun. Mae'n ofynnol i bob aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol gwblhau'r hyfforddiant a roddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ac ymgymryd â hyfforddiant lleol pellach sy'n benodol i'r cynllun.
- 9 Mae'r baich ar y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi dod yn amlwg ac mae'n fwyfwy anodd i aelodau ddatblygu a chynnal y lefel o wybodaeth sydd ei hangen.

HERIAU CYFREITHIOL DIWEDDAR

- 10 Ar draws y sector cyhoeddus bu nifer o heriau cyfreithiol cenedlaethol sydd wedi rhoi baich sylweddol ar dimau pensiwn lleol a gweinyddwr y gronfa pensiwn, Cronfa Pensiwn Dyfed. Mae'r her gyfreithiol yn erbyn gwahaniaethu ar sail oedran wedi'i dogfennu'n dda ar draws y sector cyhoeddus. Er ei fod wedi'i gwblhau, fwy neu lai, ar gyfer y rhan fwyaf o staff, mae nifer llai o faterion sy'n weddill yn parhau. Ers mis Ebrill 2022 mae pob diffoddwr tân yn aelod o'r cynllun cyfartaledd gyrfa sydd wedi cynyddu'r angen am wybodaeth am bensiynau ymhlith yr aelodau ac wedi cynyddu'r ymholiadau technegol sy'n cael eu codi.

- 11 Mae'r ail her gyfreithiol yn parhau i fod yn y camau cynnar o ran datrysiad ac mae'n ymwneud ag adbrynu hawl pensiwn ar gyfer cydweithwyr sy'n ddiffoddwyr tân wrth gefn yn dyddio'n ôl i ddechrau eu contractau. Mae'r heriau cyfreithiol yn gofyn am adolygiad achos wrth achos ac yn cynnwys cyfrifiadau technegol a chymhleth iawn. Nid yn unig y mae'r gofyniad hwn yn cael effaith ar y timau pensiwn a'r gweinyddwyr ond hefyd ar aelodau presennol ac aelodau sydd wedi ymddeol.
- 12 Mae'r heriau cyfreithiol yn parhau ac yn fwy diweddar mae dyfarniadau pellach wedi'u gwneud mewn perthynas â thrin goroeswyr gwrywaidd mewn priodasau a phartneriaethau sifil o'r rhyw arall.

YR HERIAU A'R UCHELGAIS

- 13 Mae'r heriau cyfreithiol a amlinellir uchod wedi rhoi baich sydd bron yn annioddefol ar dimau cymharol fach o fewn gwasanaethau unigol ond hefyd o fewn y tîm gweinyddol. Mae natur dechnegol y gwaith wedi cyfyngu ar y gallu i gynyddu capasiti adnoddau. Ers 2023, mae trefniant cydweithredol gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi bod ar waith trwy rannu Arweinydd Technegol i roi cyngor ac arweiniad i'r timau ar faterion technegol. Mae hyn wedi gweithio'n dda ac wedi arwain at berthynas waith agosach a chysondeb (e.e. polisi disgresiynol a ddatblygwyd ar y cyd sy'n berthnasol i bob cynllun).
- 14 Mae'r heriau cyfreithiol hefyd wedi cael effaith ar aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol sy'n gorfod llywio trwy faterion technegol.
- 15 Y nod yw chwilio am gyfleoedd ar gyfer cydweithio pellach er mwyn cynyddu effeithiolrwydd pob tîm gymaint â phosibl, meithrin cysondeb i aelodau, hyrwyddo cyfathrebu a datblygu gwydnwch os bydd staff yn absennol neu os bydd trosiant staff. Gellir ymestyn yr uchelgais hefyd i waith y Bwrdd Pensiwn Lleol i adeiladu gwybodaeth a dealltwriaeth bellach.
- 16 Mae'r cyfleoedd yn amrywio o gydweithio rhwng timau pensiwn hyd at ddirprwyaeth ffurfiol gan y Rheolwr Cynllun i un person neu fwrdd i hwyluso un Bwrdd Pensiwn Lleol i Gymru. Mae cyngor cychwynnol wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru ac mae cefnogaeth eang wedi'i chadarnhau.
- 17 Dylid nodi na fyddai unrhyw newidiadau'n torri ar draws nac yn gwanhau rôl y Bwrdd Cyngori ar y Cynllun, sydd â'r rôl o roi cyngor, mewn ymateb i geisiadau gan Weinidogion Cymru, ar newidiadau i'r cynllun ac unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i weinyddiaeth effeithiol ac effeithlon y Cynllun. Ni ddylid diystyru'r darn hwn o waith ac mae'n bosibl y bydd angen adolygu a chysoni disgresiynau a ffyrdd o weithio.

GWYBODAETH

- 18 Yn draddodiadol, roedd gweinyddu cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn gymharol syml gyda dim ond un cynllun, a oedd yn seiliedig ar y cyflog terfynol. Fodd bynnag, dros y pum mlynedd diwethaf mae bellach wedi dod yn gymhleth iawn ac yn llafurddwys gyda thros bedwar cynllun pensiwn ar wahân a diwygiadau ac ailgyfrifiadau yn ofynnol o ganlyniad i heriau cyfreithiol fel McCloud a Matthews. Mae'n annhebygol y bydd y llwythi gwaith yn lleihau yn y dyfodol wrth i ddeddfwriaeth pensiynau yng Nghymru a Lloegr barhau i gael ei hadolygu.
- 19 Mae'r pwysau hyn wedi digwydd ar yr un pryd ag y gwnaeth llawer o weithwyr proffesiynol ym maes pensiwn ymddeol o'r diwydiant a phobl yn amharod fynd i fentro i'r proffesiwn hwn. Mae hyn wedi'i ddangos mewn arolwg a luniwyd yn 2025 gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol a oedd yn gwerthuso'r adnoddau pensiwn mewn Gwasanaethau Tân ac Achub a'r awydd am yr "Angen am Newid".
- 20 O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, cymeradwyodd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân waith pellach i archwilio'r cysyniad o fodel rheolwr cynllun sengl, gwasanaeth a rennir, sy'n adlewyrchu awydd cryf y sector am newid.
- 21 Yn arwyddocaol, mynegodd y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru awydd am newid yn eu hymatebion i arolwg y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Gyda'r newid i fodel llywodraethiant a chymeradwyaeth swyddogion Llywodraeth Cymru, mae gennym bellach y cyfle yng Nghymru i symud i'r model hwn yn gyflymach nag yn Lloegr.
- 22 Yn ogystal â'r effeithlonrwydd y byddai'n ei roi yng Nghymru, byddai'n arddangos manteision hyn i Awdurdodau Tân ac Achub yn Lloegr, y mae llawer ohonynt yn wynebu ad-drefnu eu trefniadau llywodraethiant eu hunain.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae gweithrediad effeithiol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cefnogi'r amcanion Llesiant trwy alluogi staff i wneud cynlluniau hirdymor ar hyd eu gyrfa. Bydd cydweithrediad effeithiol yn amcanu i'w gwneud mor effeithiol â phosibl, gan gefnogi'r amcan hwn.
Cyllideb	Bydd pob cynnig yn destun craffu cyllidebol i ddangos gwerth am arian
Cyfreithiol	Bydd yr holl opsiynau yn cael eu hasesu i sicrhau eu bod yn cyflawni gofynion rheoleiddiol Rheolwr y Cynllun yn llawn
Staffio	Nid oes unrhyw gynigion wedi'u gwneud, ond bydd unrhyw effaith yn amodol ar waith ymgysylltu ac ymgynghori priodol.
Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg	Bydd pob cynnig yn destun asesiad cydraddoldeb ac yn sicrhau y cedwir at Safonau'r Gymraeg.
Risgiau	Nod sefydlu cydweithrediad tri Gwasanaeth yw mynd i'r afael â'r risgiau cynhenid o fewn y trefniadau presennol.

Adroddi i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026	
Swyddog Arweiniol	Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	
Swyddog Cyswllt	Jonathan Blyde, Rheolwr Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol	
Pwnc	Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol – Adroddiad Blynyddol	

PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Gofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn craffu arno, a chyhoeddi'r adroddiad ar wefan yr Awdurdod Tân ac Achub.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") yn cyflawni ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n gosod partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol yng Nghymru.
3. Ar 1 Ebrill 2024 daeth y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol ("y Ddyletswydd") ar gyrff cyhoeddus i rym yng Nghymru.
4. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio adroddiad blynyddol i ddangos sut maent wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a grëwyd gan y Ddeddf.
5. Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig, pan fyddant:
 - yn pennu eu hamcanion llesiant; ac
 - yn gwneud penderfyniadau strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.
6. Mae'r Ddyletswydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad blynyddol gael ei gytuno gydag undebau llafur cydnabyddedig yr Awdurdod neu gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno.
7. Mae holl ofynion y Ddeddf wedi'u cyflawni trwy'r Cydbwyllgor Ymgynghori a Negodi, gan gynnwys cytundeb ar yr adroddiad blynyddol ei hun.

ARGYMHELLIAD

8. Bod yr Aelodau yn:
- i) **Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'w gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn craffu arno a'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

CEFNDIR

9. Mae'r gofyniad hwn yn gysylltiedig â gosod amcanion llesiant, y mae'r ATA eisoes yn ymgynghori â'r cyhoedd ac aelodau o staff arnynt yn rhinwedd y gofyniad i ymgynghori'n gyhoeddus ar amcanion gwella, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

GWYBODAETH

10. Nid yw'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wedi rhoi templed ar gyfer yr adroddiad. Felly, mae'r dull o ran adroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2025–26 wedi'i seilio ar y dull a ddefnyddiodd yr awdurdod ar gyfer yr adroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol cyntaf (2024–25).

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ymwneud ag ymgynghori â a chynnwys undebau llafur wrth osod amcanion llesiant. Yn ogystal, mae'r ATA wedi ymgynghori â'r cyhoedd a'r staff ar ei amcanion arfaethedig ar gyfer 2026–27.
Cyllideb	Dim goblygiadau
Cyfreithiol	Bydd cyhoeddi Adroddiad y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn sicrhau bod yr ATA yn cyflawni'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.
Staffio	Dim goblygiadau
Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar wahân wedi'i ddatblygu gan y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn perthynas ag amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod.
Risgiau	Dim goblygiadau

Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol Drafft

2025-26



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



**ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING**

Cynnwys

Introduction.....	Error! Bookmark not defined.
Background	Error! Bookmark not defined.
How we complied with the Social Partnership Duty	Error! Bookmark not defined.
Conclusion	Error! Bookmark not defined.

Cyflwyniad

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (y Ddeddf), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2024, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC), gynhyrchu adroddiad blynyddol i ddangos sut y maent wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a grëwyd gan y Ddeddf.

Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig, pan fyddant:

- i. yn pennu eu hamcanion llesiant; ac
- ii. yn gwneud penderfyniadau strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae adran 16(2) o'r Ddeddf yn nodi sawl gofyniad penodol sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd, y mae'n rhaid i ATAGC gydymffurfio â nhw wrth 'geisio consensws neu gyfaddawd.'

Er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd, rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill ei staff yn y broses o osod amcanion neu wneud penderfyniadau, drwy (yn benodol)—

- a) ymgynghori â nhw ar gam ffurfiannol o'r broses, a
- b) fel arall eu cynnwys drwy gydol y broses drwy;
 - i. ddarparu digon o wybodaeth i'w galluogi i ystyried yr hyn a gynigir yn drylwyr, a
 - ii. rhoi digon o amser i'w galluogi i roi digon o ystyriaeth i'r hyn a gynigir ac i ymateb iddo.

Mae Adran 18 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn nodi:

1. Rhaid i gorff cyhoeddus baratoi, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, adroddiad o'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd.

2. Rhaid i'r adroddiad gael cytundeb undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus, neu gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno.
3. Rhaid i'r corff cyhoeddus gyhoeddi'r adroddiad a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Cefndir

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am rai swyddogaethau i Brif Weithredwr / Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC).

Yn ogystal â gofyniad [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) i osod amcanion llesiant, mae dyletswydd statudol ar wahân i Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru ymgynghori â'r cyhoedd yn flynyddol ar amcanion gwella, fel sy'n ofynnol gan [Fesur Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2009](#).

Mae Cylchlythyr Tân Llywodraeth Cymru ([W-FRSC\(2024\)06](#), dyddiedig 6 Ebrill 2024), yn cadarnhau y gellir cyflawni'r dyletswyddau o dan Fesur 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy gyhoeddi un adroddiad.

Fe wnaeth ATAGC gymeradwyo'r [Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024–25](#) cyntaf i'w gyhoeddi ar 28 Ebrill 2025.

Sut y gwnaethom gydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Mae GTAGC wedi sefydlu Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu i gyflawni ei gyfrifoldebau ar ran ATAGC. Mae rhan o'r Fframwaith hwnnw'n cynnwys Cydbwyllgor Ymgynghori a Negodi, dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog, ac y mae ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r undebau llafur cydnabyddedig. Mae swyddogion perthnasol o bob rhan o'r Gwasanaeth yn bresennol gyda'r Pennaeth Ymateb Gweithredol a'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn bresennol ym mhob cyfarfod.

Undebau llafur cydnabyddedig Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yw;

- Undeb y Brigadau Tân,
- Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub,
- Cymdeithas y Swyddogion Tân,
- Cymdeithas yr Arweinwyr Tân,
- UNSAIN,
- Unite.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwe wythnos ac mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol wedi'i hymgorffori yn amcanion y Pwyllgor ac fe'i cynhwysir fel eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod.

Yn 2025–26, cynhaliwyd cyfarfodydd y Cydbwyllgor Ymgynghori a Negodi ar y dyddiadau canlynol:

- 4 Ebrill 2025
- 9 Mai 2025
- 19 Mehefin 2025
- 6 Awst 2025
- 18 Medi 2025
- 7 Tachwedd 2025
- 27 Ionawr 2026
- 24 Chwefror 2026

Mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar feithrin perthnasoedd gwaith da gyda'r holl gyrrff cynrychioliadol a thrafod materion sy'n berthnasol i'r holl staff.

Er bod y Pwyllgor yn strategol, trafodir ystod eang o faterion ym mhob cyfarfod; gall y rhain gynnwys materion strategol o bwys yn y dyfodol hyd at faterion mwy tactegol.

Yn benodol, amlygir yr holl bolisiâu a gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori cyn eu cymeradwyo gan Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, gan sicrhau bod materion o bwys neu bryder yn cael sylw ar yr adeg berthnasol.

Yn ystod y flwyddyn mae'r materion canlynol wedi cael eu hystyried a'u cofnodi o dan y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol:

- **Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys** – gweithgor dan arweiniad staff i ystyried opsiynau yn y dyfodol ar gyfer gwella argaeledd gwledig
- **Datblygu Canolfan Hyfforddi newydd** – ymgynghori rheolaidd a diweddariadau mewn perthynas â datblygu cyfleusterau hyfforddi newydd, sy'n hanfodol i ddiffoddwyr tân yr ochr weithredol
- **Gwella ein diwylliant** – diweddariadau a gwaith ymgysylltu ynghylch y cynllun gweithredu a'r cynnydd a wnaed, yn dilyn argymhellion adolygiad Crest
- **Gweithredu cydgytundeb** – ymgysylltu ystyrlon â chynrychiolwyr Undebau Llafur wrth wneud penderfyniadau a gweithredu'r Cydgytundeb
- **Polisiâu** – diweddariadau ar ddatblygu a chyhoeddi polisi
- **Peilot trefniadau Gwyliau'r System Dyletswydd Ar Alwad** – ymgynghori a darparu diweddariadau ar y fenter i fynd i'r afael â'r argymhellion a

wnaed mewn adolygiad cynharach o wyliau'r System Dyletswydd ar Alwad

- **Pensiynau** – Diweddariadau a thrafodaeth ar faterion sy'n gysylltiedig â phensiynau
- **Caffael Peiriant ag Ysgol Drofwrdd newydd** – ymgysylltu â chyrrff cynrychioladol, gan roi ystyriaeth arbennig i'r broses gaffael, prosesau gwneud penderfyniadau, amserlenni a hyfforddiant.
- **Amnewid Unedau Achub Technegol** – ymgynghori â chynrychiolwyr yr Undebau Llafur ar y fanyleb adeiladu, y broses gaffael, y broses gwneud penderfyniadau a'r amserlenni, yn gysylltiedig â'r Peiriant ag Ysgol Drofwrdd newydd.
- **Cyllideb ar gyfer 2026–27** – cafodd y gyllideb ei datblygu, ei rhannu, a'i hegluro mewn manylder gyda chynrychiolwyr Undebau Llafur, gan sicrhau tryloywder ac ymgysylltu parhaus mewn penderfyniadau ariannol allweddol.
- **Prosiect System Dyletswydd Ar Alwad Cymru Gyfan** – cydweithio â Llywodraeth Cymru, undebau llafur a phartneriaid i lunio gwelliannau ac i rannu arferion gorau wrth gryfhau polisiau a gweithdrefnau ar alwad.

Ar ôl i'r Awdurdod Tân ac Achub gymeradwyo'r [Cynllun Rheoli Risg Cymunedol](#) ar gyfer 2024–2029, bu'r gwaith trwy gydol 2025–26 yn canolbwyntio ar ddatblygu amcanion gwella a llesiant 2026–27, mewn ymgynghoriad ag Undebau Llafur ac yn dilyn proses ymgynghori gyhoeddus ar wahân, ac fe'u cymeradwywyd i'w cyhoeddi yng [Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026–27](#).

Yn ogystal â'r uchod, er mwyn cryfhau ymrwymiad yr Awdurdod i Bartneriaeth Gymdeithasol, yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Thrafod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2025, fe wnaeth y Cadeirydd dywys y Pwyllgor drwy'r llawlyfr [Partneriaeth Gymdeithasol: Y 'Ffordd Gymreig'](#), ac amlinellodd bwysigrwydd y cais gan Lywodraeth Cymru am Hyrwyddwyr Partneriaeth Gymdeithasol, i drafod a hyrwyddo effeithiolrwydd Partneriaeth Gymdeithasol. Roedd cynrychiolwyr yr Undebau Llafur yn cefnogi hyn, ac enwebwyd hyrwyddwyr.

Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu blwyddyn o bartneriaeth gadarnhaol ac adeiladol rhwng Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Undebau Llafur cydnabyddedig.

Mae'r Awdurdod yn parhau i ymroi i feithrin perthynas waith dda ag Undebau Llafur, a bydd yn parhau i gyfathrebu'n rheolaidd ac mewn ffordd dryloyw.

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026	
Swyddog Arweiniol	Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	
Swyddog Cyswllt	Jonathan Blyde, Rheolwr Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol	
Pwnc	Monitro Perfformiad, Ebrill 2025 i Mawrth 2026	

PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar berfformiad yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025–30 Mawrth 2026 (blwyddyn ariannol 2025/26). Mae'r mesurau perfformiad yn adlewyrchu'r pum egwyddor allweddol a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CGRhRC) ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ac maent yn cynnwys sylwebaeth ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a chamau gweithredu ar gyfer y dyfodol.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2. **Gwella Presenoldeb y Gweithlu wrth iddo Dyfu**
 - i. Gostyngodd absenoldeb salwch cyffredinol o 5.13% i 4.98% yn 2025–26, tra bod cyfanswm nifer y staff wedi cynyddu gan 30 o weithwyr net i 979.
 - ii. Gostyngodd absenoldeb tymor byr (1.09%) a hirdymor (3.89%) o gymharu â'r llynedd, sy'n dynodi gwelliant parhaus o ran rheoli absenoldebau.
3. **Cynydd mewn Digwyddiadau, gyda Thanau'n Sbardun Allweddol**
 - i. Aethpwyd i gyfanswm o 6,611 o ddigwyddiadau (+1.8% o gymharu â'r llynedd; +8.1% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd).
 - ii. Cynyddodd nifer y digwyddiadau tân gan 13.1%, a yrwyd yn bennaf gan weithgarwch uwch yn Ch1 a Ch2, tra bod Galwadau Diangen a Galwadau Gwasanaeth Arbennig ill dau wedi gostwng - y gostyngiadau blynyddol cyntaf ers sawl blwyddyn.
4. **Nifer isaf o Danau Damweiniol mewn Anheddau, ond Cynydd yn nifer yr Anafiadau/Marwolaethau**
 - i. Gostyngodd Tanau Damweiniol mewn Anheddau 322, y lefel isaf ers 2017–18 (4.7%).
 - ii. Fodd bynnag, cynyddodd nifer yr anafiadau gan 24% a chafwyd dwy farwolaeth, sy'n tynnu sylw at yr angen parhaus i flaenoriaethu mesurau atal sy'n canolbwyntio ar fregusrwydd, yn enwedig o ran diogelwch coginio a chysylltiad â mwg.

5. **Gweithgarwch Atal yn Symud yn Gadarn tuag at Dargedu ar Sail Risg**
- Cyflawnwyd 19,376 o Archwiliadau Diogel ac Iach, gan ragori ar y targed o 1,876.
 - Yn bwysig, cynyddodd archwiliadau risg uchel i 28.4% o'r holl weithgarwch (i fyny o 25.4%), sy'n adlewyrchu symudiad strategol i ffwrdd o niferoedd tuag at effaith ar sail risg, gyda chefnogaeth data GIG Caerwysg a threfniadau rheoli atgyfeiriadau diwygiedig.

SYLWADAU GAN DÎM ARWEINYDDOL Y GWASANAETH

6. Gofynnodd Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth am ddadansoddiad o sawl gwaith y gwnaeth y Gwasanaeth lwyddo, neu beidio â llwyddo, cynnal lefel isafswm peiriannau ar gael yn ystod y dydd, gan ystyried unrhyw newidiadau i'r trothwy isafswm dros amser. Er mwyn galluogi cymhariaeth gyson, mae data hanesyddol wedi'i asesu yn erbyn yr isafswm argaeledd dydd presennol o 18 peiriant.
7. Pan fesurir yn erbyn yr isafswm trothwy presennol, mae'r dadansoddiad yn nodi mai dim ond un achlysur oedd pan ostyngodd argaeledd peiriannau yn ystod y dydd yn is na'r lefel hon yn 2021/22. Fe wnaeth y nifer gynyddu yn y blynnyddoedd dilynol, gan gyrraedd brig o 11 achlysur yn 2023/24 pan ostyngodd argaeledd yn is na'r isafswm presennol. Ers hynny, mae nifer y digwyddiadau o'r fath wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn.
8. Hefyd, mae nifer cyfartalog y peiriannau sydd ar gael yn ystod y dydd wedi cynyddu'n cyson ers 2021/22, sy'n dangos gwelliant cyffredinol mewn argaeledd peiriannau yn ystod oriau craidd.
9. Hefyd, gofynnodd Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth am eglurhad ynghylch effaith y newidiadau i'r paramedrau y mae Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân yn eu cyfathrebu mewn perthynas â diffinio a chofnodi tanau gwyllt ers 2018; er mwyn cefnogi cymhariaeth gyson ac ystyrlon, mae'r ffigurau wedi'u cyfrifo'n ôl-weithredol yn unol â'r diffiniad cyfredol, gyda naratif ychwanegol wedi'i gynnwys i gynorthwyo dehongli.

ARGYMHELLIAD

Argymhellir bod yr Aelodau yn:

- i) **Nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Perfformiad.**

CEFNDIR

10. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod weithio i leihau risg a mynd i'r afael â diogelwch ei gymunedau ac i wneud hynny mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r CGRhRC yn amlinellu'r egwyddorion y mae'r Awdurdod yn mesur ei berfformiad yn eu herbyn. Gan ganolbwyntio ar bum egwyddor allweddol, adroddir ar y perfformiad bob chwarter, gyda phwyslais ar risgiau allweddol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

GWYBODAETH

11. Mae'r Adroddiad Perfformiad yn adroddiad chwarterol sy'n asesu perfformiad ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026, gyda chymariaethau'n cael eu gwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol (2024/25).

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Yn dangos perfformiad yr Awdurdod yn erbyn yr amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CGRhRC) 2025-26.
Cyllideb	Yn caniatáu i weithgareddau a risgiau allweddol gael eu hystyried fel rhan o'r broses pennu cyllideb.
Cyfreithiol	Yn cynorthwyo'r Awdurdod, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i ddangos y modd y mae'n cymryd pob cam rhesymol, wrth arfer ei swyddogaethau, i gyflawni ei amcanion llesiant.
Staffio	Mae'r adrodd yn cyd-fynd â CGRhRC 25/26 ac yn cynnwys diweddariad ar faterion staffio.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Dim goblygiadau wedi'u nodi.
Risgiau	Yn dangos sut mae'r Awdurdod yn rheoli ei ddarpariaeth yng nghyd-destun risgiau cymunedol.



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad Monitro Perfformiad:
Ebrill 2025 – Mawrth 2026



Our five principles for keeping communities safe

PEOPLE

PREVENTION

PROTECTION

RESPONSE

ENVIRONMENT

Cynnwys

Ein Hegwyddor Pobl	2
1 Absenoldeb Salwch	2
a. Pob Absenoldeb Salwch	2
1.2 Salwch Tymor Byr.....	3
1.3 Salwch Hirdymor.....	6
Ein Hegwyddor Aтал.....	10
2 Pob Digwyddiad	10
3 Tanau Damweiniol mewn Anheddau (TDAau).....	11
4 Prif Achosion Tanau Damweiniol mewn Anheddau.....	15
5 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Anheddau 18	
6 Synwryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Anheddau	19
7 Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGAau)	24
Diogelwch ar y Ffyrdd	27
8 Archwiliadau Diogel ac Iach	30
Ein Hegwyddor Diogelu	37
9 Galwadau Diangen.....	37
10 Galwadau System Larwm Awtomatig (SLA) Masnachol	39
11 Galwadau SLA Ysbytai.....	41
12 CEF Berwyn.....	43
Ein Hegwyddor Ymateb	47
13 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad (SDAA)	47
14 Cynllun Argaeledd 18 Pwmp	49
16 Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg.....	50
Ein Hegwyddor Amgylchedd	52
15 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau	52
16 Tanau gwyllt	53
17 Llifogydd	54
Geirfa	56

Ein Hegwyddor Pobl



1 Absenoldeb Salwch


Nod y Gwasanaeth yw annog ei holl weithwyr i fod yn bresennol yn y gwaith i'r graddau uchaf posibl, ond gan gydnabod na fydd gweithwyr, o bryd i'w gilydd, yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch.

Cyfanswm yr amser a gollwyd i absenoldeb salwch yn 2025/26 oedd 4.98%. Mae hyn yn ostyngiad o 5.13% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n dangos gwelliant cyffredinol mewn presenoldeb.

Roedd 979 o unigolion yn cael eu cyflogi gan GTAGC ar 31/03/2026, sy'n gynydd o 30 o bobl o gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25

Sylwer, drwy gydol yr adroddiad, na fydd nifer yr achosion yn y flwyddyn hyd yma (BHY) yn gyfanswm y chwarteri gan y bydd absenoldebau rhai unigolion yn ymestyn ar draws chwarteri. Gall fod amrywiadau hefyd yn y niferoedd a adroddir o chwarter i chwarter o ganlyniad i newidiadau mewn data gweithwyr.

a. Pob Absenoldeb Salwch



Yn gyffredinol, mae'r diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch wedi aros ar lefel gymharol debyg yn ystod chwarter 1 i 3 yn 2025/26, gyda nifer y

diwrnodau a gollwyd yn ystod chwarter 4 ar ei isaf eleni, ac ar lefel debyg i chwarter 4 yn 2024/25. Fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, mae nifer yr achosion o absenoldeb wedi cynyddu yn ystod chwarter 3 a 4. Er bod diwrnodau a gollwyd a nifer yr achosion wedi cynyddu ychydig yn ystod Chwarter 3 2025/26, roedden nhw'n dal i fod yn is na'r lefelau a gofnodwyd yn Chwarter 3 y flwyddyn flaenorol. Mae'r gwelliant hwn wedi digwydd ochr yn ochr â chynnydd yn niferoedd cyffredinol y staff, sy'n dangos tuedd gadarnhaol barhaus o ran rheoli absenoldeb salwch ar draws y Gwasanaeth.


Mae **tymor byr** yn golygu cyfnodau unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai.

Mae **hirdymor** yn golygu cyfnodau unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy.

1.2 Salwch Tymor Byr


Roedd absenoldeb tymor byr yn cyfrif am 1.09% o gyfanswm yr amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn ystod 2025/26, sy'n ostyngiad o 1.12% yn ystod 2024/25.

Yn gyffredinol, arhosodd nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch tymor byr yn gymharol gyson trwy gydol 2025/26. Gwelwyd y nifer uchaf o ddiwrnodau a gollwyd yn chwarter 1 ar 973, tra bod yr isaf yn chwarter 2 ar 880. Roedd nifer yr achosion o salwch tymor byr yn is yn chwarteri 1 a 2, gan gynyddu yn chwarteri 3 a 4 i gyfartaledd o 153 o achosion.



(System Dyletswydd Amser Cyflawn (\$DAC) - yn cynnwys yr holl staff gweithredol amser cyflawn, megis swyddogion mewn gorsafoedd, swyddogion gwledig a swyddogion dyletswydd hyblyg.

Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth (TAG) wedi ei rannu fel bod aelodau gweithredol y TAG yn cael eu cynnwys o fewn y ffigurau amser cyflawn, a bod Penaethiaid Adrannau wedi'u cynnwys o fewn ffigurau'r Adrannau Corfforaethol).



Gostyngodd nifer yr achosion o salwch tymor byr a'r diwrnodau a gollwyd yn chwarter 4 ar draws systemau dyletswydd amser cyflawn, ar alwad ac ystafell reoli, ac eithrio staff corfforaethol, lle cynyddodd nifer yr achosion a'r diwrnodau a gollwyd. Drwy gydol 2025/26, gwnaeth lefelau absenoldeb tymor byr amrywio ar draws pob math o ddyletswydd, heb unrhyw duedd gyson ar i fyny neu ar i lawr.

Roedd staff amser cyflawn yn cyfrif am 34% o gyfanswm y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch tymor byr trwy gydol y flwyddyn, gyda hyd absenoldeb cyfartalog o 7.5 diwrnod calendr fesul gweithiwr.

Staff ar alwad, sy'n ffurfio 51.3% o'r gweithlu, oedd yn cyfrif am 46% o'r achosion o absenoldeb tymor byr ar gyfartaledd. Arhosodd nifer yr achosion yn debyg i raddau helaeth ar draws chwarteri 2, 3 a 4; fodd bynnag, cynyddodd hyd cyfartalog yr absenoldeb i 7.13 diwrnod calendr, i fyny o 6.3 diwrnod calendr yn 2024/25.

Staff corfforaethol oedd yn cyfrif am 21.3% o'r achosion absenoldeb tymor byr yn ystod chwarter 4, gyda chynnydd yn nifer yr achosion a'r diwrnodau a gollwyd o gymharu â chwarteri blaenorol. Ar draws 2025/26, staff corfforaethol oedd yn cyfrif am 14.4% o'r holl absenoldeb tymor byr, gyda hyd absenoldeb cyfartalog o 5.6 diwrnod.

Y 3 Phrif Reswm dros Absenoldeb Salwch Tymor Byr (yn ôl achos)

	Rheswm dros Absenoldeb	Achosion	% Amser a Gollwyd
1	Annwyd/Ffliw	30	13.04%
2	Cyhyrysgerbydol - Aelodau Uchaf y Corff	7	8.73%
3	Cyhyrysgerbydol - Aelodau Isaf y Corff	2	3.56%

Mae '% Amser a Gollwyd' yn seiliedig ar y diwrnodau a gollwyd yn hytrach na nifer yr achosion


Annwyd/ffliw oedd yr achos mwyaf cyffredin o absenoldeb salwch tymor byr yn chwarteri 3 a 4, yn cyfrif am 22.1% a 13.04% o'r amser a gollwyd yn y drefn honno. Roedd hyn yn gynnydd sylweddol o chwarteri 1 a 2, lle roedd annwyd/ffliw yn cyfrif am 3.4% ac 8.4% o'r amser a gollwyd. Heb ystyried y cynnydd yn nifer yr achosion yn chwarter 3 a 4, roedd absenoldebau sy'n gysylltiedig ag annwyd/ffliw yn para 4.4 diwrnod ar gyfartaledd.

Mae'r duedd hon yn cyfateb i wybodaeth a gyhoeddwyd gan NHS England, a adroddodd ym mis Hydref 2025 fod y tymor ffliw wedi effeithio ar y GIG fwy na mis yn gynharach na'r arfer, gyda lefelau achosion deirgwaith yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Roedd yr holl gyflyrau cyhyrysgerbydol yn cyfrif am 24.9% o'r achosion o absenoldeb tymor byr yn ystod 2025/26, gyda hyd cyfartalog o 9 diwrnod, gydag achosion sy'n effeithio ar aelodau uchaf y corff yn fwyaf cyffredin yn y categori hwn (9.44%), yna'r aelodau isaf (8.37%), ac yna'r cefn/asgwrn cefn (7.09%). Mae ffisiotherapi a ariennir gan y gwasanaeth a therapiau corfforol amgen yn parhau i gael eu defnyddio'n helaeth, yn enwedig ar gyfer cyflyrau sy'n effeithio ar yr aelodau isaf, yr ysgwydd, y gwddf a'r cefn, gan gefnogi ymyrraeth gynnar ac atal absenoldeb.

1.3 Salwch Hirdymor


Roedd absenoldeb hirdymor i gyfrif am 3.89% o gyfanswm yr amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn ystod 2025/26, sy'n ostyngiad o 4.06% yn ystod 2024/25. Tra bod y nifer uchaf o ddiwrnodau o absenoldeb salwch hirdymor wedi'i gofnodi yn chwarter 3 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelodd chwarter 4 ostyngiad cyffredinol yn y diwrnodau a gollwyd ond cynnydd yn



nifer yr achosion.

Gwnaeth nifer y diwrnodau o absenoldeb hirdymor ar gyfer staff amser cyflawn amrywio trwy gydol y flwyddyn; gwelodd chwarter 4 ostyngiad o 100 diwrnod o gymharu â chwarter 3, fodd bynnag, gwelodd hefyd y nifer uchaf o achosion amser cyflawn ers chwarter 3 2024/25. Ar draws 2025/26, hyd cyfartalog absenoldeb salwch hirdymor staff amser cyflawn oedd 44 diwrnod.

Gwelwyd gostyngiad yn y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch hirdymor ar gyfer staff ar alwad yn ystod chwarter 4, fodd bynnag, arhosodd nifer yr achosion ar yr un lefel â chwarter 3. Roedd absenoldeb ar alwad yn cyfrif am 54% o'r holl absenoldeb hirdymor, gydag absenoldebau cyfartalog yn para 52 diwrnod.



Gwnaeth nifer yr achosion o absenoldeb hirdymor a'r diwrnodau a gollwyd ar gyfer staff Ystafell Reoli barhau'n sefydlog ar draws chwarteri 1, 2 a 3 cyn lleihau yn chwarter 4.

Cynyddodd absenoldeb salwch hirdymor staff corfforaethol, o ran nifer yr achosion a'r diwrnodau a gollwyd, yn sylweddol yn chwarter 2 cyn gostwng eto yn chwarter 3. Er bod nifer y diwrnodau a gollwyd wedi parhau i ostwng yn chwarter 4, cynyddodd nifer yr achosion o salwch hirdymor ymhlith staff corfforaethol eto yn ystod y cyfnod hwn.

Yn gyffredinol, mae rolau corfforaethol yn cyfrif am 15.2% o staff y Gwasanaeth a 13.2% o'r holl achosion o absenoldeb salwch hirdymor yn ystod 2025/26. Hyd cyfartalog absenoldeb salwch hirdymor staff corfforaethol oedd 51.5 diwrnod.

Y 3 Phrif Reswm dros Absenoldeb Salwch Hirdymor (yn ôl achos)

	Rheswm dros Absenoldeb	Achosion	% Amser a Gollwyd
1	Iechyd Meddwl - Straen	11	16.29%

2	Cyhyrysgerberbydol - Aelodau Uchaf y Corff	7	12.15%
3	Cyhyrysgerberbydol - Aelodau Isaf y Corff	7	11.13%

Mae '% Amser a Gollwyd' yn seiliedig ar y diwrnodau a gollwyd yn hytrach na nifer yr achosion.

Mae 'Iechyd Meddwl – Straen' a 'Cyhyrysgerberbydol – Aelodau Isaf y Corff' yn parhau i fod ymhlith y 3 phrif reswm dros salwch hirdymor yn ystod chwarter 4, gydag absenoldeb 'Cyhyrysgerberbydol – Aelodau Uchaf y Corff' yn uwch nag absenoldebau yn sgil methu prawf meddygol/ffitrwydd am y tro cyntaf yn y flwyddyn bresennol. Er nad yw absenoldebau 'Cyhyrysgerberbydol – Aelodau Uchaf y Corff' wedi cynyddu yn ystod chwarter 4, mae nifer y gweithwyr a oedd yn absennol yn yr hirdymor yn sgil methu profion meddygol/ffitrwydd wedi gostwng o 7 achos yr un yn chwarter 1, 2 a 3 i 4 achos yn chwarter 4, sy'n dangos gwelliant cyffredinol o ran lefelau ffitrwydd gweithwyr.

Iechyd meddwl oherwydd straen sy'n parhau i fod yr achos mwyaf cyffredin o absenoldeb salwch hirdymor, gan gyfrif am 15.6% o'r absenoldebau hirdymor yn ystod 2025/26. Hyd cyfartalog absenoldeb o'r fath oedd 54 diwrnod.

Gwnaeth cymorth iechyd meddwl a lles ychwanegol barhau i gael ei gyflwyno yn ystod 2025/26, gan ategu gwasanaethau iechyd galwedigaethol, cymorth gweithwyr a ffisiotherapi presennol sydd wedi bod ar gael ers blyneddau. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, hyfforddiant 'peidio cadw'n dawel', ymwybyddiaeth o hunanladdiad ac ôl-drafodaethau digwyddiadau critigol yn ogystal â mwy o adnoddau a gwybodaeth gyfeirio i staff.

Yn ystod 2025/26, cafwyd 68 o achosion o salwch hirdymor yn ymwneud â chyflyrau cyhyrysgerberbydol sy'n effeithio ar aelodau uchaf ac isaf y corff, gan arwain at gyfanswm o 3,159 diwrnod wedi'u colli. Mae'r absenoldebau hyn yn aml yn ymwneud ag adfer ar ôl llawdriniaeth a'r gofyniad i weithwyr adennill ffitrwydd, cryfder ac ystod symudiad llawn cyn dychwelyd i rôl weithredol. Lle y bo'n briodol, mae dyletswyddau wedi'u haddasu a phroses dychwelyd yn raddol yn parhau i gael eu defnyddio i alluogi pobl i ddychwelyd i'r gwaith yn gynt ac yn fwy diogel.

Cymhariaeth Cymru Gyfan

Nifer y diwrnodau sifft cyfartalog a gollwyd y pen ar gyfer pob absenoldeb (tymor byr a hirdymor) ar sail Cymru Gyfan oedd 13.17 diwrnod sifft y pen ar gyfer staff lifrai amser cyflawn, 20.5 diwrnod sifft y pen ar gyfer staff Ystafell Reoli, ac 14.58 diwrnod sifft y pen ar gyfer staff Corfforaethol.

O gymharu â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru, Gogledd Cymru oedd â'r nifer isaf o ddiwrnodau sifft a gollwyd y pen oherwydd absenoldebau

hirdymor a thymor byr ar draws y tri math o ddyletswydd o blith y tri gwasanaeth.

Nifer y sifftiau/diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch	GTADC	GTACGC	GTAGC
Staff lifrai amser cyflawn	14.96	10.48	11.66
Staff Ystafell Reoli	22.83	32.08	8.19
Staff Corfforaethol	19.32	12.93	8.5

Noder, mae'r data Cymru Gyfan ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024 - Mawrth 2025, gyda'r diweddariad diweddaraf wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2025. Mae'r set ddata yn adrodd ar ddata absenoldeb ar gyfer staff amser cyflawn, ystafell reoli a chorfforaethol yn unig; nid yw'n cynnwys data ar gyfer staff ar alwad neu wrth gefn.

Ein Hegwyddor Atal




2 Pob Digwyddiad

Pob Digwyddiad – Aethpwyd i **6,611** o ddigwyddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26, sy'n gynydd o 1.8% o 6,493 o ddigwyddiadau yn ystod 2024-25. Mae hyn hefyd 8.1% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 6,115.


Tanau – Aethpwyd i **2,040** o danau yn ystod 2025-26, sy'n gynydd o 13.1% o'r 1,804 yr aethpwyd iddynt yn ystod 2025-26, ac 11.7% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 1,826. Mae hyn gan fod nifer y tanau yr aethpwyd iddynt yn Ch1 a Ch2 yn agos at derfyn uchaf yr hyn y byddai'r gwasanaeth yn ei ddisgwyl fel arfer. Yna dychwelodd y lefelau i gyfradd debyg i flynyddoedd blaenorol trwy gydol Ch3 a Ch4.

Galwadau Diangen - **3,209**, gostyngiad o 1.7% o'r 3,265 a adroddwyd yn ystod 2024-25, ond 8.9% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 2,948. Er bod lefelau'r galwadau diangen wedi cynyddu'n raddol dros y blynedd blaenorol, gwelwyd y gostyngiad blyneddol cyntaf ers 2017-18 yn 2025-26.

GGAau - Aethpwyd i **1,362** o ddigwyddiadau Galwadau Gwasanaeth Arbennig yn 2025-26, gostyngiad o 4.4% o'r 1,424 yr aethpwyd iddynt yn 2024-25. Mae nifer y digwyddiadau galwadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd iddynt wedi



dangos cynnydd blynyddol dros y blynyddoedd blaenorol, ond gwelwyd y gostyngiad cyntaf ers 2010-11 yn 2025-26.




3 Tanau Damweiniol mewn Anheddau (TDAau)


Aethpwyd i **322** o danau damweiniol mewn anheddau yn 2025-26, sy'n ostyngiad o 4.7 o 338 yn 2024-25.

Er bod cynnydd yn nifer y TDAau yr aethpwyd iddynt yn Ch3 2025-26, yn ystod Ch4 dychwelodd y nifer yn unol â hanner cyntaf y flwyddyn, sy'n golygu y parhaodd y nifer blynyddol cyffredinol o danau damweiniol mewn cartrefi i ostwng, ac y gwelwyd y nifer isaf y mae'r gwasanaeth wedi'i gofnodi ar gyfer unrhyw flwyddyn ers 2017-18 yn 2025-26.

Accidental Dwelling Fires by Quarter / Tanau Damweiniol mewn Cartrefi



Accidental Dwelling Fires by Quarter / Tanau Damweiniol mewn Cartrefi fesul Chwarter



Amser ymateb cyfartalog y Gwasanaeth yn ystod 2025-26 (ac eithrio Galwadau Tân Hwyr) oedd 13 munud. Mae hyn yn seiliedig ar yr amser rhwng yr alwad a'r amser y cyrhaeddodd y peiriant tân cyntaf.

Er bod yr amseroedd ymateb cyfartalog yn Ynys Môn a Gwynedd yn ymddangos yn arafach nag ardaloedd eraill, mae hyn yn unol â'r patrymau y byddem yn eu disgwyl oherwydd y seilwaith a'r ddaearyddiaeth yn yr ardaloedd hyn o gymharu â Chonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrexham, lle mae nifer o orsafoedd amser cyflawn, rhwydweithiau ffyrdd dwysach, pellteroedd byrrach, a mwy o alw trefol.

County / Sir	ADFs / Tanau Damweiniol mewn Cartrefi	Year on Year / Blwyddyn ar ôl Blwyddyn	Average Response Time / Amser Ymateb ar Cyfartaledd	
Anglesey / Ynys Môn	40	⬆️	3	00:16
Conwy / Conwy	55	⬇️	-6	00:11
Denbighshire / Sir Ddinbych	53	⬆️	6	00:12
Flintshire / Sir y Fflint	64	⬇️	-1	00:12
Gwynedd / Gwynedd	48	⬇️	-12	00:17
Wrexham / Wrexham	55	⬇️	-3	00:11
Total / Cyfanswm	315	-13	00:13	

Drwy gydol chwarter 4 2025-26, gwelwyd gostyngiad mewn amseroedd ymateb ar draws pob ardal awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru, ac eithrio Sir y Fflint.

County / Sir	ADFs / Tanau Damweiniol mewn Cartrefi	Year on Year / Blwyddyn ar ôl Blwyddyn	Average Response Time / Amser Ymateb ar Gyfartaledd	
Anglesey / Ynys Môn	12	⬇️	-1	00:13
Conwy / Conwy	10	⬇️	-14	00:15
Denbighshire / Sir Ddinbych	12	⬇️	-2	00:14
Flintshire / Sir y Fflint	16	⬆️	2	00:14
Gwynedd / Gwynedd	17	⬇️	-1	00:18
Wrexham / Wrexham	7	⬇️	-13	00:09
Total / Cyfanswm	74	-29		00:14

4 Prif Achosion Tanau Damweiniol mewn Anheddau


Yn ystod 2025-26 yr achos mwyaf cyffredin o TDCau oedd '**Eitemau llosgadwy yn rhy agos at ffynhonnell wres (neu dân)**', a oedd yn gyfrifol am 30%, neu bron i 1 o bob 3 TDC yr aethpwyd iddynt yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd yn nifer a chyfran y TDCau a achoswyd gan hyn o gymharu â 2024-25. Allan o'r 10 mlynedd diwethaf, 2025-26 oedd â'r nifer uchaf o TDCau (95) a achoswyd gan hyn.

Roedd achosion eraill o TDCau a gynyddodd yn 2025-26 yn cynnwys:

- 'Nam ar offer neu gyfarpar', a gynyddodd o 31 (9% o'r holl TDCau) yn 2024-25, i 34 (11% o'r holl TDCau).
- 'Trin yn ddiotal – oherwydd gwaredu diotal', gyda chynnydd o 18% (5% o'r holl TDCau) yn 2024-25, i **21 (7% o'r holl TDCau)**.



Er gwaethaf hyn, gwelwyd gostyngiad mewn ambell brif achos yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- 'Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan', a ostyngodd o 39 (12% o'r holl TDCau) yn 2024-25 i **35 (11% o'r holl TDCau)**.
- 'Arall', a ostyngodd o 26 (8% o'r holl TDCau) yn 2024-25 i **18 (6% o'r holl TDCau)**.



Wrth adolygu prif achosion Tanau Damweiniol mewn Anheddau ym mhob chwarter trwy gydol 2025-26, gwnaeth **Eitemau llosgadwy yn rhy agos at ffynhonnell wres (neu dân)** achosi 35 o TDAu yn Ch3, sy'n ffigur anarferol o uchel. Yn ystod Ch4, fodd bynnag, gostyngodd hyn i **18** sydd o fewn yr ystod a welir fel arfer mewn unrhyw chwarter.

Coginio – coginio arall oedd prif achos TDCau yn Ch4 2025-26, gan gyfrif am 20 (26%) o'r TDCau yr aethpwyd iddynt yn y cyfnod hwn.



Camau gweithredu hyd yma:

Mae'r Tîm Atal a'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd wedi bod yn rhagweithiol wrth ddelio â phrif achosion tanau damweiniol mewn anheddau. Mae sawl neges ar y cyfryngau cymdeithasol, fel "Mae Tân yn Lladd" a'r fideos ynghylch peidio â chadw llygad ar fwyd sy'n coginio, wedi'u rhannu ar draws pob platfform.

Mae Tîm Atal GTAGC wedi annog gofalmwyr amlasiantaethol a gweithwyr cymorth ar draws y rhanbarth i gofrestru i gael cyngor a llenyddiaeth atal wedi'u targedu yn syth i'w cyfeiriadau e-bost trwy 'Gov Delivery'. Mae hyn wedi galluogi'r Tîm Atal i rannu gwybodaeth bwysig am ddiogelwch yn y gegin/coginio ac i rannu ein gwybodaeth atgyfeirio er mwyn cynhyrchu atgyfeiriadau ar gyfer yr unigolion sy'n wynebu'r risg uchaf.

Mae criwiau tân yn parhau i ddefnyddio data Caerwysg wrth gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach (ADlau), a hynny er mwyn targedu'r rhai dros 65 oed sy'n ystadegol yn fwy tebygol o gael tân yn y gegin.

Camau Gweithredu Pellach:

Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn – bu'r tîm atal, asiantaethau partner a staff cymorth amrywiol o bob rhan o'r Gwasanaeth yn cynnal Archwiliadau Diogel ac Iach, gan dargedu'r rhai mwyaf agored i niwed a thynnu sylw at bwysigrwydd peidio â gadael bwyd yn coginio heb oruchwyliaeth a chadw eitemau llosgadwy i ffwrdd o ffynonellau gwres a chyfarpar coginio.

Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Atal yn treialu cynnyrch diogelwch popti arloesol o'r enw 'Pippa'. Mae'r teclyn synhwyro bach hwn, sy'n cael ei osod uwchben y popti, yn defnyddio AI i synhwyro'r arwyddion cynnar o wres a thân, gan rybuddio'r preswlydd o gynnydd sydyn mewn tymheredd. Hefyd, gall y teclyn rybuddio aelod o'r teulu neu ofalwr trwy ap ffôn symudol.

5 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Anheddau


Cafodd **84** o bobl anafiadau mewn **57** o TDCau yn ystod 2025-26. Yn anffodus, cafwyd **dwy** farwolaeth o ganlyniad i TDCau.

Cynyddodd nifer y bobl a anafwyd o ganlyniad i TDC gan 24% yn 2025-26 o 68 yn 2024-25, a chynyddodd nifer y TDCau a achosodd anafiadau gan 7.5% o 53 yn 2024-25.

Y math mwyaf cyffredin o anaf oedd 'Llethu gan nwy, mwg neu fygdarth gwenwynig; mygu', a oedd yn gyfrifol am 39 o'r anafiadau (46%). 'Anawsterau anadlu (ac eithrio Llethu gan nwy, mwg neu fygdarth gwenwynig; mygu)' oedd yr ail fath mwyaf cyffredin o anaf, yn gyfrifol am 18 (21%) arall o'r anafiadau.


Yn ystod 2025-26, dioddefodd cyfran uwch o'r sawl a anafwyd anafiadau Bach (cynnydd o 24% yn 2024-25 i 33% o'r holl anafiadau a adroddwyd yn ystod y flwyddyn). Mewn cyferbyniad, daeth anafiadau difrifol yn llai cyffredin, gan ostwng o bum achos yn 2024-25 i un yn 2025-26.

Fatalities and Casualties from Accidental Fires in Dwellings



Trwy gydol 2025-26, cofnodwyd y gyfran fwyaf o anafiadau o TDCau yn ystod Ch3. Dyma'r cyfnod pan aethpwyd i'r nifer fwyaf o TDCau, fodd bynnag, roedd nifer yr anafiadau a gofnodwyd yn Ch3 yn llawer uwch na'r swm a welir fel arfer o gymharu â nifer y TDCau.

Yn Ch4, gostyngodd nifer y TDCau yr aethpwyd iddynt, gan arwain at lai na hanner nifer y TDCau a arweiniodd at anafiadau fel y gwelwyd yn y chwarter blaenorol (o 21 yn Ch3 i 10 yn Ch4), gyda 12 o anafiadau.



6 Synwryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Anheddau

Synwryddion: roedd synwryddion mwg/gwres yn bresennol mewn **280** (87%) o'r anheddau lle digwyddodd tanau damweiniol yn ystod 2025-26.


Gwnaeth larymau weithredu a seinio rhybudd yn **188** (58%) o'r cartrefi lle digwyddodd tanau damweiniol yn ystod y flwyddyn. O'r 188 o TDCau hyn, cafodd y tân ei gyfyngu i'r ystafell lle y cychwynnodd yn **173** (92%) o'r achosion.

Nid oedd larymau wedi eu gosod mewn **42** (13%) o'r cartrefi lle digwyddodd tanau damweiniol.

O'r 322 o TDCau yr aethpwyd iddynt, cafodd **282** eu cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, ac ni chyfyngwyd **40**.


O'r 282 o TDCau a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, roedd **173** (**61%**) yn ddigwyddiadau lle roedd larymau wedi'u gosod ac wedi seinio.

Accidental Dwelling Fires confined to room of origin, by smoke alarm activation / Tanau Damweiniol mewn Cartrefi wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, trwy seinio larwm mwg



Trwy gydol 2025-26, er mai yn Ch3 yr aethpwyd at y nifer fwyaf o TDCau, mae'n werth nodi mai yn Ch3 y gwelwyd y nifer fwyaf o TDCau a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, a lle roedd larwm wedi'i osod ac wedi seinio, gan hefyd ddangos y nifer isaf o ddigwyddiadau lle nad oedd larymau wedi'u gosod. Yn Ch4 dychwelodd nifer y TDCau i lefel a oedd yn fwy cyson â hanner cyntaf y flwyddyn, a gyda chyfrannau tebycach o ran cyfyngu ar danau a larymau'n seinio.

Accidental Dwelling Fires confined to room of origin, by smoke alarm activation / Tanau Damweiniol mewn Cartrefi wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, trwy seinio larwm mwg



Camau a gymerwyd i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed o ran tanau yn eu cartrefi:

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, cwblhaodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) 19,376 o Archwiliadau Diogel ac Iach (ADlau), gan ragori ar y targed blyneddol o 17,500 gan 1,876 o archwiliadau. O'r rhai a gwblhawyd, aseswyd 5,493 o ADlau fel rhai risg uchel, sy'n cynrychioli 28.4% o gyfanswm y gweithgarwch ADI.

Gan gydnabod yr angen i gynyddu cyfran yr ymyriadau risg uchel, mae nifer o fesurau wedi'u rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys gofyn i griwiau gweithredol flaenoriaethu atgyfeiriadau risg uchel, a GTAGC yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu dull haenu a sgorio risg Cymru Gyfan i gefnogi proses fwy cyson a thargedig o nodi bregusrwydd.

Gweithgarwch Atal wedi'i Dargedu ar Sail Data

Yn ystod Chwarter 3, cynhaliodd gorsafoedd Amser Cyflawn (AC) a Chriw Dydd (CD) weithgarwch atal wedi'i dargedu gan ddefnyddio data Caerwysg a rannwyd gan y GIG. Mae'r set ddata hon yn nodi aelwydydd

â phreswylwyr 65 oed a hŷn, gyda haenu ychwanegol ar 75+ ac 80+ oed. Mae'r dull hwn yn galluogi criwiau i dargedu ADlau yn rhagweithiol at grwpiau oedran sydd, yn ystadegol, mewn mwy o berygl o gael eu niweidio gan dân.

Trefniadau Rhestr Aros Atgyfeirio

Yn ystod Chwarter 3, tynnwyd ADlau o'r rhestr aros atgyfeirio dros dro fel dull dyrannu. Yn ystod y cyfnod hwn:

- Cwblhawyd atgyfeiriadau risg uchel a chanolig gan Weithwyr Cymorth Diogelwch Risg Uchel (GCDRIau); a
- Chwblhawyd atgyfeiriadau risg isel gan staff Ymateb Diogelwch Dydd Amser Cyflawn (WDSR).

Yn Chwarter 4, adolygwyd y dull hwn. Mae bellach yn ofynnol i griwiau ddefnyddio'r rhestr aros atgyfeirio fel y brif ffynhonnell ar gyfer gweithgarwch ADI, gyda data Caerwysg yn cael ei gadw fel opsiwn eilaidd neu wrth gefn.

Cyflwynwyd y newid hwn mewn ymateb i'r nifer cynyddol o atgyfeiriadau ar y rhestr aros, gan gynnwys nifer a oedd yn hwyr. Mae'r dull diwygiedig yn sicrhau bod gweithgarwch gweithredol yn canolbwyntio ar y rhai yr aseswyd eu bod yn wynebu'r risg fwyaf yn y gymuned, yn hytrach na blaenoriaethu ADlau risg is i gyflawni targedau rhifiadol. Mae hyn yn mynd i'r afael â phryderon bod trefniadau blaenorol wedi arwain at flaenoriaethu swm gweithgarwch dros effaith ac ansawdd ar sail risg.

Goruchwyliaeth Atal Barhaus

Mae gweithgaredd targedu yn parhau i gael ei wneud yn dilyn digwyddiadau, gydag ymatebion atal ar ôl digwyddiad yn gymesur â lefel y risg a nodwyd.

Mae'r Tîm Atal yn parhau i oruchwyllo'r gwaith o gyflawni ADlau trwy gyfarfodydd monitro wythnosol, gan alluogi perfformiad a risgiau sy'n dod i'r amlwg i gael eu rheoli'n weithredol.

Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd (GLIY) yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo'n rhagweithiol negeseuon diogelwch tân, ffyrdd a dŵr ar draws pob platfform cyfryngau priodol, gan gefnogi amcanion atal a diogelwch cyhoeddus ehangach.

Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc:

Ffenics

	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Nifer y cyrsiau a gynhaliwyd	4	4	6	6
Nifer y plant a phobl ifanc	33	29	55	55
% y gwelliant mewn ymddygiad a adroddwyd	80%	78%	66%	73%
% adborth cadarnhaol	100%	100%	100%	100%
% Agored Cymru	70%	70%	62%	92%
% y plant a phobl ifanc a gwblhaodd y cwrs	88%	86%	67%	92%

Mae gwaith yn mynd rhagddo ledled Cymru i alluogi rhaglen Ffenics i gefnogi'r gwaith o gyflawni Fframwaith Ymyriadau Cynnar Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (CCPT), yn unol â blaenoriaethau atal ac ymyrraeth gynnar cenedlaethol.

Ymddiriedolaeth y Brenin

Mae'r holl bolisiau a gweithdrefnau angenrheidiol sy'n ymwneud â Dyfarniad Ymddiriedolaeth y Brenin bellach ar waith, ac mae'r Gwasanaeth wedi cyflawni statws canolfan achrededig.

Ymweliadau Addysgol ag Ysgolion yn Ch4

Ysgolion yr Ymwelwyd â Nhw = 9
Disgyblion = 810

Cwblhawyd Hyfforddiant Rheoli Adnoddau Tîm (RhAT) yn Ch4.

Cadetiad Tân


Mae'r ddarpariaeth Cadetiad Tân yn parhau i weithredu mewn unedau yn Amlwch, y Bala, y Waun a Thywyn.

Mae Uned Cadetiad Tân Porthaethwy ar gau dros dro yn dilyn ymadawiad arweinydd yr uned o'r Gwasanaeth. Mae datganiadau o ddiddordeb wedi'u derbyn gan staff gweithredol eraill, ac mae opsiynau i ailsefydlu'r uned wrthi'n cael eu harchwilio.

7 Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGAau)

Aethpwyd i gyfanswm o **1,362** o alwadau gwasanaeth arbennig (gan gynnwys Gwrthdrawiadau ar y Ffordd) yn 2025-26, sydd 4.4% yn is na'r 1,424 yr aethpwyd iddynt yn 2024-25.


Er bod nifer y digwyddiadau 'Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd' wedi gostwng gan 8.8%, gyda **1,065** o ddigwyddiadau wedi'u mynychu, bu cynnydd o 16% yn nifer y Gwrthdrawiadau ar y Ffordd yr aethpwyd iddynt, gyda **297** o ddigwyddiadau wedi'u mynychu yn 2025-26 o gymharu â 249 yn ystod 2024-25.



Yn ystod 2025-26, ni wnaeth nifer y digwyddiadau GGA yr aethpwyd iddynt ddilyn yr un duedd ag a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Yn 2023-24 a 2024-25, gwelwyd cynnydd mawr yn ystod Ch3 yn nifer y GGAau yr aethpwyd iddynt nad oeddent yn Wrthdrawiadau ar y Ffordd. Fodd bynnag, yn 2025-26, er bod cynnydd wedi'i weld o hyd yn ystod Ch3 yn nifer y digwyddiadau GGA yr aethpwyd iddynt nad oeddent yn Wrthdrawiadau ar y Ffordd, roedd hyn yn gynnydd llai nag a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Mewn cyferbyniad fodd bynnag, yn Ch3, cynyddodd nifer y GGAau yr aethpwyd iddynt a oedd yn Wrthdrawiadau ar y Ffordd i 92, sydd y tu hwnt i'r lefelau a ddisgwylid fel arfer mewn chwarter. Yn Ch4, gostyngodd hyn i 58, sydd o fewn yr ystod y gellid ei ddisgwyl fel arfer.

Special Service calls by quarter / Galwadau Gwasanaeth Arbennig fesul chwarter



Roedd y prif gategoriâu o GGAu yn ystod 2025-26 (ac eithrio Gwrthdrawiadau ar y Ffordd) yn cynnwys:

- **545** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo asiantaethau eraill' – cynnydd o 2.4% o'r 532 a gofnodwyd yn ystod 2024-25.
- **103** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo i fynd i mewn/allan' – cynnydd o 33.8% o'r 77 a gofnodwyd yn ystod 2024-25.
- **79** o ddigwyddiadau 'Achub/rhyddhau personau arall' – gostyngiad o 14.1% o'r 92 a gofnodwyd yn ystod 2024-25.
- **71** o ddigwyddiadau 'Rhyddhau o Liff' – gostyngiad o 9% o'r 78 a gofnodwyd yn ystod 2024-25.

Roedd y prif gategoriâu o GGAu (ac eithrio Gwrthdrawiadau ar y Ffordd) a gofnodwyd yn ystod Ch4 2025-26 yn cynnwys:

- **149** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo asiantaethau eraill' – gostyngiad o 2.6% o'r 153 a gofnodwyd yn ystod Ch3.

- **30** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo i fynd i mewn/allan' – cynnydd o 15.4% o'r 26 a gofnodwyd yn ystod Ch3.

Parhaodd y ddau gategori hwn i fod y prif achosion o ddigwyddiadau GGA yr aethpwyd iddynt trwy gydol pob chwarter yn 2025-26.

Camau gweithredu hyd yn hyn:

Diogelwch ar y Ffyrdd

Stori Olivia

Yn ystod Chwarter 4, cyflwynwyd Stori Olivia, sef ymyrraeth diogelwch ar y ffyrdd, i 970 o fyfyrwyr coleg, gan gefnogi ymgysylltu wedi'i dargedu â phobl ifanc ar y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio ffyrdd ac ymddygiad gyrwyr.

Tîm Ymgyrch Atal

Mae'r tîm Ymgyrch Atal yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru (HGC) i addysgu gyrwyr am y Pum Achos Angheuol o wrthdrawiadau traffig ffyrdd difrifol. Yn ystod Chwarter 4:

- Gwnaed 1,640 o gyflwyniadau ar ochr y ffordd; a
- Daethpwyd ag erlyniadau gyrru yn erbyn 79 o yrwyr yn dilyn gweithgarwch gorfodi.

BikerDown

Cyflwynwyd un sesiwn Biker Down yn ystod Chwarter 4, gan ymgysylltu â 17 o gyfranogwyr. Mae'r rhaglen yn parhau i gynnig cyngor diogelwch arbenigol gyda'r nod o leihau anafiadau/marwolaethau sy'n gysylltiedig â beiciau modur.

Gweithgareddau Diogelwch Ffyrdd Parhaus Eraill

Yn ogystal â'r uchod, mae GTAGC yn parhau i ymgymryd ag ystod o fentrau diogelwch ar y ffyrdd, gan gynnwys:

- Gweithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru ar lansio Ymgyrch Apex, sy'n cynnwys cyflwyno marciau ffyrdd PRIME newydd ar ddwy ffordd yng Ngogledd Cymru i helpu beicwyr modur i lywio troeon yn ddiogel; a
- Datblygu adnoddau ymgysylltu wedi'u targedu i gefnogi gyrwyr hŷn, gan gydnabod y proffiliau risg sy'n newid o fewn y grŵp hwn.

Diogelwch Dŵr – Diweddariad Chwarter 4

Cynllun Peilot Diogelwch Dŵr

Lansiwyd Cynllun Peilot Diogelwch Dŵr GTAGC / Nofio Cymru / Ffit Cymru ar 12 Chwefror 2026. Daeth llawer o bobl i'r digwyddiad lansio, gyda 30 o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y fenter Nofio Diogel.

Roedd y sesiwn yn cynnwys rhaglen lawn o weithgareddau ar ochr y pwll ac yn y pwll, gan gyflwyno egwyddorion diogelwch dŵr allweddol i ddisgyblion Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4, gan gynnwys:

- Stopio a meddwl
- Aros gyda'ch gilydd
- Arnofio
- Ffonio 999 mewn argyfwng

Ers ei lansio, mae'r cynllun peilot wedi ymgysylltu â chyfanswm o 93 o ddisgyblion.

Y ffocws cychwynnol yw sefydlu model cyflawni cryf yn Sir Conwy, cyn ei gyflwyno'n ehangach ar draws Gogledd Cymru.

Mae cynlluniau ar waith ar hyn o bryd i gynnal digwyddiad Nofio Diogel yn Ynys Môn fel rhan o'r Wythnos Deall Peryglon Dŵr ddiwedd mis Ebrill. Bydd hyn yn cefnogi gwaith cydweithredol gydag ysgolion Ynys Môn yn y dyfodol i ymgorffori'r neges *Arnofio i Fyw* ymhellach.

Mae gohebiaeth fewnol wedi'i chyhoeddi i recriwtio staff ychwanegol i gefnogi'r cynllun peilot, gyda dros 10 aelod o staff yn mynegi diddordeb hyd yma. Disgwylir i'r hyfforddiant ar gyfer staff sy'n cymryd rhan ddechrau yn gynnar ym mis Mai.

Ymgych Deall Peryglon Dŵr

Fel rhan o Wythnos Deall Peryglon Dŵr, mae'r gweithgareddau canlynol wedi'u cynllunio:

- Ymgysylltu â chriw lleol ym Metws-y-Coed, Llangollen, Llanberis, a'r Rhyl ar 2 Mai;
- Ymgysylltu mewn ysgolion yn Ynys Môn yn ystod yr un wythnos; ac
- Ymgych cyfryngau cymdeithasol wythnos o hyd yn canolbwyntio ar negeseuon ymwybyddiaeth diogelwch dŵr.

Cynhadledd ROSPA

Mae crynodeb wedi'i gyflwyno ar y cyd â Nofio Cymru mewn ymateb i gais i gyflwyno yng Nghynhadledd ROSPA yn Birmingham ym mis Hydref. Mae'r cyflwyniad yn adlewyrchu gwaith partneriaeth a dysgu a rennir mewn perthynas â gweithgarwch diogelwch dŵr ac atal.

PentrePeryglon

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu adran ymwybyddiaeth dŵr PentrePeryglon. Mae GTAGC yn ariannu tanc arddangos diogelwch dŵr, yn debyg i'r un a ddefnyddir gan y Gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae cyfarfod gyda PentrePeryglon wedi'i drefnu ar gyfer 14 Ebrill 2026 i gefnogi cydweithio a datblygu'r gofod diogelwch dŵr pwrpasol.

River and Sea Sense

Mae digwyddiad River and Sea Sense ar y cyd wedi'i gynllunio ar gyfer 25 Gorffennaf 2026 i gyd-daro â Diwrnod Atal Boddï'r Byd. Bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal ar safleoedd dŵr mewndirol lleol, gan gynnwys:

- Llyn Tegid
- Llyn Padarn
- Llangollen

Bydd y digwyddiad hwn yn cefnogi negeseuon diogelwch dŵr cydgysylltiedig, yn seiliedig ar le, mewn partneriaeth â budd-ddeiliaid perthnasol.


8 Archwiliadau Diogel ac Iach

Cwblhawyd cyfanswm o **19,376** o ADlau drwy gydol 2025-26. O'r rheini:


- Roedd **5,493** (28.3%) yn archwiliadau blaenoriaeth Uchel, gyda **2,960** (53.9% o'r archwiliadau blaenoriaeth uchel a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **3,839** (19.8%) yn archwiliadau blaenoriaeth Ganolig, gyda **427** (11.1% o'r archwiliadau blaenoriaeth ganolig a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **10,004** (51.6%) yn archwiliadau blaenoriaeth Isel, gyda **530** (5.3% o'r archwiliadau blaenoriaeth isel a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.

Cafodd cyfanswm o **3,917** o ADlau a gwblhawyd eleni eu cyfeirio at y Gwasanaeth gan Asiantaeth – mae hyn yn cyfateb i 20.2% o'r ADlau a gwblhawyd.

Er bod gostyngiad o **3.2%** wedi bod yng nghyfanswm yr ADlau a gwblhawyd yn 2025-26 o gymharu â'r 20,020 a gwblhawyd yn 2024-25, bu cynnydd yn nifer (5,493 yn 2025-26 o gymharu â 5,088 yn 2024-25) a chyfran (28.3% o'r holl ADlau a gwblhawyd yn 2025-26, o gymharu â 25.4% o'r holl ADlau a gwblhawyd yn 2024-25) yr ADlau **blaenoriaeth uchel** a gwblhawyd.



Yn ystod Ch4 2025-26, cwblhawyd cyfanswm o **4,441** o Archwiliadau Diogel ac lach, sy'n is na'r 5,111 a gwblhawyd yn ystod y chwarter blaenorol (Ch3 2025-26), fodd bynnag, cofnodwyd bod **37.2%** (1,654 allan o 4,441) o'r rhain yn archwiliadau blaenoriaeth Uchel, sy'n gynnydd o'r 27.2% (1,389 allan o 5,111) o archwiliadau blaenoriaeth uchel a gwblhawyd yn Ch3 2025-26.




Cynhaliwyd cyfanswm o 1,192 (8.0%) o ADlau yn Gymraeg yn ystod chwarteri 1 – 3.

Yn ystod 2025-26, cwblhawyd **88%** o'r holl ADlau o fewn eu dyddiad cwblhau targed.

O'r ADlau a gwblhawyd yn ystod 2025-26 a oedd yn archwiliadau blaenoriaeth Uchel, cwblhawyd 67% o fewn eu dyddiad cwblhau targed.

All Checks by Days Over Target Completion / Pob Gwiriad yn ôl Dyddiau Dros Gwblhau Targed



● Within Target / O fewn y Targed
● Outside Target / Tu allan i'r Targed


High Priority Checks by Days Over Target Completion / Gwiriadau Blaenoriaeth Uchel yn ôl Dyddiau Dros Gwblhau Targed




● Within Target / O fewn y Targed
● Outside Target / Tu allan i'r Targed

Yn ystod chwarter 4, ar draws holl flaenoriaethau'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd, cwblhawyd 83% o fewn y dyddiad cwblhau targed. Cwblhawyd 64% o'r Archwiliadau Diogel ac Iach Blaenoriaeth Uchel a gwblhawyd yn chwarter 4 o fewn y targed, sy'n welliant o gymharu â Ch3 pan gwblhawyd 62% o'r archwiliadau blaenoriaeth uchel o fewn y targed.

All Checks by Days Over Target Completion / Pob Gwiriad yn ôl Dyddiau Dros Gwblhau Targed



High Priority Checks by Days Over Target Completion / Gwiriadau Blaenoriaeth Uchel yn ôl Dyddiau Dros Gwblhau Targed



Camau gweithredu hyd yma:

Archwiliadau Diogel ac Iach (ADlau)

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, cwblhaodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) 19,376 o Archwiliadau Diogel ac Iach (ADlau). Rhagorodd hyn ar y targed blyneddol o 17,500 gan 1,876 o archwiliadau.

O gyfanswm yr ADlau a gwblhawyd, aseswyd 5,493 fel rhai risg uchel, sy'n cynrychioli 28.4% o gyfanswm y gweithgarwch ADI. Mae nifer o fesurau wedi'u gweithredu i wella cyfran yr ADlau risg uchel sy'n cael eu cwblhau, gan gynnwys:

- Blaenoriaethu atgyfeiriadau risg uchel ar gyfer criwiau gweithredol; a
- Chyfrannu at ddatblygu model haenu risg Cymru Gyfan i wella cysondeb a tharged.

Gweithgarwch Atal wedi'i Dargedu

Yn ystod Chwarter 3, cynhaliodd gorsafoedd Amser Cyflawn (AC) a Chriw Dydd (CD) weithgarwch atal wedi'i dargedu gan ddefnyddio data Caerwysg (a rannwyd gan y GIG). Mae'r set ddata hon yn nodi aelwydydd sydd â phreswylwyr 65+, 75+, ac 80+ oed, gan alluogi criwiau i ganolbwyntio'r ddarpariaeth ADI ar grwpiau demograffig y gwyddom eu bod yn wynebu perygl uwch o dân.

Rheoli'r Rhestr Aros Atgyfeirio

Yn Chwarter 3, tynnwyd ADlau o'r rhestr aros atgyfeirio dros dro fel dull cyflawni. Yn ystod y cyfnod hwn:

- Cwblhawyd atgyfeiriadau risg uchel a chanolig gan Weithwyr Cymorth Diogelwch Risg Uchel (GCDRIau); a
- Chwblhawyd atgyfeiriadau risg isel gan staff Gwledig System Dyletswydd Amser Cyflawn (WDSR).

Yn Chwarter 4, adolygwyd y dull hwn. Mae bellach yn ofynnol i griwiau:

- Ddefnyddio'r rhestr aros atgyfeirio fel y brif ffynhonnell i nodi gweithgarwch ADI; a
- Defnyddio data Caerwysg fel opsiwn eilaidd neu wrth gefn yn unig.

Gweithredwyd y newid hwn mewn ymateb i dwf rhestrau aros, gan gynnwys nifer o atgyfeiriadau hwyr. Mae'r dull diwygiedig yn rhoi mwy o bwyslais ar dargedu'r rhai yr aseswyd eu bod yn wynebu'r perygl mwyaf, yn hytrach na chanolbwyntio ar ADlau risg is i fwrw targedau rhifiadol. Mae hyn yn ymateb i bryderon bod y trefniadau blaenorol yn canolbwyntio ar swm y gweithgarwch yn hytrach nag ansawdd ac effaith ar sail risg.

Goruchwyliaeth ar ôl Digwyddiad a Goruchwyliaeth Barhaus

Mae gweithgarwch targedu'n parhau i gael ei gynnal yn dilyn digwyddiadau, gyda lefelau amrywiol o ymateb yn dilyn digwyddiad yn dibynnu ar risg a chyd-destun.

Mae'r Tîm Atal yn parhau i fonitro gweithgarwch ADI trwy gyfarfodydd wythnosol, gan sicrhau y goruchwylir perfformiad ac yr ymatebir i faterion sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd (GLIY) yn parhau i weithio'n agos gyda'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo diogelwch tân, diogelwch ar y ffyrdd a diogelwch dŵr yn rhagweithiol ar draws yr holl gyfryngau perthnasol.

Rhestr Aros

Blaenoriaeth	O fewn y Targed	Tu allan i'r Targed	Cyfanswm
Uchel	295	415	710

Canolig	96	86	182
Isel	132	22	154
Cyfanswm	523	523	1,046

Mae'r rhestr aros ADI yn parhau i fod yn destun risg i'r sefydliad, yn enwedig mewn perthynas ag atgyfeiriadau risg uchel hwyr. Fodd bynnag, mae mesurau lliniaru ar waith, ac mae nifer cyffredinol yr atgyfeiriadau bellach yn lleihau bob chwarter.

Atgyfeiriadau Rhestr Aros fesul Chwarter

- Ch2: 1,620
- Ch3: 1,479
- Ch4: 1,046

Ar ddiwedd Chwarter 4, roedd 1,046 o atgyfeiriadau ar ôl ar y rhestr aros. Mae hyn yn ostyngiad o 433 o atgyfeiriadau o gymharu â Chwarter 3.

Ar hyn o bryd mae'r rhestr aros yn cael ei rheoli ar y cyd gan:

- Griwiau gweithredol AC a CD;
- GCDRIau;
- Staff WDSR; a
- Staff sy'n gweithio ar ddyletswyddau wedi'u haddasu.

Dylid nodi yr effeithiwyd ar gapasiti staffio yn ystod Chwarter 3, gydag:

- Un GCDRI wedi'i ddyrchafu i rôl Rheolwr Atal; a
- Dau GCDRI ar absenoldeb salwch hirdymor.

Mae hyn wedi cael effaith ar lefelau cwblhau ADIau yn ystod Chwarter 4.

I liniaru hyn, anogwyd staff WDSR i gynyddu nifer yr ADIau a gynhelir dros y ffôn, ac mae'r holl wylfeydd AC a CD bellach wedi cael cais ffurfiol i ymgymryd ag ADIau risg canolig ac uchel o'r rhestr aros atgyfeirio.

Ein Hegwyddor Diogelu





9 Galwadau Diangen

Aethpwyd i gyfanswm o **3,209** o alwadau diangen trwy gydol 2025-26, sy'n ostyngiad o 1.7% o 3,265 yn 2024-25. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys galwadau diangen yr aethpwyd iddynt ar draws pob math o eiddo.

Mae cynnydd o 1.6% wedi'i gofnodi yn nifer y Galwadau Diangen Diffuant yr aethpwyd iddynt, i fyny o 1,276 i **1,296**.


Mae gostyngiad i'w weld mewn Galwadau Diangen Maleisus, a ostyngodd gan 18.8% o 64 i **52**, a hefyd mewn digwyddiadau Larwm Tân Oherwydd Cyfarpar, a ostyngodd gan 3.3% o 1,925 i **1,861**.






Trwy gydol 2025-26, roedd nifer y galwadau diangen yr aethpwyd iddynt yn ystod Ch2 a Ch3 yn uwch nag yn Ch1 a Ch4, sy'n debyg i'r patrwm a welwyd trwy gydol 2024-25.

2025/2026 Q4 False Alarms / Galwadau Diangen 2025/2026 Ch4




False Alarms by Quarter / Galwadau Diangen yn ôl Chwarter




10 Galwadau System Larwm Awtomatig (SLA) Masnachol

Cafwyd **1,601** o alwadau SLA Masnachol yn ystod 2025-26. Dim ond **pump** o'r digwyddiadau yr aethpwyd iddynt. Mae nifer y galwadau SLA masnachol a dderbyniwyd wedi dangos gostyngiad parhaus trwy gydol 2025-26.




Commercial Automatic Fire Alarm (AFA) Calls / Galwadau System Larwm Awtomatig Masnachol




11 Galwadau SLA Ysbytai

Derbyniwyd **424** o alwadau SLA Ysbytai drwy gydol 2025-26, sy'n gynydd o 17.8% o 360 yn ystod 2024-25. O'r galwadau SLA a dderbyniwyd yn 2025-26, ni fynychwyd 274 (64.6%). Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y galwadau, mae'r gyfran na fynychwyd wedi aros yn sefydlog, yn agos i'r 64% yn y flwyddyn flaenorol.

Er bod cyfanswm nifer y galwadau SLA Ysbytai a dderbyniwyd trwy gydol y flwyddyn gyfan yn gynydd ar flynyddoedd blaenorol, gyrwyd hyn i raddau helaeth gan niferoedd uwch yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, ac yn enwedig yn ystod Ch2 pan dderbyniwyd 127. Yn ystod Ch3 a Ch4, gostyngodd nifer y galwadau SLA Ysbytai yn sylweddol, gyda Ch4 yn gweld cyfanswm o 82 o alwadau SLA Ysbytai.



Hospital Automatic Fire Alarm (AFA) Calls by Quarter / Galwadau System Larwm Awtomatig gan Ysbyty fesul Chwarter






Camau a gymerwyd hyd yma – Ysbytai:

Mae nifer y digwyddiadau a fynychwyd yn parhau'n isel, a hynny oherwydd cydweithrediad parhaus rhwng GTAGC a BIPBC, gyda GTAGC bellach wedi dechrau cyfundrefn archwilio gylchol ar draws yr ystâd er mwyn cadarnhau trefniadau gweithio ac i sicrhau mai'r amgylcheddau sydd â'r risg fwyaf sy'n cael eu harchwilio. Mae Amddiffyn wedi dechrau fframwaith archwilio cynhwysfawr wedi'i strwythuro'n broffesiynol sy'n rhoi sylw i ddogfennaeth yn ymwneud â phrofi, driliau a gweithgareddau cynnal a chadw. Mae'r fframwaith yn cwmpasu cydymffurfiaeth reoleiddiol, sicrwydd gweithredol, ac adrodd ar sail tystiolaeth.

12 CEF Berwyn

Cafodd **56** o brif danau eu cynnau yn fwriadol yn CEF Berwyn yn y cyfnod adrodd - mae hyn yn gynydd o 17% (o 48 o brif danau a gofnodwyd yn ystod 2024-25). Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn digwyddiadau o Ch3, gyda Ch4 yn gweld 5 tân (y nifer isaf a adroddwyd mewn unrhyw chwarter ers Ch2 2023-24).





Camau a gymerwyd hyd yma – CEF Berwyn

Mae nifer y digwyddiadau yn CEF Berwyn yn parhau i amrywio, sy'n adlewyrchu ymddygiad addasol unigolion sy'n manipiwleiddio neu'n ailbwrpasu dyfeisiau electronig yn fwriadol i greu ffynonellau tanio. Ar ôl cyflwyno cynnyrch fepio diwygiedig, a arweiniodd i ddechrau at ostyngiad sylweddol mewn digwyddiadau cysylltiedig, bu newid dilynol yn y dulliau a ddefnyddir i gychwyn tanau. Mae hyn wedi cynnwys defnydd parhaus o fodelau fepio hŷn, datgymalu gwaelodion tegelli, ac yn fwy diweddar, ymdrechion i ymyrryd â dyfeisiau fepio "gwrthsefyll ymyrraeth" newyddach.

Mae'r risgiau hyn sy'n dod i'r amlwg wedi cael eu huwchgwyfeirio i wneuthurwyr y dyfeisiau, sydd ar hyn o bryd yn cymryd camau unioni i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd a chryfhau nodweddion diogelwch y cynnyrch ymhellach.

Mae dadansoddiad o ddata digwyddiadau hefyd yn dangos patrwm tymhorol, gyda digwyddiadau'n digwydd yn amlach ar ddiwrnodau penodol o'r wythnos. Mae'r rhain yn cyd-fynd â chyfnodau pan mae unigolion yn derbyn taliadau ac mae angen iddynt setlo dyledion, yn fwyaf cyffredin ar ddydd Iau a dydd Gwener. Mewn rhai achosion, mae tanau'n cael eu cynnau'n fwriadol fel modd o osgoi ad-dalu dyled neu i gael eu hadleoli o fewn y sefydliad. Wrth i ddulliau tanio presennol gael eu lliniaru neu eu dileu, disgwylir y bydd ymdrechion pellach i nodi ffynonellau tanio amgen yn parhau.

Mae adolygiad wedi'i gwblhau o Safonau Anfon Allan Gosodedig (SAAG) peiriannau pwmpio a swyddogion a aseiniwyd i ymateb i achosion tân a gadarnhawyd yn yr adeilad, wedi'i lywio gan y data digwyddiadau ar gyfer y 12 mis diwethaf. Ystyriwyd yr ystod o ddigwyddiadau, amseroedd y galwadau, a'r amrywiaeth o ffynonellau tanio. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylai'r lefelau presennol o adnoddau a ddyrennir ar gyfer pob digwyddiad aros yr un fath, er y gostyngiad yn nifer y digwyddiadau. Fodd bynnag, bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu'n fanwl er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn lleihau'r risg o niwed i unigolion tra'n sicrhau bod yr adnoddau sy'n cael eu rhoi ar gael yn gymesur â'r risgiau.

Bydd y Gwasanaeth yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos i nodi ac ymateb i ddulliau tanio sy'n dod i'r amlwg. O ystyried y sbardunau sylfaenol, disgwylir y bydd nifer y digwyddiadau'n parhau i godi a gostwng dros amser, sy'n golygu bod angen monitro, asesu risg, a llunio strategaethau atal addasol yn barhaus.

Ein Hegwyddor Ymateb



13 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad (SDAA)

Mae'r tabl isod yn dangos faint o bympiau oedd ar gael ar gyfartaledd ar gyfer pob Gorsaf SDAA rhwng 06:00 a 18:00. Mae'r argaeledd wedi'i rannu fesul mis, ac yn dangos argaeledd yn ystod yr wythnos (Llun-Gwener) ac ar benwythnosau/gwyliau banc.

Mae'r tabl yn cynrychioli'r holl wylfeydd SDAA nad ydynt wedi'u lleoli mewn gorsafoedd amser cyflawn neu griw dydd.

Argaeledd Gorsafoedd SDAA ar Gyfartaledd 06:00-18:00																		
Diwrnod/Mis	Ebr	Mai	Meh	Ch1	Gorff	Awst	Medi	Ch2	Hyd	Tach	Rhag	Ch3	Ion	Chwef	Maw	Ch4	Blwydd yn	Gvfan
Llun-Gwener	6	6	5	6	6	4	6	5	6	7	7	6	7	7	6	7	6	
Penwythnos (gan gynnwys Gwyliau Banc)	14	14	12	13	11	12	12	12	12	11	9	11	11	11	10	11	12	
Cyfartaledd Cyffredinol	9	9	7	8	7	7	7	7	7	8	8	8	9	8	7	8	8	
2024/25	7	7	6	7	6	7	6	6	6	7	9	7	10	9	9	9	7	

Sylwch fod niferoedd sydd ar gael wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu nifer y dechreuwyr a'r ymadawyr â'r SDAA yn ystod chwarter dau, o gymharu â'r un chwarter y llynedd. Mae llawer o'r rhai a adawodd yr SDAA y chwarter hwn wedi symud i'r System Dyletswydd Amser Cyflawn (SDAC).

Blwyddyn	Dechreuwy r	Ymadawyr	Nifer y Swyddi ar Ddiwedd y Flwyddyn	Nifer y Gweithwyr (un rôl yn unig)
Ebrill 2024 – Mawrth 2025	86	65	487	425
Ebrill 2025 – Mawrth 2026	88	71	512	427
+/-	2	6	25	2

Dechreuwyr – nifer y dechreuwyr SDAA ym mhob chwarter. Nid yw hyn yn cynnwys contractau eilaidd.


Ymadawyr - nifer yr ymadawyr â'r SDAA ym mhob chwarter. Nid yw hyn yn cynnwys contractau eilaidd, na'r rhai sy'n symud i'r SDAC.

Nifer y Swyddi ar Ddiwedd y Chwarter – nifer y swyddi SDAA sydd wedi'u llenwi, gan gynnwys y rhai sydd â mwy nag un rôl.

Nifer y Gweithwyr (un rôl yn unig) – nifer yr unigolion sydd ar yr SDAA yn unig h.y., y rhai nad oes ganddynt ddwy rôl yn y Gwasanaeth.

14 Cynllun Argaeledd 18 Pwmp

Minimum Availability Achieved / Argaeledd Gofynnol wedi'i Gyflawni



	Lleiafswm Argaeledd a gyflawnwyd	Lleiafswm Argaeledd heb ei gyflawni
Llun-Gwener	252	1
Penwythnosau/Gwyliau Banc	112	0

Roedd argaeledd offer yn ystod y dydd yn 2025-26 yn gyson uwch na'r targed gofynnol, gydag un eithriad yn digwydd ar un diwrnod o'r wythnos yn Chwarter 2.

Er gwaethaf y gostyngiad dros dro o dan y lefel ofynnol o 18 pwmp yn ystod y dydd ar y dyddiad hwnnw, roedd digon o gapasiti ledled y Gwasanaeth, gyda'r holl ardaloedd o fewn y Cynllun Grŵp 16 yn meddu ar gapasiti priodol.


16 Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg

Wrth i dechnoleg ddatblygu a'n dibyniaeth ni fel cymdeithas arni gynyddu, mae wedi dod yn amlwg bod risgiau newydd a chymhleth yn wynebu ein Gwasanaeth Tân. Gall technolegau sy'n dod i'r amlwg fod ar amrywiaeth o ffurfiau, gan gynnwys pethau fel:


- Cerbydau Trydan
- Ffermydd Gwynt
- Dyfeisiau sy'n cynnwys Batrisïonau Lithiwm

Gan nad yw llawer o'r technolegau hyn wedi'u cynnwys ar hyn o bryd o fewn System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref, cynhelir chwiliadau geiriau allweddol ar logiau digwyddiadau er mwyn dod o hyd i'r digwyddiadau perthnasol. Yn dilyn trosglwyddiad o fewn y llywodraeth, lle symudodd y cyfrifoldeb am Dân o'r Swyddfa Gartref i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG), mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan MHCLG a Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU i integreiddio'r technolegau hyn â'r system cofnodi digwyddiadau newydd, sef FaRDaP (Platfform Data Tân ac Achub). Bydd angen parhau i ddefnyddio chwiliadau geiriau allweddol i gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gofnodwyd cyn i FaRDaP gael ei gyflwyno.


Mae'r crynodeb canlynol yn dangos nifer y digwyddiadau yr aethpwyd iddynt yn ystod 2025-26, lle nodwyd technoleg benodol sy'n dod i'r amlwg yng nghofnodion y digwyddiad. Mae hyn yn cynnwys GGAu ond yn eithrio tanau bwriadol.



Er bod gan gerbydau Trydan a cherbydau Hybrid le amlwg yn y ffigurau uchod ar gyfer 2025-26, mae'r siart ganlynol yn dangos nad oedd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn yn alwadau tân.



Wrth adolygu'r digwyddiadau yr aethpwyd iddynt yn ystod Ch4 2025-26, mae'r data'n dangos yr un prif categorïau o dechnoleg sy'n dod i'r amlwg, fel y gwelwyd trwy gydol y flwyddyn.




D.S. Mewn rhai achosion, mae'r achos wedi'i dybio yn hytrach na'i gadarnhau oherwydd natur y digwyddiad.

Ein Hegwyddor Amgylchedd



15 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau

Cofnodwyd **501** o danau glaswelltir, coetir a chnydau drwy gydol 2025-26, cynnydd o 65% o'r 304 a gofnodwyd yn ystod 2024-25.



Yn 2025-26, cofnodwyd y nifer fwyaf o danau Glaswelltir yn Ch1, gyda 254 (50.7%) o'r cyfanswm a gofnodwyd ar gyfer y flwyddyn yn digwydd yn y cyfnod hwn.

16 Tanau gwyllt

Gostyngodd cyfanswm y tanau gwyllt o 44 yn 2024–25 i **40** yn 2025–26, sy'n ostyngiad o 9%. Gostyngodd tanau gwyllt damweiniol o 40 i 33 o ddigwyddiadau dros yr un cyfnod (gostyngiad o 18%).

Fodd bynnag, cynyddodd nifer y tanau gwyllt bwriadol o bedwar i saith digwyddiad. O ganlyniad, roedd tanau bwriadol yn cynrychioli cyfran sylweddol uwch o'r holl danau gwyllt, gan gynyddu o tua un o bob deg digwyddiad yn 2024–25 i bron i un o bob pump yn 2025–26. Mae'r newid hwn yn dangos newid ym mhroffil achosion tanau gwyllt, er y gostyngiad cyffredinol yn nifer y digwyddiadau.


Dylid nodi bod y diffiniad a'r paramedrau gweithredol a ddefnyddir i ddosbarthu tanau gwyllt wedi esblygu dros y cyfnod a gyflwynir. Er mwyn sicrhau cysondeb ac i alluogi cymhariaeth ystyrlon dros amser, mae'r ffigurau a ddangosir yn yr adroddiad hwn wedi'u cyfrifo yn unol â'r diffiniad cyfredol o dân gwyllt, gyda data hanesyddol wedi'i ail-ddadansoddi'n ôl-weithredol i gyd-fynd â'r paramedrau hyn.



17 Llifogydd

Gwelwyd gostyngiad clir mewn digwyddiadau llifogydd ac achub o ddŵr yn 2025-26 o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf. Gostyngodd nifer y digwyddiadau llifogydd yn sylweddol o 76 yn 2024-25 i **31** yn 2025-26, sy'n ostyngiad o bron i 60%. Mae hyn yn dilyn uchafbwynt mewn gweithgarwch llifogydd yn 2023-24, pan gofnodwyd 118 o ddigwyddiadau, ac mae'r duedd ar-i-lawr wedi parhau ers y pwynt hwnnw.

Gostyngodd nifer y digwyddiadau achub o ddŵr hefyd yn 2025-26, gan ostwng o 39 i 19 digwyddiad o gymharu â 2024-25; gostyngiad o ychydig dros 50 y cant. Mae'r gostyngiad hwn yn dilyn cyfnod o gynnydd parhaus rhwng 2021-22 a 2024-25.



Geirfa

Tanau	Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simdde.
Prif Danau	Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simdde, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfeilion), cerbydau, carafannau a threlars, storfeydd awyr agored, peiriannau a pheirianwaith, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill, megis pontydd, blychau post, twneli, ac ati. Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categorioeddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, ac felly hefyd danau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân i ymdrin â nhw.
Tanau Eilaidd	Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simdde nac yn brif danau. Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd i ymdrin â nhw. Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, mewn coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn tu allan, goleuadau traffig, ac ati.
Tanau Simdde	Tanau mewn adeiladau a ddefnyddir gan bobl yw'r rhain, a'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simdde, hyd yn oed os yw difrod gwres neu fwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simdde ei hun. Nid yw tanau simdde yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi ymdrin â nhw.
Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig	Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys: a) Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub pobl, 'gwneud yn ddiogel' ac ati; b) Trychinebau mawr; c) Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati; d) Trefniadau blaenorol i fynd i ddigwyddiadau, a all gynnwys rhoi cyngor a chynnal archwiliadau.
Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol)	Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn credu bod digwyddiad ac yn mynd i leoliad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, nac wedi bodoli. Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'r alwad yn cael ei hystyried fel un y mae'r gwasanaeth wedi mynd iddi ac nid oes angen rhoi gwybod amdani.

Galwadau Diangen – Maleisus	Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol a'r rhai yr amheuir eu bod yn faleisus.
Galwadau Diangen – Diffuant	Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r GTA yn mynd i dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig go iawn.
Galwadau Diangen – Systemau Larwm Awtomatig (SLA)	Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u hysgogi gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larymau sydd wedi'u seinio'n ddamweiniol neu pan fo larwm yn seinio ac unigolyn yn galw'r GTA yn ôl yr arfer fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farnu', er enghraifft galwad gan ganolfan galwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad.
Adeilad – Anheddau	Eiddo sy'n fan preswyllo, h.y. cartref lle mae pobl yn byw, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswyllo nad ydynt yn barhaol.
Adeilad – Amhreswyl	Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrioedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, carchardai.
Adeilad – Preswyl Arall	Eiddo fel gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr.
Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall)	Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, cerbyd awyr, cwch.
Awyr agored	Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post.
Tanau gwyllt	Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy i'r digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr.
Salwch Tymor Byr	Absenoldebau o 27 diwrnod calendr a llai.
Salwch Hirdymor	Absenoldebau o 28 diwrnod calendr a mwy.

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026	
Swyddog Arweiniol	Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau	
Swyddog Cyswllt	Angharad Ellis, MIAA	
Pwnc	Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2025/26	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 O dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 Rhan 3 5. (2), mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system Rheolaeth Fewnol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o lunio'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol (AGS).
- 2 Mae Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus CIPFA 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r holl system rheolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risg a llywodraethiant corfforaethol.
- 3 Mae'r adroddiad yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 ac yn cynnwys y datganiad sicrwydd yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2026.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 4 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn gallu rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio, yn seiliedig ar y gwaith archwilio mewnol a wnaed, ynghyd â'r wybodaeth rydym yn ei dal am y sefydliad a'i weithdrefnau, bod gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethiant corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol er mwyn rheoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.
- 5 Mae'r adolygiadau archwilio yn rhoi lefel sylweddol o sicrwydd ynghylch digonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol sydd ar waith, gyda 21 o argymhellion wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â rhai gwendidau. Mae proses ddilynol ffurfiol yn ei lle i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

- 6 Nid yw'r gwaith Archwilio Mewnol wedi canfod unrhyw wendidau a fyddai'n gwneud y farn hon yn farn amodol ac nid oes unrhyw faterion o bwys yn berthnasol wrth lunio'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.
- 7 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sicrwydd fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig i alluogi'r Awdurdod i gael sicrwydd o'r farn hon.

SYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO

- 8 Ar 15 Mehefin 2026, bu'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/26. Fe wnaeth y Pwyllgor nodi pa waith a wnaed yn ogystal â'r farn gyffredinol bod system reolaeth fewnol dda yn cael ei defnyddio yn gyson. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd hefyd bod trefniadau dilynol ar waith i sicrhau bod argymhellion yn cael eu gweithredu.

ARGYMHELLION

- 9 Argymhellir bod yr Aelodau yn:
 - i) **Cymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol am ba mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth yr Awdurdod.**

CEFNDIR

Rôl yr Archwiliad Mewnol

- 10 O dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, mae gan Awdurdodau Tân gyfrifoldeb statudol i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol."
- 11 Rôl y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yw darparu asesiad gwrthrychol i'r rheolwyr ynghylch p'un ai yw'r systemau a'r rheolaethau'n gweithio'n iawn ai peidio. Mae'n rhan allweddol o system rheolaeth fewnol y sefydliad oherwydd ei fod yn mesur ac yn gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaethau eraill, fel bod:
 - Y Pwyllgor Archwilio a'r uwch reolwyr yn ymwybodol o'r graddau y gallant ddibynnu ar yr holl system; a bod
 - Rheolwyr unigol yn ymwybodol o ba mor ddibynadwy yw'r systemau a'r rheolaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.

- 12 Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys yr holl rwydwaith o systemau a rheolaethau a sefydlwyd i reoli'r Awdurdod, a hynny er mwyn sicrhau y caiff ei amcanion eu cyflawni. Mae'n cynnwys rheolaethau ariannol a rheolaethau eraill, a hefyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwerth am arian o'i weithgareddau.
- 13 Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio gyflwyno barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall yr Awdurdod eu defnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethiant.

GWYBODAETH

Barn Archwilio Mewnol 2025/26

- 14 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon bod y gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd, ynghyd â'r wybodaeth maent yn ei dal am y sefydliad a'i weithdrefnau, yn ein galluogi i ddod i gasgliad rhesymol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethiant yr Awdurdod.
- 15 Y farn a roddir gan y Pennaeth Archwilio Mewnol yw bod system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y sefydliad a'i bod, yn gyffredinol, yn cael ei defnyddio mewn modd cyson.
- 16 Wrth roi barn archwilio, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt er bod hyn yn rhoi sicrwydd rhesymol yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn y flwyddyn honno, nad oes unrhyw wendidau mawr y mae angen eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio.
- 17 Gellir defnyddio'r farn archwilio gyffredinol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol, ac mae'r adroddiad llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad A

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant hirdymor yr Awdurdod sef hwyluso gwasanaethau tân ac achub ymatebol, o ansawdd uchel sydd wedi'u hintegreiddio'n well fel y gall gweithgareddau atal ac ymateb i argyfyngau barhau i fod ar gael pan fo'u hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.
Cyllideb	Mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cael eu darparu gan gontractwr allanol cymwys ac o fewn y gyllideb y cytunwyd arni
Cyfreithiol	Mae'r adroddiad yn cefnogi'r Pwyllgor Archwilio i gyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol
Staffio	Amh.
Cydraddoldebau / Hawliau Dynol / Y Gymraeg	Amh.
Risgiau	Mae'r Datganiad Sicrwydd yn cael ei gyflwyno'n unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath gan yr archwilydd mewnol, ni fyddai'r Aelodau'n ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethiant corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'i allu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion.

Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol a Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2025/26

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cynnwys

- 1 Crynodeb Gweithredol
- 2 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol
- 3 Yr hyn sy'n Dylanwadu ar ein Barn
- 4 Cwmpas ac Allbynnau'r Archwiliad Mewnol
- 5 Meysydd i'w hystyried – eich Datganiad Llywodraethiant Blynyddol
- 6 Sicrhau Ansawdd

1 Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dangos Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar eich cyfer ar gyfer 2025/26, ynghyd â chwmpas ac allbynnau'r archwiliad mewnol a gynlluniwyd ar gyfer 2025/26 a Dangosyddion Ansawdd Gwasanaeth MIAA.

Yn unol â *Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU)*¹, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethiant y sefydliad, a hynny yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw. Dylai'r farn gyfrannu at ddatganiad llywodraethiant blynyddol y sefydliad.

Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol	1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025	1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026	Y ffactorau a ystyriwyd wrth ffurfio ein barn
Sicrwydd Uchel - mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y sefydliad, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson ym mhob maes a adolygwyd.			• Risgiau cynhenid yn y meysydd a archwiliwyd • Cyfyngiadau o ran cwmpas yr adolygiadau archwilio unigol • Gwendidau rheoli a nodwyd a'u heffaith • Yr amgylchedd rheoli mewnol: ei ddigonolrwydd a'i effeithiolrwydd • Ymatebion y rheolwyr i argymhellion • Cynnydd o ran gweithredu argymhellion gan reolwyr
Sicrwydd Sylweddol – mae system dda o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y sefydliad, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson yn gyffredinol.	✓	✓	
Sicrwydd Cymedrol - mae system ddigonol o reolaeth fewnol, ond mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran dylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni rhai o amcanion y sefydliad.			
Sicrwydd Cyfyngedig - mae'r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau o ran dylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn effeithio ar y system rheolaeth fewnol gyffredinol ac yn peryglu cyflawni amcanion y sefydliad.			
Dim Sicrwydd - mae system annigonol o reolaeth fewnol gan y gallai gwendidau rheolaeth a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau arwain at fethu â chyflawni amcanion y sefydliad, neu fod hynny eisoes wedi digwydd.			

¹ Mae hyn yn cynnwys Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yr IIA a'r Nodyn Cais: Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU

Maes Allweddol	Crynodeb
Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol	Fel y nodwyd uchod, mae'r farn gyffredinol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 hyd 31 Mawrth 2026 yn darparu Sicrwydd Sylweddol, bod system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y sefydliad, a bod y rheolaethau yn cael eu cymhwyso'n gyson yn gyffredinol. Cyd-destun: Mae'r farn hon yn cael ei darparu yn y cyd-destun bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel sefydliadau eraill ar draws y sector cyhoeddus, yn parhau i wynebu nifer o faterion heriol a ffactorau sefydliadol ehangach o ran y newidiadau arfaethedig i gyrff cenedlaethol a lleol, a'r ansicrwydd cyfatebol a achosir gan hyn, yr heriau ariannol a chydweithio cynyddol ar draws sefydliadau a systemau. Mae gan y Gwasanaeth Gynllun Rheoli Risg Cymunedol ar waith sy'n cwmpasu 2024-2029, a oedd yn cynnwys amcanion gwella a llesiant i alluogi cyflawni o ran yr amcanion hirdymor. Diweddarwyd y cynllun ar gyfer 2025/26 ac roedd yn nodi nifer o gyflawniadau ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys datblygu'r achos busnes ar gyfer Canolfan Hyfforddi a Datblygu newydd, caffael cyfarpar diffodd tân gyda gwelliannau a llawer o raglenni i gefnogi gwelliannau perfformiad a gwasanaeth. Cymeradwyodd yr Awdurdod gyllideb refeniw net o £51.788m ar gyfer 2025/26. Yn ogystal, cytunwyd ar nifer o fesurau anghylchol, gan gynnwys defnyddio £0.601m o'r cronfeydd wrth gefn. Yn seiliedig ar y gwariant hyd at 31 Mawrth, rhagwelwyd bod y gwariant refeniw yn £51.654 miliwn, sy'n danwariant o £0.134 miliwn. Mae hyn yn cynnwys costau sy'n ymwneud â phrosiectau amrywiol, setliadau cyflog cenedlaethol a symudiadau i gronfeydd wrth gefn. Bu gweithgor Craffu ar y Gyllideb yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, ac roedd yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Archwilio er mwyn cymeradwyo'r broses o asesu cynllunio ariannol i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27. Mewn ymateb i'r adolygiad o Wydnwch Corfforaethol yn GTAGC fe wnaeth yr Awdurdod gomisiynu Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i weld pa opsiynau sydd ar gyfer ymateb brys. Mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed, sefydlodd yr Awdurdod Is-grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Yn ystod y flwyddyn mae hwn wedi'i aildrefnu'n Grŵp Gweithredu Cytundeb Cydweithredol (CAIG) ar ôl cwblhau a llofnodi'r cydgytundeb ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r CAIG yn parhau i ddyfeisio a phrofi atebion amgen gyda chyrff cynrychioliadol a darperir diweddariadau i'r Awdurdod Tân ac Achub ym mhob cyfarfod.

Maes Allweddol	Crynodeb
	Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cyhoeddi lefel sicrwydd gyfyngedig mewn perthynas â Rheoli Asedau Offer. Mae gwaith mewnlol yn cael ei symud ymlaen o fewn y Gwasanaeth megis archwilio system olrhain asedau newydd ac ymchwilio i ddarpar gyflenwyr. Yn dilyn yr adolygiad Rheoli Risg yn 2024/25 a arweiniodd at lefel gyfyngedig o sicrwydd, mae ein gwaith yn ystod y flwyddyn wedi nodi bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud gan y Gwasanaeth wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a godwyd. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i wella ac ymgorffori'r trefniadau rheoli risg sydd ar waith yn y Gwasanaeth. Cydnabuwyd hefyd bod gwaith Archwilio Mewnol 2025/26 wedi canolbwyntio ar y risgiau allweddol i fusnes GTAGC a'r meysydd pryder allweddol. Cydymffurfio â safonau proffesiynol: Wrth ddarparu'r farn hon gallwn gadarnhau cydymffurfiaeth barhaus â'r diffiniad o archwilio mewnlol (fel y nodir yn eich Siarter Archwilio Mewnol), cod moeseg a safonau proffesiynol. Rydym hefyd yn cadarnhau annibyniaeth sefydliadol y gwaith archwilio ac na fu unrhyw ymyrraeth o ran pennu'r cwmpas, cyflawni ac adrodd. Pwrpas: Diben Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yw cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Swyddog Atebol a'r Awdurdod Tân sy'n sail i asesiad yr Awdurdod ei hunan o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnlol. O'r herwydd, mae'n un gydran y mae'r Awdurdod Tân yn ei hystyried wrth wneud ei Ddatganiad Llywodraethiant Blyneddol (AGS) a'r Datganiad Sicrwydd Blyneddol. <i>Dylech gynnwys testun y crynodeb yn y tabl uchod wrth gyfeirio at Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn eich Datganiad Llywodraethiant Blyneddol.</i>
Cwmpas a Chyfyngiadau Ein Gwaith	Rydym yn ffurfio ein barn trwy gwblhau cynllun aseiniadau sy'n seiliedig ar risg ac sydd wedi'i gytuno â'r rheolwyr ac wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio. Mae gan ein barn y cyfyngiadau cynhenid canlynol: • Nid ydym wedi adolygu'r holl risgiau a'r sicrwydd sy'n ymwneud â'r sefydliad. • Mae'r farn yn deillio i raddau helaeth o weithrediad cynlluniau sy'n seiliedig ar risg a gynhyrchir o fframwaith sicrwydd cadarn a arweinir gan y sefydliad. Un gydran yw'r fframwaith sicrwydd y mae'r bwrdd yn ei hystyried wrth wneud ei Ddatganiad Llywodraethiant Blyneddol (AGS) • Mae'r farn yn seiliedig ar ganfyddiadau a chasgliadau'r aseiniadau archwilio y cytunwyd arnynt, ac a oedd wedi'u cyfyngu i'r amcanion a'r cwmpas y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwyr.

Maes Allweddol	Crynodeb
	• Pan fo rheolaethau cryfion wedi'u canfod a'u cadarnhau, mae'n bosibl y gallai fod amhariad ar eu heffeithiolrwydd mewn rhai achosion. Gall hyn fod o ganlyniad i gamgymeriadau pobl, penderfyniad rheoli anghywir, diystyru gan reolwyr, osgoi rheolaethau, neu lai o gydymffurfiaeth. • Oherwydd cwrpas cyfyngedig yr aseiniadau archwilio unigol, efallai y bydd gan rai rheolaethau wendidau nad ydym yn ymwybodol ohonynt, neu rai na chawsom wybod amdanynt. • Mae'r pwyntiau a godir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r materion a welsom wrth gynnal gwasanaeth archwilio mewnol yn unig. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o'r holl wendidau neu welliannau posibl. Mae'r rheolwyr yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaethau mewnol, ac ni ddylid defnyddio archwilio mewnol fel yr unig sail ar gyfer nodi'r holl gryfderau a gwendidau. • Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi at ddefnydd y Pwyllgor Archwilio a/neu uwch reolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unig.
Cwrpas ac Allbynnau Archwilio a Gynlluniwyd	Mae Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26 wedi'i gyflawni gan ganolbwyntio ar ddarparu Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar eich cyfer. Adroddwyd am y sefyllfa hon yn yr adroddiadau cynnydd dros y flwyddyn ariannol. Mae cwrpas yr adolygiad wedi canolbwyntio ar: • Fframwaith Sicrwydd y sefydliad • Adolygiadau craidd a mandadol, gan gynnwys gwaith dilynol; ac • Amrywiaeth o adolygiadau sicrwydd unigol sy'n seiliedig ar risg.
Argymhellion / Camau gan y Rheolwyr	Rydym wedi nodi 21 o argymhellion fel rhan o'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod 2025/26. Mae'r holl argymhellion a godwyd gan MIAA wedi cael eu derbyn gan reolwyr. • O'r argymhellion hyn: Roedd 0 yn gritigol, a 3 yn argymhellion risg uchel mewn perthynas â'r adolygiadau o Reoli Asedau Offer a Rheolaethau Craidd Rheoli Risg. • Roedd 22 o argymhellion yn weddill yn ymwneud ag adolygiadau y flwyddyn flaenorol ar 1 Ebrill 2025. • Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal adolygiadau dilynol a gallwn ddod i'r casgliad bod y sefydliad wedi gweithredu 18 cam yn ystod 2025/26 (gydag 11 yn ymwneud ag adolygiadau'r flwyddyn flaenorol).

Maes Allweddol	Crynodeb
	• Mae 4 argymhelliad arall mewn perthynas â Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol a Rheoli Risg (o 2024/25) wedi'u disodli a'u codi fel rhan o adolygiadau'r flwyddyn gyfredol. • Cyfanswm yr argymhellion sydd angen gweithredu arnynt eto ar 31 Mawrth 2026 yw 21. Nid oes yr un ohonynt yn hwyr oherwydd fe gytunwyd ar ddyddiadau diwygiedig i weithredu arnynt.
Dangosyddion Ansawdd Gwasanaeth MIAA	ISO9001: Mae MIAA yn gweithredu systemau i Safonau Ansawdd ISO sy'n destun ailachredu blynyddol. Asesiad Ansawdd Allanol: Mae'r Asesiad Ansawdd Allanol, a gynhaliwyd gan CIPFA (2026), yn rhoi sicrwydd o gydymffurfiaeth lawn MIAA â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (Sector Cyhoeddus y DU). Rydym hefyd yn cynnal asesiadau mewnol rheolaidd i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion. Llywodraethiant Gwybodaeth a Seiberddiogelwch: Mae MIAA wedi ymrwymo i ddarparu ac arddangos y safonau uchaf o lywodraethiant gwybodaeth a seiberddiogelwch i ddiogelu nid yn unig ein gwybodaeth a'n systemau ond hefyd y data rydym yn ei gasglu a'i greu trwy ein gweithgareddau archwilio a chynghori gyda chleientiaid. Yn gyson, rydym wedi cyflwyno ffurflen Pecyn Cymorth Diogelwch a Diogelu Data y GIG sy'n cydymffurfio ac rydym yn un o ddim ond tua 20 o sefydliadau'r GIG sydd wedi'u hardystio i safon Cyber Essentials Plus. Roedd sicrhau ardystiad i'r safon hon yn gofyn am brofion annibynnol trylwyr o'n rheolaethau seiberddiogelwch ar draws ein dyfeisiau. Mae'r ffaith ein bod wedi cael yr ardystiad hwn nid yn unig yn dangos diogelwch ein dyfeisiau ond hefyd yn dilyn y monitro a'r cynnal a chadw rhagweithiol sydd gennym ar waith i amddiffyn data a systemau rhag bygythiadau maleisus. Hefyd yn 2025/26, cafodd MIAA gydnabyddiaeth swyddogol fel darparwr â Sicrwydd o dan Fframwaith Asesu Seiber (CAF) y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC). Mae'r achrediad hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i helpu sefydliadau i gryfhau eu gwytnwch seiber ac i ddiogelu systemau a gwasanaethau critigol. Daw'r cyflawniad hwn yn sgil proses asesu drylwyr, ac mae'n dangos ein bod yn gymwys wrth archwilio yn erbyn Fframwaith Asesu Seiber yr NCSC. Mae'n tynnu sylw at sgiliau a phrofiad arbennig y staff, yn ogystal â'u hymrwymiad sefydliadol i'r safonau seiberddiogelwch uchaf.

2 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

Mae eich gwasanaeth archwilio mewnol wedi'i gyflawni yn unol â methodoleg archwilio mewnol MIAA sy'n cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (Sector cyhoeddus y DU). Mae Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (Sector cyhoeddus y DU) yn mynnu ein bod yn cydymffurfio â gofynion moesegol perthnasol, gan gynnwys gofynion annibyniaeth, a'n bod yn cynllunio ac yn cyflawni ein gwaith i gael tystiolaeth ddigonol, briodol i seilio ein casgliad arni.

2.1 Rolau a Chyfrifoldebau

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn atebol ar y cyd am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol ac mae'n gyfrifol am wneud trefniadau i gael sicrwydd am effeithiolrwydd y system gyffredinol honno. Mae'r Awdurdod Tân yn gyfrifol am sicrhau y gall roi cyfrif cywir am arian cyhoeddus a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae cynhyrchu Datganiad Llywodraethiant Blyneddol (AGS) yn ofyniad o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Lloegr) 2015 ac mae'n helpu i sicrhau y gellir dangos system ddibynadwy o reolaethau mewnol. Mae'r AGS yn ddatganiad blyneddol ar ran yr Awdurdod Tân, sy'n nodi:

- sut mae cyfrifoldebau unigol yr Awdurdod yn cael eu cyflawni o ran cynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion;
- diben y system rheolaeth fewnol trwy gyfrwng disgrifiad o'r prosesau rheoli ac adolygu risg, gan gynnwys proses y Fframwaith Sicrwydd; a'r
- modd y cynhelir yr adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a'i ganlyniadau, gan gynnwys unrhyw ddatgeliadau o fethiannau rheoli sylweddol ynghyd â sicrwydd bod camau gweithredu yn cael eu cymryd neu y byddant yn cael eu cymryd lle bo hynny'n briodol i fynd i'r afael â'r materion sy'n codi.

Dylai fframwaith sicrwydd y sefydliad ddwyn ynghyd yr holl dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi gofynion yr AGS.

Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (Sector cyhoeddus y DU), mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethiant y sefydliad (h.y. system y sefydliad o reolaeth fewnol), a hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw. Cyflawnir hyn drwy gynllun gwaith sy'n seiliedig ar risg, y cytunwyd arno gyda'r rheolwyr a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, a all roi sicrwydd, yn amodol ar y cyfyngiadau cynhenid a ddisgrifir isod. Mae canlyniadau a manylion cyflawni'r cynllun archwilio mewnol i'w cael yn Adran 4.

3 Yr Hyn sy'n Dylanwadu ar ein Barn

3.1 Sail y Farn

Dyma'r sail y ffurfiwyd ein barn arni:

- 1 Asesiad o ddyluniad a gweithrediad y gwaith llywodraethiant strategol sylfaenol, trefniadau rheoli risg a phrosesau ategol.
- 2 Asesiad o'r ystod o sicrwydd unigol sy'n deillio o'n haseiniadau archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg a nodwyd drwy gydol y cyfnod. Mae'r asesiad hwn wedi ystyried perthnasedd cymharol y systemau a adolygwyd a chynnydd y rheolwyr o ran mynd i'r afael â'r gwendidau rheoli a nodwyd.
- 3 Asesiad o ymateb y sefydliad i argymhellion Archwilio Mewnol, a'r graddau y maent wedi'u gweithredu.

3.2 Sylwadau

Mae'r sylwadau isod yn darparu'r cyd-destun ar gyfer ein barn ac, ar y cyd â'r farn, dylid eu darllen yn eu cyfanrwydd.

Mae ein barn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, gan gynnwys y ddau ddyddiad hwnnw, ac mae'n seiliedig ar y gwaith a wnaed drwy'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg.

A) Fframwaith Sicrwydd (AF)

Cafodd adolygiad Rheoli Risg ei gynnal yn 2024/25 a arweiniodd at roi lefel sicrwydd gyfyngedig. Cynhaliwyd adolygiad Rheolaethau Craidd Rheoli Risg pellach yn 2025/26 a nododd fod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud gan y Gwasanaeth ers yr adolygiad blaenorol. Roedd hyn yn cynnwys cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Risg, trefniadau goruchwyllo mewn perthynas â risg gan y Pwyllgor Risg Strategol (SRC) a chyflwyno'r ddarpariaeth hyfforddiant ar draws Lefelau 1-4.

Fodd bynnag, mae rhai o'r argymhellion a godwyd yn 2024/25 yn parhau i fod yn weddill mewn perthynas â chyflawnrwydd y cofrestrau risg sydd ar waith (gan gynnwys y Gofrestr Risg Strategol) a her y risgiau a'r craffu arnynt gan yr SRC ac uwchgyfeirio materion i'r Uwch Dîm Arweinyddol a'r Awdurdod Tân. Felly, mae angen rhagor o waith i wella ac ymgorffori'r trefniadau rheoli risg sydd ar waith yn y Gwasanaeth. Byddwn yn dilyn hynt yr argymhellion hyn yn 2026/27 fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol.

B) Adolygiadau Craidd ac Adolygiadau yn Seiliedig ar Risg a Gyhoeddwyd

Dyma'r hyn a gyhoeddwyd gennym:

0 barn sicrwydd uchel:	Amh.	1 barn sicrwydd gyfyngedig :	Rheoli Asedau Offer
2 farn sicrwydd sylweddol:	Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol Cynllunio Busnes	0 barn dim sicrwydd:	Amh.
0 barn sicrwydd cymedrol:	Amh.	3 adolygiad heb sgôr sicrwydd	Rheolaethau Craidd Rheoli Risg Y Fenter Twyll Genedlaethol Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb

C) Camau Dilynol

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynnal adolygiadau dilynol a gallwn ddod i'r casgliad bod y sefydliad wedi gwneud **cynnydd da** o ran gweithredu argymhellion. Byddwn yn parhau i olrhain a mynd ar drywydd y camau gweithredu sy'n weddill.

D) Themâu

Trwy gyflwyno eich cynllun archwilio mewnol, fe wnaethom nodi'r meysydd thematig canlynol:

- Mae'r cynllun cymeradwy o waith Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 wedi canolbwyntio ar risgiau allweddol i'r Gwasanaeth, er enghraifft Rheoli Asedau Offer a Chynllunio Busnes. Mae'r Gwasanaeth wedi cyfeirio ein gwaith at feysydd pryder hysbys.
- Mae argymhellion archwilio yn ystod y flwyddyn wedi tynnu sylw at themâu mewn perthynas â dyluniad rheoli ac effeithiolrwydd gweithredu rheolaethau a chydymffurfiaeth â pholisi a gweithdrefnau sydd ar waith.

E) Trydydd Parti/Sicrwydd Arall

Er nad ydym wedi dibynnu'n uniongyrchol ar ddarparwyr sicrwydd eraill. Ar adeg cyhoeddi'r farn hon nid ydym wedi derbyn unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â sicrwydd trydydd parti.

Cyn cwblhau'r farn hon, byddwn yn cadarnhau a oes rhagor o Adroddiadau Archwilydd Gwasanaeth/sicrwydd trydydd parti wedi'u cyhoeddi i'r sefydliad ac yn diweddarau ein barn yn unol â hynny.

Chris Harrop

Rheolwr Gyfarwyddwr, MIAA
Mawrth 2026

Louise Cobain

Cyfarwyddwr Sicrwydd, MIAA
Mawrth 2026

4 Cwmpas ac Allbynnau'r Archwiliad Mewnol

Mae Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26 wedi'i gyflawni gan ganolbwyntio ar ddarparu Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol. Adroddwyd am y sefyllfa hon yn yr adroddiadau cynnydd dros y flwyddyn ariannol.

Mae elfen aseiniad archwilio'r Farn wedi'i chyfyngu i gwmpas ac amcanion pob un o'r adolygiadau unigol. Mae gwybodaeth fanwl am gyfyngiadau (gan gynnwys cwmpas ac allbynnau) yr adolygiadau wedi'i darparu yn yr adroddiadau archwilio unigol a thrwy Adroddiadau Cynnydd y Pwyllgor Archwilio drwy gydol y flwyddyn.

Mae crynodeb o'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn i'w weld isod:

	Adolygiad	Barn Sicrwydd	Argymhellion a Godwyd					Categori Mater	
			Critigol	Uchel	Canolig	Isel	Cyfanswm	Dyluniad y Rheolaethau	Effeithiolrwyd d Gweithredu
1	Rheoli Asedau Offer	Cyfngedig	0	2	4	2	8	6	2
2	Cynllunio Busnes	Sylweddol	0	0	4	1	5	1	4
3	Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol	Sylweddol	0	0	2	2	4	1	3
4	Rheolaethau Craidd Rheoli Risg	Amh.	0	1	2	1	4	2	2
5	Y Fenter Twyll Genedlaethol	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
6	Cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
	CYFANSWM		0	3	12	6	21	10	11

Byddwn yn parhau i olrhain cynnydd ar yr holl argymhellion fel rhan o Gynllun Archwilio Mewnol 2026/27.

CEFNOGAETH AC ARWEINIAD CYNGHOROL: Meysydd lle mae MIAA wedi cefnogi'r sefydliad i gryfhau trefniadau ynghylch llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Paratoi ar gyfer gwaith y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) a'r cymorth a roddir mewn perthynas â'r hysbysiadau preifatrwydd.

Gwaith ymgysylltu a chefnogaeth a roddwyd gan MIAA Solutions mewn perthynas â'r Ganolfan Hyfforddi.

CYFRANIAD AT WELLIANNAU LLYWODRAETHIANT, RHEOLI RISG A RHEOLAETH FEWNOL: *Meysydd ychwanegol lle mae MIAA wedi darparu cyfraniadau gwerth ychwanegol.*

Sicrhau golwg fanwl ar y prosesau Llywodraethiant a Sicrwydd cyffredinol drwy gyswllt drwy gydol y flwyddyn gyda'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyl / Trysorydd, Uwch Dîm Rheoli a Swyddogion.

Cyfranogiad a pherthynas â'r sefydliad (e.e. presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb).

Defnydd effeithiol o archwilio mewnol gan gynnwys cyfathrebu yn ystod y flwyddyn, a newidiadau i amseru'r cynllun archwilio mewn perthynas â'r adolygiad Cynllunio Busnes.

Er mwyn rhoi gwybod i'n cleientiaid am lywodraethiant sy'n dod i'r amlwg a datblygiadau polisi ehangach, fe wnaethom gynnal 9 digwyddiad yn 25/26 fel rhan o'n Cydweithrediad Dosbarth Meistr Gogledd-orllewin Lloegr. Roedd crynodeb o'r digwyddiad yn cyd-fynd â phob digwyddiad a gyhoeddwyd ar ein gwefan. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi Mewnwelediad MIAA ar Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau Pwyllgor Archwilio Awdurdod Lleol.

Cyfranogiad a chynrychiolaeth barhaus ar Gyrrff Cenedlaethol gan gynnwys y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA) a CIPFA gan ein galluogi i fod yn rhagweithiol wrth rannu arfer gorau, meincnodi ehangach a darparu mewnwelediadau cynnar ar faterion cenedlaethol.

5 Meysydd i'w Hystyried – eich Datganiad Llywodraethiant Blynyddol

Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn un ffynhonnell sicrwydd sydd gan y sefydliad wrth ddarparu ei Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol, a dylid ystyried sicrwydd gan drydydd partïon eraill hefyd. Yn ogystal, dylai'r sefydliad ystyried sicrwydd annibynnol arall sy'n cael ei ystyried yn berthnasol.

Rydym wedi nodi nifer o heriau strategol eraill y dylai'r Awdurdod Tân eu hystyried wrth ddrafftio'r Datganiad. Er y byddai cwmpas y Cynllun Archwilio Mewnol wedi ystyried elfennau o'r rhain, mae'n bwysig bod yr Awdurdod Tân yn adlewyrchu'n ehangach ar sut y dylid cynnwys rhain yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol. Dyma rai meysydd i'w hystyried:


- Partneriaeth/cydweithio ac ymgysylltu ehangach ar draws Ôl Troed Gogledd Cymru.
- Effaith y drefn ariannol ddiwygiedig ar wneud penderfyniadau, cyflawni dyletswyddau ariannol, hyfywedd ariannol parhaus, cyflawni cynilion, pwysau gwasanaeth a pherthnasoedd / perfformiad allweddol trydydd partïon.
- Newidiadau i drefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol (gan gynnwys yr effaith ar brosesau gwneud penderfyniadau).
- Cynnal a gwella ansawdd gwasanaethau ochr yn ochr â pherfformiad cyffredinol y sefydliad, gan gynnwys cyflawni targedau.
- Newidiadau i arweinyddiaeth, gan gynnwys unrhyw newidiadau sylweddol i'r Uwch Dîm Arweinyddol a'r Awdurdod Tân.
- Capasiti, ymgysylltiad, lles a datblygiad y gweithlu.
- Sicrhau bod seilwaith addas i'r diben.
- Diogelwch seiber, risgiau llywodraethiant gwybodaeth ac unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig y dylid rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth amdanynt.
- Perthynas a rheolaeth darparwyr trydydd parti y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt, a'r sicrwydd a ddarperir ganddynt.
- Cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, safonau a rheoliadau perthnasol a Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2016.
- Arolygiadau ac adborth a gafwyd yn ystod 2025/26, gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd datblygu.

6 Sicrhau Ansawdd

Mae strategaeth MIAA yn cadw ansawdd wrth wraidd popeth a wnawn ac mae ein dull cyffredinol o sicrhau ansawdd yn cynnwys achrediad ISO9001:2015, cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (Sector Cyhoeddus y DU), ansawdd ein pobl a sut rydym yn eu cefnogi, lefelau staffio, mesurau cydymffurfio a chanlyniadau.

Safonau ac Achrediadau Proffesiynol


Mae MIAA yn cydymffurfio'n llwyr ag arfer gorau proffesiynol, safonau archwilio mewnol a gofynion cyfreithiol.



Mesurau darparu gwasanaethau a chanlyniadau

Mae'n bwysig bod sefydliadau cleientiaid yn sicrhau Gwasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol, ac er bod mesurau mewnbyn a phrosesau yn cynnig rhywfaint o sicrwydd, dylai'r pwyslais fod ar ganlyniadau ac effaith y gwasanaeth. Mae'r ffeithlun ar y dudalen hon yn cadarnhau'r mesurau yr ydym ni'n credu eu bod yn dangos gwasanaeth effeithiol i chi.

Mae MIAA yn adrodd yn rheolaidd ar ddangosyddion perfformiad allweddol mewnbyn a phrosesau fel rhan o'n hadroddiadau Cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio, a gellir asesu'r mesurau effaith ac effeithiolrwydd trwy Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol.



Anne-marie Harrop

Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07920 150313

E-bost: Anne-marie.harrop@miaa.nhs.uk

Angharad Ellis

Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07469378328

E-bost: Angharad.Ellis@miaa.nhs.uk

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026	
Swyddog Arweiniol	Anthony Jones – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	
Swyddog Cyswllt	Jonathan Blyde – Rheolwr Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol	
Pwnc	Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol 2025/26	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Cyflwyno drafft o'r Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol i Aelodau'r Awdurdod, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (Yr Awdurdod) gyhoeddi Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol i ddangos:
 - Bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
 - Bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol; a
 - Bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwasttraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol
- 3 Nodir y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ar gyfer 2025/26 yn Atodiad 1 ac mae wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Fframwaith CIPFA/Solace Delivering Good Governance in Local Government Framework (2016). Mae'r flaenraglen waith ar gyfer 2026/27 wedi'i chynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol drafft.
- 4 Cyhoeddir y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol fel rhan o gynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2025/26. Gwneir asesiad gan yr archwilydd allanol i gadarnhau a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol ac a yw wedi'i lunio yn unol â'r Fframwaith.

ARSYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynnyddol 2025/26 i'r Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol ar 15 Mehefin 2026. Cododd yr Aelodau bwyntiau i

geisio sicrwydd ar drefniadau llywodraethu, capasiti tîm rheoli, hyfforddiant diogelu, adrodd ar berfformiad, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gallu rheoli prosiectau, yn enwedig mewn perthynas â'r Ganolfan Hyfforddi. Cadarnhaodd swyddogion fod y strwythur llywodraethu wedi'i adolygu a'i fod yn gweithredu'n effeithiol; roedd swyddi gwag yn parhau ar gyfer rolau DBST ac PSC; roedd trefniadau diogelu yn cael eu cryfhau trwy Reolwr Diogelu pwrpasol, hyfforddiant gorfodol a goruchwyllo pwyllgorau; roedd adroddiadau perfformiad ar gael i'r cyhoedd; ac roedd gallu rheoli prosiect yn cael ei ddatblygu trwy Swyddog Cymorth Prosiect pwrpasol a gwerthuso rôl Rheolwr Prosiect parhaol.

ARGYMHELLIAD

Argymhellir bod yr Aelodau'n:

- i) Nodi'r Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol terfynol, a:**
- ii) Cytuno ar y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer 2026/27**

CEFNDIR

- 4 Ers 2010/11, rhaid i bob corff llywodraeth leol, yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015, baratoi Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol a gyhoeddir fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.
- 5 Pwrpas y Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol yw asesu a dangos bod system gadarn o lywodraethiant corfforaethol ar draws y sefydliad.

GWYBODAETH

- 6 Yn 2016, cyhoeddodd CIPFA a Solace fframwaith llywodraethiant newydd, sef Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (y Fframwaith). Strwythurwyd y Fframwaith o amgylch saith egwyddor llywodraethu sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol a nodi sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.
- 7 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yw nodi trefniadau'r Awdurdod i sicrhau:
 - bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol.
 - bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol; a
 - bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwasttraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.
- 8 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i wybodaeth am yr Awdurdod a'r datganiadau ariannol.

- 9 Ar ôl ei gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn blaenraglen waith 2026/27 yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth bob chwarter.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor GTAGC ac yn dangos y trefniadau llywodraethu sydd ar waith i alluogi'r Gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol.
Cyllideb	Amh.
Cyfreithiol	Mae paratoi a chyflwyno'r Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol i'r Archwilydd Cyffredinol yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
Staffio	Dim
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Mae'r Datganiad yn cyfeirio'n benodol at gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg.
Risgiau	Mae fframwaith llywodraethiant cadarn yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod.



Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Datganiad Llywodraethiant Blynyddol DRAFFT
2025-26

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL AR REOLAETH FEWNOL

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

Mae'r Datganiad hwn wedi'i baratoi yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a'r canllawiau a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE), 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Fframwaith Llywodraeth Leol' 2016, gan gynnwys Atodiad 2025 ar yr Adolygiad Blynyddol o Lywodraethiant a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

Mae'r berthynas rhwng y saith egwyddor ar gyfer llywodraethiant da yn y sector cyhoeddus i'w gweld isod.

Delivering Good Governance in Local Government (CIPFA and Solace, 2016)



Fig. 1 Sut mae Egwyddorion llywodraethiant da yn berthnasol i'w gilydd.

Ffynhonnell: international Framework-[Good Governance in the Public Sector](#)

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol hwn yn esbonio sut mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi cydymffurfio â'r fframwaith a'i saith egwyddor graidd llywodraethiant da er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio yn unol â pholisïau a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau:

- bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol
- bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd diwastraff, effeithlon, effeithiol a theg er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, sydd er budd pobl leol.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae Aelodau a'r Uwch-swyddogion yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethiant materion yr Awdurdod, ynghyd â stiwardiaeth o'r adnoddau sydd ar gael iddo, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod, ynghyd â'i amrywïol Bwyllgorau, paneli a gweithgorau, yn rhoi ac yn cyflawni arweinyddiaeth strategol, sy'n galluogi Aelodau i benderfynu ar y materion sy'n effeithio ar y gwaith o gynnal yr Awdurdod, yn unol ag egwyddorion atebolrwydd democrataidd a bod yn agored.

Diben y System o Reolaeth Fewnol

Er mwyn cyflawni ei ystod eang o swyddogaethau, rhaid i'r Awdurdod fodloni amcanion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Golyga hyn fod y cyfyngiadau a'r cymhellion allanol a mewnol sydd arno yn wahanol i'r rhai a geir yn y sector preifat, ac mae pob un ohonynt yn effeithio ar ei drefniadau llywodraethiant.

Un darn allweddol o ddeddfwriaeth yng Nghymru yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried y tymor hwy wrth wneud ei benderfyniadau, ac i gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru.

Felly, mae gan fudd-ddeiliaid ddiddordeb mewn materion megis:

- a yw'r allbynnau a gynlluniwyd gan yr Awdurdod wedi'u cyflawni a'r canlyniadau wedi'u sicrhau, ac
- a yw hyn wedi'i wneud mewn modd effeithlon, diwastraff, effeithiol a theg.

Er mwyn sicrhau llywodraethiant da yn y sector cyhoeddus, mae angen i gyrff llywodraethu yn ogystal ag unigolion sy'n gweithio i sefydliadau'r sector cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd trwy'r adeg pan fyddant yn ceisio cyflawni eu hamcanion, sy'n awgrymu mai'r flaenoriaeth yw'r budd i gymdeithas, a dylai hynny arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a budd-ddeiliaid eraill.

Mae'r Datganiad hwn yn rhoi sicrwydd bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cydymffurfio â'r fframwaith llywodraethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr wedi'i bennu gan boblogaeth yr ardal. Mae mwy o wybodaeth am yr Awdurdod, ei aelodau a'i gyfrifoldebau ar gael [yma](#).

Rhaid i'r Awdurdod adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y system lywodraethiant yn gadarn. Dyma rai o'r prif bethau sy'n cyfrannu at y broses hon:

Bod â strwythur Awdurdod a phwyllgorau sydd:

- yn monitro effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg
- yn adolygu'r trefniadau llywodraethiant yn rheolaidd
- yn ystyried ac yn adolygu strategaethau, cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol ac allanol
- yn adolygu, yn craffu ar ac yn cymeradwyo'r datganiad cyfrifon blyneddol.

Bod â Phanel Gweithredol sydd:

- yn rhoi arweiniad o ran llywodraethiant
- yn cyfrannu at gwblhau ac at adolygu'r Datganiad Llywodraethiant Blyneddol
- yn darparu arweiniad clir i'r Gwasanaeth a'r uwch reolwyr.

Y defnydd o wybodaeth o wahanol ffynonellau i lywio'r trefniadau llywodraethiant, er enghraifft:

- adroddiadau byrddau gwella a pherfformiad
- trefniadau rheoli risg
- adroddiadau gan reoleiddwyr allanol
- adroddiadau archwilio mewnol

Mae cyfarfodydd arferol yr Awdurdod yn cael eu mynychu o bell. Mae cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn cael eu gweddarlledu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Mae pob cyfarfod ar gael i'r cyhoedd arsylwi arno, os ydynt yn gwneud cais i wneud hynny.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod [Datganiad Ysgrifenedig ar Lywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub](#) Llywodraeth Cymru, sy'n nodi newidiadau posibl i drefniadau llywodraethiant ledled Cymru yn y dyfodol. Er nad yw'r cynigion hyn wedi'u hymgorffori yn y Gwasanaeth eto, mae'r Awdurdod yn eu hystyried fel rhan o'i asesiad parhaus o effeithiolrwydd llywodraethiant a pharodrwydd at y dyfodol.

Yn gynnar yn 2023, sefydlodd yr Awdurdod ddau weithgor er mwyn cefnogi datblygiad dwy flaenoriaeth sefydliadol allweddol:

- Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, sydd bellach wedi'i ddisodli gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cytundeb ar y Cyd, gyda chynrychiolaeth gan yr Undebau Llafur, ond heb unrhyw gynrychiolaeth gan yr Awdurdod Tân bellach.
- Gweithgor newydd y Ganolfan Hyfforddi a Datblygu.

Yn ogystal, mae aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub yn eistedd ar y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel aelod sy'n hyrwyddwr, ac yn dilyn adroddiad adolygiad o ddiwylliant CREST mae'r Prif Swyddog Tân bellach yn cadeirio Bwrdd Diwylliannol i reoli'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gwellu Diwylliannol Strategol, sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Tân, [06i-cynllun-gwellu-diwylliannol-strategol.pdf](#)

Yn ystod 2025-26, datblygodd yr Awdurdod ei drydydd Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol ([CRhRC 2026/27](#)), a gymeradwywyd ym mis Ebrill 2026, i gyflawni yn erbyn yr amcanion a amlinellwyd yn y [Cynllun Rheoli Risg Cymunedol \(CRhRC\) 2024-2029](#) pum mlynedd

Nod Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) yw nodi'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny, ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu pum egwyddor er mwyn cadw cymunedau'n ddiogel, ac mae'r CRhRC:

- Yn cydnabod gofynion deddfwriaeth allweddol
- Yn ystyried gwaith parhaus y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Yn nodi'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau
- Yn amlinellu gweithgarwch yr Awdurdod i fynd i'r afael â'r risgiau hyn
- Yn egluro pa gamau y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf i liniaru'r risgiau hynny
- Yn cyd-fynd â chyllideb refeniw yr Awdurdod, ei gynllun cyfalaf a'i gynllun ariannol tymor canolog.

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Diagram Adrodd Sicrwydd (Diweddarwyd 03 Mehefin 2025)




Ffig 2. Pwyllgorau'r Awdurdod Tân ac Achub

Mae'r Awdurdod wedi dirprwyo cyfrifoldeb am weithrediad y Gwasanaeth Tân ac Achub (y Gwasanaeth) o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân.

Mae'r Prif Swyddog Tân yn cael ei gefnogi gan y Grŵp Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Swyddogion (y Prif Swyddog Tân a'r Swyddogion Tân Cynorthwyol), ac sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth strategol.

Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth, yn cynnwys y Prif Swyddogion, y Rheolwyr Ardal a'r Pennaethiaid Adran. Mae'n cyfarfod fel Bwrdd Perfformiad er mwyn craffu ar berfformiad, ac fel Bwrdd Gwella er mwyn herio ac i oruchwyllo rhaglenni, prosiectau a pholisïau ar lefel uchel. Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn rhoi arweinyddiaeth sefydliadol ac yn cyflwyno'r gwasanaethau.

Mae Strwythur Llywodraethiant a Sicrwydd y Gwasanaeth, sef y pwyllgorau a'r grwpiau, sy'n adrodd i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, wedi'i ymgorffori ar draws y sefydliad, gan ddangos bod y llywodraethiant yn gadarn o ran adrodd, monitro, craffu a gwneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r sefydliad. Yn ystod 2025–26, adolygwyd effeithiolrwydd y strwythur llywodraethiant presennol a nodwyd gwelliannau i gryfhau goruchwyliaeth, eglurder atebolrwydd a sicrwydd ar draws y sefydliad ymhellach.



Ffig 3. Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth

Cyfranwyr Allweddol at Ddatblygu a Chynnal y Fframwaith Llywodraethiant

Cyfansoddiad	Diben y Cyfansoddiad yw nodi sut mae'r Awdurdod Tân yn gweithio a'r ffordd y mae'n gwneud penderfyniadau, a hynny mewn iaith glir
Yr Awdurdod Tân	Mae'n darparu'r arweinyddiaeth strategol, yr atebolrwydd democrataidd a'r her gorfforaethol mewn perthynas â darparu gwasanaethau tân ac achub ledled Gogledd Cymru, gan annog cyfranogiad y cyhoedd a chan gynnal ei faterion mewn modd agored a thryloyw. Mae'n cytuno ar y Cynllun Gwella a Llesiant, a'r cyllidebau referniw a chyfalaf.
Y Panel Gweithredol	Mae'n monitro perfformiad y Gwasanaeth ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod ar ei bolisïau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae'r Panel yn adolygu'r gofrestr risg strategol.

Y Pwyllgor Archwilio	Mae'n darparu adolygiad annibynnol o'r fframweithiau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth, yn ogystal â goruchwyllo'r adroddiadau ariannol, gan gynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r cyfrifon blyneddol.
Pwyllgor Safonau	Mae'n hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau'r Awdurdod ac yn goruchwyllo polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, pan fo hynny'n bosibl yn statudol, mae'n cael adroddiadau a chwynion am Aelodau ac yn cynnal neu oruchwyllo ymchwiliadau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod.
Gweithgorau'r Awdurdod Tân	Maent yn ymgymryd â gwaith manwl sy'n gysylltiedig â phroses cynllunio a phennu cyllidebau'r Awdurdod. Mae'n cyflwyno ei sylwadau i'r Panel Gweithredol sydd yn ei dro'n gwneud argymhellion ar gyfer gwella/lleihau risg/amcanion llesiant i'r Awdurdod.
Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth	Mae'n gosod safonau llywodraethiant ar draws y Gwasanaeth ac yn arwain y gwaith o'u gweithredu. Mae'n cael y cynllun gwella blyneddol ac yn cyfrannu at yr hunanasesiad blyneddol.
Swyddog Adran 151	Mae'n sicrhau bod penderfyniadau'n gyfreithlon ac yn ddarbodus yn ariannol. Mae'n gweinyddu materion ariannol. Mae'n atebol am ddatblygu a chynnal fframwaith llywodraethiant, risg a rheolaeth yr Awdurdod Tân. Mae'n cyfrannu at reoli a llywodraethiant corfforaethol effeithiol yr Awdurdod Tân
Swyddog Monitro	Mae'n adrodd ar achosion o fynd yn groes i unrhyw ddeddfiad neu reolaeth y gyfraith. Mae'n adrodd ar unrhyw gamweinyddu neu anghyfiawnder pan fo'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol wedi cynnal ymchwiliad. Mae'n cynnal a diweddarau'r Cyfansoddiad. Mae'n cynnal cofrestrau o fuddiannau aelodau yn ogystal â rhoddion a lletygarwch. Mae'n cynghori Aelodau ar sut i ddehongli'r Cod Ymddygiad.
Archwilio Mewnol	Mae'n darparu sicrwydd annibynnol a barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth yr Awdurdod Tân. Mae'n cyflawni rhaglen flynyddol o weithgarwch archwilio ar sail risg, gan gynnwys gweithgaredd gwrth-dwyll ac ymchwilio. Mae'n gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau mewn rheoli risg.
Archwilio Allanol	Mae'n darparu sicrwydd annibynnol i'r Awdurdod Tân ar adrodd ariannol, trefniadau llywodraethiant a defnyddio adnoddau, gan gynnwys barn ar y datganiad o gyfrifon blyneddol a chasgliad ar werth am arian. Mae'n ymgymryd â gweithgarwch archwilio statudol yn unol â Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, gan gynnwys ystyried trefniadau'r Gwasanaeth ar gyfer sicrhau diwastraff, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae'n nodi ac yn adrodd materion llywodraethiant, ariannol neu werth am arian arwyddocaol, ac yn gwneud argymhellion i gefnogi gwella ac atebolrwydd.

Egwyddorion CIPFA - Sicrwydd Llywodraethiant

Egwyddor A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.

Cyhoeddir [Cenadaethau a Gwerthoedd](#) yr Awdurdod o fewn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) ac ar [wefan yr Awdurdod](#), gan ddarparu fframwaith a rennir sy'n sail gwneud penderfyniadau, ymddygiad a diwylliant sefydliadol.

Mae'r gwerthoedd hyn yn cael eu cefnogi gan fframwaith cyfansoddiadol cadarn. Mae [Cyfansoddiad](#) yr Awdurdod yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Tân ac Achub, ei Bwyllgorau a'i Swyddogion, gan gynnwys y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion. Mae'r Swyddog Monitro yn cefnogi cydymffurfiaeth â'r Cyfansoddiad ac yn rhoi sicrwydd y gwneir penderfyniadau yn briodol, ac yn gyfreithiol. Lle bo angen, ceisir cyngor cyfreithiol i lywio gwneud penderfyniadau a rheoli risg gyfreithiol. Mae'r Cyfansoddiad hefyd yn ymgorffori'r [Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau](#), sy'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Safonau, gan atgyfnerthu arweinyddiaeth ac atebolrwydd moesegol.

Er mwyn cefnogi tryloywder ac atal gwrthdaro buddiannau, datgan buddiannau personol a busnes a chofnodi rhoddion a lletygarwch os oes angen. Mae cofrestrau'n cael eu cynnal a'u cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod fel rhan o [broffil personol pob Aelod](#), gan alluogi goruchwyllo gan y cyhoedd ac atebolrwydd i'r cyhoedd.

Atgyfnerthir llywodraethiant moesegol ymhellach trwy bolisiau. Mae'r rhain yn cynnwys Polisi Chwythu'r Chwiban, [Polisi Gwrth-dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredigaeth](#), [Rheoliadau Ariannol](#) a [Rheolau Gweithdrefn Contractau](#). Pan nodir pryderon neu afreoleidd-dra, mae trefniadau clir ar waith i sicrhau bod materion yn cael eu hymchwilio'n drylwyr ac yn briodol. Mae argaeledd Safecall, gwasanaeth adrodd cyfrinachol, annibynnol sy'n gweithredu 24/7, yn cefnogi diwylliant lle gellir codi pryderon yn ddiogel, gan gynnwys yn ddiennw lle bo hynny'n briodol.

Ochr yn ochr â rheolaethau ffurfiol, mae'r Awdurdod yn ceisio ymgorffori gwerthoedd moesegol trwy ei drefniadau rheoli pobl. Mae prosesau recriwtio, cynefino a hyfforddi yn pwysleisio ymddygiadau disgwyledig a chyd-fynd â gwerthoedd craidd.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan allweddol o fframwaith moesegol yr Awdurdod. Darperir goruchwyllo trwy'r Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a sefydlwyd yn 2022, a thrwy [Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-2029](#) bum mlynedd a gyhoeddwyd. Mae gweithredu'r Strategaeth yn cael ei arwain gan gynllun gweithredu blynyddol manwl y mae ei berfformiad yn cael ei reoli a'i adolygu bob chwarter, ac mae'n ymgorffori monitro Siarter Hawliau Dynol Ewrop (EHCR) newydd, sy'n darparu sicrwydd bod ystyriaethau cydraddoldeb wedi'u hymgorffori mewn llywodraethiant a gwneud penderfyniadau.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnal trefniadau cadarn i gynnal safonau proffesiynol a mynd i'r afael â chamymddwyn. Rheolir achosion o ddisgyblu a honiadau o gamymddwyn yn unol â pholisi a gweithdrefnau Disgyblu'r Gwasanaeth, gyda dau Swyddog Disgyblaeth a Chwynion Cyflogaeth wedi'u neilltuo gan sicrhau bod mynd i'r afael â materion mewn modd prydlon, cyson a phroffesiynol.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gymraeg fel rhan annatod o gyflwyno'r gwasanaethau mewn modd moesegol a chyfreithlon. Dangosir cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg drwy gyhoeddi [Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg 2024-25](#) ar wefan yr Awdurdod. Yn ogystal, cefnogir gallu'r gweithlu gan ofynion i bob gweithiwr newydd gyflawni o leiaf sgiliau Cymraeg Lefel 2, gan symud ymlaen i Lefel 3 ar ôl dyrchafiad.

Cefnogir gosod a chyflawni amcanion moesegol, cyfreithlon drwy'r [Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29](#), sy'n nodi Amcanion Gwella ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod. Mae'r Cynllun wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd a budd-ddeiliaid, gyda'r Cynllun pum mlynedd wedi'i gadarnhau a'r Cynllun Gweithredu 2026-27 wedi'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei adlewyrchu ymhellach ar draws cynlluniau a pholisïau adrannol lle bo hynny'n berthnasol.

Defnyddir polisïau a gweithdrefnau clir i fynd i'r afael â chyfrifoldebau diogelu er mwyn sicrhau bod unigolion agored i niwed y mae'r Gwasanaeth yn dod ar eu traws yn cael eu cyfeirio'n briodol at asiantaethau partner. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu goruchwyllo gan Reolwr Diogelu wedi'i neilltuo, sy'n darparu goruchwyliaeth a sicrwydd arbenigol.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi mabwysiadu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, gan adeiladu ar drefniadau sefydledig gyda chyrrff cynrychioliadol staff cydnabyddedig i gefnogi ymgysylltu ar amcanion a phenderfyniadau strategol. Cymeradwywyd yr [Adroddiad Blynyddol cyntaf ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol](#) i'w gyhoeddi a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ym mis Ebrill 2025, gan ddarparu sicrwydd allanol o gydymffurfiaeth â gofynion statudol.

Yn dilyn cyhoeddi adolygiad annibynnol o ddiwylliant Crest Advisory ym mis Ionawr 2025, cryfhodd yr Awdurdod ei drefniadau llywodraethiant ymhellach trwy sefydlu Bwrdd Diwylliant a phenodi hyrwyddwyr diwylliant pwrpasol. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi goruchwyllo a chyflawni camau gwella diwylliant y cytunwyd arnynt.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei argymhellion mewn perthynas ag arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol, ac mae'r ystyriaethau hyn yn parhau i lywio fframwaith llywodraethiant a sicrwydd parhaus yr Awdurdod.

Egwyddor B: Sicrhau ein bod yn agored a bod gennym ymgysylltiad cynhwysfawr â budd-ddeiliaid.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dryloywder, ymgysylltu ystyrlon a bod yn agored, fel rhan greiddiol o'i fframwaith llywodraethiant. Mae cyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgor yn cael eu hysbysebu'n gyhoeddus, gydag agendâu a phapurau ategol yn cael eu cyhoeddi ar [wefan yr Awdurdod](#). Mae cyfarfodydd yr Awdurdod Llawn yn cael eu gweddarlledu, gan alluogi mynediad i'r cyhoedd at wneud penderfyniadau a chraffu.

Cefnogir tryloywder ymhellach drwy Gynllun Cyhoeddi'r Awdurdod, gyda gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar y wefan. Mae dogfennau ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gyda fersiynau Darllen/Siarad yn cael eu darparu lle bo hynny'n briodol i gefnogi hygyrchedd a chynhwysiant.

Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid wedi'i ymgorffori mewn prosesau gwneud penderfyniadau, yn enwedig lle mae newid sylweddol yn cael ei gynnig. Mae trefniadau ymgynghori cyhoeddus ar waith i wahodd barn cyn i newidiadau allweddol gael eu datblygu a'u gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori ar yr amcanion sydd wedi'u cynnwys yng [Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026-27](#), a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2025. Adolygwyd ymatebion i'r ymgynghoriad yn unol â'r Egwyddorion Gunning i sicrhau bod ymgysylltu yn ystyrlon, yn deg ac yn dryloyw. Cyflwynwyd adroddiad i'r Awdurdod yn crynhoi'r adborth a dderbyniwyd ac yn esbonio sut y llywiodd y cynllun terfynol. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn hefyd ac, ochr yn ochr â chanfyddiadau'r ymgynghoriad, cafodd ei ystyried gan yr Awdurdod cyn cymeradwyo'r cynllun.

Mae'r [Sefydliad Ymgynghori wedi cydnabod yn y gorffennol bod gan yr Awdurdod 'Arfer Da'](#), gan gynnwys ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r Adolygiad parhaus o'r Ddarpariaeth Frys. Mae hyn yn darparu sicrwydd annibynnol mewn perthynas ag ansawdd a chadernid trefniadau ymgysylltu.

Mae bod yn agored ac ymgysylltu hefyd yn cael eu cefnogi trwy ystod ehangach o drefniadau llywodraethiant a chyfathrebu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cwblhau asesiadau effaith ar gyfer pob penderfyniad allweddol,
- Gweithdrefn Cwynion a Chanmol sy'n darparu llwybrau uwchgyfeirio clir ar gyfer materion arwyddocaol i achwynwyr allanol, a pholisi a gweithdrefn cwyn gyflogaeth ar gyfer cwynion mewnol.
- Strategaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd sy'n llywio arfer cyson.

Mae'r Awdurdod hefyd yn ymgysylltu â Chyrff Cynrychioliadol Gweithwyr cydnabyddedig drwy drefniadau anffurfiol a strwythurau ffurfiol, gan gynnwys y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi, ac mae'r trefniadau hyn yn cael eu cryfhau ymhellach drwy fabwysiadu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.

Mae ymgysylltu'n rheolaidd â staff hefyd yn cael ei gefnogi drwy arolwg staff 'Teulu Tân' bob dwy flynedd. Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o rwydweithiau a fforymau allanol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Fforwm Arweinwyr Cydraddoldeb Gogledd Cymru, Cyngor Hil Cymru a Fforwm Rhyng-Ffydd Gogledd Cymru.

Defnyddir ystod eang a chynhwysol o ddulliau ymgysylltu i gyrraedd cymunedau, staff a budd-ddeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys cyfathrebu cyfeiriedig trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol, gan gynnwys Facebook ac X, ochr yn ochr â chyfrifon gorsafoedd tân a reolir yn lleol i gefnogi ymgysylltu o fewn cymunedau. Gall budd-ddeiliaid gofrestru ar y wefan yr Awdurdod i gael diweddariadau e-bost ar faterion penodol. Cefnogir ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy raglenni megis Ffenics, Cadetiaid Tân ac ymweliadau ag ysgolion, ochr yn ochr â gwaith diogelwch cymunedol gyda deiliaid tai a busnesau.

Mae ymgysylltu wedi'i dargedu hefyd yn cefnogi gweithgarwch recriwtio ac atal cynhwysol. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau wedi'u cydgysylltu drwy Grŵp Gweithredu Cadarnhaol, gyda'r Rheolwr Datblygu Sefydliadol yn gadeirydd, yn ogystal â mynychu diwrnodau agored a digwyddiadau cymunedol, megis yr Eisteddfod a digwyddiadau a arweinir gan orsafoedd tân. Cefnogir cyfathrebu mewnol drwy'r cylchlythyr electronig Crynodeb Wythnosol i staff, ac mae ymgyrchoedd cyfathrebu allanol yn cael eu harwain gan Reolwyr Diogelwch Cymunedol. Trwy weithgareddau Atal a Recriwtio, mae'r Gwasanaeth yn ymgysylltu â phobl o bob oedran ac o gefndiroedd amrywiol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth gefnogi bod yn agored, rhannu atebolrwydd a chyflwyno'r gwasanaethau mewn modd effeithiol. Mae trefniadau partneriaeth ar waith ar draws ystod o fforymau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys Cymru Gyfan, Fforymau Gwydnwch Lleol, y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Bwrdd Strategol Lleihau Tanau Bwriadol, a Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Oedolion a Phlant, ochr yn ochr â chydweithio â gwasanaethau brys eraill. Yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio effeithiol ac atebolrwydd clir. Mae'r egwyddorion hyn yn parhau i fod yn sail i fframwaith llywodraethiant, trefniadau ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth yr Awdurdod.

Egwyddor C: Diffinio canlyniadau o ran buddion cynaliadwy economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae'r Awdurdod yn diffinio ei ganlyniadau strategol trwy fframwaith cynllunio clir a hirdymor. Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) pum mlynedd yn pennu cyfeiriad strategol yr Awdurdod ac yn nodi Amcanion Gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ochr yn ochr ag Amcanion Llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gyda'i gilydd, mae'r amcanion hyn yn darparu datganiad clir o'r canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a fwriadwyd i'w cyflawni.

Mae polisiâu a threfniadau gwneud penderfyniadau'r Awdurdod yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan sicrhau bod effeithiau hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chyfranogiad yn cael eu hystyried wrth osod blaenoriaethau a phenderfynu sut mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno. Mae'r holl strategaethau, cynlluniau a pholisiâu perthnasol yn cyd-fynd â'r dull hwn.

Wrth ddiffinio a chyflawni ei ganlyniadau, mae'r Awdurdod hefyd yn ystyried ei gyfrifoldebau amgylcheddol o dan ddeddfwriaeth ehangach Cymru, gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r dyletswyddau hyn wedi'u hadlewyrchu o fewn trefniadau llywodraethiant, cynllunio a sicrwydd, gan gefnogi rheoli adnoddau yn gynaliadwy a stiwardiaeth amgylcheddol.

Mae cynaliadwyedd ariannol yn sail i allu'r Awdurdod i gyflawni canlyniadau hirdymor. Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd a diweddarwyd y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod 2026–30, gan gefnogi cynllunio ariannol hirdymor a llywio gwneud penderfyniadau fel rhan o fframwaith llywodraethiant a sicrwydd yr Awdurdod. Nod y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig, sy'n cynnwys Cynllun Cyfalaf deng mlynedd, ochr yn ochr â'r broses pennu cyllideb flynyddol, yw sicrhau bod adnoddau ariannol yn cyd-fynd â blaenoriaethau a chanlyniadau a fwriadwyd yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod bod canlyniadau cynaliadwy yn dibynnu ar gyfrifoldeb cymdeithasol, tegwch a llesiant y gweithlu. Mae e-ddysgu gorfodol mewn perthynas â'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn parhau i gael ei gwblhau gan yr holl staff. Fel cyflogwr [Hyderus o ran Anabledd](#), mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i recriwtio a chadw pobl anabl a'r sawl sydd â chyflyrau iechyd, ac mae wedi llofnodi [Cyfamod y Lluoedd Arfog](#) wedi'i ategu gan Bolisi Lluoedd Arfog, Milwyr Wrth Gefn a Chyn-filwyr, er mwyn sicrhau triniaeth deg i'r sawl sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn talu [mwy na'r cyflog byw gwirioneddol](#), gan gefnogi cyflog teg a sefydlogrwydd y gweithlu.

Mae trefniadau diogelu yn elfen arall o ymrwymiad yr Awdurdod i gynaliadwyedd cymdeithasol. Mae polisiâu a gweithdrefnau diogelu clir ar waith er mwyn sicrhau bod unigolion agored i niwed y mae'r Gwasanaeth yn dod ar eu traws yn cael eu cyfeirio'n briodol at asiantaethau partner. Mae diogelu'r gweithlu a'r cyhoedd yn cael ei gefnogi ymhellach trwy drefniadau cadarn gwirio cofnodion troseddol. Yn dilyn newidiadau i ddeddfwriaeth, rhestrir Awdurdodau Tân ac Achub yn Atodlen 1 i Ddeddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974 (Eithriadau), sy'n galluogi pob gweithiwr i fod yn destun gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, lefel Safonol o leiaf, wedi'i adnewyddu bob tair blynedd.

Er mwyn cryfhau trefniadau Diogelu ymhellach, mae'r awdurdod wedi gweithredu polisi atal aflonyddu rhywiol, ac mae asesiadau risg wedi'u cynnal ar gyfer pob adran. Mae'r rhain yn cael eu monitro gan y Rheolwr Diogelu, yn gweithio gyda'r adran Adnoddau Dynol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cynnal trefniadau parhad busnes i gefnogi gwydnwch sefydliadol a pharhad gwasanaethau. Fel rhan o'i ddyletswyddau statudol, mae cynlluniau parhad busnes ar waith ar draws y Gwasanaeth ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae cydweithio parhaus â Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân yn cefnogi gwelliant parhaus mewn cynllunio ac ystyried risgiau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n esblygu.

Er mwyn sicrhau bod canlyniadau a fwriadwyd yn cael eu hasesu'n gyfannol, cefnogir penderfyniadau allweddol gan asesiad effaith integredig. Mae hyn yn ystyried goblygiadau cydraddoldeb, diogelu data, iechyd, diogelwch a llesiant, y Gymraeg, cyllid, cynaliadwyedd a'r gweithlu, ochr yn ochr â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r dyletswyddau iechyd statudol a ragwelir.

Mae Strategaeth Amgylcheddol yr Awdurdod yn cryfhau cynaliadwyedd amgylcheddol ymhellach, ac yn nodi targedau perfformiad clir a mesuradwy i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol arwyddocaol eraill. Mae cynnydd yn cael ei fonitro drwy drefniadau llywodraethiant, ac mae'r Awdurdod yn adrodd ar ei ddyletswyddau bioamrywiaeth trwy Adroddiadau Bioamrywiaeth rheolaidd, gan ddarparu tryloywder a sicrwydd ynghylch sut mae mynd i'r afael ag ystyriaethau amgylcheddol o fewn cynllunio a gwneud penderfyniadau.

Mae ystyriaethau cynaliadwyedd wedi'u hymgorffori o fewn fframwaith llywodraethiant ehangach yr Awdurdod, gan gynnwys y Rheolau Gweithdrefn Contract, sy'n gofyn am ystyried buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth ymgymryd â gweithgarwch caffael perthnasol, gan gefnogi gwerth am arian a chanlyniadau cymunedol ehangach.

Yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd cryfhau gallu sefydliadol a chefnogi amcanion cynaliadwyedd a sero net. Mae'r ystyriaethau hyn wedi'u hintegreiddio'n llawn i drefniadau llywodraethiant, cynllunio strategol a dyrannu adnoddau'r Awdurdod, gan sicrhau bod canlyniadau'n parhau i fod yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd i'r eithaf.

Mae'r Awdurdod yn defnyddio cyfuniad o ymgynghori, rheoli perfformiad, rheoli risg a goruchwyllo llywodraethiant i sicrhau bod ymyriadau'n amserol, yn gymesur ac yn cyd-fynd â chyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o osod amcanion yr Awdurdod, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol. Mae hyn yn sicrhau bod amcanion yn cael eu llywio gan farn budd-ddeiliaid ac anghenion y gymuned cyn iddynt gael eu cwblhau a'u cyflawni.

Mae cynnydd yn erbyn amcanion blynyddol yn cael ei fonitro a'i asesu drwy gydol y flwyddyn, gydag asesiad ffurfiol o berfformiad yn cael ei gyhoeddi bob mis Hydref. Mae hyn yn darparu tryloywder ac yn galluogi'r Awdurdod i werthuso a yw canlyniadau'n cael eu cyflawni neu a oes angen ymyrraeth bellach.

Mae rheoli risg yn elfen graidd o ddull yr Awdurdod o benderfynu a blaenoriaethu ymyrraeth. Mae'r Polisi Rheoli Risg Strategol yn nodi'r broses ar gyfer nodi a rheoli risgiau a allai effeithio ar gyflawni amcanion neu weithgareddau. Mae risgiau strategol yn cael eu hadolygu drwy gydol y flwyddyn drwy'r Pwyllgor Risg Strategol, gan sicrhau bod risgiau sy'n dod i'r amlwg a risgiau sy'n newid yn cael eu nodi, eu lliniaru a'u huwchgwyfeirio'n briodol. Mae'r trefniadau hyn yn destun craffu mewnol ac archwilio allanol, gan roi sicrwydd dros eu heffeithiolrwydd.

Mae gwybodaeth perfformiad ac ariannol yn destun craffu strwythuredig drwy drefniadau llywodraethiant yr Awdurdod. Cyflwynir adroddiadau perfformiad ac ariannol i'r Awdurdod a'i bwyllgorau, ar ôl i'r Grŵp Gweithredol eu hystyried yn gyntaf. Mae Adroddiad Monitro Perfformiad chwarterol yn cael ei baratoi ar gyfer y Panel Gweithredol ac mae craffu gweithredol manylach yn digwydd drwy'r Bwrdd Perfformiad, lle mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn adolygu data sy'n ymwneud â'r galw i ddigwyddiadau, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac argaeledd adnoddau. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod materion yn cael eu nodi'n brydlon a bod camau cywiro neu liniaru priodol yn cael eu cytuno.

Mae ymyrraeth effeithiol hefyd yn cael ei chefnogi trwy lywodraethiant ariannol cadarn. Mae'r prosesau cynllunio'r gyllideb, sy'n cynnwys arweinwyr y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod, wedi'u cynllunio i sicrhau bod adnoddau yn cyd-fynd ag amcanion sy'n seiliedig ar risg, wrth gydbwysu'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â chynnal ystadau, cerbydau ac offer. Mae Pwyllgor y Gyllideb, Monitro a Chaffael yn darparu goruchwyliaeth strategol a llywodraethiant ar gyfer y trefniadau hyn.

Mae dysgu gweithredol a lliniaru risg yn cael eu goruchwyllo drwy'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol, sy'n darparu goruchwyliaeth llywodraethiant o Ganllawiau Gweithredol Cenedlaethol, Dysgu Gweithredol Cenedlaethol a Dysgu Sefydliadol ar y Cyd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwyllo'r gwaith o gasglu a rheoli Gwybodaeth Risg Penodol i Safle ac yn monitro gweithgarwch sy'n ymwneud â risgiau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys gwaith mynd i'r afael â'r risg o dân o dechnolegau newydd drwy'r gweithgor System Storio Ynni Batri (ïon Lithiwm).

Gan gydnabod graddfa a chymhlethdod nifer o fentrau newid arwyddocaol, adolygodd y Gwasanaeth ei ddull o reoli rhaglenni a phrosiectau yn ystod y flwyddyn a nodi'r angen i gryfhau trefniadau Swyddfa Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau (PMO). Mae cynlluniau wedi'u rhoi ar waith i ddatblygu gallu Swyddfa Rheoli Rhaglenni ymhellach yn ystod 2026–27, gan wella goruchwyliaeth, cydgysylltu, adrodd a rheoli risg ar gyfer rhaglenni a phrosiectau arwyddocaol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau llywodraethiant sy'n cefnogi gwaith megis adolygu trefniadau darpariaeth brys ledled Gogledd Cymru, adolygu systemau rota, a phrosiectau gweithredu a mudo systemau mawr.

Mae ystyriaethau iechyd, diogelwch a llesiant hefyd yn llywio trefniadau ymyrraeth a sicrwydd. Mae digwyddiadau iechyd a diogelwch yn cael eu hadrodd, eu hadolygu a'u monitro i sicrhau bod risgiau i staff yn cael eu nodi a'u lliniaru, gyda goruchwyliaeth strategol yn cael ei darparu gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant.

Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn monitro cyflawni yn erbyn ymrwymïadau cenedlaethol a rennir. Mae [Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan](#) yn nodi saith ymrwymiad lefel uchel sy'n ymwneud ag atal ac ymateb i danau mewn anheddau, gyda pherfformiad yn cael ei adrodd yn flynyddol fel rhan o Asesiad Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod.

Yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd trefniadau cadarn ar gyfer nodi, gwerthuso ac ymateb i risg. Felly, mae rheoli risg a goruchwyliaeth perfformiad yn parhau i fod yn ganolog i fframwaith llywodraethiant a gwneud penderfyniadau'r Awdurdod, gan gefnogi ymyrraeth effeithiol a chyflawni canlyniadau a fwriadwyd.

Egwyddor E: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan o hynny.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod llywodraethiant effeithiol yn dibynnu ar arweinyddiaeth glir, gallu sefydliadol a gweithlu medrus. Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn diffinio rolau priodol Aelodau etholedig a Swyddogion dynodedig, gan ddarparu eglurder ynghylch cyfrifoldebau, atebolrwydd ac amcanion. Mae swyddi statudol dynodedig yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Swyddog Monitro, gan sicrhau arweinyddiaeth broffesiynol a goruchwyliaeth statudol briodol.

Mae cydweithio rhanbarthol a chenedlaethol yn cryfhau gallu sefydliadol ymhellach. Mae'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o drefniadau ar y cyd, gan gynnwys y Fforwm Hyfforddiant ar Ymchwilio i Danau ar gyfer Cymru Gyfan, sy'n cefnogi dysgu ar y cyd, safonau proffesiynol a dull cyson ledled Cymru.

Mae'r Awdurdod wedi ysgrifennu a gweithredu Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol GTA Cymru Gyfan 2025–2028, sy'n darparu fframwaith strategol ar gyfer datblygu'r gweithlu ac sy'n sail i ymrwymiad yr Awdurdod i ddysgu gydol oes, cymhwysedd proffesiynol a gwydnwch sefydliadol. Mae'r dull strategol hwn o ddatblygu pobl yn cael ei ategu gan gydnabyddiaeth yr Awdurdod o gynlluniau prentisiaeth fel mecanwaith pwysig ar gyfer adeiladu capasiti a gallu yn y dyfodol. Yn ystod 2025–26, recriwtiwyd prentisiaid i rolau diffoddwyr tân a rolau anweithredol, gan gefnogi cynaliadwyedd y gweithlu, datblygu sgiliau a llwybrau talent ar draws y sefydliad.

Wrth gydnabod graddfa a chymhlethdod rhaglenni trawsnewid tymor hwy, gan gynnwys datblygu cyfleusterau hyfforddi diffoddwyr tân, mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu gallu rheoli prosiectau pwrpasol. Mae hyn yn cefnogi cyflwyno gwasanaethau yn effeithiol, goruchwyllo llywodraethiant a dysgu sefydliadol mewn perthynas â rhaglenni newid arwyddocaol.

Cefnogir gallu sylfaenol trwy drefniadau cynefino strwythuredig ar gyfer Aelodau a gweithwyr. Mae prosesau cynefino yn cyflwyno gwerthoedd craidd y sefydliad, safonau ymddygiad disgwylledig a gofynion rôl, gan sicrhau dealltwriaeth gyson o gyfrifoldebau o'r cychwyn cyntaf.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnal iechyd a llesiant y gweithlu fel elfen allweddol o allu sefydliadol. Darperir cymorth iechyd a llesiant drwy ystod o fesurau, gan gynnwys polisiâu a chanllawiau AD, trefniadau gweithio hyblyg, mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol a rhaglen cymorth gweithwyr. Darperir goruchwyliaeth strategol o'r trefniadau hyn gan y Pwyllgor Datblygu Pobl a Sefydliadol a'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant.

Mae dysgu, hyfforddiant a chymhwysedd proffesiynol yn cael eu cefnogi gan adran hyfforddi bwrpasol a fframweithiau cymhwysedd sefydledig ar gyfer staff gweithredol. Darperir hyfforddiant drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys modiwlau e-ddysgu gorfodol ar gyfer meysydd pwnc allweddol megis diogelu data. Darperir goruchwyliaeth llywodraethiant o drefniadau dysgu a datblygu gan y Pwyllgor Dysgu Sefydliadol, gan sicrhau cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol a risgiau sefydliadol a nodwyd.

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwyodd yr Awdurdod Strategaeth Hyfforddi tair blynedd newydd, sy'n cefnogi datblygiad parhaus gallu'r gweithlu, capasiti arweinyddiaeth a chymhwysedd sefydliadol fel rhan o fframwaith llywodraethiant a sicrwydd yr Awdurdod. Yn ogystal, yn ystod 2025–26, parhaodd yr Awdurdod i fuddsoddi mewn datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel o'r sefydliad, gyda staff yn cymryd rhan mewn rhaglenni goruchwyllo a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer rheolwyr canol ac uwch arweinwyr. Mae'r buddsoddiad hwn yn cefnogi gallu arweinyddiaeth, cymhwysedd rheoli a gwydnwch sefydliadol.

Mae gallu arweinyddiaeth weithredol hefyd wedi'i gryfhau trwy barhau i ddatblygu sgiliau rheoli digwyddiadau. Cymerodd staff ran mewn hyfforddiant rheoli digwyddiadau Aur, Arian ac Efydd, gan gefnogi arweinyddiaeth effeithiol, gwydnwch rheoli digwyddiadau a gwneud penderfyniadau diogel mewn perthynas â digwyddiadau. Yn fwy cyffredinol, nodir anghenion datblygu gweithwyr trwy broses arfarnu, a nodir datblygu sefydliadol trwy broses Dadansoddi Anghenion Hyfforddi blynyddol. Mae'r Gwasanaeth yn darparu hyfforddiant strwythuredig sy'n cyd-fynd â Lefelau Rheoli Digwyddiadau 1–4 i gefnogi rheoli digwyddiadau mewn modd hyderus, effeithiol mewn cyd-destunau gweithredol a strategol.

Mae safonau proffesiynol yn cael eu hatgyfnerthu trwy aelodaeth o gyrff proffesiynol perthnasol a'r gofyniad am ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae prosesau dyrchafu yn cyd-fynd â Fframwaith Arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC), gan gefnogi cysondeb, tegwch a chyd-fynd â disgwyliadau cenedlaethol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod gwerth sicrwydd annibynnol a chynghor proffesiynol wrth gryfhau gallu sefydliadol. Yn ystod 2025–26, roedd hyn yn cynnwys defnyddio sicrwydd allanol a chymorth ymgynghori gan Mersey Internal Audit Agency (MIAA) i lywio gweithgarwch gwella a chefnogi llywodraethiant effeithiol.

Yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod rheoli pobl yn effeithiol, datblygu arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol cadarnhaol yn sylfaenol i lywodraethiant da. Mae'r egwyddorion hyn yn parhau i fod yn sail i ddull yr Awdurdod o gynllunio'r gweithlu, dysgu a datblygu sefydliadol.

Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

Mae'r Awdurdod yn cynnal fframwaith cynhwysfawr o reolaeth a sicrwydd mewnol i gefnogi rheoli risg yn effeithiol, stiwardiaeth ariannol a gwneud penderfyniadau. Y Trysorydd sydd â chyfrifoldeb statudol dros weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol, yn unol ag [Adran 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.](#), ac mae'r Swyddog Monitro yn darparu sicrwydd bod yr Awdurdod yn gweithredu o fewn y gyfraith ac yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a gofynion rheoleiddiol sefydledig.

Mae'r Polisi Rheoli Risg Strategol yn nodi dull strwythuredig o nodi, asesu a rheoli risgiau a allai effeithio ar gyflawni amcanion. Mae cofrestr risg gorfforaethol yn cael ei chynnal gan yr Adran Cynllunio Corfforaethol a'i hadolygu drwy gydol y flwyddyn gan y Pwyllgor Risg Strategol i sicrhau bod risgiau'n cael eu monitro, eu lliniaru a'u huwchgysfeirio'n briodol lle bo angen.

Cefnogir gwneud penderfyniadau gan drefniadau adrodd a sicrwydd cynhwysfawr. Cyflwynir asesiad effaith integredig ochr yn ochr ag adroddiadau a gyflwynir i'r Awdurdod a'i Bwyllgorau, sy'n galluogi Aelodau i ystyried goblygiadau cyfreithiol, ariannol, cydraddoldeb, llesiant, cynaliadwyedd a gweithredol wrth wneud penderfyniadau. Mae trefniadau parhad busnes hefyd ar waith i sicrhau y gellir parhau i gyflwyno gwasanaethau hanfodol mewn achosion o darfu. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol i gynnal gwydnwch sefydliadol.

Mae craffu a sicrwydd annibynnol yn rhan ganolog o fframwaith rheolaeth fewnol yr Awdurdod. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn goruchwyllo trefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, gan sicrhau bod argymhellion ar gyfer gwella sy'n deillio o Archwilio Mewnol, Archwilio Cymru ac archwilwyr allanol eraill yn cael eu hystyried, eu cytuno a'u monitro hyd nes eu cwblhau. Rhoddir [adroddiadau chwarterol](#) i Aelodau ac uwch reolwyr am welliant a pherfformiad y Gwasanaeth yn erbyn dangosyddion perfformiad a cherrig milltir allweddol, gan gefnogi tryloywder a gwelliant parhaus.

Mae trefniadau ar waith i gadw [cofrestrau o fuddiannau personol a busnes yr Aelodau a chofrestr o roddion a lletygarwch](#). Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod fel rhan o broffil personol pob Aelod. Mae polisïau ar gyfer Gwrth-dwyll a Llygredigaeth a Chwythu'r Chwiban yn atgyfnerthu ymhellach ymrwymiad yr Awdurdod i weithredu mewn modd teg, agored a thryloyw.

Mae Rheolau Gweithdrefn Contract yr Awdurdod yn elfen allweddol o'r fframwaith rheolaeth fewnol ac yn cefnogi gweithgarwch caffael cyfreithlon, tryloyw ac atebol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwaith pellach i gryfhau cydymffurfiaeth â gofynion caffael ac i ymgorffori egwyddorion gweithio a phartneriaeth teg, gan gynnwys cyd-fynd â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, fel rhan o drefniadau llywodraethiant a sicrwydd ehangach yr Awdurdod.

Mae trefniadau llywodraethiant gwybodaeth yn cefnogi trin data yn ddiogel ac yn gyfreithlon. Mae'r polisiâu sydd ar waith yn cynnwys y Polisi Diogelu Data, y Polisi Rhyddid Gwybodaeth, y Polisi Cadw Data a'r Polisi Diogelu Cyfathrebu a Gwybodaeth. Cefnogir y trefniadau hyn gan hyfforddiant staff, gan gynnwys e-ddysgu diogelu data gorfodol ar gyfer pob gweithiwr, a phrotocolau rhannu gwybodaeth y cytunwyd arnynt yn ffurfiol gyda sefydliadau partner.

Mae trefniadau rheoli ariannol yn cefnogi cyflwyno gwasanaethau a gweithredu newid trawsnewidiol, wrth sicrhau stiwardiaeth gadarn o adnoddau cyhoeddus. Cyflwynir [diweddariad ariannol](#) ym mhob cyfarfod yr Awdurdod, gydag [adroddiadau](#) ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar wefan yr Awdurdod er mwyn cefnogi tryloywder.

Darperir gwasanaethau Archwilio Mewnol gan Mersey Internal Audit Agency (MIAA), sy'n darparu rhaglen o weithgareddau archwilio seiliedig ar risg a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio. Mae canlyniadau'r gwaith Archwilio Mewnol a wnaed yn ystod 2025–26, gan gynnwys archwiliadau sy'n ymwneud â rheoli asedau, wedi llywio asesiad yr Awdurdod o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn darparu barn annibynnol flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn, sy'n ffynhonnell allweddol o sicrwydd i'r Awdurdod. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, nododd datganiad barn y Pennaeth Archwilio Mewnol "Gellir rhoi sicrwydd sylweddol bod system dda o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y sefydliad, a bod y rheolaethau yn cael eu cymhwyso'n gyson yn gyffredinol". Bydd copi llawn o farn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cael ei gyhoeddi ar [wefan yr Awdurdod](#).

Darperir sicrwydd allanol gan Archwilio Cymru, gan gynnwys gwaith archwilio sy'n ymwneud â [Datganiadau Cyfrifon yr Awdurdod](#) ac adolygiadau o gydymffurfio â dyletswyddau statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae trefniadau Rheoli Trysorlys yn cael eu gweithredu yn unol ag arfer proffesiynol ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan yr Aelodau. Mae Datganiadau Cyfrifon yr Awdurdod a'i berfformiad yn erbyn meysydd risg a blaenoriaeth allweddol yn destun archwilio a chraffu allanol annibynnol.

Yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd prosesau effeithiol ar gyfer nodi a gwerthuso risg. Felly, mae rheoli risg yn parhau i fod yn elfen ganolog o drefniadau llywodraethiant, rheolaeth fewnol a sicrwydd yr Awdurdod.

Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dryloywder, craffu effeithiol a gwelliant parhaus, wedi'u hategu gan drefniadau adrodd a sicrwydd cadarn. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gan weithio ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru benodi Crest Advisory i gynnal adolygiad annibynnol o ddiwylliant. Roedd hyn ar ôl i Lywodraeth Cymru dderbyn cynnig gan y ddau Wasanaeth, ym mis Mawrth 2024, i ddeall yn well y cynnydd o ran gwella diwylliant sefydliadol. Roedd y cynnig yn sail i [ddatganiad ysgrifenedig](#) gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar y pryd, Hannah Blythyn AS.

Cynhaliodd Crest Advisory yr adolygiad a chyhoeddi ei [adroddiad](#) o'r canfyddiadau ym mis Chwefror 2025, gan nodi 32 o argymhellion i gefnogi gwella diwylliannol. Mewn ymateb, a thrwy gydol 2025–26, cryfhodd yr Awdurdod ei drefniadau llywodraethiant a sicrwydd trwy sefydlu Bwrdd Diwylliant pwrpasol. Dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Tân, mae'r Bwrdd yn dwyn ynghyd Aelodau'r Awdurdod, uwch swyddogion, hyrwyddwyr diwylliant a chynrychiolaeth allanol gan Lywodraeth Cymru. Mae Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub ac Arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth yn aelodau o'r Bwrdd. Mae'r trefniadau hyn yn darparu craffu strwythuredig, herio allanol a sicrwydd dros gyflawni camau gwella diwylliannol y cytunwyd arnynt. Mae cynllun gwella strategol wedi'i ddatblygu a'i gyhoeddi, sy'n nodi sut y bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu a'u monitro.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Awdurdod, gyda chymorth y Swyddog Monitro, yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethiant a'i amgylchedd rheolaeth fewnol yn rheolaidd. Cynhelir [cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub](#) yn gyhoeddus, gydag agendâu a chofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae cyfarfodydd yr Awdurdod Llawn yn cael eu gweddarlledu, gan gefnogi bod yn agored a mynediad i'r cyhoedd at wneud penderfyniadau a chraffu. Mae adroddiadau a gyflwynir i'r Awdurdod yn dilyn fformat strwythuredig, gan sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno'n glir ac yn gyson i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gan gyhoeddi gwybodaeth yn unol â'i [gynllun cyhoeddi](#) ac ymateb yn briodol i geisiadau gan aelodau o'r cyhoedd. Cefnogir tryloywder cynllunio a pherfformiad ymhellach drwy gyhoeddi'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, sy'n nodi Amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod ac sy'n destun adolygiad gan Archwilio Cymru mewn cysylltiad â chyhoeddi Tystysgrif Cydymffurfiaeth.

Cefnogir tryloywder ariannol ac atebolrwydd trwy gynhyrchu a chyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon Blynnyddol yn amserol. Mae'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno mewn fformat clir, hawdd ei ddefnyddio, gan ddarparu gwybodaeth dryloyw am incwm, gwariant a stiwardiaeth arian cyhoeddus, ac fe'u cyflwynir i'w harchwilio yn unol â therfynau amser statudol. Mae'r Awdurdod hefyd yn cyhoeddi [Datganiad Polisi Cyflogau Blynnyddol](#) yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011, ac mae cyflogau Aelodau'n cael eu talu a'u hadrodd yn unol â phenderfyniadau a wneir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau tryloywder mewn perthynas â buddiannau a pherthnasoedd. Mae'n ofynnol i Aelodau ac uwch swyddogion ddatgan buddiannau perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU. Mae'r datganiadau hyn yn cefnogi nodi a datgelu trafodion parhau cysylltiedig lle bo angen.

Mae'r Awdurdod yn darparu tryloywder allanol drwy adrodd yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru. Cyflwynir adroddiadau bob mis Ionawr a mis Gorffennaf sy'n cynnwys manylion materion sy'n ymwneud â disgyblaeth, cwynion cyflogaeth a chwynion allanol, gan gynnwys achosion o gamymddwyn honedig neu gamymddwyn difrifol lle gall ymddygiadau godi pryderon am ddiwylliant a gwerthoedd sefydliadol.

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol ei hun yn chwarae rôl allweddol mewn atebolrwydd, gan ddarparu cyfrif tryloyw o drefniadau llywodraethiant yr Awdurdod, yr adolygiad o effeithiolrwydd llywodraethiant a chamau gwella llywodraethiant arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Darperir sicrwydd annibynnol trwy archwilio allanol a mewnol. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, a benodir drwy statud, yn rhoi barn ar Ddatganiad o Gyfrifon yr Awdurdod, a gyhoeddir ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn ymateb i argymhellion archwilio ac yn cymryd camau cywiro lle bo angen. Mae Archwilio Mewnol yn gweithredu ar ddull sy'n seiliedig ar risg, gan ddarparu sicrwydd bod risgiau a rheolaethau allweddol yn cael eu rheoli'n effeithiol. Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau mewnol, penodwyd Archwilydd Mewnol newydd ym mis Mehefin 2023, a hynny er mwyn cryfhau'r trefniadau sicrwydd ymhellach. Mae prosesau hefyd ar waith i sicrhau bod argymhellion gan gyrrff arolygu a rheoleiddio yn cael eu holrhain a'u gweithredu.

Yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd atebolrwydd cryf, cydweithio effeithiol a chraffu cadarn. Mae'r egwyddorion hyn yn parhau i fod yn sail i ddull yr Awdurdod o ymdrin â thryloywder, adrodd a sicrwydd, gan gefnogi hyder gan y cyhoedd a llywodraethiant da.

Casgliad

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Awdurdod wedi adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethiant yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Fframwaith CIPFA/SOLACE Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol, gan gynnwys y gofynion a'r disgwyliadau a nodir yn atodiad mis Mai 2025. Mae'r adolygiad hwn wedi ystyried gweithrediad fframwaith llywodraethiant yr Awdurdod, trefniadau rheoli risg a rheolaeth fewnol, ochr yn ochr â sicrwydd sy'n deillio o archwilio mewnol ac allanol, adrodd ar berfformiad, gweithgarwch rheoleiddio ac ymgysylltu gweinidogol.

Mae'r adolygiad wedi tynnu ar ystod eang o ffynonellau sicrwydd, gan gynnwys gwaith y Pwyllgor Archwilio, canlyniadau'r Archwiliad Mewnol a gyflwynwyd gan Mersey Internal Audit Agency, sicrwydd allanol a ddarparwyd gan Archwilio Cymru, adrodd ar berfformiad a risg i Aelodau, a chanfyddiadau sy'n deillio o adolygiadau annibynnol, gan gynnwys adolygiad o ddiwylliant Crest Advisory. Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyllid, llywodraethiant, ymgynghori, cydraddoldeb, safonau'r Gymraeg a phartneriaeth gymdeithasol.

Yn seiliedig ar yr adolygiad hwn, mae'r Awdurdod wedi dod i'r casgliad bod ganddo fframwaith effeithiol o lywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar waith sy'n gweithredu fel y bwriadwyd ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion. Mae'r trefniadau a ddisgrifir yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol hwn yn dangos bod yr Awdurdod yn parhau i ymddwyn gydag uniondeb, yn parhau i fod yn agored ac yn atebol, yn rheoli risg a pherfformiad yn briodol, ac yn darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth effeithiol.

Mae'r adolygiad hefyd wedi nodi meysydd lle gellid cryfhau trefniadau llywodraethiant ymhellach. Yn benodol, yn ystod 2025–26 cydnabu'r Awdurdod yr angen i wella trefniadau llywodraethiant a sicrwydd mewn perthynas â diwylliant sefydliadol a goruchwyliaeth rhaglenni a phrosiectau arwyddocaol. Mewn ymateb, mae'r Awdurdod wedi cymryd camau rhagweithiol i gryfhau trefniadau, gan gynnwys sefydlu Bwrdd Diwylliant yn dilyn adolygiad annibynnol Crest Advisory, a'r datblygiad pellach arfaethedig o lywodraethiant rheoli rhaglenni a phrosiectau yn ystod 2026–27.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod y camau hyn yn cynrychioli ymatebion cymesur a phriodol ac mae wedi nodi camau gwella clir i gryfhau trefniadau llywodraethiant a sicrwydd ymhellach. Bydd y camau hyn yn cael eu monitro drwy fecanweithiau llywodraethiant presennol, gan gynnwys Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth, y Pwyllgor Archwilio a'r Awdurdod ei hun, a bydd cynnydd yn cael ei adrodd fel rhan o fframwaith perfformiad a sicrwydd parhaus yr Awdurdod.

Gan ystyried hyn i gyd, mae'r Awdurdod o'r farn bod y trefniadau llywodraethiant a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn yn effeithiol, a bod cynlluniau priodol ar waith i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella ac i barhau i wella trefniadau llywodraethiant yn unol ag arferion da a disgwyliadau cenedlaethol.

Sut aeth yr Awdurdod i'r afael â Chamau Gwella Llywodraethiant 2025/26

Maes Gwella Llywodraethiant	Cam Gweithredu a Gynlluniwyd	Fforwm	Cyfrifoldeb	Cynnydd erbyn mis Ebrill 2026
Effeithiolrwydd Gweithgareddau Atal	Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o waith Atal.	Yr Awdurdod Tân ac Achub	Pennaeth Atal a Diogelu	Yn ystod 2025-26, fe wnaeth yr Awdurdod ymateb i adolygiad Archwilio Cymru o weithgarwch atal drwy gryfhau llywodraethiant, goruchwyliaeth a sicrwydd, a bwrw ymlaen â newid tuag at fodel atal wedi'i dargedu mwy, a arweinir gan ddata, ystyriol o risg, wedi'i ategu gan adrodd gwell ar berfformiad a chydweithio cenedlaethol.
Pennu'r Amcanion Llesiant	Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o bennu amcanion llesiant.	Bwrdd Gwella Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Yn ystod 2025-26, fe wnaeth yr Awdurdod gryfhau ei ddull o bennu amcanion llesiant trwy sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn well â gweithgarwch partneriaid, gwella ystyriaethau cyfranogiad a chydaddoldeb, ac ymgorffori amcanion yn fwy eglur o fewn fframweithiau rheoli corfforaethol, ariannol a pherfformiad. Bydd gwaith pellach yn canolbwyntio ar sicrhau bod cyfraniadau partneriaeth a mesurau perfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn fwy eglur mewn cylchoedd cynllunio ac adrodd yn y dyfodol.
Rheoli Risg Strategol	Gweithredu argymhellion adolygiad yr Archwiliad Mewnol o Reolaethau Craidd Rheoli Risg	Bwrdd Gwella Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Canfu ailymweliad gan Mersey Internal Audit Agency yn ystod 2025-26 fod y Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd wrth gryfhau ei fframwaith rheoli risg, gan gynnwys cymeradwyo Strategaeth Rheoli Risg, rolau a chyfrifoldebau mwy eglur, gwell darpariaeth hyfforddiant a threfniadau llywodraethiant gwell. Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio gyda rhaglen glir o gamau gweithredu ar waith, ac mae bwrw ymlaen gyda'r gwaith hwn trwy drefniadau llywodraethiant sefydledig.

Diwylliant Sefydliadol	Ymateb i argymhellion adolygiad annibynnol o ddiwylliant CREST trwy ymgysylltu â staff a'r Awdurdod Tân ac Achub, gan arwain at gyhoeddi cynllun gwella.	Yr Awdurdod Tân ac Achub	Prif Swyddog Tân	Yn ystod 2025-26, datblygwyd Cynllun Gweithredu Diwylliant mewn ymateb i adolygiad Crest Advisory ac mae hwn yn cael ei weithredu trwy lywodraethiant cryfach, gyda chynnydd yn amodol ar adolygu ac adrodd rheolaidd trwy drefniadau goruchwyllo mewnol ac allanol sefydledig.
Effeithiolrwydd Ymateb i Danau mewn Anheddau Domestig	Ymateb i argymhellion yn "Arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ystyried effeithiolrwydd ei ymateb i danau mewn anheddau domestig", Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru	Yr Awdurdod Tân ac Achub	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Yn ystod 2025/26, cryfhawyd llywodraethiant holl adolygiadau thematig Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru drwy sefydlu grŵp goruchwyllo pwrpasol, gyda llinellau adrodd clir, cynllun gweithredu cyfunol, a chydweithio Cymru gyfan gwell i gefnogi gweithredu a gwella mewn modd cyson.
Gwirio Cyflenwyr a Chanllawiau Gwrth-dwyll	Ymateb i argymhellion gan yr Archwilydd Mewnol mewn perthynas â rheolaethau prosesu ariannol allweddol 2024/25 gan gynnwys gweithredu Gwirio	Pwyllgor Cyllid a Chaffael	Pennaeth Cyllid	Mae gweithdrefnau gwirio cyflenwyr wedi'u cryfhau, gan gynnwys gwiriadau gwell cyn sefydlu a diweddarau cyflenwyr. Mae canllawiau gwrth-dwyll wedi'u diweddarau, gyda phhecyn e-ddysgu bellach yn fyw ac yn cael ei gyfathrebu i staff cyllid a chaffael perthnasol. Mae rhaglen o adolygiadau cyfnodol o fanylion banc cyflenwyr wedi'i chyflwyno i leihau risg twyll.

	Cyflenwyr, Canllawiau Gwrth-Dwyll ac Adolygiadau Rheolaidd o Fandadau Banc.			Mae'r mandad banc wedi'i ddiweddaru.
--	---	--	--	--------------------------------------

Camau Gwella Llywodraethiant yr Awdurdod 2026/27

Maes Gwella Llywodraethiant	Cam Gweithredu a Gynlluniwyd	Fforwm	Cyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn
Cyd-fynd â gofynion Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg	Paratoi ar gyfer newidiadau posibl yn y dyfodol i drefniadau llywodraethiant yr Awdurdod Tân ac Achub, sy'n cyd-fynd â pholisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y Datganiad Ysgrifenedig ar Lywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub.	Yr Awdurdod Tân ac Achub	Prif Swyddog Tân a Chlerc yr Awdurdod Tân	31 Mawrth 2027
Gweithredu fframwaith cenedlaethol Tân ac Achub 2026	Paratoi ar gyfer newidiadau posibl sy'n deillio o Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethiant, cynllunio a sicrwydd yn parhau i gyd-fynd â gofynion sy'n dod i'r amlwg.	Yr Awdurdod Tân ac Achub	Aelod priodol o Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth	31 Mawrth 2027
Disgwyliadau'r Arolygiad Cenedlaethol	Cynnal parodrwydd sefydliadol ar gyfer gweithgareddau arolygu posibl, gan gynnwys adolygu trefniadau llywodraethiant, rheoli perfformiad a sicrwydd yn erbyn disgwyliadau arolygu Llywodraeth Cymru a chenedlaethol sy'n dod i'r amlwg.	Yr Awdurdod Tân ac Achub	Y Panel Gweithredol	31 Mawrth 2027

Halogyddion	Paratoi ar gyfer arolygiad yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch ar halogyddion, gan gynnwys adolygu a chryfhau rheolaethau, sicrwydd a threfniadau llywodraethiant perthnasol.	Pwyllgor lechyd, Diogelwch a Llesiant	Pennaeth Gweithrediadau Technegol	31 Mawrth 2027
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	Cryfhau trefniadau llywodraethiant a sicrwydd ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol, gan sicrhau parhau i gydymffurfio â dyletswyddau statudol a bod yn barod am graffu ac arolygu allanol.	Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	Prif Swyddog Tân	31 Mawrth 2027
Deddf Diogelwch Tân a Diogelwch Adeiladau (Cymru).	Paratoi ar gyfer newidiadau mewn deddfwriaeth diogelwch tân a diogelwch adeiladau ac ymateb iddynt, gan gynnwys gweithredu Deddf Diogelwch Adeiladau (Cymru), gan sicrhau bod trefniadau diogelu, llywodraethiant a sicrwydd yn parhau i fod yn effeithiol ac yn cyd-fynd.	Pwyllgor Atal, Diogelu a Pherfformiad	Pennaeth Atal a Diogelu	31 Mawrth 2027
Rheoli Prosiectau a Rhaglenni	Parhau i gryfhau llywodraethiant, goruchwyliaeth a rheolaethau mewnol mewn perthynas â rheoli rhaglenni a phrosiectau, gan sicrhau sicrwydd, adrodd a chyflawni mentrau newid allweddol yn effeithiol.	Pwyllgor Risg Strategol	Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid	31 Mawrth 2027

Cydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol

Cynlluniwyd Cod Rheoli Ariannol CIPFA (Cod RhA CIPFA) i gefnogi arfer da ym maes rheoli ariannol ac i gynorthwyo'r Awdurdod i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Mae Cod RhA CIPFA felly'n gosod safonau rheoli ariannol i'r Awdurdod.

Mae'r Cod yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion a gefnogir gan safonau a datganiadau ymarfer penodol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ddarparu'r sylfaen gref i:

- Reoli cyllid yr Awdurdod yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir
- Rheoli gwydnwch ariannol er mwyn ateb y galw a ragwelir am wasanaethau
- Rheoli cyllid pan fo newidiadau annisgwyl yn eu hamgylchiadau ariannol.

Rhaid i bob Awdurdod ddangos bod gofynion y Cod yn cael eu bodloni.

Fel Swyddog Adran 151 mae gen i'r Cyfrifoldeb Statudol (gyda chefnogaeth Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod) dros sicrhau cydymffurfiaeth â Chod RhA CIPFA.

Rwyf wedi cynnal asesiad llawn o gydymffurfiaeth â Chod RhA CIPFA fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a gallaf gadarnhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod yn y mwyafrif o feysydd yn fy marn i.

Signed

(Swyddog Adran 151) 2026

Barn Llywodraethiant a Chasgliad

Mae'r Awdurdod yn cydnabod mai llywodraethiant da sy'n gosod y sylfaen ar gyfer cyflwyno gwasanaethau o ansawdd da sy'n bodloni anghenion budd-ddeiliaid, ac sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Mae'r adolygiad hwn yn cadarnhau'r systemau llywodraethiant a'r monitro a oedd ar waith ar gyfer 2025-26 a'r camau a gymerwyd i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod trefniadau llywodraethiant priodol ar waith ac mae'n parhau i fod yn ymroddedig i wella'r rhain drwy weithredu'r cynllun gweithredu ar gyfer 2026-27.

Signed

(Cadeirydd yr Awdurdod)

Signed

(Prif Swyddog Tân) 2026



Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
North Wales Fire and Rescue Authority

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026	
Swyddog Arweiniol	Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael	
Swyddog Cyswllt	Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael	
Pwnc	Datganiad o Gyfrifon Blynnyddol 2025/26	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Cyflwyno Datganiad o Gyfrifon 2025/26 wedi'i diweddarau i'r Aelodau. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod, yn amodol ar gwblhau'r gwaith archwilio sydd heb ei wneud.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Cafodd y cyfrifon drafft eu cyflwyno i'w harchwilio ar 28 Mai 2026. Nid yw'r sefyllfa ariannol a archwiliwyd wedi newid, gydag addasiad i'r cyflwyniad ac un camddatganiad heb ei gywiro.
- 3 Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi'i nodi yn Atodiad 2 ac, yn amodol ar gwblhau'r gwaith archwilio sy'n weddill fel ag y soniwyd yn adran ragarweiniol adroddiad ISA 260, disgwylir iddo gadarnhau barn archwilio ddiamod.
- 4 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 31 Gorffennaf 2026. Fodd bynnag, ers y pandemig, mae'r amserlenni hyn wedi'u hystyngyn gan Lywodraeth Cymru hyd at 30 Medi 2026.

ARGYMHELLION

- 5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:
 - i) **Nodi'r sefyllfa a'r perfformiad alldro archwiliedig fel y manylir yn eu cylch yn Datganiad Cyfrifon 2025/26 (Atodiad 1);**
 - ii) **Nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod (Atodiad 2); ac yn**
 - iii) **Cadarnhau'r argymhelliad i gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon 2025/26 terfynol, sydd wedi'u harchwilio, heb unrhyw newidiadau perthnasol.**
 - iv) **Os bydd unrhyw newidiadau perthnasol yn ofynnol, cymeradwyo dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol ym mis Medi.**

YSTYRIAETH GAN BWYLLGORAU ERAILL

- 6 Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon heb ei archwilio ar gyfer 2025/26 i'r Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol ar 15 Mehefin 2026.

CEFNDIR

- 7 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi datganiad o gyfrifon yn flynyddol. Mae'r amserlenni cyn-Covid a ragnodir o fewn y Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad drafft o gyfrifon gael ei gyhoeddi erbyn 31 Mai, gyda dyddiad cau archwilio o 31 Gorffennaf bob blwyddyn.
- 8 Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru, yn dilyn ymgynghoriad â Chymdeithas Trysoryddion Cymru ac Archwilio Cymru, y dylid paratoi'r datganiad drafft o gyfrifon ar gyfer 2025/26 erbyn 30 Mehefin 2026 fan bellaf, ac y dylid archwilio'r datganiad cyfrifon erbyn 30 Medi 2026.
- 9 Ardystiwyd y Datganiad Cyfrifon drafft gan Drysorydd yr Awdurdod ar 28 Mai 2026 ac fe'i cyflwynwyd i Archwilio Cymru. Mae'r datganiad o gyfrifon drafft wedi bod yn destun archwiliad allanol, ac mae atodiad 1 yn cynnwys y fersiwn archwiliedig derfynol yn amodol ar unrhyw newidiadau sylweddol.

GWYBODAETH

ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

- 8 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am ddarparu barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o berfformiad a sefyllfa ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.
- 9 Wrth gyflawni'r gwaith archwilio, nid yw Archwilio Cymru yn ceisio darparu sicrwydd absoliwt. Yn hytrach, mae'n ystyried a oes materion arwyddocaol a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon. Pan nodir gwall neu gamddatganiad, bydd Archwilio Cymru yn ystyried a oes angen diwygio.
- 10 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod, gan gadarnhau bod y datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod a'u bod wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau deddfwriaethol a chyfrifyddu perthnasol, yn amodol ar gwblhau'r gwaith archwilio sy'n weddill y cyfeirir ato yn adran ragarweiniol adroddiad ISA 260. Mae'r adroddiad archwilio llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, ac mae'r materion canlynol wedi'u hamlygu.

- 11 Yn ystod yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2025–26, nodwyd ychydig o gywiriadau a chafwyd cytundeb gyda swyddogion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol. Nodir manylion hyn yn adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon.
- 12 Canfuwyd un camddatganiad heb ei gywiro yn ystod yr archwiliad. Roedd yn ymwneud â rhagdalau anfonebau gwerth cyfanswm o £90k a ddylai fod wedi'u cynnwys yn 2025/26, er y bydd y gwariant yn cael ei wneud yn 2026/27.
- 13 Cafodd materion a godwyd gan y fîm archwilio eu datrys mewn cydweithrediad â swyddogion, gan arwain at set o ddatganiadau ariannol sy'n cydymffurfio'n llawn â'r safonau cyfrifyddu perthnasol.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. Mae cyllid ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol.
Cyllideb	Mae'r gyllideb yn cael ei phennu bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal.
Cyfreithiol	Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau rhagnodedig.
Staffio	Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau y gall yr Awdurdod gyflawni ei gyfrifoldebau
Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Dim
Risgiau ac Ansicrwydd	Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod a'u hadrodd yn briodol i'r Aelodau.

Dataganiad o Gyfrifon

2025-2026



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



DATGANIAD O GYFRIFON	TUDALEN
Adroddiad Naratif	1-18
Datganiad o Gyfrifoldebau	19
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	20-23
Dadansoddiad o Wariant a Chyllid	24
Datganiadau Ariannol Craidd	25-29
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd	30-65
Cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân	66-68
Polisiâu Cyfrifyddu	69-83

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn, Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw cynnal a chadw gwefan yr Awdurdod a sicrhau ei bod yn gywir; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn wreiddiol.

Adroddiad Naratif

Mae'r Datganiad Cyfrifon wedi'i lunio yn dilyn y rheolau a osodwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Bwriad yr adroddiad hwn yw helpu pobl, gan gynnwys y cyhoedd, trigolion Gogledd Cymru, Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub, partneriaid, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn:

- Deall sefyllfa ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub a faint o arian a wariwyd yn 2025/26;
- Teimlo'n hyderus bod yr Awdurdod wedi defnyddio arian cyhoeddus yn iawn a'i gofnodi'n gywir; a
- Bod yn sicr bod cyllid yr Awdurdod yn gryf ac yn cael ei reoli'n dda.

Mae'r cyfrifon yn dilyn safonau CIPFA, ac rydym wedi ceisio gwneud y wybodaeth mor syml a chlir â phosibl. Fodd bynnag, gan fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn sefydliad mawr, mae rhai rhannau o'r cyfrifon yn dal i fod yn dechnegol ac yn gymhleth.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys y datganiadau ariannol craidd, sef: -

Y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant (CIES) – Mae hwn yn dangos faint mae'n ei gostio i redeg ein gwasanaethau eleni, yn seiliedig ar reolau cyfrifyddu arferol. Nid yw'n dangos y swm a dalwyd amdano gan drethi.

Dadansoddiad o Wariant a Chyllid (EFA) – Mae hyn yn dangos yr un wybodaeth â'r CIES ond hefyd yn esbonio pa addasiadau cyfrifyddu sy'n cael eu dileu yn nodyn 7 fel nad yw trethdalwyr yn eu hariannu.

Datganiad o Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS) – Mae hwn yn dangos sut newidiodd cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod (cynilion a balansau ariannol eraill) yn ystod y flwyddyn. Mae'n gwahanu cronfeydd wrth gefn yn rhai "y gelli eu defnyddio" (y rhai y gallwn eu gwario) a rhai "na ellir eu defnyddio" (y rhai na allwn eu gwario). Mae hefyd yn dangos gwir gost rhedeg y gwasanaeth a sut rydym yn defnyddio gwahanol gronfeydd wrth gefn i dalu'r costau hynny.

Y Fantolen – Mae hyn yn dangos beth sy'n eiddo i'r Awdurdod (asedau) a beth sy'n ddyledus iddo (rhwymedigaethau) ar ddyddiad y Fantolen. Y gwahaniaeth rhyngddynt yw asedau net yr Awdurdod, sy'n cyfateb i gyfanswm gwerth ei gronfeydd wrth gefn.

Y Datganiad Llif Arian – Mae hwn yn dangos sut mae arian parod yr Awdurdod wedi symud i mewn ac allan dros y flwyddyn.

Mae'r nodiadau i'r cyfrif yn esbonio sut y paratowyd y datganiadau ariannol, y rheolau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd, a gwybodaeth ychwanegol sy'n helpu i wneud y cyfrifon yn haws i'w deall.

Rhagair gan y Cadeirydd

Fel Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, rwy'n falch o rannu Datganiad Cyfrifon 2025/26. Er gwaethaf pwysau ariannol parhaus, rwy'n falch o sut mae'r Gwasanaeth, gyda chefnogaeth yr Awdurdod, wedi parhau i amddiffyn ein cymunedau tra'n aros mewn sefyllfa ariannol sefydlog.

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau gwasanaeth tân ac achub sy'n gweithio'n dda ac yn cadw pobl yn ddiogel. Ein nod yw gwneud Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw, gweithio ac i ymweld ag ef. I wneud hyn, rhaid i ni nid yn unig gydbwyso cyllideb eleni ond hefyd gynllunio ymlaen llaw fel y gallwn aros yn gryf yn y dyfodol. Rhan allweddol o'r cynllun hwn yw buddsoddi yn yr adeiladau, cerbydau ac offer a fydd yn cefnogi'r Gwasanaeth a'n cymunedau am flynyddoedd lawer.

Er bod y rhagolygon ariannol ar gyfer y dyfodol yn heriol, rwy'n hyderus y bydd ein sefyllfa ariannol gadarn yn ein helpu i ymdrin â'r anawsterau hyn.

Y Cynghorydd Dylan Rees,

**Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub
Gogledd Cymru**



Cyflwyniad gan Dawn Docx, Prif Swyddog Tân

Mae'r Datganiad Naratif hwn wedi'i gynllunio i helpu darllenwyr i ddeall yr Awdurdod Tân ac Achub, yr amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo, a'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Ynghyd â manylion ariannol, mae'r Datganiad Naratif hefyd yn esbonio ein gweithgareddau, cynlluniau hirdymor, a chanlyniadau perfformiad. Mae hyn yn rhoi darlun cliriach i ddarllenwyr o waith ehangach yr Awdurdod a'r cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo.

Gall y cyfrifon eu hunain fod yn gymhleth, ond rwy'n eich annog i'w hadolygu ynghyd â'r Datganiad Naratif hwn. Gyda'i gilydd, maent yn rhoi crynodeb llawn o'r flwyddyn ariannol a sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2026.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch neu os oes gennych gwestiynau, mae manylion cyswllt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Naratif.

Dawn Docx,

Prif Swyddog Tân



Cyflwyniad i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae'r cyfrifon hyn yn ymdrin â'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Awdurdod yn cwmpasu ardal ddaearyddol o 2,400 milltir sgwâr gyda phoblogaeth amcangyfrifedig o tua 700,000 o bobl. Mae 44 o orsafoedd tân yng Ngogledd Cymru – 8 gorsaf llawn amser a 36 gorsaf ar alwad.

Yn ogystal ag ymateb brys, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddiogelwch cymunedol ac atal tanau, ynghyd ag ymateb mewn argyfwng. Rydym yn gweithio gydag ysgolion, busnesau a grwpiau cymunedol lleol i addysgu pobl am ddiogelwch ac yn rhannu negeseuon pwysig.

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru. Poblogaeth ardal y Cyngor cyfansoddol sy'n pennu nifer y cynrychiolwyr. Mae rhagor o wybodaeth am yr Awdurdod, ei aelodau a'i gyfrifoldebau ar gael ar dudalennau'r Awdurdod Tân ar ein gwefan.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Tân a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys Uwch Swyddogion a Rheolwyr sy'n arwain yr adrannau sy'n cefnogi ein swyddogaethau ar yr ochr weithredol a chorfforaethol allweddol.

Ein hegwyddorion

Yn GTAGC, rydym yn cael ein harwain gan ein hegwyddorion sy'n llywio ein gweithredoedd a'n penderfyniadau. Sef:



Mae'r egwyddorion hyn yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a chynnal ymddiriedaeth a diogelwch y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Ynglŷn â'n Hardal Gwasanaeth



Adnoddau

 **44** gorsaf dân

 **54** injan dan rheng flaen

 **41** peiriant arbennig gan gynnwys cychod achub a pheiriannau cyrraedd yn uchel

 **979** o staff gyda **30%** ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl

Gweithgareddau Atal ac Amddiffyn

 Cwblhawyd **19,376** o Archwiliadau Diogel ac lach

 Cynhaliwyd **530** o archwiliadau busnes

 **64** o sgysiau diogelwch gyda **4,645** o blant a phobl ifanc

 **20** o gysiau ffenics gyda **172** o gyfranogwyr yn cwblhau'r rhaglen

Gweithgareddau ymateb

 Deliwyd â **15,972** o alwadau brys

 Wedi mynychu **6,611** o ddigwyddiadau brys

 Mynychwyd **2,040** o danau gyda **35** ohonynt yn danau gwyllt

 **3,209** fo alwadau diangen

Llywodraethiant a Rheoli Risg

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, parhaodd y Gwasanaeth i gryfhau ei drefniadau llywodraethiant a rheoli risg i gefnogi gwneud penderfyniadau tryloyw, atebol ac effeithiol.

Crynodeb o Risgiau Allweddol ac Ansicrwydd

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu mewn amgylchedd risg cymhleth ac esblygol. Roedd y prif risgiau ac ansicrwydd a nodwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau hyfforddi – Mae ansicrwydd mewn ariannu cyfalaf yn y dyfodol yn cyflwyno risg y gall hyfforddiant a chyfleusterau ddod yn anaddas-i'r-diben os nad oes digon o fuddsoddiad ar gael i gynnal a gwella'r ystâd.

Seiberddiogelwch a gwydnwch gwybodaeth – Mae'r Gwasanaeth yn parhau i wynebu risg uwch sy'n deillio o'r dirwedd bygythiad seiber sy'n esblygu.

Gweinyddu pensiynau a chymhlethdod rheoleiddio – Mae rheoliadau pensiwn cymhleth a heriau cyfreithiol parhaus yn creu risg na fydd dyddiadau cau statudol yn cael eu bodloni.

Capasiti'r gweithlu ac argaeledd yr ochr weithredol - Mae heriau wrth recriwtio a chadw digon o staff, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn peri risg i gynnal argaeledd offer a gwydnwch gweithredol.

Systemau critigol – Mae'r Gwasanaeth yn parhau i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw a pharhad systemau critigol.

Rheoli Risg a'r Ystafell Reoli

Mae rheoli risg wedi'i ymgorffori o fewn prosesau cynllunio strategol, gwneud penderfyniadau a rheoli perfformiad. Mae risgiau allweddol yn cael eu cofnodi yn y gofrestr risg ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth a phwyllgorau perthnasol, gyda chamau lliniaru wedi'u nodi, eu monitro a'u diweddarau'n glir i sicrhau bod risgiau'n parhau i fod o fewn archwaeth risg y Gwasanaeth.

Mae GTAGC yn asesu ei brif risgiau ac ansicrwydd, gan gynnwys risgiau ariannol, drwy'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd (CRhRC) a'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol Blynyddol (CRMIP). Mae cynllunio blynyddol yn cyd-fynd â'r CRhRC a'r CRMIP, gan gyfieithu blaenoriaethau i amcanion adrannol. Pan fo'r amcanion hyn yn arwain at risgiau strategol, maent yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr Risg ochr yn ochr ag achosion busnes cysylltiedig.

Mae'r Pwyllgor Risg Strategol yn gweithredu o dan gylch gorchwyl y cytunwyd arno ac yn unol â Strategaeth Rheoli Risg y Gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter i adolygu risgiau strategol a goruchwyllo gweithgarwch lliniaru. Rhoddir sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth fewnol trwy archwilio mewnol ac allanol.

Datblygiadau Llywodraethiant Allweddol

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y Gwasanaeth i gryfhau ei drefniadau llywodraethiant, gan gynnwys:

Adolygiad o strwythur llywodraethiant – mireinio strwythurau a rolau pwyllgorau parhaus i roi atebolrwydd a goruchwyliaeth gliriach.

Integreiddio risg i' broses gwneud penderfyniadau – ymgorffori asesiad risg ymhellach mewn cynllunio busnes, adrodd a phenderfyniadau strategol.

Archwilio mewnol – cyflawni trydedd flwyddyn y cynllun archwilio mewnol tair blynedd, gan roi sicrwydd ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a chydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau.

Blaenoriaethau'r Dyfodol

Wrth edrych ymlaen, bydd y Gwasanaeth yn parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethiant a rheoli risg mewn ymateb i dirwedd weithredol, rheoleiddiol a sefydliadol sy'n esblygu.

Mae blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys datblygu'r gallu llywodraethu trwy hyfforddiant a datblygu parhaus ar gyfer Aelodau a swyddogion, ochr yn ochr â gwell perfformiad ac adrodd risg i gefnogi goruchwyliaeth amserol, seiliedig ar dystiolaeth o risgiau ac amcanion strategol.

Bydd yr Awdurdod hefyd yn parhau i baratoi ar gyfer ac ymateb i Ddiwygio Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac

Achub. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau llywodraethu'n parhau i fod yn gadarn, yn dryloyw ac yn addasadwy, tra'n cefnogi effeithiolrwydd gweithredol a hyder y cyhoedd trwy gydol unrhyw drawsnewid.

Ochr yn ochr â'r risgiau sy'n wynebu'r sefydliad, bydd y Gwasanaeth yn parhau i fynd ar drywydd cyfleoedd i wella gwydnwch, effeithlonrwydd a cyflwyno'r gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cryfhau cydweithio â phartneriaid, buddsoddi mewn datblygu'r gweithlu, gwneud defnydd effeithiol o atebion digidol a rhai sy'n seiliedig-ar ddata, a chynnal ffocws cryf ar atal a diogelwch cymunedol i reoli galw a risg yn y dyfodol.

Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol, sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol, yn rhoi asesiad manwl o effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'n nodi risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â llywodraethiant ac yn nodi'r camau a gymerwyd, ac a gynlluniwyd, i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella.

Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth

Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth (SLT) yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol, y Rheolwyr Ardal a'r Penaethiaid Adran, gan roi fframwaith arweinyddiaeth gynhwysfawr i oruchwyllo llywodraethiant, rheoli risg a chyflawni gweithredol.

Model Gweithredu

Mae model gweithredu'r Awdurdod Tân yn esbonio sut yr ydym yn gweithio i gadw ein cymunedau'n ddiogel. Mae'n dangos sut yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau, rheoli ein gwasanaethau, a chyrraedd ein nodau.

Mae ein prif wasanaethau'n cynnwys:

- **Ymateb Brys:** Ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i danau, galwadau gwasanaeth arbennig, a digwyddiadau eraill.
- **Atal a Diogelu:** Hyrwyddo ac addysgu diogelwch tân, cwblhau arolygiadau, a gorfodi rheolau i leihau risg.
- **Ymgysylltu â'r Gymuned:** Gweithio gyda thrigolion, busnesau, a grwpiau lleol i hyrwyddo diogelwch a pharodrwydd.

Rydym yn gwirio ac yn addasu yn rheolaidd sut yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau i wneud yn siŵr ein bod yn cwrdd â'n nodau yn effeithlon. Mae hyn yn cynnwys adolygu ein cyllideb, ein staffio, a'n hanghenion offer, yn ogystal ag asesu ein perfformiad a'n heffaith.

Isod mae map o'n holl gyfleusterau ledled Gogledd Cymru.


Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR)

Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi llywio'r gwaith o ddatblygu dull diwygiedig o gynnal darpariaeth frys ledled Gogledd Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar wella gwydnwch, rhagweladwyedd argaeledd offer a chynaliadwyedd hir-dymor ymateb i argyfyngau o fewn cyfyngiadau ariannol a gweithlu presennol.

O ganlyniad, cytunwyd ar Gydgytundeb ffurfiol rhwng y Prif Swyddog Tân ac Undeb y Brigadau Tân. Mae'r Cydgytundeb yn nodi'r egwyddorion trosfwaol a'r trefniadau llywodraethiant ar gyfer pecyn o newidiadau gweithredol a gweithlu, gan gynnwys trefniadau criw diwygiedig mewn gorsafoedd dethol.

Mae gweithredu'r Cydgytundeb bellach ar y gweill, gyda chefnogaeth ffrydiau gwaith diffiniedig a threfniadau goruchwylio. Mae cynnydd yn parhau i gael ei fonitro i asesu ei effeithiau gweithredol, gweithlu ac ariannol.

Map Cyfleusterau/Gorsafoedd GTAGC



Cynllun Rheoli Risg Cymunedol

Mae Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29 (CRhRC), yn esbonio sut mae'r Gwasanaeth yn nodi ac yn rheoli risgiau ledled Gogledd Cymru, gan amlinellu'r risgiau allweddol sy'n wynebu ein cymunedau ac yn nodi sut y byddwn yn mynd i'r afael â nhw—tra'n parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Er mwyn cefnogi'r CRhRC, rydym yn cynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol blynyddol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r cynlluniau gweithredu hyn yn manylu ar y camau gweithredu penodol y byddwn yn eu cymryd bob blwyddyn i gyflawni ein nodau a chadw ein cymunedau'n ddiogel. Mae'r cynlluniau hefyd yn cynnwys amcanion llesiant a gwella, yn unol â deddfwriaeth Cymru.

Yn ystod 2025-26 cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus, gan gynnwys sawl digwyddiad ymgysylltu, i gael adborth ar ein Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol arfaethedig ar gyfer 2026-27. Mae'r holl adborth a dderbyniwyd wedi'i ystyried yn unol ag Egwyddorion Gunning, a bydd y cynllun a gymeradwyir ar gael ar ein [gwefan](#).

Perfformiad Blynyddol

Roedd Asesiad Perfformiad Blynyddol GTAGC, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025, yn nodi blwyddyn gyntaf y Cynllun Rheoli Risg Corfforaethol pum mlynedd. Roedd yn adolygu perfformiad yn erbyn amcanion blynyddol a myfyrio ar gyflawniadau ar hyd oes y cynllun.

Yn ogystal ag adrodd ar ddangosyddion perfformiad statudol a sector-gyfan, asesodd yr adroddiad gynnydd yn erbyn amcanion gwella a llesiant. Roedd y rhain yn cynnwys gwella diogelwch a gwydnwch cymunedol, gwella cynaliadwyedd amgylcheddol, ac ymgorffori gwerth cymdeithasol mewn caffael.

Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at ymrwymiad yr Awdurdod i ddatblygu'r gweithlu, ymgysylltu â budd-ddeiliad, ac effeithlonrwydd gweithredol.

Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gael [yma](#).

Diwylliant a Gwelliant Sefydliadol

Yn ystod 2025/26, parhaodd y Gwasanaeth i weithredu ar ganfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol o Ddiwylliant a gynhaliwyd gan Crest Advisory ym mis Chwefror 2025. Mae'r ffocws wedi symud o gynllunio newidiadau i'w rhoi ar waith a gwneud yn siŵr eu bod yn dod yn rhan o ffyrdd bob dydd o weithio. Mae Hyrwyddwyr Diwylliant wedi'u penodi i annog ymddygiad cadarnhaol, cefnogi sgysiau agored, a helpu staff i ymgysylltu â'r rhaglen gwella diwylliant.

Mae'r Cynllun Gwella Diwylliant wedi'i ddiweddarau yn ystod 2025/26 i adlewyrchu blaenoriaethau cyfredol ac adborth gan staff. Mae cynnydd yn cael ei olrhain trwy gamau gweithredu clir ac yn cael ei adrodd trwy'r trefniadau llywodraethiant presennol.

Ceir goruchwyliaeth gan y Bwrdd Gwella Diwylliannol, sy'n cynnwys uwch arweinwyr, Cadeirydd yr Awdurdod, Hyrwyddwr Aelodau EDI a chynrychiolydd Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod cynnydd a risgiau'n cael eu monitro a'u herio'n briodol.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gefnogi newid diwylliannol hirdymor ac mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i roi gweithle diogel, cynhwysol a seiliedig ar werthoedd sy'n cefnogi gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel.

Hwb Awen

Gwnaeth yr Awdurdod gynnydd pellach yn ystod y flwyddyn ar ddatblygu Hwb Awen, y ganolfan hyfforddi arfaethedig. Ar ôl cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol ym mis Hydref 2024, symudodd y gwaith ymlaen i gamau dylunio cynnar a pharatoi technegol i gefnogi'r Achos Busnes Amlinellol.

Canolbwyntiodd camau dylunio cychwynnol RIBA ar anghenion gweithredol, gofynion gofod a sut y byddai gwahanol rannau o'r safle yn gweithio gyda'i gilydd.

Cynhaliwyd ymchwiliadau safle a gwiriadau amgylcheddol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys arolygon ecolegol a bioamrywiaeth. Roedd y gwaith hwn yn cefnogi dichonoldeb safle, nodi cyfyngiadau a sicrhau bod gofynion amgylcheddol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried o'r camau cynnar.

Mae trefniadau llywodraethu clir yn parhau i fod ar waith, gyda'r prosiect yn cael ei noddi gan Brif Swyddog Tân Cynorthwyol a'i gefnogi gan dîm prosiect pwrpasol. Mae ymgysylltu â budd-ddeiliad mewnol ac allanol wedi parhau er mwyn sicrhau bod cynigion yn adlewyrchu anghenion gweithredol, ystyriaethau gweithlu ac arferion da cydnabyddedig.

Mae Hwb Awen yn parhau i fod yn rhan allweddol o strategaeth hirdymor yr Awdurdod ac mae'n ganolog i gyflawni'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024–2029.



Cynaliadwyedd a newid hinsawdd

Yn 2025/26, gweithiodd yr Awdurdod i weithredu'r cynlluniau datgarboneiddio manwl ar gyfer Fflyd, Gwresogi, Pŵer a Chaffael fel y nodir yn ei Strategaeth Amgylcheddol (2023–2030). Mae'r Gweithgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi monitro cynnydd y Gwasanaeth tuag at darged Sero Net 2030.

Mae'r peilot Olew Llysiau wedi'i Hydrodrin (HVO) fel dewis arall i ddisel wedi parhau yng Ngorsaf Dân Glannau Dyfrdwy. Mae cynlluniau ar waith i osod tanciau HVO ac offer dosbarthu mewn ugain safle erbyn 2030. Dylai hyn liniaru bron i hanner allyriadau carbon uniongyrchol y Gwasanaeth.

Parhaodd y datblygiadau ar System Reoli Amgylcheddol bwrpasol sy'n cyd-fynd ag ISO 14001, gyda'r nod o wella perfformiad amgylcheddol trwy well defnydd o adnoddau a lleihau gwastraff. Disgwylir i'r gweithredu ddechrau yn 2026/27.

Mae arolwg cynhwysfawr o gyflwr ystadau mecanyddol a thrydanol wedi'i gynnal, i lywio'r cynllunio ynghylch amnewid systemau gwresogi hen neu aneffeithlon.

Mae manyleb system wresogi safonol wedi'i datblygu ar gyfer gorsafoedd tân defnydd isel a fydd yn caniatáu i ni osod systemau gwresogi di-garbon am gost sylweddol is fesul safle.

Cafodd cyllid grant ei sicrhau i gefnogi mentrau datgarboneiddio, gan gynnwys hyd at 90% o gost gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan a gwaith datgarboneiddio cysylltiedig, ochr yn ochr â chyfraniadau penodedig tuag at brynu cerbydau trydan. Dyfarnwyd cyfanswm o £204k drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

Mae gwaith partneriaeth sylweddol wedi digwydd, gyda'r Gwasanaeth yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Asesiad Risg Newid Hinsawdd rhanbarthol ar gyfer partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei Adroddiad Bioamrywiaeth a'i Gynllun Gweithredu tair blynedd, gan fanylu ar y cynnydd a wnaed hyd yma a chynllun gwaith uchelgeisiol a gynigiwyd ar gyfer y cyfnod hyd at 2028.



Perfformiad Ariannol

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau atal tân, amddiffyn ac ymateb brys o ansawdd uchel ar draws ei gymunedau. Yn ystod 2025/26, parhaodd yr Awdurdod i weithredu o fewn amgylchedd ariannol heriol, a nodweddir gan bwysau chwyddiant parhaus, cynnydd mewn costau'r gweithlu, ac ansicrwydd parhaus ar draws tirwedd ariannu ehangach y sector cyhoeddus.

Er mwyn cefnogi cynaliadwyedd ariannol, ailddatganodd yr Aelodau'r Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig ar gyfer 2026-30 a chymeradwyodd gyfraniadau cynyddol gan yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2025/26 o 5.15% ar ôl eu haddasu ar gyfer cynnydd SCAPE ac Yswiriant Gwladol Cyflogwyr. Cefnogwyd hyn gan y defnydd cynlluniedig a darbodus o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a mesurau nad ydynt yn rheolaidd i sicrhau bod effeithiolrwydd gweithredol a diogelwch cymunedol yn cael eu cynnal tra bod pwysau cost tymor hwy yn parhau i gael eu datrys.

Roedd pwysau'r gweithlu yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn, yn enwedig mewn perthynas â recriwtio a chadw mewn rolau arbenigol a rolau sydd wedi'u cadw. Parhaodd y cynnydd o ran gweithredu argymhellion y gweithlu y cytunwyd arnynt a chysoni trefniadau lleol â thrafodaethau cenedlaethol ar dâl, telerau ac amodau. Cynhaliwyd gwaith datblygu pellach hefyd yn ystod y flwyddyn ar y model Darpariaeth Frys diwygiedig, gan adeiladu ar

ganlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus 2023 ac ymgysylltu dilynol â budd-ddeiliad.

Er gwaethaf y pwysau parhaus hyn, cynhaliodd yr Awdurdod sefyllfa ariannol sefydlog trwy gydol 2025/26 trwy fonitro'r gyllideb yn cadarn, rheoli swyddi gwag, a chynhyrchu incwm yn ystod y flwyddyn. Wrth edrych ymlaen, mae'r Awdurdod yn parhau i flaenoriaethu rheoli chwyddiant cyflogau, pensiwn a chwyddiant nad ydynt yn gyflogau, tra'n sicrhau bod penderfyniadau ariannol yn parhau i fod yn cyd-fynd â gwydnwch gweithredol, rheoli risg, a chyflawni amcanion strategol.

Perfformiad Refeniw

Adroddodd yr Awdurdod warged o £121k ar gyfer 2025/26 ar ôl cymhwyso addasiadau cyfrifyddu statudol ac adleoliadau i gronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn cymharu â rhagolwg alldro o £134k ddiwedd mis Mawrth. Mae'r gwarged wedi'i drosglwyddo i falans y Gronfa Gyffredinol, gan gynyddu cyfanswm y cronfeydd wrth gefn.

Cynyddodd cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio £904k yn ystod y flwyddyn, gan ddod â'r cyfanswm i £11,783k. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn wedi'u neilltuo ar gyfer cefnogi gofynion gwasanaeth parhaus, gan gynnwys hawliadau yswiriant disgwylidiedig a disodli pecyn tân. Rhagwelir y bydd lefelau cronfeydd wrth gefn yn lleihau yn y blynyddoedd i ddod wrth i'r ymrwymadau hyn gael eu cyflawni. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 8 o'r Datganiad o Gyfrifon.

Crynodeb Refeniw

2025/26	Cyllideb (£'000)	Alldro (£'000)	Cronfeydd Wrth Gefn (£'000)	CERA (£'000)	Cyfanswm (£'000)	Amrywiant (£000)	Amrywiant (%)
Gweithwyr	38,233	36,871	548		37,419	(814)	-2.1%
Adeiladau	2,818	3,344			3,344	526	18.7%
Trafnidiaeth	1,327	1,582	89		1,671	344	26.0%
Cyflenwadau	6,182	5,333	(30)		5,303	(879)	-14.2%
Taliadau Trydydd Parti	367	429			429	62	16.9%
Cyllid Cyfalaf a Thaliadau	4,501	2,568		2,338	4,906	405	9%
Incwm	(1,039)	(1,557)	151		(1,406)	(367)	35%
Defnydd o Gronfeydd wrth Gefn	(601)						
Is-Gyfanswm	51,788	48,571	758	2,338	51,667	(121)	-0.2%
Ardollau	(51,788)	(51,788)			(51,788)	0	0.0%
Sefyllfa Alldro					(121)	(121)	0.2%

Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio

Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio	Balans 31 Mawrth 2025	Trosglwyddiadau (i mewn)/allan 2025/26	Balans 31 Mawrth 2026
	£'000	£'000	£'000
Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	(8,938)	(759)	(9,697)
Cronfa Gyffredinol	(1,871)	(121)	(1,989)
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn	(73)	(24)	(97)
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio	(10,882)	(904)	(11,783)

Perfformiad Cyfalaf

Cymeradwyodd yr Awdurdod raglen gyfalaf o £6,100k ym mis Ionawr 2025, wedi'i hategu gan £2,589k o gyllid a drosglwyddwyd o flynyddoedd blaenorol. Cyfanswm y gwariant cyfalaf ar gyfer 2025/26 oedd £5,008k, gyda dadansoddiad manwl o'r cynlluniau isod.

Oherwydd llithriad prosiect, bydd tua £3,885k yn cael ei gario ymlaen i 2025/26 i gwblhau'r cynlluniau parhaus. Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro cyflawni cyfalaf yn fanwl, gyda gwell prosesau craffu a chynllunio bellach ar waith.

Ariannu Cyfalaf

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd yr Awdurdod hefyd grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i gefnogi mentrau datgarboneiddio, ar gyfer cyfleusterau a seilwaith gwefru cerbydau trydan, ochr yn ochr â chyfraniadau penodedig tuag at brynu cerbydau trydan. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cyfrannu at wydnwch hirdymor yr Awdurdod.

Cyllid	Swm £000
Cyllid Grant	204
Cyfraniadau	2,338
Benthyca	2,466
Cyfanswm	5,008

Cynllun	Dyraniad	Gwirioneddol	Arian Treigl
	£'000	£'000	£'000
Cerbydau	3,193	1,751	1,460
Adeiladau	3,199	1,997	1,431
TT	550	152	245
Cyfarpar	1,747	904	749
Rhaglen Gyfalaf	8,689	4,804	3,885
Cyllid Grant yn ystod y flwyddyn			
Cerbydau Trydan		57	
Gwefru Trydanol		89	
Gwaith cynaliadwyedd		58	
Cyfanswm		5,008	

*Mae'r gwariant ar gerbydau yn eithrio unrhyw asedau wedi'u prydlesu.

Hwb Awen

Mae'r gwariant cyfalaf cronus ar Hwb Awen wedi'i gynnwys o fewn Adeiladau yn y tabl uchod ac mae'n gyfanswm o £1,231k ar ddiwedd y flwyddyn (£11k yn 2024/25), gyda chostau pellach yn ofynnol yn 2026/27 i symud y prosiect ymlaen i Borth RIBA 4.

Rheoli Trysorlys

Parhaodd yr Awdurdod i gydymffurfio â'i Strategaeth Rheoli Trysorlys trwy gydol 2025/26. Arhosodd benthycu a buddsoddiadau o fewn y terfynau cymeradwy, ac nid adroddwyd am unrhyw ddiffyg dalu. Roedd incwm buddsoddi yn fwy na disgwyliadau'r gyllideb, ac roedd sefyllfa fenthycu net yr Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn £15,756k, sydd yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf.

Mae'r Awdurdod yn parhau i weithio gyda Chynghorydd Trysorlys, Arlingclose, i gynllunio a rheoli risg cyfradd llog a strategaeth fenthycu yn effeithiol.

Costau Pensiynau

Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân oedd £5,437k, gyda thaliadau pensiwn i aelodau wedi ymddeol yn £10,872k, a chymudo pensiynau a buddion ymddeol cyfandaliad yn dod i gyfanswm o £3,332k. Mae'r cynllun yn parhau i fod heb ei ariannu, gyda'r rhwymedigaeth yn cynyddu o £208,143k i £232,624k yn sgil symudiadau ailfesur actiwaraid a chostau pensiwn a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn.

Ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, parhaodd cyfradd sylfaenol y cyflogwr ar 18.3%, a pharhaodd yr un gostyngiad cyfradd eilaidd o £548k i gael ei gymhwyso.

Rhagolwg

Llif Arian ac Ystyriaethau ar gyfer y Dyfodol

Cynhaliodd yr Awdurdod sefyllfa arian parod gref trwy gydol 2025/26, a hynny wedi'i gefnogi yn sgil cael praeseptau'n brydlon a gwaith rheoli trysorlys gweithredol.

Wrth edrych ymlaen, gall amseru prosiectau cyfalaf effeithio ar lif arian yn y dyfodol - yn enwedig datblygiad y Ganolfan Hyfforddi. Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro hylifedd yn fanwl, gan ddefnyddio buddsoddiadau tymor byr a chynllunio senarios i sicrhau digon o hyblygrwydd i fodloni ymrwymadau gweithredol a chyfalaf. Darperir cyngor arbenigol gan Arlingclose, gan gefnogi dull yr Awdurdod o wneud penderfyniadau trysorlys darbodus a gwybodus.

Pwysau Cyllidebol a Lliniaru ar gyfer y Dyfodol

Mae'r Awdurdod yn parhau i wynebu pwysau costau cynyddol a'r galw cynyddol am wasanaethau. Er bod cyllideb 2025/26 wedi'i chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, nodir pwysau cyllidebol yn y dyfodol a bylchau cyllido cysylltiedig yn y [Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig](#).

Ystyriaeth o Adran 114

Adolygodd yr Awdurdod ganllawiau wedi'u diweddarau gan y CIPFA ynghylch cyhoeddi hysbysiad Adran 114, pan fydd Trysorydd yn hysbysu awdurdod eu bod yn mynd i dorri'r gofyniad cyfreithiol i gydbwyso eu cyllideb refeniw. Er gwaethaf y pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yn ehangach, cynhaliodd yr Awdurdod oruchwyliaeth ariannol gref trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys monitro rheolaidd ar gyllidebau, cronfeydd wrth gefn, a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Ni chafodd hysbysiad Adran 114 ei ystyried yn angenrheidiol ar unrhyw adeg. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr Awdurdod i reolaeth ariannol gadarn a'i ddull rhagweithiol o ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau cynaliadwyedd tymor hir.

Gwybodaeth Bellach

Mae rhagor o wybodaeth am y cyfrifon hyn ar gael gan Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Pencadlys, Ffordd Salisbury, Llanelwy, LL17 0JJ.

Mae gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb hawl statudol i archwilio'r cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau.

Ar yr adeg briodol, hysbysebir argaeledd y cyfrifon i'w harchwilio ar wefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

<https://www.tangogleddcymru.llyw.cymru/awdurdod-tan-ac-achub/ariannol/>

Diolchiadau

Fel Swyddog Adran 151, a benodwyd ar 1 Mai 2026, mae'n bleser gennyf lofnodi fy set gyntaf o gyfrifon ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Wrth wneud hynny, hoffwn fynegi fy niolch diffuant i gydweithwyr ar draws y sefydliad sydd wedi cyfrannu at baratoi'r Adroddiad Naratif hwn a'r Datganiad Cyfrifon ehangach. Yn benodol, hoffwn gydnabod proffesiynoldeb ac ymroddiad parhaus y tîm Cyllid, y mae eu hymdrechion wedi sicrhau cyflwyno adroddiadau ariannol yr Awdurdod yn brydlon ac yn gywir.

Hoffwn hefyd ddiolch i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid am eu cefnogaeth barhaus a'u hymgysylltiad adeiladol drwy gydol 2025/26.

Helen MacArthur

**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol a Swyddog S151
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O GYFRIFON

Cyfrifoldebau'r Awdurdod

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn gywir ac i sicrhau bod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Trysorydd
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Ardystiad Yr Awdurdod

Rwy'n cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2026.

Llofnod _____ Dyddiad _____

Y Cyngorydd, Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

CYFRIFOLDEBAU'R TRYSORYDD


Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:

- dethol polisiau cyfrifyddu addas, ac yn wedi eu defnyddio'n gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus
- cydymffurfio â'r Cod Ymarfer
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfoes
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysonderau eraill.

Ardystiad Y Swyddog Adran 151

Rwy'n tystio bod y cyfrifon yn darparu golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2026, ynghyd â'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Llofnod: _____ Dyddiad: 28/05/2026

Swyddog Adran, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

Mae'r datganiad hwn yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau, cyfraniadau ac ati) gan awdurdodau lleol o'i gymharu ag adnoddau a ddefnyddir neu a enillir gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau yn unol â'r math o wariant yr eir iddo. Caiff Incwm a Gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP) eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2024/25				2025/26		
Gwariant Net sy'n Daladwy i Falans y Gronfa Gyffredinol £'000	Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a'r Sail Gyfrifyddu £'000	Gwariant Net yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000		Gwariant Net sy'n Daladwy i Falans y Gronfa Gyffredinol £'000	Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a'r Sail Gyfrifyddu £'000	Gwariant Net yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000
46,713 (48,549)	(9,456) 10,308	37,257 (38,241)	Darparu Gwasanaethau Tân Incwm a Gwariant Arall	50,909 (51,788)	(11,506) 11,699	39,403 (40,089)
(1,836)	852	(984)	Diffyg (neu Warged) ar Ddarparu Gwasanaethau	(879)	193	(686)

2024/25				2025/26		
Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol £'000	Cyfanswm y Gronfa Gyffredinol £'000		Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol £'000	Cyfanswm y Gronfa Gyffredinol £'000
(1,575) (1,836)	(7,519)	(9,094) (1,836)	Dygwyd Ymlaen (Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	(1,871) (879)	(9,011) 0	(10,882) (879)
	48	48	Trosglwyddo rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso	0	0	0
1,540	(1,540)	0	Trosglwyddo rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Glustnodwyd	759	(783)	(24)
(1,871)	(9,011)	(10,882)	Balans Terfynol y Gronfa Gyffredinol	(1,989)	(9,794)	(11,783)

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost gyfrifo yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP), yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o gyfraniadau. Mae gwariant yr Awdurdod yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa cyfrannu yn y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid ac yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

2024/25				2025/26			
Gwariant £'000	Incwm £'000	Net £'000		Nodyn	Gwariant £'000	Incwm £'000	Net £'000
39,032	(1,775)	37,257	Darparu Gwasanaethau Tân		40,960	(1,557)	39,403
39,032	(1,775)	37,257	Cost Gwasanaethau		40,960	(1,557)	39,403
56	0	56	Gwariant Gweithreu Arall		2	0	2
11,352	(182)	11,170	Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi	9	12,125	(224)	11,901
0	(49,467)	(49,467)	Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol	10	0	(51,992)	(51,992)
		(984)	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau				(686)
0	(2,003)	(2,003)	(Gwarged) neu ddiffyg ar Ailbrisio Eiddo, ac Asedau Offer	18	0	(318)	(318)
		(26,136)	Ailfesur yr Ymrwymiad Buddion Diffiniedig Net	18			22,564
		(28,139)	(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall				22,246
		(29,123)	Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr				21,560

DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd sydd gan yr Awdurdod, wedi'i ddadansoddi'n gronfeydd defnyddiadwy' (sef y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol) a chronfeydd eraill. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, a dangosir rhagor o fanylion am hynny yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sydd angen eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, sy'n cael ei hariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol. Mae'r llinell Cynnydd / Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol cyn i'r Awdurdod wneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i'r cronfeydd a glustnodwyd ac ohonynt.

Mae'r symudiadau mewn 'Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio' mewn cyfrifyddu llywodraeth leol yn syniadol eu natur, gan adlewyrchu'n bennaf newidiadau mewn prisiadau asedau (megis adeiladau neu rwymedigaethau pensiwn). Mae'r rhain yn ffigurau ar bapur, yn hytrach na ffigurau wedi'u cefnogi gan arian parod, ac ni ellir eu gwario ar wasanaethau.

2025/26	Nodyn	Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Cronfeydd wrth Gefn a Grantiau a Glustnodwyd £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000	Derbyniadau Cyfalaf a Glustnodwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000
Balans ar 31 Mawrth 2025		(1,871)	(8,938)	0	(73)	(10,882)	176,422	165,540
Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn 2025/26								
Gwarged neu (Ddiffyg) ar Gwasanaethau		(686)	0	0	0	(686)	0	(686)
Unrhyw Wariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall		0	0	0	0	0	22,246	22,246
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	7	(686)	0	0		(686)	22,246	21,560
Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu		(219)	0	0	0	(219)	219	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Symudiadau i Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd		(905)	0	0	0	(905)	22,465	21,560
Trosglwyddiadau Eraill i/o Gronfeydd Wrth Gefn	8	783	(759)	0	(24)	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2025/26		(121)	(759)	0	(24)	(905)	22,465	21,560
Balans ar 31 Mawrth 2026		(1,989)	(9,697)	0	(97)	(11,783)	198,887	187,100

2024/25	Nodyn	Balans y Gronfa Cyffredinol £'000	Cronfeydd wrth Gefn a Grantiau a Glustnodwyd £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000	Derbyniadau Cyfalaf a Glustnodwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiwyd £'000	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000
Balans ar 31 Mawrth 2024		(1,575)	(7,398)	(48)	(73)	(9,094)	203,757	194,663
Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn 2024/25								
Gwarged neu (Ddiffyg) ar Gwasanaethau		(984)	0	0	0	(984)	0	(984)
Unrhyw Wariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall		0	0	0	0	0	(28,139)	(28,139)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(984)	0	0	0	(984)	(28,139)	(29,123)
Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu	7	(804)	0	0	0	(804)	804	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Symudiadau i Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd		(1,788)	0	0	0	(1,788)	(27,335)	(29,123)
Trosglwyddiadau Eraill i/o Gronfeydd Wrth Gefn	8	1,492	(1,540)	48	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2024/25		(296)	(1,540)	48	0	(1,788)	(27,335)	(29,123)
Balans ar 31 Mawrth 2025		(1,871)	(8,938)	0	(73)	(10,882)	176,422	165,540

Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth, ar ddyddiad y Fantolen, yr asedau a'r ymrwymadau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymadau) yn cael eu cyfateb gan y cronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Adroddir ynghylch cronfeydd mewn dau gategori. Y categori cyntaf o gronfeydd yw cronfeydd defnyddiadwy sef cronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (e.e. y Gronfa Dderbyniadau na ellir ond ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Yr ail gategori o gronfeydd yw'r rhai nad yw'r Awdurdod yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd yn cynnwys cronfeydd sy'n dal enillion na wireddwyd a cholledion (e.e. y Gronfa Ailbrisio), pryd na fyddai symiau ond ar gael i ddarparu gwasanaethau os caiff yr asedau eu gwerthu; ac mae cronfeydd sy'n dal gwahaniaethau amseru yn cael eu dangos yn y llinell Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd 'Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu o dan reoliadau.'

31 Mawrth 2025 £'000		Nodyn	31 Mawrth 2026 £'000
63,041	Eiddo, Peiriannau ac Offer	11	65,589
99	Asedau Anniriaethol	11	197
103	Dyledwyr Tymor Hir	14	113
63,243	Asedau Tymor Hir		65,899
663	Rhestrau Stoc	13	813
2,439	Dyledwyr Tymor Byr	14	1,896
2,523	Buddsoddiadau Tymor Byr	15	2,624
5,625	Asedau Cyfredol		5,333
(10,791)	Benthyca Tymor Byr	12	(4,203)
(375)	Darpariaethau	17	(322)
(6,045)	Credydwyr Tymor Byr	16	(8,799)
(173)	Rhwymedigaeth Les Tymor Byr	29	(209)
(17,384)	Ymrwymadau Cyfredol		(13,533)
(208,143)	Rhwymedigaeth Pensiwn	18	(232,624)
0	Darpariaethau Tymor Hir	17	0
(425)	Rhwymedigaeth Les Tymor Hir	29	(505)
(8,456)	Benthyca Tymor Hir	12	(11,674)
(217,024)	Rhwymedigaethau Tymor Hir		(244,803)
(165,540)	Asedau Net		(187,104)
(10,882)	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	8	(11,783)
176,422	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio	18	198,887
165,540	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn		187,104

DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian a chyfwerth ag arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn creu ac yn defnyddio arian a chyfwerth ag arian trwy gategoreiddio llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o'r gweithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu trwy gyfraniadau ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r gweithgareddau buddsoddi yn dangos y graddau y mae'r all-lifiadau arian wedi eu gwneud ar gyfer adnoddau sydd â'u bwriad o gyfrannu at y modd y gall yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r llifoedd arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragweld ceisiadau o lifiadau arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthycu) i'r Awdurdod.

2024/25 £'000		Nodyn	2025/26 £'000
(984)	(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau		(686)
(4,615)	Addasiadau i'r (Gwarged) neu Ddiffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau nad ydynt yn Arian	19	(7,622)
(437)	Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd yn y (Gwarged) neu Ddiffyg net wrth Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi neu Ariannu	19	(429)
(6,036)	Llifoedd Arian Net o Weithgareddau Gweithredu	19	(8,737)
7,508	Gweithgareddau Buddsoddi	20	5,214
(1,022)	Gweithgareddau Cyllido	21	3,422
450	(Cynnydd) neu Ostyngiad Net mewn Arian a Chyfwerth ag Arian		(101)
(2,973)	Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddechrau'r Cyfnod adrodd		(2,523)
(2,523)	Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddiwedd y Cyfnod adrodd	15	(2,624)

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r nodiadau'n rhoi gwybodaeth am sail y gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol a'r polisïau cyfrifyddu penodol a ddefnyddiwyd. Maent yn darparu gwybodaeth nad yw'n cael ei chyflwyno yn unlle arall yn y datganiadau ariannol ac sy'n berthnasol er mwyn deall y cyfrifon.

1 SAFONAU CYFRIFYDDU SYDD WEDI CAEL EU CYHOEDDI OND NAD YDYNT WEDI'U MABWYSIADU ETO

Lle mae Safon newydd wedi'i chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu gan y Cod eto, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith y newid mewn cyfrifyddu. Y newidiadau a gyflwynir gan God 2026/27 lle mae datgeliadau'n ofynnol yn natganiadau ariannol 2025/26 yw:

- a) **Diwygiadau i FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Diwygiadau i asedau Treftadaeth)** a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024
- b) **Diwygiadau i Ddosbarthiad a Mesur Offerynnau Ariannol (Diwygiadau i IFRS 9 ac IFRS 7)** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024
- c) **Gwelliannau blynyddol i safonau cyfrifyddu IFRS – Cyfrol 11** a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024
- d) **Contractau sy'n Cyfeirio at Drydan sy'n Ddibynol ar Natur (Diwygiadau i IFRS 9 ac IFRS 7)** a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024

Nid yw'r Awdurdod yn disgwyl y bydd mabwysiadu eitemau a) i d) yn arwain at newidiadau o bwys i gydnabyddiaeth na mesur y symiau a adroddir yn y datganiadau ariannol, a rhagwelir mai cyfyngedig fydd y defnydd o'r diwygiadau hyn.

2 DYFARNIADAU HOLLBWYSIG WRTH GYMHWYSO POLISIAU CYFRIFYDDU

Mae polisïau cyfrifyddu yn cyfeirio at yr egwyddorion, y sail, y confensiynau, y rheolau a'r arferion penodol a gymhwysir gan awdurdod wrth baratoi a chyflwyno datganiadau ariannol.

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn Atodiad 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau barnol ynghylch trafodion cymhleth neu rai sy'n cynnwys ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol. Mae'r farn allweddol yn y Datganiad Ariannol fel a ganlyn:

- Mae graddfa uchel o ansicrwydd ynghylch lefelau cyllido'r dyfodol ar gyfer llywodraeth leol yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i ddangos y gallai asedau'r Awdurdod gael eu niweidio o ganlyniad i'r angen i ostwng lefelau darparu gwasanaethau.

3 RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL O AMCANGYFRIF AC ANSICRWYDD

Mae'r datganiad o gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr awdurdod ynglŷn â'r dyfodol neu eu bod fel arall yn ansicr. Llunnir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r prif eitemau ym Mantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2026, y mae risg sylweddol y bydd angen addasiad perthnasol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

Eiddo, Peiriannau ac Offer - Mae'r Awdurdod yn ailbrisio ei asedau bob 5 mlynedd as sail mynegeo, hynny yw, y newidiadau a fu yn y farchnad yn y pum mlynedd ers y ailbrisiad diwethaf. Mae mynegeo'n offeryn i gymhwyso brasamcan o newidiadau yn y farchnad, ac mae'r dewis o fynegai yn fater o farn a wneir yng nghyd-destun darparu amcangyfrif rhesymol o'r symudiad yng ngwerth ased ers y flwyddyn flaenorol. Mae'n bosibl y gallai gwerth eiddo barhau i amrywio, yn enwedig yn ystod cyfnodau o ansicrwydd economaidd, gyda risg o wahaniaeth mewn gwerthoedd wedi'u mynegeo o'i gymharu â'r gwerthusiadau proffesiynol a gynhyrchwyd gan dystiolaeth y farchnad yn yr ailbrisiad pum mlynedd.

Mae prisiadau'n seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyflwr asedau, bywyd defnyddiol, gwerthoedd gweddilliol ac amodau'r farchnad. Mae'r dyfarniadau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael ac yn cael eu gwneud gan briswyr cymwys.

Cwblhawyd yr ailbrisiad llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2023. Oherwydd bod data pellach ar gael mewn perthynas â phrisio gorsafoedd tân, mae adolygiad wedi'i gwblhau, o holl adeiladau'r orsaf, ar 31 Mawrth 2024. Mae mynegeo wedi'i gymhwyso i'r gwerth cario ymlaen yn 2025/26 gan ddefnyddio mynegeion sy'n rhoi'r adlewyrchiad gorau o yrwyr cost sylfaenol pob dosbarth o asedau.

Darperir rhagor o wybodaeth yn y Polisiâu Cyfrifyddu ac yn y nodyn Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Ymrwymiad Pensiwn - Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau yn cynyddu yn unol â hi, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac, ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yr enillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa pensiwn.

Penodir actiwarïaid ymgynghorol i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod ynglŷn â'r rhagdybiaethau i'w cymhwyso. Darperir rhagor o wybodaeth o fewn cyfrif y gronfa pensiwn.

O ystyried sensitifrwydd y rhwymedigaeth pensiwn i newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwarïadd allweddol, mae risg sylweddol y gallai newidiadau rhesymol bosibl mewn rhagdybiaethau arwain at addasiad sylweddol i'r rhwymedigaeth pensiwn net mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol.

4 DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi cael ei awdurdodi l'w gyhoeddi gan y Swyddog 151 ar 28 Fai 2026. Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau.

Lle bo digwyddiadau cyn y dyddiad hwn wedi darparu gwybodaeth am amgylchiadau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2026, mae'r ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau wedi'u haddasu ym mhob agwedd ddeunyddiol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau sylweddol ar ôl dyddiad y fantolen.

5 NODYN I'R DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

2025/26	Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf	Tâl net ar gyfer Addasiadau Pensiwn	Arall Addasiadau	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Darparu Gwasanaethau Tân	(2,075)	(9,555)	124	(11,506)
Cost Net Gwasanaethau	(2,075)	(9,555)	124	(11,506)
Incwm a Gwariant Arall				
Incwm a Gwariant Arall o'r dadansoddiad gwariant ac ariannu	(202)	11,472	429	11,699
Gwahaniaethau rhwng gwarged y Gronfa Gyffredinol a gwarged Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau	(2,277)	1,917	553	193

2024/25	Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf	Tâl net ar gyfer Addasiadau Pensiwn	Arall Addasiadau	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Darparu Gwasanaethau Tân	(1,590)	(8,064)	198	(9,456)
Cost Net Gwasanaethau	(1,590)	(8,064)	198	(9,456)
Incwm a Gwariant Arall				
Incwm a Gwariant Arall o'r dadansoddiad gwariant ac ariannu	(862)	10,733	437	10,308
Gwahaniaethau rhwng gwarged y Gronfa Gyffredinol a gwarged Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau	(2,452)	2,669	635	852

Addasiadau at ddibenion cyfalaf – mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant ac enillion a cholledion amhariad ac ailbrisio yn y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:

- Gwariant gweithredu arall – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf drwy drosglwyddo incwm wrth waredu asedau a'r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- Gwariant ac incwm ariannu a buddsoddi - y newidiadau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. didynnir isafswm darpariaeth refeniw a chyfraniadau refeniw eraill o wasanaethau gan nad yw'r rhain yn symiau y gellir codi amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.
- Trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol - caiff grantiau cyfalaf eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o'r rhai y gellir eu derbyn yn y flwyddyn i'r rhai y gellir eu derbyn heb amodau neu y bodlonwyd amodau ar eu cyfer drwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol yn cael ei gredydu â grantiau cyfalaf y gellir eu derbyn yn y flwyddyn heb amodau neu rai y bodlonwyd amodau ar eu cyfer yn y flwyddyn.

Newid net ar gyfer yr addasiadau pensiwn - Newid net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm Buddiannau Cyflogeion IAS19 sy'n ymwneud â phensiwn:

- Ar gyfer gwasanaethau, mae hyn yn cynrychioli dileu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel y'i caniateir drwy statud a disodli costau gwasanaeth presennol a chostau gwasanaeth a roddwyd.
- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi – codir y llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Addasiadau Eraill - Gwahaniaethau eraill rhwng symiau a ddebydwyd/credydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau taladwy/derbyniadwy i'w cydnabod o dan statud:

- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi, mae'r golofn addasiadau statudol arall yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a gostyngiadau.
- Mae'r tâl o dan Drethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y gellir ei godi o dan reoliadau statudol y rhagamcanwyd y byddid yn ei dderbyn ar ddechrau'r flwyddyn a'r incwm a gydnabyddir o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Cod. Mae hwn yn wahaniaeth amseru gan y bydd unrhyw wahaniaeth yn cael ei ddwyn ymlaen mewn Gwargedion neu Ddiffygion ar y Gronfa Gyffredinol yn y dyfodol.

6 DADANSODDI GWARIANT AC INCWM YN ÓL NATUR

2024/25 £000		2025/26 £000
	Gwariant	
25,889	Gweithwyr	27,216
10,312	Costau Gweithredu Eraill	10,260
385	Gwasanaethau Cefnogi	429
56	(Enillion)/Colled ar waredu asedau	2
11,352	Gwariant Ariannu a Buddsoddi	12,125
2,445	Costau Ariannu Cyfalaf	3,055
50,439	Cyfanswm y Gwariant	53,087
	Incwm	
(793)	Ffioedd, Taliadau & Incwm Gwasanaeth Arall	(895)
(182)	Incwm Llog a Buddsoddi	(224)
(48,549)	Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol	(51,788)
(1,899)	Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth	(866)
(51,423)	Cyfanswm yr Incwm	(53,773)
(984)	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	(686)

7 ADDASIADAU RHWNG Y SAIL GYFRIFYDDU A'R SAIL ARIANNU YN ÓL STATUD

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol i nodi'r adnoddau y mae darpariaethau statudol yn pennu eu bod ar gael i'r awdurdod i fodloni gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn disgrifio'r cronfeydd wrth gefn y gwneir yr addasiadau yn eu herbyn.

Balans y Gronfa Gyffredinol

Y Gronfa Gyffredinol yw'r gronfa statudol y mae'n ofynnol i holl dderbyniadau awdurdod gael eu talu iddi ac y mae holl rwymedigaethau'r awdurdod i'w talu ohoni, ac eithrio i'r graddau y gallai rheolau statudol ddarparu fel arall. Gall y rheolau hyn hefyd nodi'r flwyddyn ariannol lle dylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar falans y Gronfa Gyffredinol, nad yw o reidrwydd yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol. Felly, mae balans y Gronfa Gyffredinol yn crynhoi'r adnoddau y mae'r awdurdod wedi'i rymuso'n statudol i'w wario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiad cyfalaf (neu'r diffyg adnoddau y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei adennill) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cronfa derbyniadau cyfalaf

Mae'r gronfa derbyniadau cyfalaf yn dal yr elw o waredu tir neu asedau eraill, sydd wedi'i gyfyngu gan statud rhag cael ei ddefnyddio heblaw am ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i'w neilltuo i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae'r balans ar y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau sydd eto i'w cymhwyso at y dibenion hyn ar ddiwedd y flwyddyn.

Grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso

Mae'r cyfrif (cronfa wrth gefn) grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r awdurdod wedi cwrdd â'r amodau ar eu cyfer ac a fyddai fel arall yn gofyn am ad-dalu'r arian, ond nad ydynt wedi'u cymhwyso eto i dalu am wariant. Mae'r balans wedi'i gyfyngu gan delerau grant o ran y gwariant cyfalaf y gellir ei gymhwyso yn ei erbyn a/neu'r flwyddyn ariannol y gellir gwneud hyn.

2024/25						2025/26					
Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000	Cronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiwyd £'000	Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu o dan y Rheoliadau	Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000	Cronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiwyd £'000	
(2,602)	0	0	(2,602)	2,602	Dibrisiant ac amhariad	(2,967)	0	0	(2,967)	2,967	
156	0	0	156	(156)	Colledion/enillion ailbriso/enillion ar Eiddo	(89)	0	0	(89)	89	
(56)	0	0	(56)	56	Gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol	(2)	0	(24)	(26)	26	
1,459	0	0	1,459	(1,459)	Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd/CERA	2,338	0	0	2,338	(2,338)	
918	0	0	918	(918)	Ariannu gwariant cyfalaf o grantiau	204	0	0	204	(204)	
1,957	0	0	1,957	(1,957)	Cyllid Ariannu (MRP)	2,138	0	0	2,138	(2,138)	
1,832	0	0	1,832	(1,832)		1,622	0	(24)	1,598	(1,598)	
11,028	0	0	11,028	(11,028)	Cyfraniadau a thaliadau Pensiwn Cyflogwyr i bensiynwyr	12,123	0	0	12,123	(12,123)	
(13,697)	0	0	(13,697)	13,697	Gwrthdroi buddion ymddeol yn y CIES	(14,040)	0	0	(14,040)	14,040	
(2,669)	0	0	(2,669)	2,669		(1,917)	0	0	(1,917)	1,917	
0	48	0	48	(48)	Addasiad i'r Gronfa Grantiau wrth Gefn	0	0	0	0	0	
(15)	0	0	(15)	15	Symuiad o ran cronni Absenoldeb Cronedig	100	0	0	100	(100)	
(852)	48	0	(804)	804	Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu o dan y rheoliadau	(195)	0	(24)	(219)	219	

8 CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r symiau a neilltuwyd o falans y Gronfa Gyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol a'r symiau a drosglwyddwyd yn ôl o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i fodloni gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2025/26.

Cronfa	Diben y Gronfa Wrth Gefn	Balans 31 Mawrth 2024 £'000	Trosglwyd d-iadau (i mewn) / allan £'000	Balans 31 Mawrth 2025 £'000	Trosglwyd d-iadau (i mewn) / allan £'000	Balans 31 Mawrth 2026 £'000
Cronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaeth						
Cronfa Bensiwn	Costau pensiwn ychwanegol yn ymwneud â newidiadau i reolau pensiwn	(545)	(525)	(1,070)	(548)	(1,618)
Cronfa ar gyfer Llog	Lliniaru cynnydd mewn cyfraddau llog sy'n effeithio ar y gyllideb refeniw	(300)	0	(300)		(300)
Atgyweirio Hydrantau Tân	Ariannu ôl-groniad o ran atgyweirio hydrantau	(90)	0	(90)		(90)
PPE Gwisg / Stoc	Mwy o gostau gwisg oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth	(697)	(71)	(768)		(768)
Newid Trawsffurfio	Cyllid ar gyfer cyflawni prosiectau newid trawsnewidiol	(851)	0	(851)		(851)
Gwella Cyfleusterau	Sicrhau bod adeiladau'n o'r safon ofynnol a gwella effeithlonrwydd ynni	(651)	(329)	(980)		(980)
Atebolrwydd Cyfreithiol	Ariannu costau cyfreithiol ar gyfer hawliadau hysbys/disgwyliedig	(310)	0	(310)	30	(280)
Hyfforddiant	Gweithredu gofynion deddfwriaethol ar hyfforddiant newyd	(250)	0	(250)		(250)
Digwyddiadau mawr	Gwrthbwysu costau digwyddiadau mawr sy'n fwy na'r gyllideb	(150)	0	(150)		(150)
Gwella Systemau	Cyllid ar gael i weithredu gwelliannau i'r system	(711)	0	(711)		(711)
Chwyddiant	Gwrthbwysu costau chwyddiant sy'n fwy na'r gyllideb	(250)	0	(250)	(151)	(401)
Adolygiad o Strwythur Tâl	Ar gyfer trafodaethau parhaus ar strwythur cyflog diffoddwyr tân	(473)	0	(473)		(473)
Cronfeydd Cyfalaf a Grantiau Wrth Gefn						
Prosiectau Cyfalaf	Cyllid ar gyfer cynlluniau lle ceir oedi a chostau cadw	(914)	(89)	(1,003)	(90)	(1,093)
Cynllun Radio	Uwchraddio'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys	(1,011)	(526)	(1,537)		(1,537)
Gostyngiad Grant	Gwrthbwysu gostyngiad cyllid Diogelwch Tân gan Lywodraeth Cymru	(195)	0	(195)		(195)
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd		(7,398)	(1,540)	(8,938)	(759)	(9,697)
Cronfa Gyffredinol	Ar gael at ddibenion cyffredinol ac i ddarparu gwytnwch gweithredol	(1,575)	(296)	(1,871)	(121)	(1,989)
Derbyniadau Cyfalaf	Cadw derbyniadau gwerthu asedau ar gyfer gwariant cyfalaf yn y dyfodol	(73)	0	(73)	(24)	(97)
Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	Yn dal grantiau a chyfraniadau cyfalaf heb eu cymhwyso at wariant eto	(48)	48	0	0	0
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd		(9,094)	(1,788)	(10,882)	(904)	(11,783)

9 INCWM A GWARIANT ARIANNU A BUDDSODDI

2024/25 £'000		2025/26 £'000
619	Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg a godir	653
(182)	Llog a dderbynnir ac incwm tebyg	(224)
10,733	Llog Net ar rwymedigaeth buddiannau diffiniedig net	11,472
11,170	Cyfanswm	11,901

10 TRETHIANT AC INCWM GRANT AMHENODOL

2024/25 £'000		2025/26 £'000
4,871	Cyngor Sir Ynys Môn	5,186
8,063	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	8,562
6,812	Cyngor Sir Ddinbych	7,271
10,957	Cyngor Sir y Fflint	11,661
8,295	Cyngor Gwynedd	8,919
9,551	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	10,189
48,549	Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol	51,788
918	Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau	204
49,467	Cyfanswm Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol	51,992

11 EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER AC ASEDAU ANNIRIAETHOL**Symudiadau ar Falansau**

2025-2026	Tir ac Adeiladau	Cerbydau ac Offer	Asedau Wrthi'n cael eu Hadeiladu	Eiddo, Peiriannau ac Offer Cyfanswm	Asedau Anniriaethol Cyfanswm	Asedau a Gedwir i'w Gwerthu Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Llyfr Gros ar 31 Mawrth 2025	52,890	26,623	766	80,279	233	0
Ailgategoreiddio asedau	181	533	(714)	0	0	0
Ychwanegiadau	848	2,747	1,681	5,276	135	0
Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	1,079	0	0	1,079	0	0
Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau	0	(2,217)	0	(2,217)	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Arall	(2)	0	0	(2)	0	0
Gwerth Llyfr Gros ar 1 Mawrth 2026	54,996	27,686	1,733	84,415	368	0
Dibrisiant Cronedig & Amhariad						
Ar 1 Ebrill 2025	(1,027)	(16,211)	0	(17,238)	(134)	0
Dibrisiant ac Amorteiddiad a godir	(1,140)	(1,790)	0	(2,930)	(37)	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio	0	0	0	0	0	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu i'r Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0
Colledion a gydnabyddir yn y Gronfa Ailbrisio	(762)	0	0	(762)	0	0
Colledion a gydnabyddir yn y gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau	(88)	0	0	(88)	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau	0	2,192	0	2,192	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Arall	0	0	0	0	0	0
Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2026	(3,017)	(15,809)	0	(18,826)	(171)	0
Gwerth Llyfr Net ar 1 Mawrth 2026	51,979	11,877	1,733	65,589	197	0
Gwerth Llyfr Net ar 1 Mawrth 2025	51,863	10,412	766	63,041	99	0

2024-2025	Tir ac Adeiladau £'000	Cerbydau ac Offer £'000	Asedau Wrthi'n cael eu Hadeiladu £'000	Eiddo, Peiriannau ac Offer Cyfanswm £'000	Asedau Anniriaethol Cyfanswm £'000	Asedau a Gedwir i'w Gwerthu Cyfanswm £'000
Gwerth Llyfr Gros ar 31 Mawrth 2024	46,253	24,129	1,060	71,442	233	0
Cydnabyddiaeth o Asedau Hawl i Ddefnyddio	593	328	0	921	0	
Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2024	46,846	24,457	1,060	72,363	233	0
Ailgategoreiddio asedau	483	577	(1,060)	0	0	0
Ychwanegiadau	3,402	2,366	766	6,534	0	0
Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	2,003	0	0	2,003	0	0
Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	156	0	0	156	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau	0	(777)	0	(777)	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Arall	0	0	0	0	0	0
Gwerth Llyfr Gros ar 1 Mawrth 2025	52,890	26,623	766	80,279	233	0
Dibrisiant Cronedig & Amhariad						
Ar 1 Ebrill 2024	(43)	(15,355)	0	(15,398)	(92)	0
Dibrisiant ac Amorteiddiad a godir	(984)	(1,577)	0	(2,561)	(42)	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio	0	0	0	0	0	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu i'r Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	0	0	0	0	0	
Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau	0	721	0	721	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Arall	0	0	0	0	0	0
Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2025	(1,027)	(16,211)	0	(17,238)	(134)	0
Gwerth Llyfr Net ar 1 Mawrth 2025	51,863	10,412	766	63,041	99	0
Gwerth Llyfr Net ar 1 Mawrth 2024	46,210	8,774	1,060	56,044	141	0

Dibrisiad

Dibrisir adeiladau gan ddefnyddio cydranu, lle gwneir amcangyfrif o oes ddefnyddiol pob cydran o'r adeilad ac yna defnyddir cyfartaledd pwysol i gyfrifo'r tâl blynyddol.

Mae asedau eraill yn cael eu cydnabod ar y gost hanesyddol, sy'n brocsi ar gyfer y gost bresennol ar asedau ag oes fer ac yn cael ei ddibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

Ailbrisiadau ac Amariadau

Mae'r awdurdod yn sicrhau bod pob eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu mesur ar werth cyfredol drwy broses ailbrizio bum mlynedd, wedi'i ategu gan fynegio blynyddol yn y blynyddoedd rhwng ailbrisiadau.

Cafodd pob prisiad ei gynnal yn fewnol. Cynhaliwyd prisiadau tir ac adeiladau yn unol â'r methodolegau a'r sail amcangyfrif a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS).

Defnyddiwyd y mynegeion canlynol ar gyfer mynegeio 2025/26:

Mynegai	Newid cyfartalog %	Newid mewn prisiad £'000
BCIS All-In TPI	2.49	1,043
Twf Cyfalaf MSCI – Diwydiannol a CoStar	3.00	36
Twf Cyfalaf MSCI – Swyddfeydd a CoStar	0.10	-
Total		1,079

Mae prisiadau cerbydau, peiriannau ac offer yn seiliedig ar brisiau cyfredol lle mae marchnad ail-law weithredol neu'r prisiau rhestr diweddaraf wedi'u haddasu yn ôl cyflwr yr ased.

YMRWYMIADAU CYFALAF

Mae'r Awdurdod wedi ymrwyo i wariant cyfalaf mewn cyfnodau yn y dyfodol sy'n deillio o gontractau a oedd yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r gwariant cyfalaf yr ymrwymwyd iddo ar 31 Mawrth 2026 ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol yn cyfateb i £3,202k (2024/25: £1,813k). Mae'r ymrwymadau'n ymwneud â'r canlynol:

Disgrifiad	£'000
Gwaith Adeiladu	2,012
Cerbydau	764
Offer	426
Cyfanswm	3,202

Asedau Dros Ben (Eiddo, peiriannau ac offer nad ydynt yn weithredol)

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau perthnasol dros ben.

12 OFFERYNNAU ARIANNOL**Categoriâu Offerynnau Ariannol**

Mae'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol yn cael eu cario yn y Fantolen:

	Heb fod yn gyfredol		Cyfredol	
	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000
Asedau Ariannol ar Gost Amorteiddiedig:				
Arian parod a Chyferwerth ag arian parod	0	0	2,523	2,624
Dyledwyr	103	113	2,439	1,896
Rhwymedigaeth Ariannol ar Gost Amorteiddiedig:				
Llog Cronedig	0	0	(174)	(121)
Benthyciadau	(8,456)	(11,674)	(10,617)	(4,082)
Cyfanswm Benthyciadau	(8,456)	(11,674)	(10,791)	(4,203)
Credydwyr	0	0	(6,045)	(8,799)
Rhwymedigaeth Les	(425)	(505)	(173)	(209)

Offerynnau Ariannol Enillion/Colledion

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabuwyd yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau canlynol:

	2024/25		2025/26	
	Ymrwymadau Ariannol Mesur ar gost amorteiddiedig £'000	Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £'000	Ymrwymadau u Ariannol Mesur ar gost amorteiddiedig £'000	Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £'000
Cyfanswm y gwariant yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	619	0	653	0
Cyfanswm yr incwm yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	0	(182)	0	(224)
Enillion net/(colledion) am y flwyddyn	619	(182)	653	(224)

Gwerth Teg Asedau ac Ymrwymïadau sy'n cael eu Cario ar Gost Amorteiddiedig

Mae'r ymrwymïadau ariannol a'r asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthycïadau a derbyniadau yn cael eu cario ar y Fantolen ar gost amorteiddiedig (mewn asedau/ymrwymïadau tymor hir gyda llog cronedig mewn asedau/ymrwymïadau cyfredol). Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian sy'n digwydd dros weddill oes yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- O ran benthycïadau gan y Bwrdd Benthycïadau Gwaith Cyhoeddus a benthycïadau eraill sy'n daladwy, mae benthycïadau gan y Bwrdd wedi cael eu defnyddio i ddarparu gwerth teg dan weithdrefnau ad-dalu dyledion y Bwrdd;
- O ran benthycïadau a dderbynnir, defnyddiwyd y cyfraddau farchnad meincnod cyffredinol i ddarparu'r gwerth teg;
- Ni chydabyddir ad-daliad cynnar nac amhariad;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu ymhen llai na 12 mis, neu pan fo'n swm masnach neu'n swm derbyniadwy arall, cymerir mai'r gwerth teg yw'r swm sy'n cario neu'r swm ar yr anfoneb;
- Cymerir mai gwerth teg swm masnach neu swm derbyniadwy arall yw'r swm ar yr anfoneb neu'r infois.

Dyma'r gwerthoedd teg a gyfrifir:

	31 Mawrth 25		31 Mawrth 26	
	Swm cario £'000	Gwerth teg £'000	Swm cario £'000	Gwerth teg £'000
Dyled y BBGC	(14,073)	(13,300)	(13,756)	(13,040)
Dyled nad yw'r BBGC	(5,000)	(5,000)	(2,000)	(2,000)
Cyfanswm Dyledion	(19,073)	(18,300)	(15,756)	(15,040)

Mae'r gwerth teg wedi ei gyfrifo gan gyfeirio'n benodol at ddyfynbrisiau a gyhoeddwyd mewn marchnad weithredol. Yn achos yr Awdurdod Tân ac Achub, maent yn seiliedig ar breimiymau a fyddai'n daladwy pe ildwyd benthycïadau'r BBGC ac maent yn darparu rhagamcan o'r llog ychwanegol sy'n daladwy i'w gymharu â'r un benthyciad ar gyfraddau cyfredol y farchnad â disgownt yn ôl i'r cyfnod presennol.

13 RHESTRAU STOC

	Prif Storfeydd		Stoc Fflyd	
	2024/25 £'000	2025/26 £'000	2024/25 £'000	2025/26 £'000
Balans ar ddechrau'r	413	437	201	225
Pryniadau	952	470	203	330
Dileuadau	(3)	(5)	(1)	(2)
Cydnabyddir fel gwariant	(925)	(310)	(178)	(332)
Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn	437	592	225	221

14 DYLEDWYR

2024/25 £'000		2025/26 £'000
	Tymor Hir	
103	Rhagdaliadau	113
103	Cyfanswm Tymor Hir	113
	Tymor Byr	
445	Symiau Derbyniadwy Eraill	464
1,509	Symiau Masnach Derbyniadwy	660
485	Rhagdaliadau	772
2,439	Cyfanswm Tymor Byr	1,896
2,542	Cyfanswm Dyledwyr Tymor Hir a Thymor Byr	2,009

15 ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

31 Mawrth 25 £'000		31 Mawrth 26 £'000
2,517	Balansau Arian Parod a Balansau Banc	2,620
0	Adneuon Tymor Byr	0
6	Imprest Arian Môn	4
2,523	Cyfanswm	2,624

16 CREDYDWYR

2024/25 £'000		2025/26 £'000
(820)	Symiau Taladwy Eraill	(3,783)
(5,225)	Symiau Masnach Taladwy	(5,016)
(6,045)	Cyfanswm	(8,799)

17 DARPARIAETHAU

Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan yr Awdurdod ddarpariaethau yn werth £322k yn ymwneud ag ymrwymadau tuag at weithwyr cyflogedig. Defnyddir y ddarpariaeth hon yn erbyn gwariant refeniw, pan fydd yn digwydd:

	Balans Agoriadol £'000	Symudiadau I Mewn £'000	Symudiadau Allan £'000	Balans Terfynol £'000
Darpariaethau Tymor Byr	(375)	(1)	54	(322)
Darpariaethau Tymor Hir	0	0	0	0
Cyfanswm	(375)	(1)	54	(322)

18 CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31 Mawrth 2025 £'000		31 Mawrth 2026 £'000
(19,012)	Cronfa Ailbrisio	(18,971)
(13,111)	Cyfrif Addasu Cyfalaf	(15,069)
208,143	Cronfa Pensiynau	232,624
402	Cyfrif Absenoldebau Cronedig	303
176,422	Cyfanswm	198,887

Cronfa Ailbrisio

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, ei Beiriannau a'i Offer.

Bydd y balans yn cael ei ostwng pan fo asedau gydag enillion cronedig yn:

- cael eu hailbrisio am i lawr, neu'n cael eu hamharu a'r enillion yn cael eu colli;
- cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, a'r enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiad, neu'n cael eu gwaredu, a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Nid yw'r Gronfa ond yn cynnwys enillion cronedig ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa. Mae enillion cronedig sy'n deillio cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu cyfuno yn y balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

2024/25 £'000		2025/26 £'000
(17,304)	Balans ar 1 Ebrill	(19,012)
(2,003)	Ailbrisio asedau am i fyny	(1,079)
0	Ailbrisio asedau a cholledion amhariad i lawr nas codir ar y gwarged/diffyg wrth ddarparu gwasanaethau	761
0	Addasiad o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf	0
295	Gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth teg a dibrisiad cost hanesyddol	359
(19,012)	Balans ar 31 Mawrth	(18,971)

Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sydd rhwng y trefniadau gwahanol ar gyfer rhoi cyfrif am dreuliant asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan y darpariaethau statudol.

Debydir y Cyfrif gyda chost caffael, adeiladu neu wella gan fod dibrisiad, colled amhariad ac amorteiddiad yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda chofnodion cyson o'r Gronfa Ailbrisio i drosi ffigyrau gwerth teg yn sail cost hanesyddol). Credydir y Cyfrif gyda'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod fel arian ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi, ac enillion a gydnabuwyd ar asedau rhoddedig sydd eto i gael eu defnyddio gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion prisio a gronnwyd ar Eiddo, Peiriannau ac Offer cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa Ailbrisio ar gyfer dal enillion o'r fath.

2024/25 £'000		2025/26 £'000
(10,935)	Balans ar 1 Ebrill	(13,111)
2,602	Taliadau am ddibrisiad ac amhariad asedau anghyfredol	2,967
56	Swm yr ased anghyfredol wedi'i ddileu wrth waredu neu werthu	25
(156)	Addasiad sy'n ymwneud ag ailbrizio asedau	89
(295)	Addasu symiau a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrizio	(359)
2,207	Swm net a ddilëwyd o gost yr asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	2,722
(918)	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a ddefnyddiwyd ar gyfer ariannu cyfalaf	(204)
(1,459)	Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y Gronfa Gyffredinol/ Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi	(2,338)
(49)	Defnydd o grantiau i ariannu cyfalaf o'r cyfrif grantiau cyfalaf nas defnyddiwyd	0
(1,957)	Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol	(2,138)
(4,383)	Ariannu Cyfalaf a Ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(4,680)
(13,111)	Balans ar 31 Mawrth	(15,069)

Cronfa Pensiynau

Mae'r gronfa pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n digwydd oherwydd y trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifyddu buddion ôl-gyflogi a buddion ariannu yn unol â'r darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddion ôl-gyflogi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y buddion yn cael eu hennill gan weithwyr sy'n cronni blynnyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddarau'r ymrwymadau a gydnabyddir i adlfewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac adenillion buddsoddiadau ar unrhyw adnoddau a neilltuir i gwrdd â'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fuddion a enillir gael eu hariannu gan fod yr awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu yn y pen draw yn talu unrhyw bensiynau y mae'n gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol. Felly mae'r balans debyd ar y gronfa pensiynau yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan weithwyr blaenorol a chyfredol a'r adnoddau y mae'r Awdurdod wedi eu neilltuo ar eu cyfer. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn adeg talu'r buddion.

2024/25 £'000		2025/26 £'000
231,610	Balans Agoriadol ar 1 Ebrill	208,143
(26,136)	Ailfesur yr ymrwymiad budd diffiniedig net	22,564
13,697	Gwrthdroi eitemau yn berthnasol i fuddion ymddeoliad wedi'u debydu i'r Darpariaeth Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	14,040
(11,028)	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	(12,123)
(23,467)	Symudiad ar y Gronfa Pensiynau	24,481
208,143	Balans ar 31 Mawrth	232,624

Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn digwydd ar falans y Gronfa Cyffredinol o ganlyniad i absenoldebau digolledol a enillwyd ond chymerwyd yn y flwyddyn e.e hawl i wyliau blynyddol wedi ei gario drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn mynnu bod yr effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei niwtraleiddio trwy drosglwyddo i mewn neu allan o'r Cyfrif.

2024/25 £'000		2025/26 £'000
386	Balans ar 1 Ebrill	402
(386)	Setlo neu ganslo croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	(402)
402	Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol	303
402	Balans ar 31 Mawrth	303

19 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

2024/25 £'000		2025/26 £'000
(984)	(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau Addasiadau i (warged)/diffyg net ar gyfer symudiadau anariannol	(686)
49	Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Stoc	150
1,205	Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Dyledwyr	(533)
(428)	Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Credydwyr	(2,754)
0	(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Rhwymedigaethau Les	(81)
(2,602)	Cost Dibrisio	(2,967)
0	Cyfraniadau a Dderbyniwyd/Derbyniadau Cyfalaf	24
(2,608)	Addasiadau Pensiwn IAS 19	(1,295)
0	Codi am Amhariad/Ailbrisio Asedau	(89)
(56)	Swm cario Asedau Anghyfredol wedi'u gwerthu neu eu dadadnabod	(25)
(159)	Cyfraniad (i)/o Wahanol Ddarpariaethau	53
0	Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu costio i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau	(204)
(16)	Cronfa wrth gefn Absenoldebau Cronedig	99
(4,615)	Is-gyfanswm Addasiadau am eitemau sydd yn y (Gwarged) neu'r Diffyg net ar Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu	(7,622)
(619)	Llog a dalwyd	(653)
182	Llog a gafwyd	224
(437)	Is-gyfanswm	(429)
(6,036)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredol	(8,737)

20 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

2024/25 £'000		2025/26 £'000
6,534	Prynu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	5,411
0	Wedi'i leihau gan ychwanegiadau asedau les	(403)
56	Enillion o werthu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	2
918	Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi	204
7,508	Llifau arian net o weithgareddau buddsoddi	5,214

21 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU ARIANNU

2024/25 £'000		2025/26 £'000
(5,000)	Derbyniadau arian parod o fenthycu tymor byr a thymor hir	(7,500)
3,714	Ad-dalu benthyca tymor byr a thymor hir	10,817
(173)	Taliadau arian parod ar gyfer lleihau'r rhwymedigaethau sy'n disgwyl sylw mewn perthynas â lesioedd	(324)
437	Taliadau eraill am weithgareddau ariannu	429
(1,022)	Llif arian net o weithgareddau ariannu	3,422

22 LWFANSAU AELODAU

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i aelodau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn:

2024/25 £		2025/26 £
90,515	Lwfansau Aelodau Etholedig	90,875
1,560	Treuliau Aelodau Etholedig	1,203
1,142	Costau Aelodau Cyfetholedig	1,376
93,217	Cyfanswm	93,454

Mae Aelodau Etholedig yr Awdurdod Tân ac Achub yn gymwys i dderbyn lwfansau fel cydnabyddiaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r lwfansau hyn yn cynnwys cyflog sylfaenol sy'n daladwy i bob aelod, ac, lle bo'n berthnasol, cyflogau uwch i'r rhai sy'n ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol megis Cadeirydd neu Is-gadeirydd yr Awdurdod neu ei bwyllgorau.

Yn ogystal â lwfansau, gall Aelodau Etholedig hawlio ad-daliad am dreuliau a gafwyd wrth gyflawni eu dyletswyddau swyddogol. Fel arfer, mae'r treuliau hyn yn cynnwys costau teithio a chynhaliadau sy'n gysylltiedig ag ymweld â chyfarfodydd yr Awdurdod, sesiynau hyfforddi, a chyfarfodydd cymeradwy eraill.

Nid yw Aelodau Cyd-ethol, sydd wedi'u penodi i ddarparu mewnbwn annibynnol neu arbenigedd arbenigol—megis y rhai sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau—yn derbyn lwfans. Yn lle hynny, maent yn gymwys i dderbyn taliadau fel cydnabyddiaeth o'u cyfranogiad mewn cyfarfodydd swyddogol a gweithgareddau cysylltiedig.

23 TALIADAU SWYDDOGION

Mae'r taliadau a delir i uwch weithwyr yr Awdurdod wedi'i nodi yn y tabl canlynol. Enwir Uwch Swyddogion y mae eu cyflog yn £150,000 neu fwy.

Teitl Swydd	Blwyddyn	Cyflog (gan gynnwys Ffioedd a Lwfansau)	Cyfraniadau Pensiwn	Cyfanswm y Taliadau
		£	£	£
Prif Swyddog Tân: Dawn Docx	2025/26	162,057	29,656	191,713
	2024/25	156,392	28,620	185,012
Dirprwy Brif Swyddog Tân (Yn wag ers Ebrill 2025)	2025/26	12,366	3,387	15,753
	2024/25	125,114	38,785	163,899
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	2025/26	122,020	22,330	144,350
	2024/25	117,294	21,465	138,759
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol*	2025/26	120,655	35,263	155,918
	2024/25	101,921	25,901	127,822
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (penodwyd ym mis Ionawr 2025)**	2025/26	116,535	33,964	150,499
	2024/25	28,926	7,431	36,357
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (secondiad Mawrth 2024)***	2025/26	26,444	8,198	34,642
	2024/25	47,314	13,938	61,252
Trysorydd - Swyddog Adran 151 (15 diwrnod y flwyddyn)	2025/26	8,510	1,557	10,067
	2024/25	8,340	1,526	9,866

* Daeth contract tymor penodol Prif Swyddog Tân Cynorthwyol i ben yn Rhagfyr 2024. Ailbenodwyd y deiliad swydd dros dro ym mis Chwefror 2025 ac fe sicrhodd y swydd yn barhaol ym mis Gorffennaf 2025.

**Penodwyd deiliad y swydd dros dro ym mis Ionawr 2025, ac fe'i penodwyd yn barhaol wedyn ym mis Gorffennaf 2025.

*** Prif Swyddog Tân Cynorthwyol ar secondiad dros dro i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru fel Prif Swyddog Tân, dychwelodd i GTAGC o 13 Tachwedd 2024 ac yna gadawodd y sefydliad ym mis Mehefin 2025. Talwyd ac adroddwyd costau cyflog y secondiad, sef £107,708, a chostau pensiwn o £22,423, gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r Swyddog. Monitro yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir y Fflint fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth felly ni ddangosir unrhyw gostau unigolyn yn y tabl uchod. Ceir rhagor o wybodaeth ar gostau'r Swyddog Monitro yn Nodyn 27 - Partion Cysylltiedig.

Talwyd y symiau canlynol i gyflogeion eraill yr awdurdod a oedd yn cael cydnabyddiaeth o fwy na £60,000 ar gyfer y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

Band Taliad	Nifer y Gweithwyr Cyflogedig	
	2024/25	2025/26
£60,000 - £64,999	22	8
£65,000 - £69,999	6	17
£70,000 - £74,999	4	4
£75,000 - £79,999	2	4
£80,000 - £84,999	0	0
£85,000 - £89,999	2	1
£90,000 - £94,999	2	1
£95,000 - £99,999	0	3

Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r gymhareb rhwng tâl y Prif Swyddog Tân a thâl canolrifol staff y Gwasanaeth Tân ac Achub:

2024/25		2025/26
£156,392	Prif Swyddog Tân	£162,057
£37,675	Canolrif	£38,881
4.15	Cymhareb	4.17

Mae'r data yn y tabl uchod yn cynnwys cyfanswm y cyflog a dalwyd (ac eithrio cyfraniadau pensiwn). Mae staff a gyflogir o dan contractau'r System Dyletswydd ar alwad (RDS) wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad ar sail eu pwynt Graddfa Cyflawn Amser (FTE), yn hytrach na'u henillion gwirioneddol.

Mae nifer y pecynnau gadael gyda chyfanswm y gost fesul band wedi'u nodi yn y tabl isod. Nid oedd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol na gwirfoddol yn 2024/25 nac yn 2025/26, ac felly ni chafwyd unrhyw gostau diswyddiad nac unrhyw iawndal arall am golli swydd.

Mae'r holl becynnau gadael a ddatgelwyd yn ymwneud â therfyniadau a gychwynnwyd gan y cyflogwr, yn deillio o gyfnodau prawf aflwyddiannus neu derfyniadau cyflogaeth, gyda'r costau'n cynnwys tâl yn lle rhybudd (PILON) yn unig.

Mae ffigurau cymharol 2024/25 wedi'u hailddatgan (a ddatgelwyd yn flaenorol fel £0) i adlewyrchu cynnwys holl gostau Tâl yn Lle Rhybudd sy'n ymwneud â therfyniadau a gychwynnwyd gan y cyflogwr, ac eithrio ymddeoliadau oherwydd salwch.

Band Cost Pecyn Gadael	Cyfanswm Nifer y Pecynnau Gadael		Cyfanswm Cost y Pecynnau Gadael	
	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26
£0 - £19,999	2	2	£3,100	£3,152
Cyfanswm	2	2	£3,100	£3,152

24 COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a gynhelir gan yr archwilydd penodedig:

2024/25 £'000		2025/26 £'000
60	Gwaith Archwilio Ariannol	63
17	Gwaith Archwilio Perfformiad	18
77	Cyfanswm	81

25 GRANTIAU

2024/25 £'000		2025/26 £'000
	Credydwyd i Gwasanaethau	
250	Offer Diogelwch yn y Cartref	240
304	Cydnherthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan	112
145	Ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Ieuencid	141
72	Operation Ugain	80
2	Windrush Cymru	0
0	Mentrau Gwella Diwylliant Llywodraeth Cymru	38
209	Pwysau Cyflog y Gwasanaeth Tân ac Achub	51
982	Cyfanswm	662
	Credydwyd i drehiant ac incwm a gwariant amhenodol	
377	Radios	0
115	Cerbydau Trydan	57
131	Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan	89
295	Grant gwres carbon isel y sector cyhoeddus	58
918	Cyfanswm	204

26 GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru wrth weinyddu dau gynllun grant ar gyfer yr holl Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r grantiau cymeradwy yn cael eu talu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sydd wedyn yn gyfrifol am ddosbarthu'r grantiau i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Fforwm Cadernid Lleol. Mae hon yn bartneriaeth amlasiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, y GIG, Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill. Mae cyfraniadau gan y cyrff cyhoeddus amrywiol yn cael eu talu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Defnyddir y cyllid hwn i dalu am wariant y Fforwm. Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan yr Awdurdod gyllid o £2k yn ymwneud â'r Fforwm.

2024/25 £'000		2025/26 £'000
3,117	Cydnherthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan	2,827
227	Ymgysylltu â Phlant ac Ieuenctid	240
110	Fforwm Cydnherthedd Lleol	152
3,454	Cyfanswm	3,219

27 PARTION CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodion o bwys gyda phartion cysylltiedig – cyrff neu unigolion a allai reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan yr Awdurdod. Mae datgelu'r trafodion hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi cael ei gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhwydd â'r awdurdod.

Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru gryn ddylanwad dros weithrediad cyffredinol yr Awdurdod – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r awdurdod yn gweithredu o'i fewn. Mae'n darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau (caiff y Grant Cynnal Refeniw ei dalu i awdurdodau cyfansoddol) ac mae'n rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan yr awdurdod â phartion eraill. Yn Nodyn 25, dangosir y derbyniadau grant a geir yn uniongyrchol, ac yn Nodyn 10 dangosir cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol.

Aelodau

Mae gan aelodau'r awdurdod reolaeth uniongyrchol dros bolisiau ariannol a gweithredol yr awdurdod. Yn Nodyn 22 gwelir cyfanswm lwfansau'r aelodau a dalwyd yn 2025/26.

Mae pob Aelod yn cwblhau datganiad o fuddiant gyda ffurflen berthnasol i bartïon cysylltiedig. Ni wnaeth unrhyw Aelod o'r Awdurdod, nac unrhyw un o'u perthnasau agos, fynd i unrhyw drafodiad perthnasol y gellir ei ddatgan yn 2024/25 neu 2025/26.

Mae rhestr o fuddiannau Aelodau Etholedig yn cael ei chadw gan y Swyddog Monitro ac mae ar gael i'w gweld ar y wefan - <https://www.tangogleddcymru.llyw.cymru/>

Uwch Swyddogion

Roedd yr Uwch Swyddogion wedi cwblhau datganiad buddiannau gyda phartion cysylltiol am y flwyddyn 2025/26. Yn Nodyn 23, dangosir cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Swyddogion.

Roedd un o'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol wedi datgan buddiant fel un o ymddiriedolwyr Pentre Peryglon. Mae'r elusen annibynnol yn rhedeg canolfan gweithgareddau addysg sydd wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru. Roedd taliadau gwerth £4,800 wedi cael eu gwneud i Bentre Peryglon yn 2025/26, gyda £7,700 yn ddyledus ar diwedd y flwyddyn ariannol (talwyd 08/04/26) fel rhan o gyllid grant Llywodraeth Cymru (2024/25: £13,300). Hefyd, darperir cyllid ar gyfer cost gweinyddwr, sy'n werth £37,514 (2024/25: £34,826).

Roedd y Trysorydd hefyd wedi'i gontractio fel Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd ar gyfer Cronfa Bensiwn Powys, ac fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd Adra, cymdeithas dai.

Nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm yn ystod 2025/26 (2024/25: dim).

Cyrff Cyhoeddus Eraill

Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu rôl Swyddog Monitro. Delir y swydd hon gan y Prif Swyddog (Llywodraethu)/Swyddog Monitro ac roedd taliadau yn £20k (2024/25: £20k).

Mae Archwiliad Mewnol Merswy yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol, gyda thaliadau yn cyfateb i £23k. Ar 31 Mawrth 2026 nid oedd dim yn weddill heb ei dalu.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n gweithredu ar ran Cronfa Bensiwn Dyfed, yn rheoli'r taliadau a wneir i ddiffoddwyr tân sy'n bensiwnwyr ar ran yr Awdurdod. Maent hefyd yn gyfrifol am reoli cofnodion pensiwnwyr presennol ac aelodau gweithredol y cynllun. Roedd y trafodion yn y flwyddyn yn £120k (2024/25: £113k). Ar 31 Mawrth 2026, nid oedd unrhyw daliadau'n ddyledus.

Trwy gytundeb secondiad, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn darparu Arweinydd Pensiwn Diffoddwyr Tân, ac yn ystod y flwyddyn talwyd £18k (2024/25: £18k) am hyn, gyda £4k yn weddill heb ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae trefniadau ar y cyd gyda Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn ogystal ag ystafell reoli a rennir. Cyfanswm cyfraniad yr Awdurdod tuag at reoli cyfleusterau oedd £291k (2024/25: £234k) gyda £146kk yn weddill heb ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn.

28 GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod, (gan gynnwys gwerth asedau a gaffaelwyd dan brydlesi ariannu a chytundebau PFI), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle y bwriedir ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy daliadau a godir ar refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan yr awdurdod, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y gofyniad ariannu cyfalaf, sef mesur o'r gwariant cyfalaf yr aed iddo'n hanesyddol gan yr awdurdod sydd eto i'w ariannu.

2024/25 £'000		2025/26 £'000
27,950	Gofyniad Ariannu Cyfalaf Agoriadol	31,022
921	Cydnabyddiaeth o IFRS16	0
28,871	Balans agoriadol wedi'i haddasu ar gyfer IFRS 16	31,022
	Buddsoddiad Cyfalaf	
6,534	Eiddo, Peiriannau ac Offer	5,411
	Ffynonellau Cyllid	
(967)	Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth	(204)
(1,957)	Symiau wedi'u neilltuo o refeniw (MRP)	(2,138)
(1,459)	Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol	(2,338)
31,022	Gofyniad Ariannu Cyfalaf Terfynol	31,753
3,072	Cynnydd)/gostyngiad yn yr angen gwaelodol i fenthycu (heb gymorth ariannol gan y llywodraeth)	731
3,072	Cynnydd / (gostyngiad) mewn Gofyniad Ariannu Cyfalaf	731

29 PRYDLESI

Awdurdod fel tenant – Asedau Hawl i Ddefnyddio

Mae prydlesi'n cael eu cydnabod fel asedau hawl i ddefnyddio gyda'r atebolrwydd cyfatebol ar y dyddiad y mae'r ased wedi'i brydlesu ar gael i'w ddefnyddio (neu ar ddyddiad trosglwyddo IFRS 16, os yn hwyrach). Mae'r prydlesi fel arfer ar gyfer cyfnodau sefydlog dros flwyddyn, ond gallant gynnwys opsiynau estyn.

Ar gyfer trefniadau a gyfrifwyd yn flaenorol fel prydlesi gweithredu, mae ased hawl i ddefnyddio ac atebolrwydd prydles bellach ar y fantolen ar 1 Ebrill 2024.

Fel y caniateir gan y Cod, mae'r awdurdod yn eithrio prydlesi ar gyfer eitemau o werth isel sy'n costio llai na £10,000, a phrydlesi gyda thymor llai na 12 mis. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y taliadau sy'n gysylltiedig â'r prydlesi hyn fel treuliau dros gyfnod y brydles.

Mae'r awdurdod wedi caffael cerbydau ac offer drwy fynd i mewn i gontractau prydlesi gyda thymor nodweddiadol o bedair blynedd. Yn ogystal, mae'r awdurdod yn prydlesu tri adeilad gyda thymor prydles nodweddiadol o bum mlynedd.

Mae'r tabl yn dangos y newid yn yr asedau hawl i ddefnyddio a gedwir o dan brydlesi gan yr Awdurdod.

	Tir ac Adeiladau £'000	Cerbydau ac Offer £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Ebrill 2024	485	173	658
Ychwanegiadau	0	403	403
Ailbrisio	(2)	12	10
Dibrisiant ac amorteiddiad	(110)	(100)	(210)
Gwarediadau	0	(31)	(31)
Balans ar 31 Mawrth 2025	373	457	830

Mae'r awdurdod wedi ysgwyddo'r treuliau a'r llif arian canlynol mewn perthynas â lesau:

	Tir ac Adeiladau £'000	Cerbydau ac Offer £'000	Cyfanswm £'000
Datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr			
Treuliau llog ar rwymedigaethau les	24	3	27
Treuliau sy'n ymwneud â lesau tymor byr	0	2	2
Treuliau sy'n ymwneud â lesau eithriedig o eitemau gwerth isel	0	13	13
Taliadau les amrywiol nad ydynt wedi'u cynnwys wrth fesur rhwymedigaethau les	161	28	189
Datganiad llif arian			
Taliadau lleiaf les	117	207	324

Defnyddiodd yr Awdurdod gyfradd fenthycia ychwanegol y tenant (cyfradd blwydd-dal PWLB) sy'n benodol i gyfnod a dyddiad cychwyn y brydles i ostwng gwerth cerbydau wedi'u prydlesu, a'r gyfradd ymhlyg yn y brydles i ostwng gwerth eiddo wedi'u prydlesu.

Mae'r atebolrwydd prydlesol i'w setlo dros y bandiau amser canlynol (wedi'u mesur ar sail y symiau heb eu disgowntio o'r taliadau arian parod disgwyledig).

31 Mawrth 2025 £'000		31 Mawrth 2026 £'000
173	Dim hwyrach na blwyddyn	209
425	Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd	505
0	Hwyrach na 5 mlynedd	0
598	Cyfanswm yr atebolrwydd heb ei ostwng	714

30 CYNLLUNIAU PENSIWN BUDDION DIFFINIEDIG

Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei cyflogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy nes bod gweithwyr cyflogedig yn ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny) a'u datgelu ar yr adeg y mae gweithwyr cyflogedig yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn cael ei weithredu o dan fframwaith reoleiddio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r CPLIL yn gynllun a ariennir â buddion wedi'u diffinio y mae'r Awdurdod yn aelod cyflogwr ohono o gronfa Bensiwn Clwyd. Cronfa Bensiwn Clwyd, Cyngor Sir y Fflint sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun hwn yn ei rinwedd fel Rheolwr y Cynllun a'r Awdurdod Gweinyddol.

Mae'r polisi yn cael ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Gronfa Bensiynau ac yn cael ei oruchwyllo gan y Pwyllgor Pensiwn, gan gynnwys penodi'r rheolwyr buddsoddi. Prif risgiau'r cynllun i'r awdurdod yw'r rhagdybiaethau ynghylch hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. tynnu allan o'r cynllun ar raddfa fawr), newidiadau i chwyddiant, arenillion bond a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun.

Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol ar gyfer ailbrisio actiwaraidd yn rheolaidd ac ar gyfer gosod cyfraddau cyfraniadau cyflogwr a gweithwyr. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn cael eu codi ar gost gwasanaethau yn seiliedig ar enillion cyflogai yn y cyfnod yn hytrach na phan delir y buddion fel pensiynau yn y pen draw.

Mae'r hyn a godir ar yr ardoll yn adlewyrchu'r taliadau pensiwn gwirioneddol a wnaed yn ystod y flwyddyn yn unig. Fodd bynnag, i ddangos cost lawn buddion ymddeol, mae'r rhain yn cael eu cofnodi yn gyntaf yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac yna eu gwrthdroi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r cofnodion canlynol yn adlewyrchu'r addasiadau hyn.

Mae unrhyw fuddion yn ôl disgresiwn neu gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ymddeoliadau ar sail salwch yn gost heb ei ariannu ac yn cael eu codi ar wahân ar yr Awdurdod. I'r graddau y mae costau o'r fath yn hysbys, maent yn cael eu cynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb ac mae'r Awdurdod yn cadw cronfa wrth gefn i fynd i'r afael ag unrhyw gostau heb eu cynllunio ac i lyfnhau effaith newidiadau ar gyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr.

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS) yn gynllun heb ei ariannu â buddion wedi'u diffinio, sy'n golygu na ddelfir buddsoddiadau i ariannu'r ymrwymadau. Mae cyfraniadau, ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru, a wneir gan y cyflogwr a'r cyflogaion ar enillion pensiynadwy yn cael eu cadw mewn cyfrif cronfa pensiwn. Mae buddion a delir i ymddeoledigion hefyd yn cael eu codi ar y cyfrif gydag unrhyw ddiffyg arian parod yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru neu ei dalu iddi.

Mae'r wybodaeth sy'n dilyn wedi'i thynnu o'r adroddiadau datgelu a ddarparwyd gan Mercer (ar ran cynllun pensiwn CPLIL) ac Adran Actiwari'r Llywodraeth (AALI) (ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS)). Mae'r manylion mwyaf perthnasol sy'n effeithio ar y cronfeydd Pensiwn isod:

Cyfartalu a Mynegeo Isafswm Pensiwn Gwarantedig

Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar fynegeo a chyfartalu Isafswm Pensiynau Gwarantedig (GMP), a'r cynnig yw ymestyn y "datrysiad interim" i'r aelodau sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn Gwladol ar ôl 5 Ebrill 2021. Cafodd cost gwasanaeth blaenorol ei gynnwys yn natgeliadau 2019/20 ar gyfer ymestyn y cyfartalu i bawb sy'n ymddeol yn y dyfodol.

Roedd dyfarniad llys pellach hefyd ar 20 Tachwedd 2020 ynghylch cyfartalu'r Cyfanswm Pensiwn Gwarantedig (GMP). Dyfarnodd y llys fod rhaid i ymddiriedolwyr cynlluniau ailedrych ar gyn-Werthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) er mwyn sicrhau bod GMP yn cael ei gyfartalu. Gallai hyn arwain at daliadau atodol ychwanegol pan fo cyfartalu GMP yn golygu nad yw aelodau wedi derbyn eu holl hawl. Ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, disgwylir y bydd y dyfarniad hwn yn cael ei weithredu ar draws cynlluniau, a bydd angen mewnbwn cyfreithiol.

Efallai y bydd hyn yn gofyn am ailedrych ar achosion CETV yn y gorffennol ar gyfer aelodau ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2016 ac a gymerodd CETV o'r cynllun cyn i CETV gael ei gyfartalu. Nid yw cwmpas unrhyw gostau wedi'i bennu eto. Nid yw data am CETV hanesyddol ar gael i amcangyfrif yr effaith bosibl. Disgwylir y bydd hwn yn godiad cymharol fach ar gyfer is-set gymharol fach o aelodau (h.y. y rhai a gymerodd CETV ac sydd o fewn y cwmpas ar gyfer ychwanegiad atodol).

Dyfarniad McCloud

Yn dilyn achos Llys Apêl, cafwyd dyfarniad McCloud yn Rhagfyr 2018, a oedd yn dod i'r casgliad bod yr amddiffyniadau trosiannol a gyflwynwyd yn 2015 yn gwahaniaethu ar sail oedran. Yn dilyn hyn cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar draws cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus y DU yn cynnwys Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Mae costau gwasanaeth blaenorol wedi'u hamcangyfrif er mwyn ystyried effaith dyfarniad McCloud ac maent wedi'u cynnwys yn y Gronfa Bensiwn ers 2018/19. Mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r rhwymedi a amlinellwyd gan Lywodraeth y DU a'r newidiadau gofynnol i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a osodwyd gan Weinidogion Cymru a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2023.

Rheoliadau Pensiynau'r Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth y Gellir ei Unioni) (Cymru) 2023 a osodwyd ac a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2023, gyda'r nod o alluogi Rheolwyr Cynlluniau i weithredu'r newidiadau angenrheidiol i roi'r unioni ar waith. Rhaid cwblhau'r newidiadau hyn o fewn cyfnod o 18 mis. Oherwydd cymhlethdod a nifer y cyfrifiadau, ni lwyddodd y Gwasanaeth i gyrraedd y dyddiad cau o 31 Mawrth 2025 yn llawn.

O ganlyniad i'r methiant i gydymffurfio â gofynion statudol Adran 29 o Ddeddf Pensylinau Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Ombwdsmon 2022 (PSPJOA 2022), rhoddwyd gwybod am y mater i'r Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR).

Yn ystod 2025/26, parhaodd y Gwasanaeth i weithredu'r newidiadau hyn, ac mae'r ymarfer hwn wedi'i gwblhau'n sylweddol ar gyfer yr aelodau a aseswyd fel rhai sydd wedi'u heffeithio'n andwyol. Cafodd yr effaith ariannol amcangyfrifedig ei chynnwys yn ailbrisio 2020, ac mae gwaith yn parhau i fynd i'r afael yn llawn â phob achos gweddilliol.

Matthews / O'Brien

Yn dilyn proses gyfreithiol hir, cyhoeddwyd y dyfarniad yn achos O'Brien vs Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod 2019. Canfu hwn fod y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod pan allai gweithiwr rhan-amser ymuno â'r cynllun pensiwn yn un gwallus ac y dylai gweithwyr cymwys gael ymuno â'r cynllun perthnasol o ddechrau eu contractau.

Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau cenedlaethol i staff sy'n cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar alwad ac y dechreuodd eu contract cyflogaeth cyn 1 Gorffennaf 2000 neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael y cyfle llawn i brynu gwasanaeth blaenorol yr oedd ganddynt hawl iddo.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud diwygiadau i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2007 (Diwygiedig) i ddarparu mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Cafodd Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024, ei wneud a'i osod ym mis Ionawr a daeth i rym ar 1 Chwefror 2024. Bydd pob person cymwys yn cael cyfle i brynu hawliau pensiwn yn ôl o fewn yr amserlenni a nodir yn y gorchymyn.

Ni ellir cyfrifo'n llawn effaith ariannol lawn y rheoliadau wedi'u diweddarau er bod amcangyfrif wedi'i gynnwys ym mhrisiad 2020 rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr Awdurdod a gynhaliwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).

Mae'r tablau isod yn darparu manylion pellach ynghylch y cronfeydd pensiwn:

LGPS 2024/25 £'000	FFPS 2024/25 £'000	Trosglwyddiadau'r Gronfa Gyffredinol	LGPS 2025/26 £'000	FFPS 2025/26 £'000
		Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cost Gwasanaethau		
1,033	1,870	Cost cyfredol y gwasanaeth	704	1,010
0	0	Cost blaenorol y gwasanaeth	0	0
51	0	Costau Gweinyddu	54	0
		Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi		
(16)	10,810	Gwariant Llog Net	(18)	11,490
0	0	Trosglwyddiadau allan o'r cynllun	0	0
0	(10)	Trosglwyddiadau i mewn i'r cynllun	0	800
0	0	Cwtogiadau	0	0
1,068	12,670	Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a Godir ar Ddarparu Gwasanaethau	740	13,300
		Buddion Ôl-gyflogaeth Eraill a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr RAilfesur y budd/rhwymedigaeth net diffiniedig yn cynnwys:		
1,894	0	Adenillion ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio llog)	706	0
(51)	(530)	(Enillion) / Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Demograffig	325	0
(6,176)	(25,240)	(Enillion) / Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Ariannol	(4)	(7,320)
0	(60)	(Enillion) / Colledion Actiwaraid - profiad	0	29,930
(4,333)	(25,830)	Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	1,027	22,610
		Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd		
(1,068)	(12,670)	Gwrthdroi costau net a wnaed i'r gwarged neu diffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau Buddion Ôl- gyflogaeth yn unol â'r Cod	(740)	(13,300)
		Symiau Gwirioneddol a godir ar y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn		
0	10,370	Buddion Ymddeol sy'n daladwy i Bensiynwyr	0	11,430
658	0	Cyfraniadau'r Cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun	693	0

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y Fantolen sy'n codi o rwymedigaeth yr Awdurdod mewn perthynas â'r cynlluniau buddion diffiniedig fel a ganlyn:

LGPS 2024/25 £'000	FFPF 2024/25 £'000	Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a Gydabuwyd yn y Fantolen	LGPS 2025/26 £'000	FFPS 2025/26 £'000
(35,728)	(208,100)	Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig	(37,140)	(232,580)
40,950		Gwerth Teg asedau'r cynllun	41,599	
5,222 (5,265)	(208,100)	Is-Gyfanswm Effaith IAS19 / IFRIC 14	4,459 (4,503)	(232,580)
(43)	(208,100)	Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig	(44)	(232,580)

LGPS 2024/25 £'000	FFPF 2024/25 £'000	Symudiad yng Ngwerth Asedau'r Cynllun	LGPS 2025/26 £'000	FFPS 2025/26 £'000
41,630	0	Gwerth Teg Agoriadol Asedau'r Cynllun	40,950	0
2,021	0	Incwm Llog	2,387	0
		Enillion / Colledion wrth Ailfesur		
(1,894)	0	Yr enillion ar asedau'r cynllun, heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net	(706)	0
658	12,440	Cyfraniadau gan y cyflogwr	693	13,740
437	0	Cyfraniadau gan weithwyr cyflogedigi'r cynllun	462	0
(1,851)	(12,440)	Buddion/trosglwyddiadau a Dalwyd	(2,133)	(13,740)
(51)	0	Costau Gweinyddu	(54)	0
40,950	0	Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun	41,599	0

LGPS 2024/25 £'000	FFPF 2024/25 £'000	Symudiad yng Ngwerth Teg Rhwymedigaethau'r Cynllun	LGPS 2025/26 £'000	FFPS 2025/26 £'000
(40,392)	(231,610)	Balans Agoriadol ar 1 Ebrill	(35,728)	(208,100)
(1,033)	(1,870)	Cost Cyfredol y Gwasanaeth	(704)	(1,010)
0	(10)	Trosglwyddiadau i mewn	0	(800)
(1,944)	(10,810)	Costau Llog	(2,058)	(11,490)
(437)	(2,070)	Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	(462)	(2,310)
		Enillion a Cholledion wrth Ailfesur		
51	60	Enillion / Colledion Actiwaraid - profiad	(506)	(29,930)
6,176	530	Enillion / Colledion Actwaraid yn dellio o newidiadau i'r rhagdybiaethau demograffig	181	0
1,851	25,240	Enillion / Colledion Actwaraid yn dellio o newidiadau i'r rhagdybiaethau ariannol	4	7,320
0	12,440	Buddion/trosglwyddiadau a Dalwyd	2,133	13,740
0	0	Cwtogiadau	0	0
0	0	Cost Blaenorol y Gwasanaeth	0	0
(35,728)	(208,100)	Balans ar 31 Mawrth	(37,140)	(232,580)

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) Asedau sy'n Cynnwys:

Dyfynedig 2024/25 £'000	Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	Dyfynedig 2025/26 £'000
	Arian a Chyfwert Arian	
0	Cyfrifon Arian	3,786
0	Buddsoddiadau Dros Dro	0
0	Is-gyfanswm Arian a Chyfwert Arian	3,786
	Gwarantu Ecwiti	
6,296	Dyfynnwyd yn fyd-eang	6,697
0	Marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg	0
6,296	Is-gyfanswm Ecwiti	6,697
	Bondiau	
5,409	Eraill Tramor	6,656
9,685	Buddsoddiad a Yrrir gan Rwymedigaethau	11,981
15,094	Is-gyfanswm Bondiau	18,637
	Eiddo	
1,550	DU	1,331
209	Tramor	0
1,759	Is-gyfanswm Eiddo	1,331
	Dewisiadau amgen	
6,298	Cronfeydd Ymddiogelu	0
3,239	Ecwiti Preifat	6,573
123	Seilwaith	3,328
4,808	Coed ac Amaethyddiaeth	83
1,380	Cronfa Twf Amrywiol	0
1,953	Credyd Preifat	1,165
17,801	Is-gyfanswm Dewisiadau Amgen	11,149
40,950	Cyfanswm yr Asedau	41,600

Mae asedau'r cynllun yn cael eu priso gan ddefnyddio technegau gwerth teg yn seiliedig ar nodweddion pob offeryn, lle bo hynny'n bosibl gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar y farchnad.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Clwyd, sydd ar gael ar eu gwefan - <https://mss.clwydpensionfund.org.uk/home/investments-and-governance/annual-reports/>

Y Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau ac Ymrwymadau

Mae gwerth yr ymrwymadau wedi eu seilio'n actiwaraid gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol sy'n asesu ymrwymadau'r cynllun yn y dyfodol gyda disgownt i'w gwerth presennol.

Mae gwerth Cynllun y Diffoddwyr Tân wedi ei wneud gan Adran Actiwaraid y Llywodraeth.

Mae gwerth ymrwymiadau LGPS wedi ei wneud gan Mercer, sef cwmni annibynnol o actiwariaid. Dyma'r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau ac maent yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 1 Ebrill 2023.

2024/25	LGPS	2025/26
	Rhagdybiaethau ynglŷn â Marwolaethau	
	Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr presennol:	
21.1	Dynion	21.0
23.6	Menywod	23.6
	Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol:	
22.4	Dynion	22.1
25.4	Menywod	25.2
	Rhagdybiaethau Eraill	
2.6%	Cyfradd Chwyddiant	2.9%
3.9%	Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau	4.2%
2.7%	Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau	3.0%
5.9%	Cyfradd Disgowntio Ymrwymiadau'r Cynllun	6.2%
2.6%	Cyfradd Ailbrisio CARE	2.9%

2024/25	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	2025/26
	Rhagdybiaethau ynglŷn â Marwolaethau	
	Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr presennol:	
21.3	Dynion	21.3
21.3	Menywod	21.3
	Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol:	
22.7	Dynion	22.8
22.7	Menywod	22.8
	Rhagdybiaethau Eraill	
2.7%	Cyfradd Chwyddiant	3.0%
3.5%	Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau	3.7%
2.7%	Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau	3.0%
5.7%	Cyfradd Disgowntio Ymrwymiadau'r Cynllun	6.1%
3.5%	Cyfradd Ailbrisio CARE	3.7%

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod yn seiliedig ar newidiadau rhesymol bosibl i ragdybiaethau ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gyda phob un yn cael ei amrywio'n annibynnol. Er enghraifft, mae'r rhagdybiaeth ynghylch hirhoedledd yn ystyried newidiadau yn disgwyliad oes dynion a menywod. Er nad yw newidiadau unigol fel hyn yn debygol yn ymarferol, gall rhai rhagdybiaethau fod yn gysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn dilyn polisiâu cyfrifyddu'r cynllun—gan ddefnyddio dull credyd uned ragamcanol ar sail actiwaraidd. Nid yw'r dulliau na'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wedi newid ers y cyfnod blaenorol.

Effaith Rhagdybiaethau ar yr ymrwymiad - LGPS

	Fel yr Adroddwyd	+0.5% gostyngiad y flwyddyn	+0.25% chwyddiant y flwyddyn	+0.25% twf cyflog y flwyddyn	Cynnydd o 1 flwyddyn mewn disgwyliad oes	+/-1% o newid yn enillion buddsoddi 2023/24	
	£000	£000	£000	£000	£000	+1% £000	-1% £000
Ymrwymadau	37,140	34,597	38,481	37,348	37,898	37,140	37,140
Asedau	(41,599)	(41,599)	(41,599)	(41,599)	(41,599)	(42,010)	(41,188)
Diffyg (gwarged)	(4,459)	(7,002)	(3,118)	(4,251)	(3,701)	(4,870)	(4,048)
Cost a Ragamcanwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf	699	589	759	699	718	699	699
Cost Llog Net a Ragamcanwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf	(307)	(502)	(223)	(293)	(259)	(332)	(281)

	Fel yr Adroddwyd	Cyfradd disgownt ar rwymedigaeth-au Cynnydd o 0.5% £000	Cynnydd mewn cyflogau Cynnydd o 0.5% £000	Disgwyliad oes Cynnydd o 1 flwyddyn £000	Cynnydd mewn pensiynau Cynnydd o 0.5% £000
	£000	£000	£000	£000	£000
Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	Effaith (232,580)	-6.50% (217,462)	1% (234,906)	2.50% (238,395)	6.50% (247,698)

Effaith ar lif arian yr Awdurdod

Cydnabyddir cost buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan weithwyr cyflogedig, yn hytrach na phan delir y buddion ar ffurf pensiynau yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r taliad sy'n rhaid ei godi yn erbyn yr ardoll yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddion ôl-gyflogaeth / buddion ymddeol ei gwrthdroi o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

31 NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, sy'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fesurau ar waith i reoli risgiau ariannol. Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2025/26 mewn cyfarfod ar 28 Ebrill 2025. Mae'r Strategaeth yn nodi'r Dangosyddion Darbodus (PI) ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn mae adroddiadau chwarterol yn manylu ar y cynnydd o'i gymharu â'r strategaeth ac, os oes angen, adolygiad o'r Dangosyddion Perfformiad.

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae adroddiad terfynol yn nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Ceir manylion ynghylch sut mae'r Awdurdod yn rheoli risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol yn adroddiadau'r trysorlys a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ac maent ar gael o wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - www.northwalesfire.gov.wales

Mae gweithgareddau'r awdurdod yn ei amlygu i amrywiaeth o risgiau ariannol, gan gynnwys:

Risg Credyd

Dyma'r posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod.

Buddsoddiadau sy'n peri'r risg credyd uchaf ac mae'r rhain yn cael eu rheoli drwy Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol ac yn pwysleisio bod blaenoriaeth i'w rhoi i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Polisi'r Awdurdod ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw rhoi arian sydd dros ben yn y tymor byr mewn cyfrifon galw mewn banciau hyd nes y bydd ei angen. Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau tymor hir. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y tymor byrrach yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, gyda banciau dethol o ansawdd uchel, i leihau'r risg o golled.

Risg Hylifedd

Dyma'r posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod ddigon o arian ar gael i fodloni ei ymrwymadau i wneud taliadau.

Mae'r Awdurdod yn monitro ei falans arian parod i sicrhau bod arian parod ar gael yn ôl yr angen. Os bydd symudiadau annisgwyl yn digwydd, gall yr Awdurdod gael gafael yn rhwydd ar fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ac felly nid oes unrhyw risg canfyddedig na fyddai'r Awdurdod yn gallu codi'r arian i fodloni ei ymrwymadau dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd yr Awdurdod wedi ei rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fo cyfraddau llog yn anffafriol.

Bydd gan yr Awdurdod ofyniad benthyca bob amser gan nad yw'n dal arian parod neu gronfeydd wrth gefn sylweddol a dim ond mynediad cyfyngedig at gyllid grant cyfalaf. Mae proffil aeddfedrwydd benthyca presennol yr Awdurdod fel a ganlyn:

2025-26	Terfyn uchaf	Terfyn isaf	31 Mawrth 2026 £000	31 Mawrth 2026 %
O dan 12 mis	60%	0%	2,000	13%
12 mis ac o fewn 24 mis	45%	0%	1,700	11%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	45%	0%	1,800	11%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	75%	0%	2,000	13%
10 mlynedd a mwy	100%	0%	8,260	52%
Cyfanswm			15,760	100%

2024-25	Terfyn uchaf	Terfyn isaf	31 Mawrth 2025 £000	31 Mawrth 2025 %
O dan 12 mis	60%	0%	9,300	49%
12 mis ac o fewn 24 mis	45%	0%	1,500	8%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	45%	0%	1,200	6%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	75%	0%	0	0%
10 mlynedd a mwy	100%	0%	7,070	37%
Cyfanswm			19,070	100%

Risg y Farchnad

Dyma'r posibilrwydd y gallai colled ariannol ddigwydd i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan yr Awdurdod fenthyciadau marchnad o £2m (2024/25: £5m).

Mae'r Awdurdod mewn sefyllfa agored i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr Awdurdod, yn dibynnu sut mae cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn symud ar draws gwahanol gyfnodau offerynnau ariannol. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn cael yr effeithiau canlynol:

- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd y gost llog a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn codi;
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y benthycia yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw);
- Buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm llog a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn codi; a
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw);

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar eu gwerth teg ar y fantolen, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar Warged neu Ddiffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy'n daladwy neu a dderbynnir ar fenthyciadau a buddsoddiadau ar gyfradd amrywiol yn cael eu gosod yn y Gwarged neu Ddiffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans y Gronfa Gyffredinol.

Mae gan yr awdurdod nifer o strategaethau ar gyfer rheoli risg cyfraddau llog. Yn ystod cyfnodau pan fo cyfraddau llog yn gostwng, a lle mae amgylchiadau economaidd yn ei gwneud yn ffafriol, bydd benthyciadau ar gyfradd sefydlog yn cael eu had-dalu'n gynnar i wneud yr Awdurdod yn llai agored i golledion.

32 RHWYMEDIGAETHAU ANNISGWYL

Hawliadau Pensiwn

Yn dilyn proses gyfreithiol hir, cyhoeddwyd y dyfarniad yn achos O'Brien vs Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod 2019. Canfu hwn fod y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod pan gallai gweithiwr rhan-amser ymuno â'r cynllun pensiwn yn un gwallus ac y dylai gweithwyr cymwys gael ymuno â'r cynllun perthnasol o ddechrau eu contractau.

Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau cenedlaethol i staff sy'n cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar alwad ac y dechreuodd eu contract cyflogaeth cyn 6 Ebrill 2000 neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael y cyfle llawn i brynu gwasanaeth blaenorol yr oedd ganddynt hawl iddo.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud diwygiadau i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2007 (Diwygiedig) i ddarparu mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Cafodd Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 ei wneud a'i osod ym mis Ionawr a daeth i rym ar 1 Chwefror 2024. Bydd pob person cymwys yn cael cyfle i brynu hawliau pensiwn yn ôl o fewn yr amserlenni a nodir yn y gorchymyn.

Ni ellir cyfrifo'n llawn effaith ariannol lawn y rheoliadau sydd wedi'u diweddarau er bod amcangyfrif wedi'i gynnwys ym mhrisiad 2020 o rwymedigaethau cynllun pensiwn yr Awdurdod a gynhaliwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).

Materion Perthnasol Cyfreithiol

Gall yr Awdurdod wynebu her mewn perthynas ag ystod o faterion a allai fod yn destun ymgyfreitha ar unrhyw adeg. Ar ddiwedd y flwyddyn mae'r holl hawliadau hysbys yn cael eu hadolygu a'u hasesu. Os asesir bod atebolrwydd tebygol ac y gellir gwneud amcangyfrif rhesymol, rhoddir cydnabyddiaeth i ddarpariaeth ar gyfer symiau y byddai'r Awdurdod yn gorfod eu hysgwyddo. Pan fo'r tebygolrwydd o setliad yn isel neu pan na ellir amcangyfrif yr atebolrwydd yn rhesymol, ni chydabyddir rhwymedigaeth. Fodd bynnag, mae'r posibilrwydd bod hawliadau yn codi yn y dyfodol o ganlyniad i weithredoedd yn y gorffennol sydd naill ai'n anhysbys ar ddyddiad y Fantolen neu lle mae'r canlyniad mor anrhagweladwy o ran canlyniad neu rwymedigaeth ariannol fel na ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth. Mae'r Awdurdod yn cadw cronfa wrth gefn ar gyfer materion o'r fath.

Tribiwnlys Cyflogaeth

Ar ddiwedd y flwyddyn nid oedd unrhyw faterion a oedd angen cydnabyddiaeth ariannol.

33 ASED ANNISGWYL

Ar ddiwedd y flwyddyn nid oedd unrhyw faterion a oedd angen cydnabyddiaeth.

CYFRIF CRONFA BENSIWN DIFFODDWYR TÂN

Cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2026

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, gan nodi a oes gan yr Awdurdod falans sy'n daladwy neu'n dderbyniol gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y cyfrif yn gytbwys. Yn ogystal, mae'n darparu gwybodaeth am asedau net y gronfa.

2024/25 £'000		2025/26 £'000
	Cyfraniadau a Dderbynnir:	
(4,906)	Cyfraniadau arferol y cyflogwr	(5,437)
0	Tâl afiechyd y cyflogwr	0
0	Cyfraniadau ôl-ddyddiedig y cyflogwr	0
(2,067)	Cyfraniadau arferol yr aelodau	(2,309)
(100)	Cyfraniadau ôl-ddyddiedig yr aelodau	(304)
(321)	Trosglwyddiadau i mewn	(855)
(7,394)	Cyfanswm Cyfraniadau	(8,905)
	Buddion yn Daladwy:	
9,737	Taliadau Pensiwn	10,872
2,437	Gohirio Pensiynau a Chyfandaliadau buddion ymddeol	3,072
0	Taliadau Gohirio Ôl-ddyddiedig	0
	Taliadau i Ymadawyr ac ar eu rhan:	
88	Trosglwyddiadau allan	16
12,262	Cyfanswm Buddion	13,960
4,868	Diffyg am y flwyddyn cyn i grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru	5,055
(4,868)	Grant atodol a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru	(5,055)
0	Swm Net (Taladwy)/A Dderbynnir ar Gyfer y Flwyddyn	0

Net Assets Statement as at 31 March 2026

2024/25 £'000		2025/26 £'000
	Asedau cyfredol	
(655)	Swm sy'n ddyledus (gan) / i'r Gronfa Gyffredinol	(4,024)
(655)	Cyfanswm Asedau Cyfredol	(4,024)
	Ymrwymadau Cyfredol	
655	Grant atodol yn daladwy (gan) / i Lywodraeth Cymru	4,024
655	Cyfanswm Ymrwymadau Cyfredol	4,024

Nodiadau i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 2007, dan Orchymyn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, ac mae'n cynnwys Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992, 2007 a 2015 ac fe'i gweinyddir gan yr Awdurdod. Mae'r cynllun yn un nad yw'n cael ei ariannu, nid oes ganddo asedau buddsoddi, a bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y buddion sy'n daladwy a'r cyfraniadau derbyniadwy yn cael ei ateb gan Grant Atodol gan Lywodraeth Cymru.

Telir cyfraniadau cyflogai a chyflogwr i'r Gronfa, a gwneir taliadau ohoni i bensiynwyr. Mae lefelau cyfraniadau gweithwyr a chyflogwr yn seiliedig ar ganrannau o dâl pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ac yn amodol ar ailbrisio gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) bob pedair blynedd neu fel y cyfarwyddir fel arall gan Drysorlys EM.

Trosglwyddiadau i'r cynllun yw trosglwyddo buddion pensiwn o gynllun pensiwn arall ar gyfer gweithwyr newydd neu bresennol, a throsglwyddiadau allan yw trosglwyddo buddion i weithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod ac wedi ymuno â chynllun pensiwn arall.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am dalu cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa. Dyma'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer yr Awdurdod.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwneir asesiad ynghylch swm y Grant Atodol sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru. Mae'r amcangyfrif yn cynnwys asesiad o nifer y diffoddwyr tân sydd i fod i ymddeol o fewn y flwyddyn, yn seiliedig ar oedran a blynyddoedd o wasanaeth.

Cyfraddau Cyfraniadau

Yn unol â Rheoliadau Pensiwn Diffoddwyr Tân, cyfradd cyfraniad y cyflogwr ar gyfer Cynllun 2015 yw 31.0% o dâl pensiynadwy, sydd yn weithredol o 1 Ebrill 2024 hyd at 31 Awst 2025 (wedi cynyddu o 27.3% yn 2023/24). Mae cyfraddau cyfraniadau gweithwyr yn amrywio yn ôl bandiau tâl pensiynadwy, fel y nodir isod:

Band Cyflog Pensiynadwy	Cyfradd Cyfraniad % (01 Ebrill - 31 Awst)
Hyd at £27,818	11.0
£27,819 i £51,515	12.9
£51,516 i £142,500	13.5
Mwy na £142,501	14.5

Daeth cyfraddau cyfraniadau newydd gweithwyr i rym o 1 Medi 2025, gyda'r cyfraddau'n cael eu pennu drwy gyfeirio at radd yn hytrach na band cyflog. Cafodd y cyfraddau hyn eu cymhwyso o daliadau cyflog mis Medi ymlaen, ni chawsant eu cymhwyso'n ôl-weithredol, ac nid oes unrhyw aelod yn ddyledus unrhyw ôl-ddyledion cyfraniadau o ganlyniad i'r newidiadau hyn.

System Dyletswydd	Gradd / Rôl	Cyfradd Cyfraniad % (01 Medi ymlaen)
Ar-Alwad	Pob gradd ar-alwad	13.0
Llawn Amser	Diffoddwr Tân	13.0
Llawn Amser	Rheolwr Criw	13.2
Llawn Amser	Rheolwr Gwylfa	13.2
Llawn Amser	Rheolwr Gorsaf	13.7
Llawn Amser	Rheolwr Grŵp	13.7
Llawn Amser	Rheolwr Ardal	14.2
Llawn Amser	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	14.5
Llawn Amser	Dirprwy Brif Swyddog Tân	14.5
Llawn Amser	Prif Swyddog Tân	14.5

Nid yw Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cymryd ystyriaeth o'r ymrwymïadau am bensiynau a buddion eraill wedi diwedd y cyfnod, gan mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw hyn. Mae manylion am yr ymrwymïadau pensiwn tymor hir i'w cael yn Nodyn 30 o'r datganiadau ariannol craidd.

POLISI'AU CYFRIFYDDU

1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2026. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n gofyn bod y cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn, o dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, yn cynnwys yn bennaf y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025/26 a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi'i haddasu drwy ailbrisio categorïau penodol o asedau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol. Paratowyd y cyfrifon ar sail parhad gweithredol.

O ran y polisi ar gyfalafu gwariant, ein harfer yw gweithredu ar sail natur y gwariant yn hytrach nag ar sail lefel benodedig o wariant.

2. CRONIADAU O INCWM A GWARIANT

Yn y cyfrifon refeniw, cyfrifir am incwm a gwariant heb TAW (oni bai bod y TAW yn anadferadwy), yn y flwyddyn y maent yn codi, nid pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn. Mae hyn yn cyd-fynd ag IAS 1, sy'n gorfodi cyfrifyddu ar sail gronïadol i sicrhau cymhariaeth a golwg gywir a theg ar berfformiad a'r sefyllfa ariannol.

- **Treuliau:** Yn cael eu cofnodi pan dderbynnir gwasanaethau, nid pan fydd taliadau'n cael eu gwneud. Mae incwm gan gwsmeriaid yn cael ei gydnabod pan gaiff nwyddau neu wasanaethau eu darparu.
- **Cyflenwadau:** Yn cael eu cofnodi fel treuliau pan gânt eu defnyddio. Os cânt eu derbyn ond eu bod heb eu defnyddio eto, maent yn cael eu cario fel stocrestrau ar y Fantolen.
- **Llog:** Yn cael ei gyfrif gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, yn hytrach na'r llif arian a bennir yn y contract.
- **Dyledwyr a Chredydwyr:** Os cydnabyddir refeniw a gwariant ond nad yw arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr yn y Fantolen. Os yw'n bosibl na fydd dyledion yn cael eu setlo, caiff balans y dyledwyr ei nodi a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na fydd o bosibl yn cael ei gasglu.

3. ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol y gellir eu tynnu allan heb gosb o fewn 24 awr. Mae buddsoddiadau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu o fewn tri mis o'u caffael ac y gellir eu trosi'n rhwydd yn arian parod heb fawr ddim risg.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a chyfwerth ag arian parod heb orddrafftiau banc sy'n ad-daladwy yn ôl y galw ac sy'n rhan o system rheoli arian parod yr Awdurdod.

4. **ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISIÂU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU**

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifyddu neu i gywiro gwallau materol. Mae newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu'n cael eu hystyried yn rhagolygol, gan effeithio ar y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod, ac nid ydynt yn arwain at addasiadau cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol y gwneir newidiadau mewn polisiâu cyfrifyddu, neu os yw'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Rhoddir y newidiadau hyn ar waith yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer cyfnodau blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi bod ar waith erioed. Caiff gwallau materol sy'n cael eu darganfod mewn ffigurau cyfnod blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

5. **TALIADAU A GODIR AR REFENIW AM ASED AU ANGHYFREDOL**

Codir amcangyfrif o'r gost o ddal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn ar wasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu. Mae hyn yn cynnwys:

- **Dibrisiant:** Yn briodoleddig i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol.
- **Ailbrisio a Cholledion Amhariad:** Ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronedig yn y gronfa ailbrisio wrth gefn i wrthbwysu'r colledion.
- **Amorteiddiad:** Asedau anniriaethol priodoleddig i'r gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod godi ardoll i ariannu'r costau hyn. Yn hytrach, mae'n gwneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at leihau ei ofyniad benthyca cyffredinol, wedi'i gyfrifo ar sail ddarbodus. Caiff dibrisiant, ailbrisio a cholledion amhariad, ac amorteiddiad eu disoddi gan y cyfraniad hwn ym malans y Gronfa Gyffredinol (Darpariaeth Refeniw Lleiaf), trwy drafodiad addasu gyda'r cyfrif addasu cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

6. **BUDDION I WEITHWYR**

Buddion sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Buddion cyflogaeth tymor byr yw'r rhai hynny sydd i'w setlo o fewn 12 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol ac maent yn cynnwys tâl, cyflogau, gwyliau â thâl, taliadau bonws a buddion heb fod yn ariannol (e.e. ceir). Mae'r rhain yn cael eu cydnabod fel treuliau yn y flwyddyn y mae gweithwyr yn darparu gwasanaethau i'r Awdurdod.

Gwneir cronriad am gost yr hawliau gwyliau (neu unrhyw fath o wyliau, e.e. amser i ffwrdd yn lle oriau ychwanegol a weithiwyd) y mae gweithwyr wedi'u hennill ond heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac y gall gweithwyr eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y cronriad hwn ar y cyfraddau tâl a chyflog sy'n berthnasol yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol. Caiff y cronriad ei godi ar y gwarged neu'r diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau, ond caiff wedyn ei wrthdroi trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn i'r cyfrif absenoldebau cronedig, gan sicrhau bod hawliadau gwyliau yn cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn y cymerir y gwyliau.

Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- **Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân:** Gweinyddir y cynllun hwn gan Gronfa Bensiwn Dyfed, Cyngor Sir Gâr.
- **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:** Gweinyddir y cynllun hwn gan Gyngor Sir y Fflint

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig (cyfansymiau wrth ymddeol a phensiynau) a enillir wrth i weithwyr weithio i'r Awdurdod.

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS)

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu a heb unrhyw asedau nac incwm buddsoddi.

- **Rhwymedigaethau:** Wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig, yn seiliedig ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaethau, trosiant gweithwyr, ac enillion rhagamcanedig.
- **Cyfradd Ddisgownt:** Caiff rhwymedigaethau eu disgowntio i brisiau cyfredol gan ddefnyddio cyfradd sy'n seiliedig ar arenillion bondiau'r Llywodraeth ynghyd ag elw ychwanegol.

Cost y Gwasanaeth:

- **Cost Gyfredol y Gwasanaeth:** Cynnydd mewn rhwymedigaethau o wasanaeth a enillwyd yn y flwyddyn, a ddyrannwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) i'r gwasanaethau y gweithiodd gweithwyr iddynt.
- **Cost y Gwasanaeth yn y Gorffennol:** Cynnydd mewn rhwymedigaethau yn sgil diwygiadau neu doriadau yn y cynllun sy'n gysylltiedig â blynyddoedd cynharach, wedi'u debydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- **Llog Net:** Traul sy'n codi dros amser ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net. Fe'i cyfrifir trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod. Codir y gwariant hwn ar y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yn ei hanfod, mae'n cynrychioli cost llog bod â rhwymedigaeth pensiwn dros amser.

Ailfesuriadau:

- **Enillion a Cholledion Actiwaraid:** Newidiadau mewn rhwymedigaeth pensiwn net o ganlyniad i ragdybiaethau neu ddigwyddiadau a ddiweddarwyd nad ydynt yn cyfateb i ragdybiaethau actiwari blaenorol, a godir ar y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- **Cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa:** Arian parod a dalwyd fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa pensiwn i setlo rhwymedigaethau; nid yw'n cael ei gyfrif fel cost.

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn pennu mai'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa pensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn sy'n cael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau

cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod trosglwyddiadau'n cael eu gwneud i mewn i'r Gronfa Bensiynau ac allan ohoni i ddileu'r debydau a'r credydau tybiedig ar gyfer buddion ymddeol a'u disodli â debydau am yr arian a delir i'r gronfa bensiynau a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans negyddol sy'n codi yn y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn felly'n mesur yr effaith fuddiol i'r Gronfa Gyffredinol o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach nag wrth i weithwyr ennill buddion.

Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei ystyried yn gynllun buddion diffiniedig:

- **Rhwymedigaethau:** Wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig, yn seiliedig ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaethau, trosiant gweithwyr, ac enillion a ragwelic ar gyfer cyflogaion presennol.
- **Cyfradd Ddisgownt:** Caiff rhwymedigaethau eu disgowntio i brisiau cyfredol gan ddefnyddio cyfradd sy'n seiliedig ar fondiau corfforaethol.
- **Asedau:** Mae asedau Cronfa Bensiwn Clwyd y gellir eu priodoli i'r Awdurdod wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:
 - Gwarannau a ddyfynnwyd: pris cyfredol
 - Gwarannau heb eu dyfynnu: amcangyfrif proffesiynol
 - Gwarannau unedol: pris cyfredol
 - Eiddo: gwerth y farchnad

Caiff y newid yn y rhwymedigaeth bensiynau net ei ddadansoddi yn ôl y cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth sy'n cynnwys:

- **Cost Gyfredol y Gwasanaeth:** Y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni, wedi'u clustnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y bu'r gweithwyr yn gweithio iddynt.
- **Cost y Gwasanaeth yn y Gorffennol:** Y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio neu gwtogi cynllun sy'n gysylltiedig â blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd cynharach, wedi'i ddebydu i'r gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o gostau corfforaethol.
- **Llog Net ar y Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig Net/(Ased):** Y newid yn ystod y cyfnod yn y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net/(ased) oherwydd treigl amser, a godir ar linell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hyn yn cael ei gyfrifo trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig net/(ased) ar ddechrau'r cyfnod, gan ystyried unrhyw newidiadau yn ystod y cyfnod oherwydd cyfraniadau a thaliadau buddion.

Ailfesuriadau sy'n cynnwys:

- **Enillion ar Asedau'r Cynllun:** Ac eithrio symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (ased), a godir ar y gronfa bensiynau wrth gefn fel incwm a gwariant cynhwysfawr arall.

- **Enillion a Cholledion Actiwaraid:** Newidiadau yn y rhwymedigaeth bensiynau net oherwydd nad yw digwyddiadau'n cyd-fynd â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïau wedi diweddarau eu rhagdybiaethau, sy'n cael eu codi ar y gronfa bensiwn wrth gefn fel incwm a gwariant cynhwysfawr arall.
- **Cyfraniadau a Dalwyd i Gronfa Bensiwn Clwyd:** Arian parod a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau, nid yw'n cael ei gyfrif fel cost.

Darpariaethau Statudol

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn gofyn bod y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn yn cael ei godi ar falans y Gronfa Gyffredinol, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Mae hyn yn golygu bod trosglwyddiadau'n digwydd i mewn i'r gronfa bensiynau wrth gefn ac allan ohoni i ddileu'r debydau a chredydau tybiedig ar gyfer buddion ymddeol â'u disodli â debydau am yr arian a delir i'r gronfa bensiynau a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans negyddol yn y gronfa bensiynau wrth gefn yn mesur yr effaith fuddiol i'r Gronfa Gyffredinol o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach nag wrth i weithwyr ennill buddion.

Mae Safon Cyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 19 yn llywodraethu sut y dylid adrodd ar y rhwymedigaethau hirdymor sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru a Lloegr gynhyrchu eu datganiadau ariannol yn unol ag IAS19.

Buddion Disgresiynol

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddion ymddeol yn ôl ei ddisgresiwn os bydd gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Caiff unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod o ganlyniad i ddyfarniad o'r fath eu cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a'u cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau ag sy'n berthnasol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

7. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Digwyddiadau ar ôl cyfnod adrodd y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad terfynu'r Fantolen a'r dyddiad pan gaiff y datganiad cyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu dosbarthu'n ddau fath:

- **Digwyddiadau sy'n Darparu Tystiolaeth o Amodau ar Ddiwedd y Cyfnod Adrodd** – Os yw'r digwyddiad yn rhoi tystiolaeth o amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd, caiff y datganiad cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath
- **Digwyddiadau sy'n Nodi Amodau a Gododd ar ôl y Cyfnod Adrodd** - Os yw'r digwyddiad yn nodi amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd, ni fydd y datganiad cyfrifon yn cael ei addasu. Fodd bynnag, pe bai'r digwyddiadau hyn yn cael effaith sylweddol, caiff eu natur a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig eu datgelu yn y nodiadau.

8. OFFERYNNAU ARIANNOL

Diffinnir Offeryn Ariannol fel 'unrhyw gontract sy'n creu ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i un arall'.

Mesur Cychwynnol a Swm Cario:

- **Rhwymedigaethau Ariannol (Benthyciadau):** Wedi'u mesur i ddechrau ar werth teg a'u cario ar gost amorteiddio. Mae'r llog blyneddol a delir yn seiliedig ar swm cario'r benthyciad wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol.
- **Asedau Ariannol (Buddsoddiadau):** Wedi'u mesur i ddechrau ar werth teg a'u cario ar gost amorteiddio. Mae'r llog blyneddol a dderbynnir yn seiliedig ar swm cario'r benthyciad wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol.

Ar gyfer yr holl fenthyciadau a buddsoddiadau, y symiau a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n weddill ynghyd ag unrhyw log cronedig am y flwyddyn.

Cydnabod a Mesur

- **Rhwymedigaethau Ariannol:** Yn cael eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol. Wedi'u mesur i ddechrau ar werth teg a'u cario ar gost amorteiddio. Mae taliadau blyneddol am log sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n disgowntio taliadau arian parod amcangyfrifedig y dyfodol yn union dros oes yr offeryn i'r swm a oedd yn berthnasol pan gafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan yr Awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Asedau ariannol

Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu ar sail dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r Awdurdod yn dal asedau ariannol a fesurir ar sail:

- Cost wedi'i Hamorteiddio
- Gwerth Teg Drwy Elw neu Golled (FVPL)

Model busnes yr Awdurdod yw dal buddsoddiadau er mwyn casglu llif arian cytundebol, felly caiff asedau ariannol eu dosbarthu fel costau wedi'u hamorteiddio.

Asedau ariannol a fesurir ar sail cost wedi'i hamorteiddio

Caiff asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol. Maent yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg.

Wedi hynny fe'u mesurir ar sail eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer llog derbyniadwy yn seiliedig ar swm cario'r ased wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau ariannol sydd gan yr Awdurdod, y swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig), a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi o ddatgydnabod ased ariannol yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

9. TRAFODION ARIAN TRAMOR

Pan fydd yr Awdurdod yn ymrwymo i drafodiad mewn arian tramor, caiff y trafodiad ei drosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid ar y dyddiad y mae'n digwydd. Os oes symiau mewn arian tramor sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn, maent yn cael eu haildrosi ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar 31 Mawrth. Caiff unrhyw enillion neu golledion sy'n deillio o hyn eu cydnabod yn llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

10. CYFRIFO AM GRANTIAU'R LLYWODRAETH

Caiff grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti eu cydnabod fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol y bydd:

- yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r taliadau, ac
- y bydd y grantiau neu'r cyfraniadau yn cael eu derbyn.

Cydnabod: Ni chaiff symiau sy'n cael eu cydnabod fel rhai sy'n ddyledus eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr nes bod yr amodau sydd ynghlwm â'r grant neu'r cyfraniad wedi'u bodloni.

Amodau heb eu Bodloni: Caiff arian a gafwyd fel grantiau a chyfraniadau nad yw'r amodau wedi'u bodloni ar eu cyfer eu cario yn y Fantolen fel credydwy'r.

Amodau wedi'u Bodloni: Lle bodlonir yr amodau, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i'r llinell wasanaeth berthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw y gellir eu priodoli) neu Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol (ar gyfer grantiau refeniw heb eu neilltuo a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei roi yn y Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio. Lle mae wedi'i ddefnyddio, caiff ei roi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Caiff symiau yn y Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf pan fyddant wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

11. ASED AU ANNIRIAETHOL

Caiff gwariant ar asedau anariannol sydd heb sylwedd ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod o ganlyniad i ddigwyddiadau'r gorffennol, ee trwyddedau meddalwedd, ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Awdurdod.

Mae asedau anniriaethol yn cael eu mesur i ddechrau ar gost. O dan y Cod Ymarfer diwygiedig, sy'n effeithiol o 1 Ebrill 2025, ni ellir ailbrisio asedau anniriaethol mwyach. Yn unol â'r Cod, rhaid i'r holl asedau anniriaethol gael eu cadw ar gost hanesyddol ddibrisiant, gan fod y model ailbrisio wedi'i dynnu'n ôl. Nid yw'r Awdurdod yn dal unrhyw asedau anniriaethol sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ailbrisio o dan y cod blaenorol; felly, nid oes unrhyw effeithiau trosiannol sy'n deillio o'r newid hwn ar gyfer 2025/26.

Bydd swm dibrisiedig ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros gyfnod ei oes ddefnyddiol i'r llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae ased yn cael ei brofi am amhariad pryd bynnag y mae arwydd o amhariad posibl. Caiff unrhyw golledion a gydnabyddir eu postio i'r llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion sy'n codi ar ôl gwaredu neu adael ased anniriaethol yn cael eu postio i'r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fydd gwariant ar asedau anniriaethol yn cyfrif fel gwariant cyfalaf at ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amharu ac enillion a cholledion gwaredu effeithio ar falans y Gronfa Gyffredinol. Caiff yr enillion a'r colledion hyn eu gwrthdroi o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u postio i'r cyfrif addasu cyfalaf. Ar gyfer unrhyw enillion gwerthu sy'n fwy na £10,000, mae'r symiau'n cael eu postio i'r gronfa derbyniadau cyfalaf

12. RHESTRAU STOC

Mae rhestrau stoc wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail pa bynnag un sydd isaf, y gost ynteu'r gwerth gwiredadwy net. Caiff cost rhestrau stoc ei phennu gan ddefnyddio'r fformiwla costio 'y Cyntaf i Mewn, y Cyntaf Allan' (FIFO).

13. PRYDLESI

Mae'r Awdurdod yn cymhwyso IFRS 16 Prydlesi ac yn cydnabod y rhan fwyaf o brydlesi ar y Mantolen ar ffurf asedau hawl defnydd (ROU) a rhwymedigaethau prydles cyfatebol. Mae hyn yn adlewyrchu hawl yr Awdurdod i ddefnyddio asedau ar brydles a'r rhwymedigaeth i wneud taliadau prydles dros dymor y les.

Mae prydlesi yn cael eu hasesu ar y dechrau i benderfynu a yw contract yn cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased a nodwyd yn gyfnewid am gydnabyddiaeth. Pan fo contract yn cynnwys tir ac adeiladau, mae pob elfen yn cael ei asesu ar wahân yn unol â'r Cod.

Cyfrifyddu Lesddeiliaid

Mae asedau ROU yn cael eu cydnabod ar werth rhwymedigaeth y les, wedi'u haddasu ar gyfer unrhyw ragdaliadau prydles, costau uniongyrchol cychwynnol neu rwymedigaethau i adfer y safle, a'u lleihau gan unrhyw gymhellion prydles. Mae rhwymedigaethau prydles yn cael eu mesur ar werth presennol taliadau prydles yn y dyfodol, wedi'u disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog ymhlwg yn y les, neu gyfradd fenthycia cynyddol yr Awdurdod lle na ellir pennu hyn yn hawdd.

Mae taliadau prydles yn cynnwys taliadau sefydlog, taliadau sefydlog yn y sylw, Symiau o dan warantau gwerth sy'n weddill, taliadau o dan opsiynau y mae'r Awdurdod yn weddol sicr o'u harfer, ac unrhyw gosbau am derfynu'n gynnar. Mae asedau ROU yn cael eu mesur wedyn gan ddefnyddio model cost IFRS 16.

Eithriad prydles cost isel: Mae'r eithriad cost isel wedi'i osod ar £10,000, yn unol â'r lefel gwariant de minimis ar gyfer Eiddo, Offer ac Offer. Bydd prydlesi islaw'r gwerth hwn yn cael eu heithrio o IFRS16.

Eithriad prydles tymor byr: Mae prydlesi sydd â thymor prydles o 12 mis neu lai ar y dyddiad cychwyn, ac nad ydynt yn cynnwys opsiwn prynu, yn cael eu trin fel prydlesi tymor byr. Pan gymhwysir yr eithriad hwn, mae prydlesi o'r fath wedi'u heithrio o gydnabyddiaeth IFRS 16, gyda thaliadau prydles yn cael eu codi ar wariant ar sail syth dros gyfnod y les.

Eithriad asedau anniriaethol: Nid yw IFRS 16 yn gymwys i brydlesi asedau anniriaethol (e.e., trwyddedau meddalwedd), sy'n parhau i gael eu cyfrif o dan y polisïau asedau anniriaethol perthnasol.

Defnyddio portffolio o brydlesi sydd â nodweddion rhesymol debyg: Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r portffolio sy'n fuddiol ar gyfer llungopiŵyr a pheiriannau tebyg (e.e., MFDs, peiriannau ffrancio). Mae gan y prydlesi hyn nodweddion tebyg o ran swyddogaeth, cost a chytundebau, a byddant yn dod o fewn yr eithriad cost isel.

Dibrisiant a Llog

Mae asedau ROU yn cael eu dibrisio dros y byrraf o oes ddefnyddiol yr ased neu dymor y les. Rhennir taliadau prydles rhwng tâl cyllid a gydnabyddir yn y CIES, a gostyngiad yn yr atebolrwydd les.

Mae gofynion cyfrifyddu cyfalaf yn berthnasol yn yr un modd ag ar gyfer asedau cyfredol sy'n eiddo iddynt. Mae addasiadau statudol yn sicrhau nad yw dibrisiant a thaliadau llog yn effeithio ar y Gronfa Gyffredinol, yn lle hynny gan gofnodion cyllido statudol.

Trefniadau Eraill sy'n Cynnwys Prydles

Gall trefniadau nad ydynt yn gyfreithiol yn gyfreithiol fod o fewn cwmpas IFRS 16 os ydynt yn rhoi rheolaeth dros y defnydd o ased a nodwyd. Mae trefniadau o'r fath yn cael eu hadolygu a'u cyfrif yn gyson ag egwyddorion IFRS 16.

Prydlesi Cyllid (Llesddeiliad)

Mae prydles yn cael ei dosbarthu fel prydles gyllid lle mae'n trosglwyddo'n sylweddol holl risgiau a gwobrau perchnogaeth. Mewn achosion o'r fath, cydnabyddir yr ased a'r rhwymedigaeth ar yr isaf o werth teg neu werth presennol isafswm taliadau prydles. Codir dibrisiant dros gyfnod y brydles oni bai bod perchnogaeth yn trosglwyddo i'r Awdurdod. Mae cyfrifyddu prydles gyllid yn dilyn yr un egwyddorion â'r model ROU ar gyfer dibrisiant, lleihau atebolrwydd a chydabyddiaeth llog.

Yn hytrach na chodi ardoll ar gyfer dibrisiant neu golledion amhariad, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniad refeniw blynyddol tuag at y buddsoddiad cyfalaf, yn unol â gofynion statudol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu trwy addasiad rhwng y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Yr Awdurdod fel Leswr

Bydd Prydlesi Cyllid Asedau a waredir o dan brydlesi cyllid yn cael eu hysgrifennu allan o'r Mantolen a swm a gydnabyddir yn y Mantolen fel dyledwr derbyniadwy sy'n adlewyrchu'r buddsoddiad net yn y les fel y'i diffinnir gan y safon gyfrifyddu briodol.

Bydd elfen gyfalaf unrhyw rent sy'n ddyledus o dan les gyllid yn cael ei gyfrif fel derbynneb cyfalaf, ac mae'r dyledwr a'r rhwymedigaeth gyfatebol yn cael eu hysgrifennu i lawr gan y swm hwnnw. Bydd yr elfen gyllid yn cael ei thrin fel incwm refeniw.

14. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Mae asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol yn cael eu dosbarthu'n Eiddo, Peiriannau, ac Offer.

Cydnabod

Caiff gwariant ar gaffael, creu, neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y manteision economaidd neu'r potensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r eitem yn y dyfodol yn llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur y gost yn ddibynadwy. Bydd gwariant sy'n cynnal ond nid yn ychwanegu at botensial yr ased (e.e. atgyweirio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul wrth iddo ddiwydd.

Mae lefel gwariant de-minimis o £10,000 wedi'i gosod ar gyfer Eiddo, Peiriannau, ac Offer. Ni fydd gwariant o dan y lefel hon yn ddarostyngedig i ofynion cyfrifyddu cyfalaf. Os caiff ased ei ailbrisio o dan £10,000, bydd unrhyw wariant a dibrisiant cysylltiedig yn cael ei ysgrifennu allan, a bydd yr ased yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Asedau Sefydlog.

Mesur

Mae asedau'n cael eu mesur i ddechrau ar gost, sy'n cynnwys y pris prynu, unrhyw gostau sy'n angenrheidiol i ddod â'r ased i'w leoliad a'i gyflwr arfaethedig, ac amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu ac adfer safle. Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthyca sy'n codi tra bo asedau'n cael eu hadeiladu. Ystyrir mai cost yr asedau sy'n cael eu caffael rywfodd heb eu prynu yw eu gwerth teg.

Mae asedau'n cael eu cario ar y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- Tir ac Adeiladau: Swyddfeydd/Gweithdai – gwerth cyfredol (Gwerth Defnydd Presennol)
- Tir ac Adeiladau: Gorsafoedd Tân – gwerth cyfredol (Cost Amnewid Ddibrisiedig)
- Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- Yr holl asedau eraill – gwerth cyfredol, wedi'i bennu fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (Gwerth Defnydd Presennol).

Lle nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth cyfredol oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewid ddibrisiedig (DRC) i amcangyfrif ei werth cyfredol. Mewn perthynas ag asedau heb fod yn eiddo sydd â bywydau defnyddiol byr neu werth isel, defnyddir cost hanesyddol ddibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth cyfredol.

Mynegeio Eiddo, Peiriannau ac Offer

Mae'r Awdurdod yn cymhwyso mynegeio i Eiddo, Offer ac Offer perthnasol er mwyn cadw gwerthoedd asedau yn gywir rhwng prisiadau ffurfiol, yn unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC. Mae mynegeio yn diweddarau gwerthoedd mewn blynyddoedd heb ailbrisio llawn fel bod y Mantolen yn parhau i adlewyrchu'r gwerth cyfredol, ond nid yw'n disodli'r gofyniad am ailbrisiadau llawn o fewn y cylch pum mlynedd na'r angen i asesu

asedau ar gyfer amhariad posibl. Disgwylir i'r ailbrisio llawn nesaf ar gyfer y dosbarthiadau asedau perthnasol ddigwydd yn 2027/28.

Mae mynegeoio yn cael ei gymhwyso'n flynyddol i asedau a fesurir ar werth cyfredol, gan gynnwys Swyddfeydd a Gweithdai (wedi'u prisio yn ôl Gwerth Defnydd Presennol), Gorsafoedd Tân a thyrau hyfforddi (wedi'u prisio gan ddefnyddio Cost Amnewid Dibrisiant) a Thir. Mae'r Awdurdod yn defnyddio mynegeion allanol cydnabyddedig wedi'u halinio â RICS a chanllawiau prisio'r sector cyhoeddus, gyda ffactorau addasu yn cael eu hadolygu ochr yn ochr â phrisiwr yr Awdurdod.

Mae'r mynegai yn cael ei gymhwyso i'r Gwerth Llyfr Net Agoriadol (NBV) ar 1 Ebrill i gynhyrchu swm cario wedi'i ddiweddarau cyn dibrisiant. Mae cynnydd mewn gwerth yn cael ei gredydu i'r Gronfa Ailbrisio oni bai eu bod yn gwrthdroi colledion cynharach a godwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES). Mae gostyngiadau yn cael eu codi yn erbyn unrhyw balans Ailbrisio wrth gefn sydd ar gael ar gyfer yr ased, gydag unrhyw ostyngiad pellach yn cael ei gydnabod yn y CIES. Mae hyn yn sicrhau triniaeth gyson gydag ailbrisiadau llawn ac addasiadau nam.

Dim ond lle mae'r newid sy'n deillio o hynny yn sylweddol y cymhwysir mynegeoio. Os yw mynegeion yn dangos anwadalrwydd anarferol neu nad ydynt yn adlewyrchu categori asedau yn briodol, gellir cwblhau adolygiad prisio yn lle hynny. Pan fo dangosyddion nam yn bodoli, cynhelir adolygiad nam ar wahân waeth beth fo'r mynegeoio.

Mae dibrisiant yn seiliedig ar y NBV mynegeoio. Ar gyfer adeiladau cydrannol, dyrennir mynegeoio yn gymesur ar draws pob cydran fel bod cyfanswm y gwerth mynegeoio yn adlewyrchu'r cynnydd yn NBV Agoriadol yr ased.

Wrth gymhwyso mynegeoio, caiff yr Awdurdod brosesu'r addasiad naill ai drwy ailddatgan y gost gros a'r dibrisiant cronedig, neu drwy ddileu dibrisiant cronedig gydag addasiad cyfatebol i'r swm cario gros. Caniateir y ddau ddull o dan y Cod.

O dan y dull ail-ddatgan cyfrannol, mae'r Awdurdod yn diweddarau gwerthoedd asedau drwy uwchraddio'r swm cario gros a'r dibrisiant cronedig yn gymesur fel bod y symudiad mynegiedig yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws holl gydrannau'r ased. Mae'r dull hwn yn cadw'r berthynas bresennol rhwng cost gros a dibrisiant cronedig, gan sicrhau bod y Gwerth Llyfr Net mynegiedig yn cael ei gyflawni heb ddileu dibrisiant blaenorol. Mae hefyd yn cynnal parhad yn y proffil dibrisio ac yn gyson â'r egwyddorion ar gyfer mesur dilynol.

Amhariad

Mae asedau'n cael eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ar gyfer arwyddion o amhariad. Os oes arwyddion a bod y gwahaniaethau'n sylweddol, amcangyfrifir y swm y gellir ei adennill o'r ased. Os yw hyn yn llai na'r swm cario, cydnabyddir colled amhariad am y diffyg.

Mae colledion amhariad yn cael eu cyfrif trwy ostwng swm cario'r ased yn erbyn unrhyw enillion ailbrisio yn y gronfa ailbrisio wrth gefn (hyd at swm yr enillion cronedig). Os nad oes gweddill yn y gronfa ailbrisio wrth gefn neu os nad oes gweddill digonol, bydd swm

cario'r ased yn cael ei ostwng yn erbyn y llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Os caiff colled amhariad ei gwrthdroi wedyn, caiff hynny ei gredydu i'r llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer y dibrisiant y byddid wedi codi amdano pe na bai'r golled wedi cael ei chydabod.

Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Peiriannau, ac Offer trwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy'n systematig dros eu hoes ddefnyddiol. Mae oes economaidd ddefnyddiol asedau fel a ganlyn

Tir	Diddiwedd (dim dibrisiant)
Adeiladau	Oes ddefnyddiol yr eiddo (yn ôl amcangyfrif y prisiwr)
Adeiladau (a lesir)	Tymor y les
Cerbydau, Peiriannau ac Offer	5 - 20 mlynedd
Asedau Anniriaethol	5 mlynedd

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth, gyda chaffaeliadau'n cael eu dibrisio yn y flwyddyn ar ôl eu prynu. Codir am ddibrisiant blwyddyn gyfan yn ystod y flwyddyn waredu. Mae adeiladau'n cael eu dibrisio trwy eu rhannu'n gydrannau, gan amcangyfrif oes ddefnyddiol holl gydrannau'r adeilad, a defnyddir cyfartaledd wedi'i bwysoli i gyfrifo'r tâl blyneddol. Y canrannau a ddefnyddir yw:

Adeiladau – gorsafoedd tân	2.05% - 2.22%
Adeiladau – swyddfeydd/gweithdai	1.98% - 2.15%

Codir am ddibrisiant o fewn y cyfrif incwm a gwariant. Mae'r swm hwn yn cael ei gredydu i Falans y Gronfa Gyffredinol ac mae'n cael effaith niwtral ar y cyfraniadau a wneir gan yr awdurdodau cyfansoddol. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud cyfraniad blyneddol o'i referniw tuag at ostwng ei ofyniad benthyca cyffredinol.

Caiff dibrisiant, ailbrisio, a cholledion amhariad ac amorteiddiad eu disodli gan y cyfraniad hwn o Falans y Gronfa Gyffredinol (MRP), trwy drafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae enillion ailbrisio hefyd yn cael eu dibrisio, gyda'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth cyfredol a dibrisiant cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r cyfrif addasu cyfalaf.

Gwaredu

Pan fydd yn debygol y bydd swm cario'r ased yn cael ei adennill yn bennaf trwy drafodiad gwerthu yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu'n ased sy'n cael ei ddal i'w werthu. Caiff yr ased ei ailbrisio'n union cyn ei ailddosbarthu a'i gario wedyn ar ba bynnag un sydd isaf, y swm hwn neu'r gwerth teg, llai costau gwerthu. Caiff gostyngiadau dilynol i'r gwerth teg llai costau gwerthu eu postio i'r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd swm unrhyw golledion cydnabyddedig blaenorol yn y gwarged neu'r diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau y bydd enillion o ran gwerth teg yn cael eu cydnabod Ni chodir am ddibrisiant ar asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu.

Pan fydd ased yn cael ei waredu neu ei ddatgomisiynu, caiff swm cario'r ased yn y Fantolen ei ddileu a'i nodi ar y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu'r golled wrth waredu. Mae derbyniadau o warediadau yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu'r golled wrth waredu. Bydd unrhyw enillion ailbrisio a gronnwyd ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio wrth gefn yn cael eu trosglwyddo i'r cyfrif addasu cyfalaf.

Mae symiau o fwy na £10,000 a dderbynnir am waredu yn cael eu dosbarthu'n dderbyniadau cyfalaf. Bydd balans y derbyniadau'n aros yn y gronfa derbyniadau cyfalaf a dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y gellir ei ddefnyddio, neu ei roi o'r neilltu i leihau angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthycu. Caiff derbyniadau eu priodoli i'r gronfa wrth gefn o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Nid yw gwerth gwarediadau a ddilëwyd yn dâl yn erbyn yr ardoll, gan y darperir yn llawn am gost asedau anghyfredol o dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Caiff symiau eu priodoli i'r cyfrif addasu cyfalaf o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

15. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU AMODOL AC ASEDAU WRTH GEFN

Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd ar ddyddiad y Fantolen neu ynghynt:

- sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfredol i'r Awdurdod
- y mae'n debygol y bydd angen ei setlo drwy drosglwyddiad buddion economaidd neu botensial gwasanaeth, a
- lle gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Os nad yw'n glir a yw digwyddiad wedi digwydd ar neu cyn dyddiad y Fantolen, caiff ei ystyried fel rhwymedigaeth gyfredol, os, ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yw'n fwy tebygol na pheidio bod rhwymedigaeth gyfredol yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Gall y rhwymedigaeth gyfredol fod yn gyfreithiol neu'n adeiladol.

Caiff tâl am ddarpariaethau ei godi fel traul ar y llinell wasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fydd gan yr Awdurdod rwymedigaeth. Maent yn cael eu mesur ar yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar

ddyddiad y Fantolen, gan ystyried risgiau ac ansicrwydd perthnasol. Bydd setliadau amcangyfrifedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Os daw'n llai tebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd (neu os gwneir setliad is na'r disgwyl), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Os disgwylir i ryw faint neu'r cyfan o'r taliad sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael ei adennill gan barti arall (e.e. trwy hawliad yswiriant), dim ond os yw fwy neu lai'n sicr y ceir ad-daliad os bydd yr Awdurdod yn setlo'r rhwymedigaeth y bydd yn cael ei gydnabod fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol.

Rhwymedigaethau Dibynnol

Bydd rhwymedigaeth ddibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi bod sy'n rhoi'r Awdurdod o dan rwymedigaeth bosibl, a fydd yn cael ei gadarnhau dim ond os bydd digwyddiadau yn y dyfodol, nad oes unrhyw sicrwydd yn eu cylch ac nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod, yn digwydd neu ddim yn digwydd. Bydd rhwymedigaethau dibynnol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth fel arall yn cael ei gwneud ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu nid yw'n bosibl mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy. Ni chaiff rhwymedigaethau dibynnol eu cydnabod yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau Dibynnol

Bydd ased dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi bod sy'n rhoi ased posibl i'r Awdurdod, a fydd yn cael ei gadarnhau dim ond os bydd digwyddiadau yn y dyfodol, nad oes unrhyw sicrwydd yn eu cylch ac nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod, yn digwydd neu ddim yn digwydd.

Ni chaiff asedau dibynnol eu cydnabod yn y Fantolen ond byddant yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth.

16. CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r Awdurdod yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisïau'r dyfodol neu i dalu am hapddigwyddiadau. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy drosglwyddo symiau allan o falans y Gronfa Gyffredinol. Pan fydd gwariant yn cael ei ariannu o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno, gan effeithio ar y gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff y gronfa wedyn ei throsglwyddo'n ôl i falans y Gronfa Gyffredinol, fel nad oes tâl net yn cael ei godi yn erbyn yr ardoll am y gwariant.

Cynhelir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, ymddeol, a buddion cyflogeion. Nid yw'r cronfeydd wrth gefn hyn yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy i'r Awdurdod ac maent yn cael eu hegluro yn y polisïau perthnasol.

17. TAW

Mae TAW sy'n daladwy wedi'i gynnwys fel traul, ond dim ond i'r graddau nas gellir ei adennill gan CThEF. Mae TAW derbyniadwy wedi'i eithrio o'r incwm.



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



Adroddiad i	Yr Awdurdod Tân ac Achub	
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026	
Swyddog Arweiniol	Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	
Swyddog Cyswllt	Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael	
Pwnc	Adroddiad Alldro Rheoli Trysorlys 2025/26	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am weithgarwch rheoli trysorlys ac am gydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2025 hyd at 31 Mawrth 2026.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Ym mis Rhagfyr 2003, mabwysiadodd yr Awdurdod God Ymarfer *Treasury Management in the Public Services* (2021) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo, fan lleiaf, adroddiadau alldro blynyddol ac adroddiadau hanner blwyddyn ynghylch rheoli trysorlys.
- 3 Roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i roi adroddiadau chwarterol ar y dangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u cynnwys yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.
- 4 Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2025/26 mewn cyfarfod ar 28 Ebrill 2025. Gan fod yr Awdurdod yn benthyca ac yn buddsoddi symiau sylweddol o arian, rhaid rhoi ystyriaeth i risgiau ariannol, gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith newid mewn cyfraddau llog ar refeniw. Mae nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn rhan ganolog o strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.
- 5 Yn ystod y flwyddyn, roedd lefelau benthyca a buddsoddi'r Awdurdod yn gyfforddus o fewn y terfynau a osodwyd yn wreiddiol. Ni chafwyd unrhyw ddifffygdlu newydd gan fanciau lle mae'r Awdurdod wedi adneuo arian.

ARSYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO

- 6 Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio Adroddiad Rheoli Trysorlys ar gyfer 2025/26 a chraffu arno yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin 2026. Nododd y Pwyllgor Archwilio y gweithgareddau a derbyniodd sicrwydd ar gydymffurfio â'r dangosyddion darbodus cymeradwy.

ARGYMHELLION

7 Gofynnir i'r Aelodau:

i) Cymeradwyo'r gweithgareddau rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.

CYD-DESTUN ALLANOL

- 8 Nodweddwyd y flwyddyn ariannol gan ansicrwydd byd-eang cynyddol, wedi'i ysgogi'n bennaf gan gyflwyno "Diwrnod Rhyddid" tariffau masnach yr Unol Daleithiau ym mis Ebrill 2025 a'r achosion o wrthdaro rhwng yr Unol Daleithiau/Israel ac Iran ym mis Chwefror 2026. Roedd ymatebion cychwynnol y farchnad i'r tariffau yn negyddol; fodd bynnag, sefydlogodd yr amodau yn ystod y misoedd a ddilynodd gyda gwelliannau mewn marchnadoedd ecwiti a rhywfaint o lacio mewn arenillion bondiau. Yn y DU, amharwyd ar y sefydlogrwydd hwn gan bryderon parhaus ynghylch y rhagolygon economaidd a sefyllfa ariannol y llywodraeth, gan arwain at gynnydd mewn arenillion giltiau wrth i fuddsoddwyr geisio enillion uwch.
- 9 Roedd Cyllideb yr Hydref yn y DU yn llai helaeth nag a ragwelwyd, a roddodd rywfaint o sicrwydd i farchnadoedd. Cyfrannodd hyn at gyfnod o arenillion giltiau yn gostwng, chwyddiant yn cymedroli, a disgwyliadau uwch o ostyngiadau yng nghyfraddau llog Banc Lloegr (BoE). Cyn i'r tensiynau geo-wleidyddol gynyddu, roedd chwyddiant wedi bod ar lwybr tuag i lawr, gyda'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn 3% ym mis Chwefror 2026. Fodd bynnag, fe wnaeth y gwrthdaro amharu'n sylweddol ar y duedd hon, gan sbarduno cynnydd ym mhrisiau olew a nwyddau a chreu ansicrwydd newydd ynghylch rhagolygon chwyddiant.
- 10 Parhaodd twf economaidd yn y DU yn wan drwy gydol y cyfnod, gydag ond ychydig iawn o gynnydd chwarterol a dim twf wedi'i gofnodi ym mis Ionawr 2026. Dangosodd amodau'r farchnad lafur arwyddion o feddalwch, gyda chynnydd bach mewn diweithdra a lefelau cyflogaeth sefydlog. Er y disgwylir i bwysau chwyddiant gynyddu yn y tymor byr, mae amodau tawel y farchnad lafur yn debygol o gyfyngu ar dwf cyflogau, gan leihau'r risg o bwysau chwyddiant parhaus o enillion.
- 11 Daeth polisi ariannol yn fwyfwy ansicr wrth i'r flwyddyn fynd yn ei flaen. Cynhaliodd Banc Lloegr Gyfradd y Banc ar 3.75% yn dilyn gostyngiadau cynharach, gyda chyfeiriad polisi yn dibynnu ar y cydbwysedd esblygol rhwng chwyddiant a risgiau twf. Mabwysiadodd banciau canolog byd-eang ddulliau yr un mor ofalus: oeddodd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau newidiadau i gyfraddau ar ôl gostyngiadau cynharach, gan arwyddo toriadau posibl yn y dyfodol, a chadwodd Banc Canolog Ewrop gyfraddau wrth adolygu ei ragolygon i adlewyrchu risgiau chwyddiant uwch a rhagolygon twf gwannach. Mae'r disgwyliadau cyfredol yn awgrymu y gallai cyfraddau llog aros yn sefydlog yn y tymor byr, gyda newidiadau posibl i fyny neu i lawr yn dibynnu ar ddatblygiadau economaidd.

- 12 Parhaodd marchnadoedd ariannol yn anwadal trwy gydol y flwyddyn. Ar ôl adferiad cychwynnol o ostyngiadau sy'n gysylltiedig â thariffau, gostyngodd marchnadoedd ecwiti yn sydyn tuag at ddiwedd y flwyddyn oherwydd y gwrthdaro geo-wleidyddol, gyda mynegeion y DU yn gostwng yn sylweddol. Profodd arenillion bondiau amrywiadau nodedig, ac er bod amodau credyd yn tynhau yn ystod cyfnodau o straen, roedd dangosyddion allweddol yn parhau i fod o fewn terfynau derbyniol. Disgwylir anwadalrwydd parhaus, a bydd risg credyd yn parhau i gael ei fonitro'n agos yn unol ag arferion rheoli trysorlys.

CYD-DESTUN LLEOL

- 13 Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan yr Awdurdod fenthyciadau net o £15.76m yn deillio o wariant cyfalaf. Mae'r angen sylfaenol i fenthycia at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu crynhoi yn [Nhabl 1](#) isod.

Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen

	31.03.25 Gwirioneddol £m	31.03.26 Gwirioneddol £m
CFR y Gronfa Gyffredinol	31.01	26.86
Benthycia allanol	-19.07	-15.76
Benthycia mewnol	11.94	11.10
Llai: Adnoddau mantolen	-14.46	-14.46
Llai: Buddsoddiadau Newydd	2.52	3.36
Benthycia newydd	0.00	0.00

- 14 Mae Tabl 1 yn cadarnhau bod benthyciadau net yr Awdurdod yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Dangosir y sefyllfa rheoli trysorlys ar 31 Mawrth a'r newid yn ystod y flwyddyn yn [Nhabl 2](#) isod.

Tabl 2: Crynodeb Rheoli Trysorlys

	31.3.25 Balans £m	Symudiad £m	31.03.26 Balans £m	31.03.26 Cyfradd %
Benthycia hirdymor	8.46	3.22	11.68	2.81 - 4.80
Benthycia byrdymor	10.61	-6.53	4.08	2.81 - 6.35
Cyfanswm y benthycia	19.07	-3.31	15.76	
Buddsoddiadau byrdymor	0.00	0.00	0.00	
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	-2.52	-1.10	-3.62	3.00 - 3.51
Cyfanswm y buddsoddiadau	-2.52	-1.10	-3.62	
Benthycia net	16.55	-4.41	12.14	

STRATEGAETH A GWEITHGARWCH BENTHYCA

- 15 Yn unol â'r strategaeth trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca yw mabwysiadu strategaeth risg isel, gan gydbwysu costau llog isel a chael sicrwydd cost trwy gydol y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Ail nod yw sicrhau hyblygrwydd i aildrafod benthyciadau pe bai cynlluniau hirdymor yr Awdurdod yn newid. Mae strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i ymdrin â mater allweddol fforddiadwyedd, a hynny heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyled.
- 16 Cyfradd sicrwydd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 10 mlynedd oedd 5.38% ar ddechrau'r cyfnod a 5.72% ar y diwedd. Y gyfradd sicrwydd aeddfedrwydd 10 mlynedd isaf ar gael oedd 5.13% a'r uchaf oedd 5.88%. Roedd y cyfraddau ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 20 mlynedd yn amrywio o 5.71% i 6.37% yn ystod y cyfnod, a benthyciadau aeddfedrwydd 50 mlynedd yn amrywio rhwng 5.46% a 6.24%. Mae cost benthyca tymor byr gan awdurdodau lleol eraill wedi bod yn debyg i neu ychydig yn uwch na'r Gyfradd Sylfaenol am y rhan fwyaf o'r cyfnod, gyda chyfraddau llog rhwng 4.0% a 4.5%. Fodd bynnag, fel y gwelir yn gyffredin, cododd cyfraddau'n uwch tua diwedd y flwyddyn ariannol, gyda chyfraddau o 5.0% - 7.0% yn cael eu gweld.
- 17 Mae Cod Darbodus CIPFA 2021 yn amlinellu'r ffaith na ddylai awdurdodau lleol fenthyca er mwyn buddsoddi gyda'r nod pennaf o elwa'n ariannol. Nid yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf ac yn arwain at fenthyciadau newydd, oni bai ei fod yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r Awdurdod.
- 18 Nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw ariannol, ac mae'r holl wariant yn gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.
- 19 Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan yr Awdurdod £15.76m o fenthyciadau, gostyngiad o £3.31m o'i gymharu â 31 Mawrth 2025. Darperir crynodeb o'r benthyciadau sy'n weddill ar 31 Mawrth yn [Nhabl 3A](#) isod.

Tabl 3A: Sefyllfa o ran Benthyca

	31.3.25 Balans £m	Symudiad Net £m	31.03.26 Balans £m	31.03.26 Cyfradd Gyfartalog wedi'i Phwysoli %	31.03.26 Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli (blynyddoedd)
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus	14.073	-0.317	13.756	4.110	7.840
Awdurdodau lleol (tymor byr)	5.00	-3.00	2.000	6.350	0.067
Cyfanswm y benthyca	19.07	-3.317	15.756		

- 20 Cymerodd yr Awdurdod ddau fenthyciad tymor byr gan yr awdurdod lleol, £5M ym mis Rhagfyr 24 a ad-dalwyd ym mis Awst 25 a £2M ym mis Mawrth 26 i'w ad-dalu ym mis Ebrill 26. Cymerodd fenthyciadau pellach gyda'r PWLB, £2M ym mis Awst 25 i'w ad-dalu erbyn 2030, £1M ym mis Hydref 25 i'w ad-dalu erbyn 2035, £1M ym mis Ionawr 26 i'w ad-dalu yn 2033 a £1.5m ym mis Mawrth 26 i'w ad-dalu 2038. Mae pob benthyciad tymor byr arall gyda'r PWLB. Bydd angen benthycia pellach yn y flwyddyn 2026/27.

Tabl 3B: Benthyciadau hirdymor a fenthycwyd

	Swm £m	Cyfradd %	Cyfnod (Blynnyddoedd)
Benthyciad Aeddfedrwydd PWLB	2.00	4.80	27
Benthyciad EIP PWLB	0.55	3.09	12
Benthyciad EIP PWLB	3.89	3.91	15
Benthyciad EIP PWLB	0.90	4.80	10
Benthyciad EIP PWLB	0.86	4.58	7
Benthyciad EIP PWLB	1.38	4.80	12
Benthyciad EIP PWLB	0.30	2.81	2
Benthyciad EIP PWLB	0.40	4.31	3
Benthyciad EIP PWLB	1.40	4.61	4
Cyfanswm y benthycia	11.68		

- 21 Nid yw penderfyniadau benthycia'r Awdurdod yn cael eu seilio ar unrhyw ganlyniad unigol o ran cyfraddau llog, ac mae'n ceisio cynnal portffolio cytbwys o fenthycia byrdymor a hirdymor.

GWEITHGARWCH BUDDSODDI RHEOLI TRYSORLYS

- 22 Mae Cod Rheoli Trysorlys CIPFA bellach yn diffinio buddsoddiadau rheoli trysorlys fel y buddsoddiadau hynny sy'n codi o lif arian yr Awdurdod neu weithgarwch rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi hyd nes y bydd angen yr arian parod i'w ddefnyddio ar gyfer y busnes.
- 23 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y flwyddyn, roedd balansau buddsoddi'r Awdurdod yn amrywio rhwng £0.63m ac £13.73m. Mae'r sefyllfa fuddsoddi yn cael ei dangos yn [Nhabl 4](#) isod.

Tabl 4: Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys

	31.3.25		31.03.26	31.03.26	31.03.26
	Balans	Symudiad Net	Balans	Adenillion Incwm	Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli
	£m	£m	£m	%	dyddiau
Banciau a chymdeithasau adeiladu	2.52	1.10	3.62	3.00-3.51	Ar alwad
Cyfnod Penodol					
Llywodraeth Ganolog					
Cyfanswm y buddsoddiadau	2.52	1.10	3.62		

- 24 Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei arian yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd enillion neu incwm orau bosibl. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw cael y cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdlu a'r risg o gael incwm buddsoddi anaddas o isel.
- 25 Fel y mae'r meincnod atebolrwydd yn yr adroddiad hwn yn ei ddangos, mae'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor, ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.
- 26 Daeth Cyfradd y banc i lawr o 4.5% i 4.25% ym mis Mai, ac yna bu gostyngiad pellach i 4.00% yn Awst 2025 ac i 3.75% yn Rhagfyr 2025. Mae'r cyfraddau llog tymor byr wedi dilyn y lefelau hyn ar y cyfan. Roedd y cyfraddau ar adneuo DMADF yn amrywio rhwng 3.95% a 3.70% a chyfraddau'r farchnad arian rhwng 3.51% a 4.34%.

CYDYMFFURFIAETH

- 27 Mae'r holl weithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi cydymffurfio â'r egwyddorion yn y Cod Rheoli Trysorlys ac yn Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, fel y'i cymeradwywyd. Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ddau gyfrif galwadau sy'n cael eu defnyddio i osod adneuo tymor byr, gyda Lloyds Bank a Barclays Bank. Mae'r cyfraddau llog sy'n cael eu cynnig ar adneuo trysorlys yn tueddu i fod yn fwy ffafriol; fodd bynnag, cadwyd adneuo gyda Lloyds a Barclays yn ystod y cyfnod oherwydd y gofyniad hylifedd ar gyfer prynu'r tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd.
- 28 Mae'r awdurdod hefyd yn defnyddio ei gyfrif gyda'r Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO), gan nad yw'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn rhoi cyfyngiad ar faint o arian y gellir ei roi i'r DMO.

29 Dangosir cydymffurfiaeth â therfynau buddsoddi penodol yn [Nhabl 5](#) isod.

Tabl 5: Terfynau Buddsoddi

Sefydliad	Disgrifiad	Terfyn	30.09.25 Gwirioneddol	Wedi cydymffurfio? Do/Naddo
Banciau	Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â sgoriau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel hirdymor (BBB) ar hyn o bryd.	£5m	£3.62m	do
Llywodraeth Ganolog	Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO)	Diderfyn	0	do
Cronfeydd Marchnad Arian (MMF)	Dim ond ar y cyd â chyngor ar gyfer Arlingclose.	£1m fesul cronfa	0	do
Awdurdodau Lleol	Pob un ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a phraeseptau dan Ran 1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992	£2m	0	do
Cymdeithasau Adeiladu	Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio)	£2m	0	do
Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn)	Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1 biliwn neu fwy.	£2m/9 mis	0	do

30 Dangosir Cydymffurfiaeth â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn [Nhabl 6](#) isod.

Tabl 6: Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol

	31.03.26 Gwirioneddol £m	Ffin Weithredol 2025/26 £m	Terfyn Awdurdodedig 2025/26 £m	Wedi cydymffurfio?
Benthycia	15.756	28.99	30.99	Ia
Cyfanswm y ddyled	15.756	28.99	30.99	

31 Gan fod y ffin weithredol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd achlysuron pan fydd y benthycia gwirioneddol yn fwy na'r targed hwn. Gallai hyn ddigwydd oherwydd amrywiadau yn y llif arian parod ac ni fyddai torri'r terfyn yn y byrdymor yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio.

DANGOSYDDION DARBODUS RHEOLI TRYSORLYS


32 Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Awdurdod yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol o ran rheoli trysorlys.

Meincnod Atebolrwydd

- 33 Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu benthyca gwirioneddol yr Awdurdod ar hyn o bryd yn erbyn meincnod atebolrwydd a gyfrifwyd i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod atebolrwydd yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i ddull o wneud penderfyniadau yn sgil hynny.
- 34 Mae'r dangosydd yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronol y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gynnal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol, gan gadw buddsoddiadau trysorlys ar y lefel isaf o £2.0m sy'n ofynnol i reoli llif arian parod o ddydd i ddydd.

	31.03.25 Gwirioneddol £m	31.03.26 Gwirioneddol £m	31.03.27 Rhagolwg £m	31.03.28 Rhagolwg £m
CFR Benthyciadau	31.01	26.86	39.50	46.40
Llai: Adnoddau mantolen	-14.46	-14.46	-17.50	-17.00
Gofyniad benthyciadau net	16.55	12.40	22.00	29.40
A: Lwfans hylifedd	2.00	2.00	2.00	2.00
Meincnod atebolrwydd	18.55	14.40	24.00	31.40
Benthyciadau presennol	-19.07	-15.76	-11.70	-9.90

- 35 Yn dilyn y rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod atebolrwydd hirdymor yn rhagdybio y bydd gwariant cyfalaf cronol yn cael ei ariannu drwy fenthyca £22.0 miliwn yn 2026/27, £29.4 miliwn yn 2027/28 a £33.3 miliwn yn 2028/29. Mae'r lleiafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar oes yr ased ar gyfer y dosbarth asedau ac incwm, gwariant a chronfeydd wrth gefn i gyd yn cynyddu gan chwyddiant o 2.5% y flwyddyn. Dangosir hyn yn y [siart isod](#) ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol yr Awdurdod.



- 36 Mae'r graff yn dangos bod angen i'r Awdurdod fenthycha yn y blynyddoedd i ddod. Bydd gan yr Awdurdod ofyniad benthycha trwy'r adeg gan nad oes ganddo arian parod na chronfeydd wrth gefn sylweddol a dim ond mynediad cyfyngedig sydd ganddo at gyllid grant cyfalaf.
- 37 Mae'r llinell las yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthycha (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf neu CFR). Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthycha unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a gwargedion (neu ddiffygion) cyfalaf gweithio wedi'u hystyried – mewn gwirionedd dyma'r gwir angen i fenthycha y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Atebolrwydd. Mae'r llinell goch doredig yn cynrychioli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'r llinell solet yn cynrychioli'r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r rhannau llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fydd y rhan lwyd yn gostwng o dan y llinellau coch, mae'n golygu bod angen benthycha.

Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau

- 38 Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd pob benthyciad oedd:

	31.03.26 Gwirioneddol	Terfyn Gwirioneddol	Terfyn Uchaf	Terfyn Isaf	Wedi Cydymffurfio? Do / Naddo
<12 mis	2.0	12.69%	60.00%	0.00%	Do
12 mis a <24 mis	1.7	10.79%	45.00%	0.00%	Do
24 mis a < 5 mlynedd	1.80	11.42%	45.00%	0.00%	Do
5 mlynedd a <10 mlynedd	2.00	12.69%	75.00%	0.00%	Do
>10 mlynedd	8.26	52.41%	100.00%	0.00%	Do

- 39 Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthycha yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hirdymor

- 40 Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau trysorlys hirdymor.

Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net

- 41 Er nad yw gwariant cyfalaf yn cael ei godi'n uniongyrchol ar y gyllideb refeniw, mae llog sy'n daladwy ar benthyciadau a'r Lleiafswm Darpariaeth Refeniw yn cael eu codi ar refeniw.
- 42 Gelwir y tâl blynyddol net yn gostau ariannu; mae hyn yn cael ei gymharu â'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a ariennir o'r Dreth Gyngor, trethi busnes a grantiau cyffredinol y llywodraeth.

	2024/25 gwirioneddol	2025/26 gwirioneddol	Cyllideb 2026/27	Cyllideb 2027/28
Costau ariannu (£m)	3.189	4.407	4.501	5.200
Cyfran y llif refeniw net	6.48%	9.36%	8.16%	9.2%

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae rheoli trysorlys effeithiol yn sail i amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod drwy sicrhau bod buddsoddiad cyfalaf mewn gorsafoedd, fflyd a seilwaith hyfforddi yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy. Mae cynnal cydymffurfiaeth â Chod Rheoli Trysorlys CIPFA yn cefnogi gwytnwch ariannol, gan alluogi'r Awdurdod i barhau i ddarparu gwasanaethau ymateb ac atal brys dros y tymor canolig a'r tymor hir.
Cyllideb	Mae rheoli trysorlys effeithiol yn sail i amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod drwy sicrhau bod buddsoddiad cyfalaf mewn gorsafoedd, fflyd a seilwaith hyfforddi yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy. Mae cynnal cydymffurfiaeth â Chod Rheoli Trysorlys CIPFA yn cefnogi gwytnwch ariannol, gan alluogi'r Awdurdod i barhau i ddarparu gwasanaethau ymateb ac atal brys dros y tymor canolig a'r tymor hir.
Cyfreithiol	Roedd yr holl weithgareddau benthyca a buddsoddi'n cydymffurfio â'r fframwaith statudol a gofynion Cod Rheoli Trysorlys CIPFA a'r Cod Darbodus.
Staffio	Dim goblygiadau staffio uniongyrchol sy'n deillio o'r adroddiad hwn.
Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/y Gymraeg	Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol o ran cydraddoldeb, hawliau dynol na'r Gymraeg yn deillio o'r adroddiad hwn.
Risgiau	Mae'r prif risgiau'n ymwneud ag anwadalrwydd cyfraddau llog, gofynion benthyca yn y dyfodol, a diogelwch cronfeydd a fuddsoddwyd. Caiff y risgiau hyn eu lliniaru drwy lynu wrth derfynau buddsoddi cymeradwy, dull gofalus sy'n blaenoriaethu diogelwch a hylifedd, a monitro gwrthbartion ac amodau'r farchnad yn rheolaidd. Mae'r meincnod rhwymedigaethau'n cadarnhau bod yr Awdurdod yn fenthyciwr hirdymor, gan atgyfnerthu pwysigrwydd gwaith rheoli trysorlys gweithredol parhaus a goruchwyliaeth gan aelodau.

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026	
Swyddog Arweiniol	Matt Powell, Dirprwy Glerc	
Swyddog Cyswllt	matthew.powell@flintshire.gov.uk	
Pwnc	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2025/26	

PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Cyflwyno Adroddiad Blynyddol (Adroddiad Blynyddol) y Pwyllgor Safonau i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys crynodeb o waith y Pwyllgor Safonau yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

3. Ni fydd yr Adroddiad Blynyddol, sef cofnod y Pwyllgor Safonau o'i weithgareddau ei hun dros y 12 mis diwethaf, yn cael ei ystyried gan y Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio.

GWYBODAETH

4. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi llunio adroddiad blynyddol ers ei sefydlu, ac ers 2021 mae hefyd wedi bod yn ddyletswydd statudol i lunio adroddiad o'r fath. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Safonau yn ystod y 12 mis diwethaf ac yn nodi unrhyw faterion sydd wedi codi.
5. Fe wnaeth y Pwyllgor Safonau gwrdd ar 14 Ebrill 2026, pan ystyriodd a chymeradwyodd adroddiad blynyddol am yr unfed tro ar hugain. Roedd yn cynnwys crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Safonau yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26 (1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026).
6. I grynhoi, yn ystod 2025/26-
 - i) Parhaodd y Pwyllgor Safonau i adolygu'r codau a'r protocolau o fewn y Cyfansoddiad.
 - ii) Mae'r Pwyllgor Safonau wedi ystyried canfyddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("PSOW"), yn ogystal ag adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac adroddiad blynyddol Panel Dyfarnu Cymru, i nodi unrhyw dueddiadau neu negeseuon defnyddiol y gellid eu cyfleu drwy'r clerc i aelodau'r Awdurdod Tân.

- iii) Roedd y Pwyllgor Safonau yn monitro presenoldeb aelodau ar ran yr awdurdod.
7. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau statudol i Awdurdodau Tân ac Achub mewn perthynas â safonau ymddygiad sy'n cynnwys canllawiau ar y materion sydd i'w cynnwys yn yr adroddiad blynyddol.
8. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru sydd, ymhlith pethau eraill, yn awgrymu ei bod yn arfer da i bwyllgorau safonau rannu eu hadroddiadau blynyddol gyda'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

ARGYMHELLION

- i) Bod yr Awdurdod yn derbyn ac yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/26.
- ii) Bod y Clerc neu'r Dirprwy Glerc yn rhoi copi o'r Adroddiad Blynyddol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

ATODIADAU

- Yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/26.
- Canllawiau Llywodraeth Cymru

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Ystyrir nad yw'n berthnasol
Cyllideb ar gyfer 2024/25	Gellir cynhyrchu'r adroddiad blynyddol o fewn y gyllideb. Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth.
Cyfreithiol	Mae gan y Pwyllgor Safonau ddyletswydd o dan adran 63 Deddf Llywodraeth Leol 2021 i gynhyrchu adroddiad blynyddol, y mae'n rhaid i'r awdurdod tân ei ystyried o fewn 3 mis i'w dderbyn.
Staffio	Ystyrir nad yw'n berthnasol
Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg	Cynhyrchir adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau mewn fformat dwyieithog
Risgiau	Dylai gwaith y Pwyllgor Safonau a ddisgrifir yn ei adroddiad blynyddol helpu i leihau'r risg y bydd Aelodau'r Awdurdod yn ymddwyn mewn modd sy'n anghyson â'r cod ac felly ag arfer gorau.

Adroddiad Blynyddol

ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU 2025/26

Cefndir

Dyma 21ain adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod Tân) ac mae'n rhychwantu'r cyfnod rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026. Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Safonau gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn a pharatoi adroddiad ar eu gweithgaredd i'w ystyried gan yr Awdurdod Tân.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn cynnwys hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad gan Aelodau'r Awdurdod Tân. Hefyd, pan fo hynny'n bosibl yn statudol, mae'n cael adroddiadau a chwynion am Aelodau ac yn cynnal neu oruchwyllo ymchwiliadau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân.

Aelodaeth

Newidiodd aelodaeth y Pwyllgor Safonau yn ystod 2025/26. Mae aelodaeth y Pwyllgor Safonau fel a ganlyn:

Aelodau Annibynnol

- Gill Murgatroyd 01/09/23 – 31/08/27 (yn gwasanaethu am ail dymor)
- Gareth Pritchard 01/09/23 – 31/08/27 (yn gwasanaethu am ail dymor)

Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub

- Y Cynghorydd Ian Hodge (21/07/2025 tan etholiadau nesaf y cyngor)
- Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (20/06/2022 tan yr etholiadau cyngor nesaf)

Presenoldeb

Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rhithiol ar y dyddiadau canlynol gyda'r aelodau a enwir yn bresennol:

- **27 Mawrth 2025**
- **27 Hydref 2025**

27 Mawrth 2025 – presennol: Julia Hughes (Cadeirydd), Sally Ellis (Dirprwy Gadeirydd), Gareth Pritchard, Gill Murgatroyd, Y Cynghorydd John Brynmor Hughes

27 Hydref 2025 – presennol: Julia Hughes (Cadeirydd), Sally Ellis (Dirprwy Gadeirydd), Gill Murgatroyd, Y Cynghorydd John Brynmor Hughes, y Cynghorydd Ian Hodge

Materion a Drafodwyd

Yn ei gyfarfod ar y 27 Mawrth 2025 –

- Rhannodd y Cadeirydd adborth gan Fforwm Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol.
- Fe wnaeth y Pwyllgor Safonau ystyried a chymeradwyo ei ugeinfed adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Tân
- Fel eitem sefydlog reolaidd, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar "Ein Canfyddiadau" Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn hysbysu'r Aelodau am ganfyddiadau diweddar a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("PSOW"); a
- Adroddwyd am bresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd. Nid oedd gofyniad i ysgrifennu at awdurdodau cyfansoddol gan nad oedd unrhyw Aelodau o'r Awdurdod Tân â phresenoldeb is na 50%;
- Dechreuodd y Pwyllgor Safonau ei adolygiad treigl o BroTOCOL Cyfryngau Cymdeithasol yr Awdurdod Tân trwy ofyn am ragor o wybodaeth.

Cyfarfu'r Pwyllgor eto ar y 27 Hydref 2025 –

- Rhannodd y Cadeirydd adborth gan Fforwm Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol.
- Rhannodd y Cadeirydd adborth a gafwyd yng nghyfarfod Cyswllt Moesegol y Cadeirydd a gynhaliwyd ar 25 Medi 2025.
- Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar ei aelodau a'u telerau penodi a recriwtio aelodau annibynnol newydd.
- Cynhaliodd y Pwyllgor Safonau adolygiad treigl o Weithdrefn Datrys Lleol yr Awdurdod Tân ac argymhellodd newidiadau.
- Parhaodd y Pwyllgor Safonau â'i adolygiad treigl o Weithdrefn Cyfryngau Cymdeithasol yr Awdurdod Tân, a nodwyd bod y darpariaethau presennol yn ddigonol ond awgrymwyd newid yr enw i 'Weithdrefn Cyfryngau Cymdeithasol mewn Cyfarfodydd', gyda dolen ychwanegol i ganllawiau CLILC.
- Fel eitem sefydlog reolaidd, cafodd y Pwyllgor Safonau adroddiad ar "Ein Canfyddiadau" Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn hysbysu'r Aelodau am ganfyddiadau diweddar a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a
- Cafodd y Pwyllgor Safonau adroddiad ar Banel Dyfarnu Cymru ac Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r rhain yn darparu data ystadegol ar nifer y cwynion a gwrandawiadau a oedd yn ymwneud â honiadau o dorri'r cod yn ystod y flwyddyn.
- Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

- Adroddwyd am bresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd. Nid oedd gofyniad i ysgrifennu at awdurdodau cyfansoddol gan nad oedd unrhyw Aelodau o'r Awdurdod Tân â phresenoldeb is na 50%;

Yn ystod ei gyfarfodydd, mae'r Pwyllgor Safonau wedi ystyried adborth gan Gadeiryddion Pwyllgorau Safonau'r Fforwm Cenedlaethol ac adborth gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, ac wedi bod yng nghyfarfod Cyswllt Moesegol y Cadeirydd a gynhaliwyd ar 25 Medi 2025. Mae'r fforymau hyn yn gyfle i rannu arfer da ac adeiladu consensws o amgylch meysydd gwaith cyffredin. Gallai'r safbwyntiau a fynegir ynddynt yn cael eu hystyried pan fydd y Pwyllgor yn ystyried materion fel diwygiadau i'r codau a'r gweithdrefnau.

Hyfforddiant

Nod y pwyllgor yw ymgymryd â hyfforddiant ym mhob un o'i gyfarfodydd ar faterion sy'n berthnasol i'w gylch gorchwyl.

Blaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor wedi gosod blaenraglen waith flynyddol iddo'i hun i sicrhau ei fod yn cyflawni ei gylch gorchwyl ac yn ystyried yr holl eitemau y mae angen iddo eu cwmpasu o fewn blwyddyn. Mae'r eitemau sefydlog rheolaidd yn cynnwys "Ein Canfyddiadau" o wefan yr Ombwdsmon, adborth gan y Fforwm Cenedlaethol a chyfarfodydd y Cadeirydd, presenoldeb aelodau yn ogystal â hyfforddiant ar ei rolau a'i gyfrifoldebau.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gosod rhaglen aml-flwyddyn iddo'i hun i adolygu'r amrywiaeth o godau a phrotocolau sydd o fewn ei gylch gorchwyl. Mae pob un yn cael ei ystyried o leiaf unwaith yn ystod tymor yr Awdurdod Tân. Dechreuodd y rhaglen honno yn dilyn etholiadau 2022, ac mae'n parhau i gael ei hadolygu.

Cwynion yn erbyn Aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub

Ni wnaed unrhyw gwynion am Aelodau'r Awdurdod Tân yn ystod y cyfnod dan sylw. O ganlyniad, ni chafwyd unrhyw atgyfeiriadau o dan y broses ddatrys leol nac at Banel Dyfarnu Cymru na'r Pwyllgor Safonau i gynnal gwrandawriad mewn perthynas ag achos honedig o dorri'r cod.

Dyletswydd Arweinwyr Grŵp i Hyrwyddo Ymddygiad Moesegol

Nid yw'r Awdurdod Tân yn rhannu ei aelodaeth yn ôl grwpiau gwleidyddol. Fodd bynnag, bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor yn cwrdd â Chadeiryddion yr Awdurdod Tân a'r Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod y Pwyllgor yn ychwanegu gwerth.

Goblygiadau Ariannol

Caiff y gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Safonau ei rheoli o dan un pennawd cyllideb ar gyfer holl gostau'r Awdurdod Tân. Mae gan aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau hawl i hawlio costau yn ôl ar gyfer mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau. Am fynd i gyfarfodydd yn y flwyddyn ariannol hon, hawliwyd cyfanswm o £1271.

Casgliad

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymhell y dylai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru nodi ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2025/26.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau Statudol

Canllawiau Statudol i Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol mewn perthynas â safonau ymddygiad (LIC23-25)

Mehefin 2023

Canllawiau Statudol i Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol mewn perthynas â safonau ymddygiad

Y cyd-destun polisi

1. Sefydlodd Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") fframwaith statudol i hybu a chynnal safonau ymddygiad moesegol uchel gan aelodau a gweithwyr awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Mae 'awdurdod perthnasol' at y diben hwn yn cynnwys Awdurdod Tân ac Achub ac Awdurdod Parc Cenedlaethol.
2. Mae'r fframwaith yn cynnwys y deg egwyddor gyffredinol o ymddygiad ar gyfer aelodau (sy'n deillio o 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' yr Arglwydd Nolan), a nodir isod:
 - Anhunanoldeb;
 - Gonestrwydd;
 - Uniondeb a phriodoldeb;
 - Dyletswydd i gynnal y gyfraith;
 - Stiwardiaeth;
 - Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau;
 - Cydraddoldeb a pharch;
 - Bod yn agored;
 - Atebolrwydd;
 - Arweinyddiaeth.
3. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y Cod Ymddygiad Enghreifftiol statudol ("y Cod Enghreifftiol") (fel sy'n ofynnol o dan adran 50 o Ddeddf 2000), sy'n gosod cyfres o safonau gofynnol y gellir eu gorfodi ar gyfer y ffordd y dylai aelodau ymddwyn, yn rhinwedd eu swydd ac (mewn rhai achosion) mewn rhinwedd bersonol hefyd. Oherwydd y gall y Cod Enghreifftiol gael ei ddiweddararu o bryd i'w gilydd, rhaid i'r aelodau ymglyfarwyddo ag unrhyw newidiadau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â hwy.

Canllawiau Statudol ar Swyddogaethau Pwyllgorau Safonau

Statws y canllawiau hyn

4. Dyroddir y canllawiau hyn o dan adran 54(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Deddf 2000) fel y'i diwygiwyd gan adran 63(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("Deddf 2013").
5. Daeth y ddyletswydd ar awdurdodau perthnasol i roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru i rym ar 1 Mai 2015.

Diben y canllawiau hyn

6. Mae pwyllgorau safonau lleol yn chwarae rhan bwysig i helpu aelodau, yn unigol ac ar y cyd, i ddatblygu a chynnal diwylliant sy'n arddel safonau ymddygiad uchel .
7. Yn unol ag adran 53 o Ddeddf 2000, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub ac awdurdod Parc Cenedlaethol sefydlu pwyllgor safonau.
8. Swyddogaethau cyffredinol pwyllgor safonau o dan adran 54(1) o Ddeddf 2000 yw hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig o awdurdod perthnasol a'u cynorthwyo i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr awdurdod ("Cod yr Awdurdod").
9. At hynny, mae gan bwyllgor safonau swyddogaethau penodol hefyd o dan adran 54(2) o Ddeddf 2000, sef:
 - cynghori'r awdurdod ar fabwysiadu neu ddiwygio cod ymddygiad;
 - monitro gweithrediad Cod yr Awdurdod;
 - darparu cyngor a hyfforddiant, neu drefnu hyfforddiant, ar faterion sy'n ymwneud â Chod yr Awdurdod.
10. Agwedd bwysig ar drefniadau llywodraethu yw'r dull gweithredu o ran rhoddion a lletygarwch. Er bod cefnogaeth gan rai i ddefnyddio un dull i Gymru gyfan, rydym o'r farn mai mater i awdurdodau unigol ymdrin ag ef yw hwn. Byddem yn disgwyl i bwyllgorau safonau adolygu'n rheolaidd y dull a ddefnyddir mewn perthynas â rhoddion a lletygarwch a'r defnydd o drothwyon. Byddem yn argymhell y dylid cynnwys y mater hwn yn adroddiadau blynyddol pwyllgorau safonau. Yn ogystal, ystyrir ei fod yn fater a fyddai'n cael ei drafod fel rhan o'r drefn arferol mewn cyfarfodydd rheolaidd o Awdurdodau Tân ac Achub neu awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled Cymru.

Dyletswydd pwyllgor safonau i wneud adroddiad blynyddol

Statws y canllawiau hyn

11. Dyroddir y canllawiau hyn o dan adran 4(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") fel y'i diwygiwyd gan adran 68(3c) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("Deddf 2013").

Diben

12. Mae adran 63(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn mewnosod adran 56B yn Neddf 2000 sy'n gosod gofyniad ar bwyllgorau safonau ym mhob awdurdod perthnasol i wneud adroddiad blynyddol i'r awdurdod dan sylw.

13. Fel gofynion sylfaenol, rhaid i'r adroddiad wneud yr hyn a ganlyn:

- disgrifio sut y mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol;
- cadarnhau bod protocol lleol ar waith ar gyfer datrys cwynion am safonau ymddygiad aelodau, a darparu asesiad o'i effaith. Os na fabwysiadwyd protocol lleol, rhaid i'r pwyllgor safonau ystyried a fyddai mabwysiadu protocol o'r fath yn cynorthwyo ei swyddogaethau mewn perthynas â hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad moesegol;
- cynnwys dadansoddiad o gwynion am safonau ymddygiad aelodau. Rhaid i'r dadansoddiad hwn gynnwys gwybodaeth am nifer yr aelodau sydd wedi bod yn destun cwyn a gadarnhawyd, ac a oeddent wedi mynychu sesiwn hyfforddi ar God yr Awdurdod ai peidio, cyn neu ar ôl i'r gŵyn ddod i law;
- cynnwys crynodeb o'r adroddiadau a'r argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag ymchwilio i achosion honedig o dorri Cod yr Awdurdod, ac unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y pwyllgor;
- cynnwys crynodeb o'r hysbysiadau a roddwyd i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru, sy'n ymwneud â phenderfyniadau'r Panel ar achosion posibl o dorri Cod yr Awdurdod;
- disgrifio'r cyngor y mae wedi'i ddarparu ar hyfforddiant i bob aelod a sut y gweithredwyd hynny.

14. Efallai y bydd y pwyllgor yn dymuno adrodd ar nifer yr achosion a ystyrir o dan brosesau datrys yn lleol hefyd. Byddai hyn yn helpu i gasglu data ar sail "Cymru gyfan", ynghylch materion nad ydynt yn cyrraedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

15. Mae'r ffyrdd yr eir ati i reoli a monitro rhoddion a lletygarwch yn faterion sensitif yn aml. Argymhellir bod y dull o ymdrin â hyn yn cael ei adolygu a'i gytuno o fewn awdurdodau unigol a bod yr adolygiad rheolaidd o'r trothwyon ar gyfer datgan rhoddion, lletygarwch, budd materol neu fantais, yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol y pwyllgor safonau. Bydd hyn yn cynorthwyo o ran tryloywder y trefniadau.
16. Diben y gofyniad i wneud adroddiad blynyddol yw sicrhau bod aelodau awdurdodau perthnasol yng Nghymru yn adrodd ar safonau ymddygiad, ac yn eu ystyried, mewn modd rheolaidd a chyson. Hybu perchenogaeth yn lleol ac annog aelodau i gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am sicrhau safonau ymddygiad uchel yn eu hawdurdod yw'r bwriad. I'r perwyl hwn, mae adran 56B(6) yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdod perthnasol i ystyried yr adroddiad ac unrhyw argymhellion a wnaed gan ei bwyllgor safonau o fewn tri mis i'w dderbyn. Ceir cofnod cyhoeddus o ystyriaeth yr awdurdod o adroddiad yng nghofnodion cyhoeddedig y cyfarfod.
17. Dylai'r pwyllgor safonau ystyried a oes gwelliannau y gellir eu gwneud i gryfhau safonau ymddygiad aelodau. Gall hyn gynnwys argymhellion am faterion megis mandadu hyfforddiant ynghylch cydraddoldebau a'r cod ymddygiad enghreifftiol.
18. Byddai'n arfer da i bwyllgorau safonau rannu eu Hadroddiadau Blynyddol ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026	
Swyddog Arweiniol	Matt Powell, Dirprwy Glerc	
Swyddog Cyswllt	matthew.powell@flintshire.gov.uk	
Pwnc	Diweddariadau arfaethedig i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ac i'r Weithdrefn Ddatrys Leol	

PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Hysbysu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ("yr Awdurdod") am argymhellion a wnaed i newid y Cod Ymddygiad a'r Weithdrefn Ddatrys Leol a cheisio cymeradwyaeth i wneud diweddariadau i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Rhaid i'r Awdurdod fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ("Cod Ymddygiad") yn unol ag adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000
3. Mae'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd wedi'i seilio ar fodel cenedlaethol rhagnodedig sydd wedi'i gynnwys yng Ngorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd), a rhaid iddo ymgorffori unrhyw ddarpariaethau gorfodol o'r cod enghreifftiol. Cafodd y cod enghreifftiol ei ddiweddarau'n ddiweddar.
4. Hefyd, oddeutu 2013 fe wnaeth pob prif gyngor yng Nghymru fabwysiadu gweithdrefn ddatrys leol, ac fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu un tua'r un pryd. Mae hyn yn darparu proses anffurfiol ar gyfer ymdrin â chwynion lefel isel heb orfod gwneud cwyn ffurfiol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
5. Mae'r protocolau hyn yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Safonau ar sail treigl ym mhob un o dymhorau'r awdurdod.

SYLWADAU GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

6. Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r Pwyllgor Safonau ar y newidiadau arfaethedig i'r Weithdrefn Ddatrys Leol a'r Cod Ymddygiad.

GWYBODAETH

Gweithdrefn Ddatrys Leol

7. Fe wnaeth y Pwyllgor Safonau adolygu Gweithdrefn Ddatrys Leol yr Awdurdod ym mis Hydref 2025, gan argymhell y dylai'r Awdurdod Tân gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r Weithdrefn, fel y nodir yn Atodiad 1.
8. Yn gynharach y flwyddyn honno, roedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi adolygu'r holl weithdrefnau datrys lleol yng Nghymru. Arweiniodd hyn at sefydlu gweithgor a wnaeth nifer o argymhellion, gan gynnwys:
 - i. Y dylai gweithdrefnau datrys lleol nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir (a darparwyd rhestr o argymhellion).
 - ii. Y dylai gweithdrefnau datrys lleol egluro eu bod yn berthnasol i gwynion lefel isel yn unig.
 - iii. Nid oedd cynnwys cam gwrandawriad ("Cam 3") yn cael ei argymhell oherwydd risg y byddai pobl yn teimlo bod y penderfyniad wedi'i wneud ymlaen llaw, ac am nad oes sail statudol glir ar gyfer proses o'r fath.
9. Fe wnaeth y Pwyllgor Safonau ystyried yr argymhellion hyn ac mae eu newidiadau arfaethedig i'r Weithdrefn yn mynd i'r afael ag argymhellion y gweithgor.

Cod Ymddygiad

1. Yn 2021, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Richard Penn (cyn brif weithredwr awdurdod lleol a chyn-gadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol) i adolygu'r fframwaith moesegol a'r mecanweithiau i gefnogi a gorfodi ("Adolygiad Penn").
2. Ymhlith pethau eraill, argymhellodd Adolygiad Penn y dylid cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig cyfreithiol yn y Cod Enghreifftiol, er mwyn iddo fod yn gyson â Deddf Cydraddoldeb 2008. I raddau helaeth, mae'r Awdurdod Tân eisoes wedi mabwysiadu'r newidiadau hyn o'u gwirfodd, yn dilyn argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Safonau yn 2024.
3. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, cafodd y Cod Enghreifftiol cenedlaethol ei ddiweddarau ar 5 Ionawr 2026 gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025, sy'n golygu bod angen i'r Pwyllgor Safonau adolygu'r Cod Ymddygiad ymhellach.

4. Dyma grynodedb o'r newidiadau i'r Cod Enghreifftiol:

- i. Yn hytrach na rhestru nodweddion gwarchodedig fesul un, mae bellach yn cyfeirio at "nodweddion gwarchodedig" â'r un ystyr a roddir gan adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn sicrhau bod y Cod Enghreifftiol yn cynnwys holl nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010 nawr ac yn y dyfodol.
- ii. Mae'r Cod Enghreifftiol hefyd bellach yn cynnwys darpariaeth sy'n dweud ei bod yn rhaid i Aelodau gynnal egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol, tra byddan nhw'n cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Er nad yw'n nodwedd warchodedig, mae Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau yng Nghymru roi sylw dyledus i ddymunoldeb arfer penderfyniadau strategol penodol mewn ffordd sydd wedi'i gynllunio i leihau'r anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

5. Fe wnaeth y Pwyllgor Safonau ystyried y newidiadau a wnaed i'r Cod Enghreifftiol ym mis Ebrill 2026, ac fe argymhellodd fod yr Awdurdod yn ymgorffori'r newidiadau hyn yn ei God Ymddygiad ei hun, fel y nodir yn Atodiad 2.

ARGYMHELLION

- i. **Bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Gweithdrefn Ddatrys Leol a'r Cod Ymddygiad fel y'u nodir yn Atodiadau 1 a 2.**
- ii. **Bod yr Awdurdod yn gofyn i'r Clerc neu'r Dirprwy Glerc drefnu i'r cyfansoddiad gael ei ddiwygio i weithredu'r newidiadau hyn.**

ATODIADAU

6. Atodiad 1 - Gweithdrefn Ddatrys Leol wedi'i diweddaru
7. Atodiad 2 – Cod Ymddygiad wedi'i ddiweddaru

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Ystyrir nad yw'n berthnasol
Cyllideb ar gyfer 2024/25	Ystyrir nad yw'n berthnasol
Cyfreithiol	Rhaid i'r Awdurdod Tân fabwysiadu Cod Ymddygiad i Aelodau ("Cod Ymddygiad") yn unol ag adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a rhaid iddo ymgorffori unrhyw ddarpariaethau gorfodol o'r cod ymddygiad enghreifftiol sy'n berthnasol i'r awdurdod am y tro.
Staffio	Ystyrir nad yw'n berthnasol
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ Y Gymraeg	Mae'r newidiadau a argymhellir i'r Cod Ymddygiad yn mabwysiadu'r nodweddion sy'n cael eu diogelu'n gyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2008.
Risgiau	Nid oes rhai wedi'u nodi

ATODIAD 2 – Gweithdrefn Datrys yn Lleol ddiwygiedig

DIWEDDARU'R WEITHDREFN DATRYS YN LLEOL AR GYFER CWYNION AM YMDDYGIAD

CYFLWYNIAD

Nod y Weithdrefn Datrys yn Leol (LRP) yw ceisio datrys cwynion lefel isel yn gynnar er mwyn osgoi uwchgyfeirio'r sefyllfa'n ddiangen, a allai niweidio perthnasoedd personol o fewn yr Awdurdod. Yn ogystal â hynny, mae'n hyrwyddo ymddygiad da a chydweithrediad rhwng aelodau a rhwng aelodau a swyddogion, a thrwy hynny yn caniatáu i'r Awdurdod gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol ac yn broffesiynol.

Disgwylir i'r Aelodau wneud y canlynol:

- Dangos parch at eich gilydd ac at swyddogion
- Peidio â gwneud sylwadau personol neu ymosodol am ei gilydd nac am swyddogion
- Peidio â chyhuddo ei gilydd neu swyddogion o ddweud celwydd neu o ffugio ffeithiau neu ddogfennau
- Peidio â gwneud honiadau maleisus am ei gilydd nac am swyddogion
- Peidio â chyhoeddi unrhyw beth sarhaus am ei gilydd
- Peidio â chyhoeddi na lledaenu unrhyw wybodaeth ffug am ei gilydd nac am swyddogion
- Parchu amrywiaeth a chydraddoldeb
- Parchu cefndir ac amgylchiadau amrywiol ei gilydd
- Peidio â chyhuddo nac awgrymu mai cymhellion gwleidyddol sydd y tu ôl i weithredoedd swyddogion
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol ac yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau

Ymddygiad mewn cyfarfodydd:

- Ymddwyn gydag urddas mewn cyfarfodydd
- Parchu penderfyniadau'r Cadeirydd ac ufuddhau iddynt, a gall Aelodau ddisgwyl i'r Cadeirydd ddangos eu parchu hwy yn yr un modd
- Seilio eu sylwadau ar y mater dan sylw, a phaidio â gwneud sylwadau personol am eraill
- Caniatáu i eraill siarad heb dorri ar eu traws na heclo
- Peidio â defnyddio iaith anweddus na gwneud sylwadau gwahaniaethol neu sylwadau sy'n rhagfarnu neu rai y gallai unrhyw ran o gymdeithas eu hystyried yn sarhaus
- Eithrio swyddogion o gwmpas sylwadau gwleidyddol

Cyfrinachedd:

- Cadw papurau esempt ac unrhyw ddogfennau eraill nad ydynt yn gyhoeddus yn gyfrinachol.
- Peidio â rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol i'r wasg na'r cyhoedd.
- Dychwelyd papurau cyfrinachol neu eu dinistrio'n ddiogel.
- Peidio â defnyddio gwybodaeth gyfrinachol at unrhyw ddiben y tu hwnt i'r hyn a fwriadwyd.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae'r Weithdrefn yn darparu protocol i ddatrys cwynion lefel isel am aelodau'n torri'r Cod, a hynny'n gyflym ac yn effeithiol ar lefel leol. Felly, bydd y weithdrefn ond yn berthnasol i ddigwyddiadau neu ymddygiad yn y 12 mis cyn i gwyn ysgrifenedig gael ei roi i'r **Clerc/Dirprwy Glerc**.

Mae'r broses yn gyfrinachol, a dim ond y rhai sy'n ymwneud â'r broses, trwy gytundeb, a gaiff weld y wybodaeth sy'n rhan ohoni, ar wahân i ddata ystadegol a ddarperir i'r Pwyllgor Safonau ar gyfer ei Adroddiad Blynnyddol. Ar bob cam, bydd llythyr canlyniad cyfrinachol i gofnodi'r hyn a drafodwyd ac unrhyw gamau y cytunwyd arnynt.

Bydd gan yr achwynydd hawl statudol i gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("PSOW") ar unrhyw adeg. Os bydd yr achwynydd yn arfer yr hawl honno, ni fydd y weithdrefn hon yn cael ei defnyddio, a bydd unrhyw ymdrechion i ddatrys cwyn gan ddefnyddio'r weithdrefn hon yn dod i ben. Ni fydd y broses yn ailddechrau oni chaiff y mater ei gyfeirio yn ôl i'w ddatrys yn lleol.

Pa fath o gwynion sydd o fewn cylch gorchwyl y Weithdrefn?

Dyma broses i Aelodau a Swyddogion ei defnyddio i ddatrys cwynion lefel isel am aelod o'r Awdurdod, pan fo'r ddau barti yn cytuno i ddefnyddio'r broses.

Bydd ystyr "lefel isel" yn dibynnu ar amgylchiadau pob cwyn unigol. Mae'r Ombwdsmon wedi nodi "fel arfer, bydd cwynion y gellir ymdrin â nhw drwy benderfyniad lleol yn ymwneud â methiannau honedig i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill fel sy'n ofynnol gan baragraff 4(b) o'r Cod, neu'r ddyletswydd i beidio â chyflwyno cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill o dan baragraff 6(1)(d) o'r Cod".

Bydd y Clerc/Dirprwy Glerc yn cynghori ar addasrwydd y broses hon yn seiliedig ar ffeithiau/amgylchiadau pob achos.

Pa fath o gwynion sydd ddim o fewn cylch gorchwyl y Weithdrefn?

Nid yw'r weithdrefn ar gael i'r cyhoedd ac nid yw'n berthnasol i gwynion gan aelodau sy'n ymwneud â gweithwyr. Nid yw'r weithdrefn yn addas ar gyfer

honiadau o'r hyn y gellid ei ystyried yn doriadau difrifol, a allai gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):

- i. honiad bod yr aelod yn fwriadol yn ceisio budd personol i'w hunain neu i berson arall ar draul y cyhoedd
- ii. bod amgylchiadau'r toriad honedig yn awgrymu bod aelod wedi camddefnyddio swydd o ymddiriedaeth neu awdurdod ac wedi achosi niwed i berson
- iii. bod y toriad honedig wedi'i ysgogi gan unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, anabledd, oedran, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd y dioddefwr

b) honiad bod y cod ymddygiad wedi'i dorri dro ar ôl tro

Mae gan yr achwynydd hawl statudol i gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("PSOW") ar unrhyw adeg. Os bydd yr achwynydd yn arfer yr hawl honno, ni fydd y weithdrefn hon yn cael ei defnyddio, a bydd unrhyw ymdrechion i ddatrys cwyn gan ddefnyddio'r weithdrefn hon yn dod i ben. Ni fydd y broses yn ailddechrau oni chaiff y mater ei gyfeirio yn ôl i'w ddatrys yn lleol.

CAM 1 Y WEITHDREFN

Dylai unrhyw aelod neu swyddog sy'n dymuno cyflwyno honiad o dan y weithdrefn hon anfon y gŵyn at y **Clerc/Dirprwy Glerc**. Dylai swyddogion sy'n dymuno gwneud cwyn ymgynghori â'u Rheolwr Llinell yn gyntaf.

Yn y lle cyntaf, bydd yr honiad yn cael ei gyfeirio naill ai at y **Clerc/Dirprwy Glerc**, a byddant yn dweud a yw'r honiad yn dod o fewn cwrdd y weithdrefn hon ynteu a ddylid ei gyfeirio at yr Ombwdsmon fel honiad o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau.

Os bydd y Clerc/Dirprwy Glerc yn cynghori bod y gŵyn yn cynnwys honiad am doriad difrifol o'r cod i'r graddau y byddai'n briodol ei atgyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yr achwynydd ddylai gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon yn hytrach na'r Clerc/Dirprwy Glerc.

Ar ôl clywed y gŵyn, bydd y Clerc/Dirprwy Glerc yn cwrdd â'r ddau barti ar wahân i glywed eu safbwyntiau, i gadarnhau bod y ddau barti yn cytuno i ddefnyddio'r broses, ac i benderfynu a yw'r Broses Datrys yn Lleol yn addas i'r gŵyn.

Os nad yw'r weithdrefn yn addas i'r gŵyn dan sylw, bydd y Clerc/Dirprwy Glerc yn rhoi cyngor ynglŷn â'r hyn y gellir ei wneud (os gellir gwneud unrhyw beth).

Os yw'r weithdrefn yn addas, yna bydd y Clerc/Dirprwy Glerc yn rhoi cyngor ynghylch sut ellid datrys y gŵyn (gallai hyn gynnwys cyfarfod anffurfiol rhwng y partion, ymrwymiad i fynychu hyfforddiant neu ymddiheuriad).

Os, yn dilyn y cam cyntaf, bydd yr achwynydd yn dymuno bwrw ymlaen â'r honiad o dan y weithdrefn hon, gellir cyfeirio'r mater at gyfarfod cymodi o dan Gam 2.

CAM 2 Y WEITHDREFN

Os, yn dilyn y cam cyntaf, bydd yr achwynydd yn dymuno bwrw ymlaen â'r honiad o dan y weithdrefn hon, gellir cyfeirio'r mater at gyfarfod cymodi o dan Gam 2.

Yng Ngham 2, bydd cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng:

- yr achwynydd
- yr aelod sy'n destun i'r gŵyn
- y Prif Swyddog Tân;
- y **Clerc/Dirprwy Glerc**.

Mewn rhai achosion eithriadol, gallai'r mater gael ei drin yn absenoldeb yr achwynydd. Pwrpas y cyfarfod hwn fydd ceisio datrys y mater trwy gymodi.

CAM 3 Y WEITHDREFN

10.

11.

~~Y trydydd Cam yw gwrandawriad gerbron y Pwyllgor Safonau. Gofynnir i'r achwynydd gyflwyno sylwedd y gŵyn yn ysgrifenedig a gofynnir i'r aelod dan sylw am ymateb ysgrifenedig. Bydd y papurau hyn, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a gyflwynir gan y naill ochr neu'r llall yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Safonau Mae gan yr achwynydd a'r aelod yr hawl i ymddangos gerbron y Pwyllgor Safonau ac i gyflwyno dystiolaeth gan dystion. Bydd gan y ddau hawl i gynrychiolaeth neu i gael Rhan 5 – Codau a Gweithdrefnau cydweithiwr yn bresennol. Ni fydd yr Awdurdod yn talu costau cynrychiolaeth.~~

12.

13.

14.

~~Os nad yw'r naill ochr neu'r llall yn dymuno bod yn bresennol neu'n methu â bod yno, gellir cynnal y gwrandawriad yn eu absenoldeb. Ar ôl i'r dystiolaeth gael ei chlywed, gofynnir i'r ddwy ochr a'u cynrychiolwyr adael y siambr a bydd y Pwyllgor~~

~~Safonau yn dod i gasgliad ar yr honiad. Bydd y Swyddog Monitro ar gael i gynghori'r Pwyllgor.~~

~~Gall y Pwyllgor ddod i un o dri chasgliad, sef:~~

~~a) Nid oes sail i'r gŵyn.~~

~~b) Bod sail i'r gŵyn ond nad oes angen gweithredu pellach.~~

~~c) Bod sail i'r gŵyn ac y dylid ceryddu'r aelod.~~

~~Yn ogystal, gall y Pwyllgor wneud argymhellion i'r~~

~~Awdurdod ynglŷn â newid unrhyw weithdrefnau neu gymryd unrhyw gamau pellach.~~

MATERION ATODOL

~~Bydd y papurau ar gyfer y gwrandawriad wedi'u heithrio ac argymhellir bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r gwrandawriad.~~

~~Ni fydd cyhoedduswydd yn cael ei roi i enwau'r aelod na'r achwynydd, oni fydd penderfyniad i GYNNAL y gŵyn a cheryddu'r aelod.~~

~~Nid oes rhaid i gamau 2 a 3 ddigwydd yn y drefn honno. Er y gallai achwynydd sy'n parhau i fod yn anfodlon ar ôl y cyfarfod cymodi ofyn i'r mater gael ei gyfeirio at wrandawriad gerbron y Pwyllgor Safonau, mae hefyd yn bosibl i fater gael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Safonau yn uniongyrchol heb fynd i gyfarfod cymodi yn gyntaf.~~

~~Nod y weithdrefn hon yw ceisio datrys cwynion am aelodau yn gyflym ac yn effeithiol. Nid oes unrhyw beth yn y weithdrefn hon i etal~~

~~achwynydd rhag cyflwyno cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau~~

~~Cyhoeddus Cymru os bydd aelod wedi torri~~

~~Cod Ymddygiad yr Aelodau.~~

COD YMDDYGIAD YR AELODAU DIWYGIEDIG

RHAN 1 DEHONGLIAD

1.—(1) Yn y cod hwn —

ystyr "aelod cyfetholedig" mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond —

(a) sy'n aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor i'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno, ac sydd â'r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-bwyllgor hwnnw;

ystyr "cyfarfod" yw unrhyw gyfarfod —

(a) o'r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd yr awdurdod perthnasol,

(c) o unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor o'r fath i unrhyw weithrediaeth neu fwrdd yr awdurdod, neu

(d) y mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol ynddo ac eithrio cyfarfod grŵp gwleidyddol a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990,

ac mae'n cynnwys amgylchiadau lle mae aelod o weithrediaeth neu fwrdd neu swyddog sy'n gweithredu ar ei ben ei hun yn arfer swyddogaeth awdurdod;

mae "aelod" yn cynnwys, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, aelod cyfetholedig;

mae i "nodweddion gwarchodedig" ("protected features") yr ystyr a roddir gan adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010;

ystyr "cymdeithas gofrestredig" yw cymdeithas, ac eithrio cymdeithas sydd wedi'i chofrestru fel undeb credyd, sy'n —

(a) gymdeithas gofrestredig o fewn yr ystyr a roddir yn adran 1(1) o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014; neu

(b) yn gymdeithas sydd wedi'i chofrestru neu y bernir ei bod wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (Gogledd Iwerddon) 1969;

ystyr "cofrestr o fuddiannau'r aelodau" yw'r gofrestr a sefydlir ac a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "awdurdod perthnasol" yw—

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(d) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,

(e) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;

ystyr "chi" yw chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol; ac

ystyr "eich awdurdod" yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono.

(2) mewn perthynas â chyngor cymuned—

(a) ystyr "swyddog priodol" yw swyddog o'r cyngor hwnnw o fewn ystyr adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; ac

(b) ystyr "pwyllgor safonau" yw pwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r fwrdeistref sirol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

RHAN 2

DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

2.—(1) Ac eithrio pan fo paragraff 3(a) yn gymwys, rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn

- (a) pa bryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eich awdurdod;
- (b) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;
- (c) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel un o gynrychiolwyr eich awdurdod; neu
- (d) ar bob adeg ac mewn unrhyw swyddogaeth, mewn cysylltiad ag ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewn perthynas â Chymru.

3. Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu

- (a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys Bwrdd Iechyd Lleol rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu
- (b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo god sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i'r graddau y mae'n gwrthdaro â'r cyfryw rwymedigaethau.

4. Rhaid i chi

- (a) cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u [nodweddion gwarchodedig neu amgylchiadau economaidd-gymdeithasol eu rhyw-hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth neu grefydd](#);
- (b) dangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;
- (c) peidio â bwlio neu aflonyddu ar unrhyw berson; a
- (d) peidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran.

5. Rhaid i chi beidio â —

(a) datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.

6.—(1) Rhaid i chi —

(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) adrodd i swyddog monitro eich awdurdod ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r cod ymddygiad hwn;

(d) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.

(e) adrodd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Swyddog Monitro unrhyw gollfarn droseddol a osodwyd arnoch ers gwneud eich datganiad derbyn swydd (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys troseddau y gellir eu cosbi drwy gosb benodedig).

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

7. Rhaid i chi beidio â —

(a) yn eich swyddogaeth swyddogol neu fel arall, defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio —

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn modd a fwriedir i hwyluso, neu i fod yn ffafriol i, gyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

8. Rhaid i chi —

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes eich awdurdod, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan —

(i) pennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod;

(ii) prif swyddog cyllid yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro yr awdurdod;

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r camau gweithredu arfaethedig o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr awdurdod neu le y gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethiant i weithredu gan yr awdurdod gael effaith bwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion ychwanegol rhesymol a nodir gan eich awdurdod.

9. Rhaid i chi —

a) barchu'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod;

- b) osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, fel derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

RHAN 3

BUDDIANNAU

Buddiannau Personol

10.—(1) Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r cod ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r buddiant hwnnw.

(2) Rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef —

(a) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio ar —

(i) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gennych;

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi'ch penodi, unrhyw gwmni yr ydych yn bartner ynddo neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl amdano;

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi gwneud taliad i chi mewn perthynas â'ch ethol neu unrhyw dreuliau a gafwyd gennych wrth gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol sydd â lleoliad busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warantau'r corff hwnnw sy'n fwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu ganfed ran o'r cyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau cyhoeddedig y corff hwnnw;

(v) unrhyw gytundeb ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng eich awdurdod a chithau, neu gwmni yr ydych yn bartner ynddo, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr cyflogedig iddo, neu gorff o'r disgrifiad a nodir yn is-baragraff (iv) uchod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno a'r tenant yn gwmni yr ydych yn bartner ynddo, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr cyflogedig iddo, neu gorff o'r disgrifiad a nodir yn is-baragraff (iv) uchod;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw —

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas gofrestredig, elusen neu gorff a gyfarwyddir at ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn gyhoeddus neu bolisi;

(dd) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(ee) clwb neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod,

rydych chi'n aelod ohono neu mewn safle o reolaeth neu reoli cyffredinol ynddo;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod lle mae gennych chi drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 diwrnod neu fwy;

[Noder: mae is-baragraff (b) wedi ei hepgor.]

(c) pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgwymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw gwmni y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddo, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warantau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (ee) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

i raddau mwy na'r mwyafrif o —

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

Datgelu Buddiannau Personol

11.—(1) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

(2) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud —

(a) cynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) cynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg i chi fod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14(1)(b) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi mewn perthynas â'r busnes hwnnw sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw'n cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(4) Rhaid i chi, mewn cysylltiad â buddiant personol nas datgelwyd eisoes, cyn cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod pan ddatgelir y buddiant yn unol ag is-baragraff 11(1), roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan swyddog monitro eich awdurdod, neu mewn perthynas â chyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond, rhaid cynnwys o leiaf —

- (a) manylion am y buddiant personol;
- (b) manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef;
ac
- (c) eich llofnod.

(5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth, p'un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w disodli gan rhwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod y cyfryw fuddiant personol o natur gwybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), dim ond os bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu yn unol â'r cod hwn ers y dyddiad diwethaf pryd yr etholwyd chi, y penodwyd chi neu yr enwebwyd chi'n aelod o'ch awdurdod y bernir bod buddiant personol wedi ei ddatgelu eisoes.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â'r cod hwn.

Buddiannau sy'n Rhagfarnu

12.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), nid ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os bydd y busnes hwnnw—

(a) yn ymwneud ag —

- (i) awdurdod perthnasol arall yr ydych hefyd yn aelod ohono;
- (ii) awdurdod cyhoeddus neu gorff arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus yr ydych yn dal swydd rheoli neu reoli cyffredinol ynddi;
- (iii) corff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;
- (iv) eich rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai ei bod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol yr ydych yn llywodraethwr ynddi;

(v) eich rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol lle nad ydych wedi cael eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod;

(b) yn ymwneud ag —

(i) swyddogaethau tai eich awdurdod lle rydych yn dal tenantiaeth neu les gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes gennych ôl-ddyledion rhent gyda'ch awdurdod am fwy na dau fis, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn benodol â'ch tenantiaeth neu eich les;

(ii) swyddogaethau eich awdurdod mewn perthynas â phrydau ysgol, treuliau cludiant a theithio, pan ydych yn warcheidwad, yn rhiant, yn nain neu'n daid neu â chyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989) dros blentyn mewn addysg lawn amser, oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw'n ei mynychu;

(iii) swyddogaethau eich awdurdod mewn perthynas â thâl salwch statudol o dan Ran XI o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych yn cael, neu os oes gennych hawl i gael tâl o'r fath gan eich awdurdod;

(iv) swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â lwfans neu daliad a wneir yn unol â darpariaethau Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, neu lwfans neu bensiwn a ddarperir o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(c) yn gysylltiedig â'ch rôl fel cynghorydd cymuned mewn perthynas â grant, benthyciad neu fath arall ar gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i gyrrff cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(3) Nid yw'r eithriadau yn is-baragraff (2)(a) yn gymwys pan mae'r busnes yn ymwneud â phenderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestrriad.

Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

13. Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolwg a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath)—

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; ac

(b) ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad neu'r camau gweithredu, yr oeddech yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) ac yr oeddech yn bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y camau gweithredu hynny.

Cymryd rhan mewn Perthynas â Buddiannau a Ddatgelwyd

14.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (2A), (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd ichi ganiatâd gan bwyllgor safonau eich awdurdod —

(a) ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynna—

(i) pan mae is-baragraff (2) yn gymwys, yn syth ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth ynghylch y busnes ddod i ben ac mewn unrhyw achos cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer ystyriaeth o'r fath ai peidio; neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, pa bryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(b) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;

(d) peidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig (boed hynny drwy lythyr, ffacsibili neu ryw fath arall o gyfathrebu electronig) mewn perthynas â'r busnes hwnnw; a

(e) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu raid i chi roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

(2) Os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, gallwch fynd i gyfarfod ond dim ond at ddiben gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes, ar yr amod bod y cyhoedd hefyd yn bresennol yn y cyfarfod at yr un diben, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.

(2A) Pan fo gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, cewch gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i gyfarfod sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw, ar yr amod y caniateir i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddiben gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.

(2B) Pan fyddwch yn cyflwyno cynrychioliadau ysgrifenedig o dan is-baragraff (2A), rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw weithdrefn y caiff eich awdurdod ei fabwysiadu ar gyfer cyflwyno cynrychioliadau o'r fath.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn eich atal rhag bod yn bresennol a chymryd rhan mewn cyfarfod —

(a) os gofynnir i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor trosolwg neu graffu, gan y cyfryw bwyllgor ac yntau'n arfer ei bwerau statudol; neu

(b) os oes gennych y fantais o fod caniatâd wedi ei roi i chi ar yr amod —

(i) eich bod yn nodi yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar y caniatâd; ac

(ii) cyn neu yn syth ar ôl diwedd y cyfarfod eich bod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod sy'n cynnwys —

(aa) manylion am y buddiant sy'n rhagfarnu;

(bb) manylion y busnes y mae'r buddiant personol yn berthnasol iddo;

(cc) manylion y caniatâd a'r dyddiad y cafodd y caniatâd ei roi; ac

(dd) eich llofnod.

(4) Pan mae gennych fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud cyflwyniad ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod yn dibynnu ar ganiatâd, rhaid i chi roi manylion y caniatâd mewn unrhyw gyflwyniad ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos olaf, rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod o fewn 14 diwrnod o wneud y cyflwyniad.

RHAN 4

COFRESTR BUDDIANNAU'R AELODAU

Cofrestru Buddiannau Personol

15.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl—

(a) i god ymddygiad eich awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y cod enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu

(b) eich ethol neu eich penodiad i swydd (os yw hynny'n

ddiweddarach), gofrestru eich buddiannau personol, lle maent

yn dod o fewn categori

a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw newid i fuddiant personol a gofrestrwyd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r newid hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw newid i fuddiant personol a gofrestrwyd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r newid hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod.

(4) Nid yw is-baragraffau (1), (2) a (3) yn gymwys i wybodaeth sensitif a bennir yn unol â pharagraff 16(1).

(5) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys os ydych yn aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn rhinwedd eich swydd fel aelod o awdurdod o'r fath.

(6) Pan fyddwch yn datgelu buddiant personol yn unol â pharagraff 11 am y tro cyntaf, rhaid i chi gofrestru'r buddiant personol hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod.

Gwybodaeth sensitif

16.—(1) Os byddwch yn ystyried bod yr wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu rai o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif, a bod swyddog monitro eich awdurdod yn cytuno, nid oes angen i chi gynnwys yr wybodaeth honno pan fyddwch yn cofrestru'r buddiant hwnnw, neu, yn ôl y digwydd, newid i'r buddiant o dan baragraff 15.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n golygu nad yw gwybodaeth sydd wedi ei heithrio o dan is-baragraff

(1) mwyach yn wybodaeth sensitif, hysbysu swyddog monitro eich awdurdod, neu mewn perthynas â chyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod gan ofyn i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod.

(3) Yn y cod hwn, ystyr "gwybodaeth sensitif" yw gwybodaeth y mae ei rhoi ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu berson sy'n byw gyda chi fod yn destun trais neu fygythion.

Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch

17. Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eich awdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu mewn perthynas â chyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno.
